Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Rhagfyr 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPPIA**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPPIA**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)
## Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Rhagfyr 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn: www.senedd.cymru/SeneddPPIA

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Lynne Neagle AS**
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Dawn Bowden AS**
Llafur Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Suzy Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Jack Sargeant AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Cyflwyniad** .......... **18**

Ein cylch gorchwyl wrth graffu ar y Bil .......... 18

Y pwyllgorau eraill a fu'n trafod y Bil .......... 19

Y nodau a fynegir yn y Bil .......... 20

Cymhwysedd deddfwriaethol .......... 21

**2. Cefndir a chyd-destun polisi** .......... **27**

Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael .......... 27

Datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru .......... 28

Dull y Bil o ran y cwricwlwm newydd .......... 29

Amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru .......... 29

Ein gwaith craffu blaenorol .......... 29

**3. Egwyddorion cyffredinol y Bil, yr angen am ddeddfwriaeth a dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd** .......... **30**

Yr angen am ddeddfwriaeth ac ailwampio'r cwricwlwm cyfredol yn llwyr 30

Dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd .......... 35

Rhagolygon o ran safonau a'r bwlch cyrhaeddiad .......... 49

**4. Manylion ar wyneb y Bil** .......... **59**

Prif egwyddorion trefniadol y Cwricwlwm newydd i Gymru, sydd wedi'u nodi ar wyneb y Bil. .......... 60

Sylw i rai eitemau yn y cwricwlwm .......... 72

Sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a llesiant cenedlaethau'r dyfodol .......... 95

**5. Ieithoedd: y Gymraeg a'r Saesneg** .......... **101**

Y gofyniad i ddysgu Saesneg i bob oedran .......... 102

Sicrhau un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg .......... 107

Categorïau iaith ysgolion .......... 115

Capasiti cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysg .......... 119

**6. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ... 122**

Statws gorfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd a'r cefndir ehangach ... 123

Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb ... 135

Addysgu sy'n "briodol yn ddatblygiadol" ... 144

Dysgu proffesiynol a chymorth arbenigol i athrawon ... 148

Ymgysylltu a chyfathrebu ... 152

**7. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ... 157**

Trefniadau cyfredol ar gyfer addysg grefyddol ... 157

Darpariaethau yn y Bil ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ... 158

Statws gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm newydd ... 161

Meysydd llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ... 178

Cyfansoddiad a swyddogaeth Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ... 196

Addoli ar y cyd ... 201

Addysg broffesiynol athrawon ... 204

**8. Y blynyddoedd cynnar ... 208**

**9. Ôl-16 ... 219**

**10. Gofynion ac eithriadau penodol i'r cwricwlwm (gan gynnwys addysg heblaw yn yr ysgol), a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau ... 227**

Addysg heblaw yn yr ysgol ... 228

Eithriadau penodol ... 238

Pobl ifanc 14 i 16 oed (Blynyddoedd 10 ac 11) ... 244

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac anableddau ... 251

**11. Cynnydd, asesu a chymwysterau ... 257**

Cynnydd ... 257

Asesu ... 262

Cymwysterau ... 271

**12. Gweithredu ... 280**

Rhwystrau posibl i weithredu'n llwyddiannus .... 282

Effaith COVID-19 ar amserlen weithredu'r Bil hwn .... 301

Monitro ac adolygu'r broses o weithredu'r Bil .... 308

**13. Goblygiadau ariannol .... 316**

Yr opsiynau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol .... 316

Goblygiadau ariannol amcangyfrifedig yr opsiwn a ffefrir .... 318

**Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .... 334**

Ymgynghoriad cyhoeddus .... 334

Gwybodaeth ychwanegol .... 338

Gohebiaeth arall ynglŷn â'r Bil gan y Gweinidog Addysg atom ni .... 339

**Atodiad B: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar .... 340**

# Argymhellion

**Egwyddorion cyffredinol y Bil, yr angen am ddeddfwriaeth a dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd**

**Argymhelliad 1.** Bod y Senedd, gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1 a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1:

- sut y mae wedi sicrhau ei hun fod y Bil wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol;
- pa ddulliau gwirio a gwrthbwyso y bydd yn eu rhoi ar waith i fonitro a chynnal y cydbwysedd cywir, gan gynnwys sicrhau bod cwricwla ysgolion unigol yn briodol; a
- beth arall y gall ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn lleoliadau ym mhob rhan o Gymru yn cael cynnig addysg digon cyson (ond nid o reidrwydd addysg unffurf) ac yn ffynnu o dan y dull a ddilynir yn y cwricwlwm newydd. ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r effaith y mae diwygio'r cwricwlwm yn ei chael ar safonau yn ofalus ac yn dryloyw, er mwyn sicrhau ei bod yn ategu'r ymdrechion ehangach sydd ar y gweill i wella ysgolion. Dylai'r gwaith hwn ddefnyddio cyngor arbenigol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill fel sail. ........ Tudalen 58

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos unrhyw amrywiad yn y cwricwlwm a ddarperir ac unrhyw effaith y mae hynny'n ei chael ar grwpiau penodol o ddisgyblion ac ysgolion, gan fynd ati'n gynnar i ymdrin ag unrhyw arwyddion o waethygu anfantais ac anghydraddoldeb yn anfwriadol. ...... Tudalen 58

**Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i gymryd rhan yn elfen Meddwl Creadigol y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yng nghylchoedd y dyfodol, yng ngoleuni'r cysylltiadau clir rhwng yr elfen hon â dull y cwricwlwm newydd. ........ Tudalen 58

**Manylion ar wyneb y Bil**

**Argymhelliad 6.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi, fel mater o flaenoriaeth, yr egwyddorion a'r rhesymu sydd wedi llywio—ac a fydd yn parhau i lywio—penderfyniadau ynghylch pa agweddau ar addysgu a dysgu sy'n haeddu cael eu cynnwys ar wyneb y Bil fel elfennau gorfodol. ............................................ Tudalen 71

**Argymhelliad 7.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod yr Hyn sy'n Bwysig (neu'r Cod diwygiedig) yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod yr Hyn sy'n Bwysig (neu'r Cod diwygiedig) aros fel y mae. ............................................ Tudalen 71

**Argymhelliad 8.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ac yn amlinellu sut y gellir sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gadarn ar gyfer y dyfodol, o fewn rheswm, i sicrhau nad yw rheoliadau'r dyfodol yn tanseilio egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft trwy wneud y cwricwlwm yn rhy llawn neu'n rhy ragnodol. ............................................ Tudalen 72

**Argymhelliad 9.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys cyfeiriad penodol, ar ei wyneb, at iechyd meddwl a lles a'i le yn y cwricwlwm. ........ Tudalen 78

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pellach y bydd cyfeiriadau penodol at hanes Cymru, hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, amrywiaeth a hunaniaeth yn cael eu gwneud yn y gyfres o Godau a chanllawiau sy'n sail i'r Bil. ............................................ Tudalen 88

**Argymhelliad 11.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pellach ar sut y caiff yr eitemau dysgu amrywiol y mae rhanddeiliaid a deisebwyr wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys fel elfennau gorfodol ar wyneb y Bil eu hatgyfnerthu gan y ddeddfwriaeth hon a'r gyfres o Godau a chanllawiau sy'n sail iddi. ............. Tudalen 92

**Argymhelliad 12.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall sicrhau bod lle hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant, yn ddiogel yn y tymor hir o fewn y Cwricwlwm i Gymru. ............................................ Tudalen 94

**Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys, ar ei wyneb, ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ystyried eu priod rolau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, dylid gosod y ddyletswydd hon ar bawb a restrir yn adran 66(3) o'r Bil wrth arfer unrhyw un o'r swyddogaethau a roddir iddynt gan neu o dan y Bil. ............................ Tudalen 100

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod synergedd digonol rhwng y Bil, y cwricwlwm newydd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod hyn yn cael ei atgyfnerthu yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol a wneir o dan y Bil. ........ Tudalen 100

**Ieithoedd: y Gymraeg a'r Saesneg**

**Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i leddfu'r pryderon am yr effaith ar addysg drochi yn y Gymraeg hyd at saith oed (cyn Blwyddyn 3), gan nodi bod y Gweinidog yn bwriadu cyflwyno gwelliant sy'n dileu'r Saesneg fel elfen orfodol ar gyfer y grŵp oedran hwn. ........ Tudalen 107

**Argymhelliad 16.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg i fynd i'r afael â'i bryderon am y Bil, y drefn o ran cyflwyno un continwwm a nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ran strategaeth Cymraeg 2050. Dylai hyn gynnwys ystyried diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod statudol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg o dan y cwricwlwm, neu atgyfnerthu'r canllawiau dros dro ar sut y disgwylir i ysgolion gyflawni un continwwm dysgu a chyfrannu at agenda Cymraeg 2050. ........ Tudalen 114

**Argymhelliad 17.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a phartneriaid perthnasol eraill i sicrhau bod cymwysterau priodol o ran y Gymraeg yn cael eu datblygu a'u bod ar gael i gyd-fynd â'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r elfen orfodol hon. ........ Tudalen 115

**Argymhelliad 18.** Bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflym i adolygu categorïau iaith ysgolion ac ystyried eu gosod ar sylfaen statudol, er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg a dealltwriaeth o'r continwwm mewn gwahanol ysgolion. ........ Tudalen 119

**Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y darperir y gwaith cynllunio, y cyllid a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi'r broses o gyflwyno'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg yn effeithiol o dan y cwricwlwm newydd. ........ Tudalen 121

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

**Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i sicrhau bod y gwaith o fonitro ac arolygu sut mae lleoliadau addysgol yn gweithredu'r Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn nodwedd allweddol o raglen waith yr arolygiaeth yn y dyfodol. ........ Tudalen 143

**Argymhelliad 21.** Bod Llywodraeth Cymru, er mwyn llywio gwaith pwysig ysgolion i baratoi ar gyfer cychwyn y Bil ac er mwyn galluogi Aelodau i gyflwyno ac ystyried gwelliannau, yn sicrhau bod y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb drafft ar gael cyn dechrau Cyfnod 3. .......... Tudalen 144

**Argymhelliad 22.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb (neu'r Cod diwygiedig) yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb (neu'r Cod diwygiedig) aros. .......... Tudalen 144

**Argymhelliad 23.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddarparu, erbyn y bydd y Bil yn barod i'w weithredu, fframwaith sy'n amlinellu'r dysgu proffesiynol craidd, yr adnoddau a'r cymorth arbenigol sy'n debygol o fod eu hangen i addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol o 3-16 oed o dan y cwricwlwm newydd. .......... Tudalen 148

**Argymhelliad 24.** Bod Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, yn lansio ymgyrch chwalu mythau am yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a fydd yn cael ei chyflwyno o ganlyniad i'r Bil hwn. Dylai'r ymgyrch hon:

- herio'r camwybodaeth sydd ar led am addysg cydberthynas a rhywioldeb ar hyn o bryd;
- ceisio rhoi sicrwydd i rieni ynghylch cynnwys a dull cyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol; ac
- esbonio pam ei bod yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc gael addysg cydberthynas a rhywioldeb. .......... Tudalen 156

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

**Argymhelliad 25.** Bod Llywodraeth Cymru, er mwyn llywio gwaith pwysig ysgolion i baratoi ar gyfer cychwyn y Bil a chyflwyno gwelliannau gan Aelodau a'u trafod, yn sicrhau bod canllawiau drafft Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael cyn dechrau Cyfnod 3.......... Tudalen 177

**Argymhelliad 26.** Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ac yn egluro ymhellach yn ystod y ddadl Cyfnod 1 a fyddai'n bosibl diwygio Atodlen 1 i'r Bil fel bod cysondeb rhwng sut mae'r gwahanol gategorïau o ysgolion yn ystyried y maes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu'r elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng nghwricwlwm yr ysgol. .......... Tudalen 193

**Argymhelliad 27.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro, yn ystod y ddadl Cyfnod 1, pam nad yw'r Bil yn cynnwys hawl i ddysgwyr sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd digonol ddewis y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gânt lle mae modd dewis. ....Tudalen 195

**Argymhelliad 28.** Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach, mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd Plant Cymru, y dewisiadau sydd ar gael i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wireddu hawliau plant ymhellach mewn perthynas â darpariaeth y Bil ar gyfer elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan roi diweddariad ar hyn yn ystod y ddadl Cyfnod 1. ....Tudalen 195

**Argymhelliad 29.** Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dewisiadau i ddiwygio'r Bil i gyfeirio at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yng "Nghymru" yn hytrach nag ym "Mhrydain Fawr", o gofio bod hwn yn gwricwlwm pwrpasol i Gymru. ....Tudalen 196

**Argymhelliad 30.** Bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynllun i newid teitl Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i adlewyrchu'r elfen orfodol newydd o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm, ond y dylid ystyried mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch yr angen i fod yn glir am Bwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog a'r hyn y maent yn bodoli i gynghori yn ei gylch. ....Tudalen 200

**Argymhelliad 31.** Bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynllun i'r Bil osod gofyniad ar awdurdodau lleol i gynnwys yn eu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig grŵp o bobl i gynrychioli'r cyfryw argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol y dylid eu cynrychioli ym marn yr awdurdod, ond y dylid ystyried mynd i'r afael â phryderon a godwyd (gan grwpiau crefyddol, grwpiau nad ydynt yn grefyddol a grwpiau cynghori) ynghylch cydbwysedd a thegwch cyfansoddiad Pwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, yn enwedig mewn perthynas â hawliau pleidleisio. ....Tudalen 201

**Argymhelliad 32.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr perthnasol ac arbenigol yn y sector addysg i ddarparu, yn barod ar gyfer gweithredu'r Bil, fframwaith sy'n amlinellu'r dysgu proffesiynol craidd, yr adnoddau a'r cymorth arbenigol sy'n debygol o fod eu hangen i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol o dan y cwricwlwm newydd. ....Tudalen 207

**Y blynyddoedd cynnar**

**Argymhelliad 33.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod cwricwlwm y blynyddoedd cynnar ar gael, er mwyn cynyddu'r amser sydd gan leoliadau i baratoi ar gyfer ei weithredu. Rhaid i randdeiliaid perthnasol chwarae rhan agos yn y gwaith o'i ddatblygu....................Tudalen 217

**Argymhelliad 34.** Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i amcangyfrif goblygiadau cost y Bil ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, a'i bod yn ei ddarparu i'r Senedd i'w chynorthwyo wrth ystyried y Bil. ....................Tudalen 218

**Argymhelliad 35.** Bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflym gyda'i gwaith i ddatblygu canllawiau atodol i gefnogi dilyniant ac asesiad plant cyn 5 oed ac yn ystyried angen—a phwrpas—cael cam cynnydd cynharach na 5 oed ar ei chontinwwm dysgu arfaethedig. ....................Tudalen 218

**Ôl-16**

**Argymhelliad 36.** Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni dull newydd y Cwricwlwm i Gymru, yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod y broses o symud dysgwyr rhwng addysg 3-16 oed ac addysg a hyfforddiant ôl-16 mor effeithiol a di-dor â phosibl. Mae angen ystyried hyn o safbwynt y Bil hwn ac unrhyw ddiwygiad i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn y dyfodol....................Tudalen 225

**Argymhelliad 37.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddisgyblion chweched dosbarth sy'n gwneud cais am y ddarpariaeth honno. ....................Tudalen 226

**Gofynion ac eithriadau penodol i'r cwricwlwm (gan gynnwys addysg heblaw yn yr ysgol), a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau**

**Argymhelliad 38.** Bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod y cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol o ran addysg a chyfleoedd bywyd dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS. ....................Tudalen 236

**Argymhelliad 39.** Bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod gan y cwricwlwm newydd ddull wedi'i deilwra i unigolion o ran y cwricwlwm a ddarperir i ddysgwyr mewn lleoliadau EOTAS (e.e. darpariaeth sy'n rhoi sylw i'w hanghenion dysgu ychwanegol, sy'n ystyried anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, neu sy'n cydnabod ffactorau meddygol). Dylid cyflawni hyn trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS. ....................Tudalen 237

**Argymhelliad 40.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod y cwricwlwm a ddarperir mewn lleoliadau EOTAS yn galluogi disgyblion i ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd, lle bo'n briodol ac yn bosibl, trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS. ........ Tudalen 238

**Argymhelliad 41.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa fecanweithiau sy'n bodoli i rieni a dysgwyr herio'r cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol os ydynt yn credu nad yw'n bodloni'r gofynion o dan y Bil. ........ Tudalen 238

**Argymhelliad 42.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y dylid dehongli "galluedd i ddeall" at ddibenion y Bil. Gallai hyn gynnwys canllawiau ar y ffactorau y dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu eu hystyried wrth benderfynu a oes gan ddisgybl y galluedd i ddeall. ........ Tudalen 244

**Argymhelliad 43.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r rhesymau pam na fydd eithriadau ychwanegol i ofynion y cwricwlwm o dan reoliadau a wneir o dan adran 50 o reidrwydd yn amodol ar fodloni'r gofynion cwricwlwm cyffredinol, yn wahanol i eithriadau y darperir ar eu cyfer gan adrannau eraill o'r Bil. ..... Tudalen 244

**Argymhelliad 44.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn rhoi sicrwydd y bydd fframwaith y cwricwlwm yn sicrhau cynnig digon eang i bobl ifanc 14 i 16 oed, gydag ystod eang o opsiynau cwrs ar gael, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol; ac
- yn monitro'r sefyllfa hon yn agos a pharhau i ystyried yr angen i wneud rheoliadau ar unwaith sy'n nodi gofynion pellach yn ôl yr angen. ........ Tudalen 250

**Argymhelliad 45.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos sut mae'r pŵer a roddir i benaethiaid yn adran 33 yn cael ei ddefnyddio ac yn sicrhau, gan gynnwys drwy'r canllawiau statudol sy'n sail i'r cwricwlwm, na chaiff ei ddefnyddio i wrthod dewisiadau disgyblion yn ddiangen nac i atal dyheadau uchel i bob dysgwr. ........ Tudalen 250

**Argymhelliad 46.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn sicrhau bod yr agwedd strategol tuag at y Cwricwlwm i Gymru a'r gwaith o'i weithredu yn cefnogi buddiannau disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau yn llawn, a'u bod yn gyson â darpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018; ac
- yn monitro'r sefyllfa hon yn agos ac ystyried cryfhau'r cyfeiriadau at ADY ac anableddau mewn canllawiau ar weithredu'r cwricwlwm. ........ Tudalen 256

**Argymhelliad 47.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys, ar ei wyneb, ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). O ystyried eu priod rolau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, dylid gosod y ddyletswydd hon ar bawb a restrir yn adran 66(3) o'r Bil wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Bil. ........ Tudalen 256

**Cynnydd, asesu a chymwysterau**

**Argymhelliad 48.** Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu'r Cod Cynnydd gyda'r bwriad o hyrwyddo'r dyheadau uchaf i bob dysgwr, gan eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn. ........ Tudalen 262

**Argymhelliad 49.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod Cynnydd yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod Cynnydd (neu'r Cod diwygiedig) aros........ Tudalen 262

**Argymhelliad 50.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio adran 58(1) o'r Bil i ddileu "caiff" a rhoi "rhaid" yn ei le. ........ Tudalen 270

**Argymhelliad 51.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod rheoliadau a wneir o dan adran 58 ynghylch trefniadau asesu yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. ........ Tudalen 270

**Argymhelliad 52.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad, yn barod ar gyfer gweithredu'r Bil, ar y gwaith parhaus y tu hwnt i'r Bil i ddiwygio trefniadau atebolrwydd ysgolion ac egluro sut y bydd hynny'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. ........ Tudalen 270

**Argymhelliad 53.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau asesu a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar asesiad athrawon ac adborth i ddysgwyr. Tudalen 271

**Argymhelliad 54.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd y canllawiau sydd i'w cyhoeddi ar asesu yn statudol, ac os nad yw'n statudol, ystyried a oes angen iddo fod. Tudalen 271

**Argymhelliad 55.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i barhau gyda chyflymder â'r gwaith i ddiwygio cymwysterau, gan sicrhau bod y cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed a'r Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd cymaint â phosibl. Tudalen 279

**Argymhelliad 56.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru yn ofalus wrth ddiwygio cymwysterau i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac, wrth gynnal rôl Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol, yn rhoi arweiniad a chyfeiriad clir i sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau ar y trywydd iawn. Tudalen 279

**Gweithredu**

**Argymhelliad 57.** Bod Llywodraeth Cymru, yn sgil ein casgliad bod y rhwystrau posibl a nodwyd fel rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1 yn peri risgiau sylweddol i weithredu'r Bil yn llwyddiannus, yn cymryd y camau isod:

- bwrw ymlaen yn gyflym â'i bwriad i adolygu'r ddogfen 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r ymarfer hwnnw, ac unrhyw gyngor arall gan yr OECD, i lywio proses weithredu'r Bil (gan gynnwys yr amserlenni perthnasol);
- nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i fodloni ei hun a rhanddeiliaid y gall pob lleoliad weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf. Tudalen 299

**Argymhelliad 58.** Bod Llywodraeth Cymru, gan ystyried effaith COVID-19, yn rhoi sicrwydd cyn diwedd hynt y Bil drwy'r Senedd y bydd yn gwneud y canlynol:

- asesu i ba raddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol;
- ymrwymo i ddarparu'r cymorth ychwanegol sylweddol y credwn y bydd ei angen i wneud iawn am effaith y pandemig ar ddysgu a datblygu proffesiynol; a
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae gwaith cymheiriaid a gwaith clwstwr yn cefnogi dysgu a datblygu proffesiynol, ac yn ôl pa amserlenni. .................... Tudalen 300

**Argymhelliad 59.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd am sut y mae cynlluniau ar gyfer ymgysylltu, cyd-awduro, cydweithredu a chyfathrebu sy'n ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm newydd wedi cael eu haddasu—a sut y byddant yn parhau i gael eu haddasu—i ystyried effaith COVID-19............Tudalen 300

**Argymhelliad 60.** Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i sicrhau, fel rhan o'r gwaith o baratoi at y ddeddfwriaeth hon a'i chyflwyno, y ceisir arbenigedd allanol i lywio cwricwla ac adnoddau addysgol ysgolion. Dylid datblygu'r deunyddiau a'r adnoddau hyn yn genedlaethol yn y ddwy iaith ond dylent fod yn addas i'w haddasu'n lleol, yn unol â'r egwyddor sybsidiaredd sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru....................Tudalen 301

**Argymhelliad 61.** Bod Llywodraeth Cymru, cyn dechrau Cyfnod 3, yn cynnal asesiad o ddichonoldeb yr amserlenni a gynlluniwyd ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, rydym yn pwysleisio nad ydym yn credu y dylai amserlen y Bil newid nac yn dod i'r casgliad bod angen oedi i'r amserlenni gweithredu, ond bod ystyried yr hyn sy'n ymarferol yn ddoeth yn sgil effaith pandemig COVID-19. ....................Tudalen 308

**Argymhelliad 62.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r ffordd y gweithredir y Bil a'i ddarpariaethau. ....................Tudalen 315

### Goblygiadau ariannol

**Argymhelliad 63.** Y dylai Llywodraeth Cymru, cyn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2, a chyda golwg ar amcangyfrif costau mwy cynrychioliadol a chywir, wneud rhagor o waith ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai hwn fanteisio ar wybodaeth gan ysgolion na chawsant eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd i'r un graddau ag Ysgolion Braenaru. ........ Tudalen 325

**Argymhelliad 64.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddaru â'r wybodaeth ar gostau a ddarperir gan randdeiliaid allweddol a gafodd eu hatal rhag gwneud eu gwaith oherwydd pandemig COVID-19, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y Memorandwm Esboniadol a gaiff ei gyhoeddi ar ôl Cyfnod 2........ Tudalen 329

**Argymhelliad 65.** Y dylai Llywodraeth Cymru nodi yn eglur y bydd yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus yn cael eu darparu, i leddfu'r pryderon y bydd cyfyngiadau presennol ar gyllid ysgolion, newidiadau eraill i'w gweithredu fel trawsnewid ADY, ac effaith COVID-19 yn golygu na fydd ysgolion yn gallu ariannu'r diwygiad uchelgeisiol hwn. ........ Tudalen 329

**Argymhelliad 66.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r pryderon a godwyd yn ein gwaith craffu Cyfnod 1 ar raddfa'r dysgu proffesiynol sydd ei angen i weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus;
- darparu costau amcangyfrifedig diwygiedig yng ngoleuni'r diweddariad hwnnw; ac
- ymrwymo i ddarparu'r cyllid sydd ei angen i ddarparu'r lefel hon o ddysgu proffesiynol. ........ Tudalen 333

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 6 Gorffennaf 2020, cyflwynodd Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg (y Gweinidog), y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ("y Bil") a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.[1] Ar 8 Gorffennaf 2020, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn lle esboniodd:

> "Mae'r Bil hwn yn darparu fframwaith deddfwriaethol newydd i gefnogi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, ac mae'n ein helpu i gyflawni'r uchelgeisiau hynny ar gyfer pob dysgwr unigol, pob athro unigol a phob lleoliad addysg unigol."[2]

**2.** Yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020, cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd i gyfeirio'r Bil atom ni, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylem gyflwyno adroddiad erbyn 4 Rhagfyr 2020.[3]

**3.** Darparwyd Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau ar 30 Gorffennaf 2020.

## Ein cylch gorchwyl wrth graffu ar y Bil

**4.** Cytunwyd ar y fframwaith a ganlyn i graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

I ystyried:

- egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil;
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- unrhyw oblygiadau posibl yn sgil gweithredu darpariaethau'r Bil tra bo sectorau perthnasol yn ymdrin â chanlyniadau'r pandemig COVID-19;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol); a

[1] Gosodwyd Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar 1 Medi 2020.

[2] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 349], 8 Gorffennaf 2020

[3] Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Gorffennaf 2020.

- phriodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

**5.** Gwnaethom gynnal a ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16 Gorffennaf a 29 Medi 2020 i lywio ein gwaith craffu, a chawsom 230 o ymatebion ar-lein (gweler y rhestr yn Atodiad A).[4] Gwnaethom gynnal cyfanswm o 12 sesiwn dystiolaeth lafar ym mis Gorffennaf, mis Medi a mis Hydref 2020 (gweler y rhestr yn Atodiad B).

**6.** Yn ogystal â chasglu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, roeddem yn awyddus i ymgysylltu'n ehangach â phobl, yn enwedig plant a phobl ifanc. Roeddem hefyd yn awyddus i glywed gan rieni a gofalwyr, darpar gyflogwyr yn y dyfodol a'r sector addysg uwch, addysg bellach a dysgu oedolion. Yn sgil y pandemig COVID-19, roedd yn rhaid gwneud y gwaith hwn o bell, ar ffurf grwpiau trafod rhithwir ac arolwg arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc[5].

**7.** Gan fod lefel uchel o ddiddordeb mewn rhoi tystiolaeth ar y Bil, gyda phobl yn awyddus i fynegi barn ar amrywiaeth eang o faterion, gwnaethom hefyd gasglu tystiolaeth fideo gan ystod o randdeiliaid. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i ategu'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, y themâu a ddaeth i'r amlwg yn y grwpiau trafod, a'r dystiolaeth gan blant a phobl ifanc.

**8.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i bobl am roi o'u hamser, yng nghanol argyfwng iechyd cyhoeddus na welwyd ei debyg o'r blaen, i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni.

## Y pwyllgorau eraill a fu'n trafod y Bil

**9.** Yn unol â Rheol Sefydlog 19, clywodd Pwyllgor Cyllid y Senedd dystiolaeth gan y Gweinidog ar oblygiadau ariannol y Bil ar 21 Medi 2020.

**10.** Yn unol â Rheol Sefydlog 21, clywodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan y Gweinidog ar y Bil ar 5 Hydref 2020. Canolbwyntiodd ei waith ar yr elfennau a ganlyn:

---

[4] Gwnaethom gomisiynu cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill i lunio dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad. Cyhoeddwyd y dadansoddiad ym mis Hydref 2020.

[5] Gwnaethom gomisiynu cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill i lunio dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad. Cyhoeddwyd y dadansoddiad ym mis Hydref 2020

- materion yn ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys pa mor gydnaws yw'r Bil â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir i is-ddeddfwriaeth;
- a ddewiswyd gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall sy'n berthnasol i ansawdd deddfwriaeth ym marn y Pwyllgor.

**11.** Cyhoeddwyd adroddiadau'r ddau bwyllgor ar 4 Rhagfyr 2020.

## Y nodau a fynegir yn y Bil

**12.** Y nod a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yw darparu:

> "…ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd diwygiedig i helpu i roi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar waith yn rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru."[6]

**13.** Mae Llywodraeth Cymru yn crynhoi darpariaethau'r Bil fel a ganlyn:

> "…bwriedir i'r Bil hwyluso'r canlynol:
>
> - Cynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm i blant 3-16 oed mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion feithrin a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a darparu cwricwlwm mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac mewn lleoliadau eraill a sicrhawyd gan awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol.
> - Darpariaeth gyfyngedig ar gyfer addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir.
> - Y gofynion cyffredinol y mae rhaid i gwricwlwm eu bodloni, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol), meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1.

gorfodol (Cymraeg, Saesneg, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb).

- Cyhoeddi Cod yr Hyn sy'n Bwysig gan Weinidogion Cymru yn nodi'r cysyniadau allweddol ym mhob maes dysgu a phrofiad ac yn disgrifio ehangder y dysgu y mae rhaid ei gwmpasu.
- Cyhoeddi cod statudol gan Weinidogion Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer cynnydd yn y cwricwlwm newydd.
- Cyhoeddi cod gan Weinidogion Cymru yn nodi'r dysgu craidd ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Rhoi trefniadau asesu ar waith i gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd.
- Sefydlu continwwm dysgu 3-16 a thrwy gael gwared ar y termau cyfnodau allweddol 2, 3 a 4, a'r cyfnod sylfaen mewn deddfwriaeth.
- Datgymhwyso Saesneg hyd at 7 oed i helpu i gefnogi a chynnal rhugldder yn y Gymraeg.
- Eithriadau i ddisgyblion penodol (mewn amgylchiadau penodedig).
- Pwerau i Weinidogion Cymru i roi canllawiau i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch eu swyddogaethau."[7]

## Cymhwysedd deddfwriaethol

**14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> "Mae gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017."[8]

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.2

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.1.

**15.** Cyhoeddodd y Senedd ddatganiad ar 6 Gorffennaf 2020, gan nodi y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ei barn hi.[9]

## Hawliau dynol

**16.** Er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae adran 108A(2)(e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod holl ddarpariaethau Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

### Hawliau perthnasol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

**17.** Nodir yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb Integredig[10] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru y bydd y Bil yn cyfrannu at yr hawliau a ganlyn:

- Erthygl 2 Protocol 1 – sy'n darparu ar gyfer yr hawl i addysg;
- Erthygl 9 – sy'n darparu ar gyfer yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd; ac
- Erthygl 14 – sy'n darparu ar gyfer gwahardd gwahaniaethu.

**18.** Mae Erthygl 2 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu:

> "No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and teaching, the State shall respect the rights of parents to ensure such education and teaching in conformity with their own religious and philosophical convictions."

**19.** Wrth gadarnhau'r Protocol Cyntaf, nododd y DU gyfyngiad mewn perthynas ag ail frawddeg Erthygl 2:

> "… in view of certain provisions of the Education Acts in force in the United Kingdom, the principle affirmed in the second sentence of Article 2 is accepted by the United Kingdom only so far as it is compatible with the provision of efficient instruction and training and the avoidance of unreasonable public expenditure."

---

[9] Datganiad gan y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 6 Gorffennaf 2020.

[10] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig, paragraff 2.4, Gorffennaf 2020, ac Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru Cwricwlwm i Gymru – Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm llawn, tudalennau 36-39, Ionawr 2020 (v3)

**20.** Nodwyd y cyfyngiad i adlewyrchu'r egwyddor a welwyd yn wreiddiol yn Neddf Addysg 1944 ac sydd bellach i'w gweld yn adran 9 o Ddeddf Addysg 1996:

> "that pupils are to be educated in accordance with the wishes of their parents so far as that is compatible with the provision of efficient instruction and training and the avoidance of unreasonable public expenditure."

**21.** Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi dehongli[11] bod brawddeg gyntaf Erthygl 2 Protocol 1 yn cynnwys hawl i gael mynediad at sefydliadau addysgol sy'n bodoli ar adeg benodol. Nid yw'n gorfodi gwladwriaethau i sicrhau bod addysg o fath neu safon benodol ar gael.

**22.** Dehonglwyd bod ail frawddeg Erthygl 2 Protocol 1[12] yn gosod rhwymedigaeth gadarnhaol ar y wladwriaeth i barchu daliadau crefyddol ac athronyddol rhieni. Mae hyn yn cynnwys gwahardd gwthio syniadau, a gofyniad bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol (y cyfeirir ato weithiau fel y "gofyniad plwraliaeth").

**23.** Mae erthygl 9 yn darparu:

> "1. Everyone has the right to freedom of thought, conscience and religion; this right includes freedom to change his religion or belief and freedom, either alone or in community with others and in public or private, to manifest his religion or belief, in worship, teaching, practice and observance.
>
> 2. Freedom to manifest one's religion or beliefs shall be subject only to such limitations as are prescribed by law and are necessary in a democratic society in the interests of public safety, for the protection of public order, health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others."

**24.** Er bod yr hawl i barch at grefydd a chredoau o dan Erthygl 2 Protocol 1 yn gymwys i rieni yn unig, mae'r hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd – a ddiogelir o dan Erthygl 9 – yn gymwys i blant ac oedolion.

**25.** Mewn achosion sy'n ymwneud â'r hawl i barch at ddaliadau crefyddol ac athronyddol rhieni o dan Erthygl 2 Protocol 1, nodwn nad yw'r llysoedd yn aml yn

---

[11] Achos Ieithyddol Gwlad Belg (Rhif 2) (1968) 1 EHRR 252.

[12] Folgero ac eraill yn erbyn Norwy (2008) 46 EHRR 47; Lautsi yn erbyn yr Eidal (2012) 54 EHRR 3.

ystyried Erthygl 9 ar wahân yn fanwl[13]. Fodd bynnag, mae cyfraith achos[14] yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i hawl rhiant i'w ddaliadau crefyddol ac athronyddol gael eu parchu o dan Erthygl 2 Protocol 1 gael ei dehongli yn unol â holl hawliau perthnasol[15] y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gan gynnwys Erthygl 9).

**26.** Mae Erthygl 14 yn darparu:

> "The enjoyment of the rights and freedoms set forth in this Convention shall be secured without discrimination on any ground such as sex, race, colour, language, religion, political or other opinion, national or social origin, association with a national minority, property, birth or other status."

**27.** Nid yw Erthygl 14 yn hawl annibynnol a dim ond ar y cyd ag un o hawliau eraill y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol y gellir dibynnu arni. Nid yw hyn yn golygu bod angen torri yr hawl arall honno o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol er mwyn gallu dibynnu ar Erthygl 14. Mae'n ddigonol bod yr ymddygiad gwahaniaethol yn dod o fewn cwmpas yr hawl arall honno.

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

**28.** Mae'r Asesiad Effaith Integredig[16] yn darparu bod y Bil yn cyfrannu at yr erthyglau a ganlyn.

- Erthygl 2 – yr hawl i gael eu gwarchod rhag unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn;
- Erthygl 12 – yr hawl i gael eu clywed, dweud eu barn a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud;
- Erthygl 13 – yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth onid yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw neu i eraill;
- Erthygl 17 – yr hawl i wybodaeth a fydd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau ynghylch iechyd;

---

[13] Cyfeirir at Erthygl 2 Protocol 1 fel 'lex specialis' neu gyfraith sy'n llywodraethu'r pwnc. Gweler e.e. Folgero ac eraill yn erbyn Norwy (2008) 46 EHRR 47; Lautsi yn erbyn yr Eidal (2012) 54 EHRR 3.

[14] Folgero ac eraill yn erbyn Norwy (2008) 46 EHRR 47; Lautsi yn erbyn yr Eidal (2012) 54 EHRR 3.

[15] Mae hyn yn cynnwys yr hawl i addysg a ddiogelir o dan y frawddeg gyntaf.

[16] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig, Gorffennaf 2020.

- Erthygl 24 – yr hawl i fod mor iach â phosibl, mynediad i gyfleusterau iechyd, gofal iechyd ataliol, ac addysg a gwasanaethau cynllunio teulu;
- Erthygl 28 – yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn;
- Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw a diwylliant pobl eraill;
- Erthygl 33 – Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau niweidiol;
- Erthygl 34 – Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol; ac
- Erthygl 36 – Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

**29.** Er ein bod yn cydnabod nad yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn darparu hawliau i blant y gellir eu gorfodi'n uniongyrchol yn y llysoedd, bydd hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cael eu dehongli'n aml bellach yng ngoleuni confensiynau rhyngwladol, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**30.** Ym mhennod 6 a phennod 7, trafodwyd y pryderon penodol a godwyd gyda ni o ran hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er na chaiff y pryderon eu hailadrodd yma, maent yn disgyn yn fras i dri maes:

- nid oes hawl i dynnu yn ôl o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- y ffordd yr ymdrinnir â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn gwahanol gategorïau o ysgolion; a
- rôl dysgwyr wrth allu dewis y math o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maent yn dymuno ei chael.

**31.** Nodwn ddatganiad y Gweinidog y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nodwn hefyd ddatganiad y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ei barn hi.

**32.** Yn ein hadroddiad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), gwnaethom nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (ar y pryd) y dylid cynnwys sylwebaeth lawn ynghylch asesiad Llywodraeth Cymru o'r ystyriaethau hawliau dynol yn y Memorandwm Esboniadol a osodwyd gerbron y Senedd i gyd-fynd â'r Bil, yn hytrach nag yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru.[17] Rydym yn siomedig na wnaed hynny yn y ddeddfwriaeth hon a nodwn fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (presennol) yn rhannu'r farn hon yn ei adroddiad ar y Bil hwn.

[17] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Adroddiad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), 2 Awst 2019.

# 2. Cefndir a chyd-destun polisi

Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn darparu'r sylfaen statudol i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r cwricwlwm. Mae'n sefydlu 'Cwricwlwm i Gymru', a ddatblygwyd yn dilyn adolygiad yr Athro Graham Donaldson ac adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yn 2015.

Yn ogystal â chyflwyno'r cwricwlwm penodol cyntaf i Gymru, mae'r Bil yn nodi gwyriad sylweddol oddi wrth natur gymharol ragnodedig y cwricwlwm cenedlaethol presennol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n cael ei arwain yn bennaf gan ddibenion yn hytrach na chynnwys, ac sy'n canolbwyntio mwy ar sgiliau, yn rhoi cryn hyblygrwydd i ysgolion lunio eu cwricwlwm eu hunain, o fewn fframwaith cenedlaethol eang a ddarperir gan y Bil a Chodau a chanllawiau cysylltiedig.

## Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

**33.** Ar yr amod ei fod yn pasio'n llwyddiannus drwy'r Senedd, bydd y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn darparu'r sylfaen statudol i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r cwricwlwm ar gyfer plant 3 i 16 oed. Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn disodli'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yng Nghymru, a sefydlwyd ym 1988 ar sail Cymru a Lloegr. Er bod datganoli wedi galluogi addasu'r cwricwlwm yng Nghymru, yn fwyaf arbennig yn 2010 gyda chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn lle Cyfnod Allweddol 1, mae'r Bil hwn yn nodi'r tro cyntaf y llunnir cwricwlwm penodol i Gymru.

**34.** Mae cyflwyno "cwricwlwm sy'n gweddnewid" yn rhan allweddol o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl', sy'n nodi ei ddiwygiadau addysg hyd at 2021.[18] Dywedir yn y Memorandwm Esboniadol y "dylai'r Cwricwlwm i Gymru fod wrth wraidd ymdrechion athrawon ac ysgolion ac ymdrechion cenedlaethol i geisio codi safonau i bawb, mynd i'r

[18] Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl, Medi 2017.

afael â'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol, ac sy'n ennyn ffydd y cyhoedd."[19]

**35.** Felly mae Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygio'r cwricwlwm fel rhan annatod o'i hagenda gwella ysgolion. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn wedi'i diweddaru o 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'[20], ynghyd â 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022', dogfen sy'n nodi "disgwyliadau cyffredin" ar ysgolion ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.[21]

## Datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru

**36.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithio gyda'r sector addysg i lunio a datblygu cwricwlwm newydd ers i'r adolygiad a gomisiynodd gan yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus (2015) ganfod:

> "Gyda'i gilydd, nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu presennol yn cwrdd bellach ag anghenion plant a phobl ifanc Cymru. Mae'r ddadl o blaid newid sylfaenol yn un rymus."[22]

**37.** Sefydlodd Llywodraeth Cymru rwydwaith o 'ysgolion arloesi' i arwain ar y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn rhan o'r dull gweithredu a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru i geisio grymuso'r proffesiwn addysgu a rhoi rôl ganolog iddo yn y gwaith o lunio'r cwricwlwm newydd. Y nod oedd arwain at fwy o berchenogaeth ymhlith athrawon.

**38.** Mae'r ysgolion arloesi wedi gweithio fel rhan o 'bartneriaeth Cymru gyfan' sy'n cynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, y sectorau addysg bellach ac uwch, arbenigwyr allanol, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru.

**39.** Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r cwricwlwm newydd ym mis Ebrill 2019 i'r cyhoedd roi  adborth arno cyn i'r Cwricwlwm terfynol i Gymru gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020.[23] I bob pwrpas, mae statws canllawiau statudol dros dro iddo a chaiff ei gyhoeddi'n ffurfiol o dan y Bil.

---

[19] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, para 3.9

[20] Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl: diweddariad Hydref 2002.

[21] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022, Hydref 2020.

[22] Yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol llwyddiannus: adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, 2015.

[23] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022

## Dull y Bil o ran y cwricwlwm newydd

**40.** Mae'r Bil yn darparu dull ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru sy'n cael ei ysgogi'n bennaf gan ddibenion yn hytrach na chynnwys. Bydd dyletswydd ar benaethiaid i lunio cwricwlwm unigol ar gyfer eu hysgol, yn unol ag anghenion eu disgyblion o fewn paramedrau eang a nodir mewn fframwaith cenedlaethol.

**41.** Trafodir hyn yn fanylach ym mhennod 3 a phennod 4.

## Amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru

**42.** Bydd yr union ddyddiad y daw'r cwricwlwm newydd i rym yn cael ei ragnodi gan Orchymyn a wneir o dan adran 79 o'r Bil. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, mewn ysgolion cynradd ac ym mlwyddyn 7 (blwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd fel arfer) i ddechrau, cyn ei ymestyn i grwpiau blwyddyn dilynol wrth i'r disgyblion hyn symud ymlaen drwy'r ysgol, nes iddynt gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27. Mae'r Gweinidog Addysg wedi dweud nad yw'r amserlen hon wedi newid er gwaethaf pandemig COVID-19, er y parheir i adolygu'r sefyllfa.[24]

## Ein gwaith craffu blaenorol

**43.** Fel Pwyllgor rydym wedi craffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran diwygio'r cwricwlwm trwy gydol y Senedd hon. Mae hyn yn cynnwys nifer o sesiynau craffu gyda'r Gweinidog, sesiynau gyda'r Athro Donaldson a rhanddeiliaid eraill ddiwedd 2016, galwad wedi'i thargedu am dystiolaeth ddiwedd 2018, a gohebiaeth, sylwadau a phwyntiau o bryder a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

**44.** Gellir gweld manylion am waith craffu'r Pwyllgor ar ddiwygio'r cwricwlwm, cyn ystyried y Bil hwn, ar ein gwefan.[25]

[24] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 2], 14 Gorffennaf 2020

[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adolygiad Donaldson a Diwygio'r Cwricwlwm.

# 3. Egwyddorion cyffredinol y Bil, yr angen am ddeddfwriaeth a dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd

Mae yna gonsenswS eang nad yw'r cwricwlwm presennol yn addas at y diben a chytundeb cyffredinol bod angen deddfwriaeth. Mae dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cael ei gefnogi yn gyffredinol, ond mae cefnogaeth llawer o bobl yn amodol ar ddiwygio rhai agweddau ar y Bil ac mae pryderon ynghylch sut y caiff ei weithredu.

Mae cryn ddadlau hefyd ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol a sut y bydd y cwricwlwm newydd yn effeithio ar yr agenda safonau.

## Yr angen am ddeddfwriaeth ac ailwampio'r cwricwlwm cyfredol yn llwyr

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**45.** Ers i'r Athro Donaldson adrodd yn 2015 nad yw'r cwricwlwm cenedlaethol presennol "yn cwrdd bellach ag anghenion plant a phobl ifanc"[26], mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddiamwys ynglŷn â'r angen am newid a maint y newid hwnnw.

**46.** Gan dderbyn adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Donaldson yn llawn, dywedodd y Gweinidog ar y pryd, Huw Lewis AC:

> "...[nid] rhyw chwarae â hen gwricwlwm cenedlaethol 1988 yw hyn. Mae'n nodi ein bod yn cael gwared ar gwricwlwm cenedlaethol 1988

[26] Yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol llwyddiannus: adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, 2015

> ac yn ail-greu cwricwlwm hollol newydd o'r gwaelod i fyny gydag athroniaeth wahanol yn sail iddo."[27]

**47.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol fod y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn "seiliedig ar fodel a luniwyd dros 30 mlynedd yn ôl ac nad yw mwyach yn addas at y diben". Mae'n nodi ymhellach nad yw'n "cyd-fynd â newidiadau diweddar a newidiadau sy'n parhau o ran y dechnoleg ac o ran y ffordd y mae ein cymdeithas a'n heconomi'n datblygu."[28]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**48.** Mae'r mwyafrif helaeth o randdeiliaid o'r farn bod angen disodli'r cwricwlwm presennol a bod angen deddfwriaeth i gyflawni hynny.

**49.** Ar ran awdurdodau lleol, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wrthym nad yw'r cwricwlwm presennol bellach yn addas at y diben a bod angen iddo adlewyrchu'r 21ain Ganrif.[29] Dywedodd Estyn fod addysg wedi symud ymlaen dros y 30 mlynedd diwethaf a bod angen cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth newydd sydd gennym o'r ffordd y mae addysg yn gweithio.[30]

**50.** Mae undebau'r prifathrawon (Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon) a'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn credu bod angen mawr am gwricwlwm newydd, gyda'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn nodi'r hyn a ganlyn:

> "We saw that it [the Donaldson Review and curriculum reform] was entirely necessary—that the current curriculum, which we see to be outdated, fragmented, disconnected, and it doesn't actually give our children or our teachers the richness of experience that they do need in order to engage and to teach to the very best of their ability. (…)
>
> It's also stale. It doesn't really adequately prepare learners for a very rapidly shifting world, and it really doesn't serve the needs of people in Wales or, indeed, our children more globally as citizens further than this country."[31]

---

[27] Y Cyfarfod Llawn, 4 Mawrth 2015.

[28] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 158 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 20 – Estyn

[31] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 24 Medi 2020.

**51.** Yn ei hymateb i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd un pennaeth fod y cwricwlwm presennol wedi dyddio a bod angen cwricwlwm arnom sy'n paratoi cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer y presennol a'r dyfodol fel dinasyddion Cymru, sy'n newid yn gyflym.[32] Dywedodd unigolyn arall fod y Bil yn cyhoeddi ymrwymiad y genedl i gyfnod newydd mewn addysg gyda pherthnasedd i'r byd sy'n newid a sylw i anghenion newidiol plentyndod ac ieuenctid.[33]

**52.** Dywedodd nifer o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg[34] ac a gymerodd ran yn y drafodaeth ford gron rithwir[35] nad yw'r cwricwlwm presennol yn rhoi'r hyn sydd ei angen arnynt a'u bod am ddysgu mwy yn yr ysgol er mwyn paratoi ar gyfer bywyd a chyflogaeth fel oedolyn. Cyhoeddodd Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm Senedd Ieuenctid Cymru adroddiad ym mis Hydref 2019, a oedd yn nodi:

> "Mae sgiliau bywyd yn bwysig i ni gan ei bod yn amlwg bod ein cwricwlwm yn brin ohonyn nhw. (…)
>
> Allwn ni ddim goroesi fel oedolion nac yn unrhyw ran o'n bywydau os byddwn ni'n gadael yr ysgol fel robotiaid A* heb wybod dim am y byd go iawn. Dyma'r system addysg rydyn ni'n mynd drwyddi, dyma'r system addysg y bydd ein brodyr a'n chwiorydd a'n plant yn mynd drwyddi. Rydyn ni am iddyn nhw deimlo eu bod nhw'n gallu gweithredu fel oedolion cynhyrchiol; dydyn ni ddim am i neb deimlo bod eu gwerth yn seiliedig ar ganlyniadau eu harholiadau. Rydyn ni'n werth mwy na hynny."[36]

**53.** Cytunodd Parents Voices in Wales fod angen i'r cwricwlwm newid gan ei fod wedi dyddio ac nad yw'n diwallu anghenion pob dysgwr.[37] Dywedodd nifer o rieni a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron rithwir fod cwricwlwm newydd yn cynnig y cyfle i wneud dysgu'n fwy diddorol a deniadol, tra dywedodd

---

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 1 – Unigolyn.

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 103 – Unigolyn.

[34] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Dadansoddiad o'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc, Hydref 2020.

[35] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir â rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[36] Senedd Ieuenctid Cymru, y Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm, Sgiliau bywyd, sgiliau byw, Hydref 2019.

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 4 – Parents Voices in Wales CIC.

cynrychiolwyr cyflogwyr nad yw'r cwricwlwm presennol yn darparu digonol o'r sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol sydd eu hangen ar ddarpar weithwyr.[38]

**54.** Fodd bynnag, nid yw pawb mor argyhoeddedig bod angen ailwampio'r cwricwlwm i'r fath raddau. Tra bod undebau'r athrawon, yr Undeb Addysg Genedlaethol ac Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, yn cytuno'n gyffredinol bod angen newid o'r fath, dywedodd Swyddog Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau wrthym:

> "I think there are elements of the current curriculum that are not fit for purpose, such as the assessment system. The national curriculum levelling in some subject areas has never been fit for purpose, and required overhaul many years ago. But with regards to other particular areas, no, I wouldn't agree. I think the national curriculum bedded in and has served the children of Wales well.
>
> I do think the Bill probably contains much of what Professor Donaldson's intentions were, but I think our view is that the present curriculum has come under a lot of flak for things that it was not responsible for. I think that there are other elements in the education service that are responsible for issues and problems in terms of standards, not the current curriculum."[39]

**55.** Ategwyd y farn hon gan bennaeth unigol nad oedd yn gweld pam y mae angen diwygio'r cwricwlwm yn llwyr pan ellid adolygu a diweddaru'r cwricwlwm cenedlaethol presennol. Dywedodd fod gan y cwricwlwm cenedlaethol y fantais enfawr o sicrhau cysondeb o ran yr hyn a addysgir.[40] Caiff y mater o ran cysondeb ei drafod yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod hon.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**56.** Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd y Gweinidog yn aml at ddiffygion yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu cyfredol. Er enghraifft, dywedodd:

> "I believe that a curriculum that was, essentially, developed and planned in 1988, before the fall of the Berlin wall, before we all carried computers around in our pockets, no longer meets the needs of Welsh

[38] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir â rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[39] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 156-157], 24 Medi 2020.

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 84 – Alan Tootill, Pennaeth.

> children. The current curriculum is often overcrowded. It is often unmanageable, incoherent and, I believe, does not provide the opportunity for children and young people in Wales to acquire the knowledge, skills and experiences that will ensure that they are successful members of our society after their period of education."[41]

## Ein barn a'n hargymhellion: yr angen am ddeddfwriaeth ac ailwampio'r cwricwlwm presennol yn llwyr

**57.** Rydym yn rhannu'r farn a fynegwyd gan lawer nad yw'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yn llwyr gyflawni'r hyn y mae ar blant a phobl ifanc ei angen o'u haddysg, er mwyn byw bywydau hapus, llwyddiannus a chyfoethog fel oedolion, a gwneud cyfraniad llawn i gymdeithas Cymru a thu hwnt.

**58.** Gwnaed cryn argraff arnom o glywed y farn glir a fynegwyd gan bobl ifanc, drwy Senedd Ieuenctid Cymru, y dylai'r cwricwlwm eu paratoi'n well drwy addysgu mwy o 'sgiliau bywyd' nag ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos mai dyma yw prif flaenoriaeth pobl ifanc. Felly, rydym yn croesawu'r pwyslais ar sgiliau bywyd a pharatoi i fod yn oedolion sy'n rhan ganolog o'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

**59.** Roedd y ffocws ar sgiliau bywyd yn amlwg o adolygiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Donaldson yn 2015. Rydym wedi dilyn a chraffu ar y gwaith o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru ers hynny ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn mynd â'r gwaith hwn ymlaen i'r cam nesaf.

**60.** Ar sail y safbwyntiau a'r dystiolaeth a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn, a chan ragweld y byddwn yn sicrhau bod y Gweinidog yn ystyried – ac yn cefnogi – y casgliadau a'r argymhellion a wnaed gennym, rydym yn cytuno bod angen deddfwriaeth i sefydlu cwricwlwm newydd – y Cwricwlwm unigryw cyntaf i Gymru. Fel y nodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, mae yna faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd yn ymwneud â manylion darpariaethau'r Bil a sut y caiff ei weithredu, fodd bynnag, nid ydym yn teimlo bod y materion hyn yn ein hatal rhag argymell bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 1.** Bod y Senedd, gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1 a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

[41] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 4], 14 Gorffennaf 2020.

## Dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**61.** Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn ceisio arfer dull gwahanol sy'n seiliedig ar ddibenion yn hytrach na chynnwys, gyda mwy o hyblygrwydd i ysgolion gyflwyno cwricwlwm lleol yn unol ag anghenion eu disgyblion. Bydd fframwaith cenedlaethol yn parhau ond bydd ysgolion yn cael lefel newydd o gyfrifoldeb/rhyddid. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid gynllunio cwricwlwm ar gyfer eu hysgolion, o fewn paramedrau'r ddeddfwriaeth, y mae'n rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ei fabwysiadu ar y cyd.

**62.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> "Mae'r lefel uchel o ragnodi yn y cwricwlwm presennol wedi tueddu i greu diwylliant lle y mae llai o le i greadigrwydd. Mae dysgu ac addysgu wedi mynd yn fwyfwy cul, ac nid yw cyfraniad proffesiynol y gweithlu wedi'i ddatblygu'n ddigonol."[42]

**63.** Bydd llai o ragnodi'r hyn y mae'n rhaid i ysgolion ei ddysgu, ac ni fydd unrhyw raglenni astudio gorfodol. Caiff y cwricwlwm ei gynllunio ar sail 'meysydd dysgu a phrofiad', yn hytrach na phynciau. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y cwricwlwm newydd, fel yr argymhellir yn gadarn yn adolygiad yr Athro Donaldson, yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt o'u haddysg gan ddefnyddio dull tair rhan, sef gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.

**64.** Un o egwyddorion allweddol y cwricwlwm newydd fydd addysgu a dysgu 'yr hyn sy'n bwysig', a fydd yn cael ei atgyfnerthu gan God yr Hyn sy'n Bwysig statudol. Cysyniad allweddol arall yw y bydd plant a phobl ifanc yn symud y ar hyd un continwwm dysgu (yn hytrach na chyfnodau allweddol ar wahân fel ar hyn o bryd) yn ôl Cod Cynnydd, ac y bydd asesu rheolaidd yn llywio addysgu a dysgu yn hytrach na chael ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion atebolrwydd ysgolion.

**65.** Mae'r Bil yn pennu'r egwyddorion trefniadol a ganlyn ar gyfer y cwricwlwm newydd, sy'n cael eu hesbonio a'u trafod ym mhennod 4 o'r adroddiad hwn:

- pedwar diben;
- chwe maes dysgu a phrofiad;
- tri sgìl trawsgwricwlaidd orfodol;

[42] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3

- pedair elfen orfodol;
- tri chod statudol;
- gofynion cyffredinol y cwricwlwm;
- pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol, a fydd—ynghyd â'r uchod—yn ffurfio'r fframwaith cenedlaethol a'r seilwaith a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru i gysoni cwricwla unigol ysgolion.[43]

**66.** Mae'r Gweinidog wedi dweud:

> "Mae hyn yn golygu symud o bynciau cul i chwe maes dysgu a phrofiad eang; cwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiben–pedwar diben sy'n cyfleu'r math o ddinasyddion rydym eu hangen; a ffocws go iawn ar dri sgil craidd statudol: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Hwn fydd ein cwricwlwm newydd i Gymru, o Gymru, gan Gymru."[44]

**67.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfennau y Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2020[45] sydd, ynghyd â'r Bil, yn ffurfio fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol. Fel y dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "… the national framework is the guidance that we published back in January, and the Bill that sits before us today is the legislation that provides a statutory underpinning for that."[46]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**68.** Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn dangos cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil a'r dull ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae cefnogaeth llawer o bobl yn amodol ar ddiwygio agweddau ar y Bil a chael sicrwydd ynghylch y ffordd y caiff ei weithredu (gweler pennod 12 ynghylch gweithredu).

**69.** O blith tua 230 o ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig, fe wnaeth ychydig dros ddwy ran o dair fynegi eu cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, dim ond cefnogaeth amodol a roddodd tua hanner o'r rheini, gan

[43] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 7-9], 21 Hydref 2020.

[44] Y Cyfarfod Llawn [paragraff 355], 8 Gorffennaf 2020.

[45] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022.

[46] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , Cofnod y Trafodion [paragraff 149], 14 Gorffennaf 2020.

fod ganddynt amheuon ynghylch rhai agweddau ar y Bil neu bryderon ynghylch y ffordd y caiff ei weithredu.[47]

**70.** Nid oedd ychydig llai na thraean yr ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol. O'r rheini, roedd bron 95 y cant yn ymatebion gan unigolion ac roedd yn ymddangos bod bron dwy ran o dair o'r ymatebion wedi'u cydlynu drwy ymgyrch. Roedd yr ymatebion gan sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn llawer mwy tebygol o gefnogi'r Bil na'r ymatebion gan unigolion.[48]

**71.** Roedd y rhai a oedd yn mynegi gwrthwynebiad i'r Bil yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau penodol ar y Bil, er enghraifft roedd nifer o ymatebion a oedd wedi'u cydlynu drwy ymgyrch yn ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**72.** Roedd y rhai a oedd yn mynegi cefnogaeth yn aml yn gwneud hynny yng nghyd-destun cyfyngiadau canfyddedig y cwricwlwm cyfredol. Mae yna gonsensws cyffredinol nad yw'r cwricwlwm presennol bellach yn addas at y diben, fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod hon.

### Dull a arweinir gan ddibenion ac sy'n seiliedig ar sgiliau

**73.** Mae Estyn yn disgrifio'r dull sy'n sail i'r cwricwlwm newydd fel a ganlyn:

> "Mae'r cwricwlwm, fel rŷch chi'n gwybod, yn seiliedig ar ddibenion. Mae e'n seiliedig ar weledigaeth fwy eang o addysg na'r cwricwlwm blaenorol. Mae ysgolion yn gwneud mwy na jest trosglwyddo gwybodaeth; maen nhw'n helpu disgyblion i ennill sgiliau ac agweddau, yn dod â nhw'n ddysgwyr gydol oes annibynnol, maen nhw'n cefnogi iechyd a lles, maen nhw'n helpu i'w tyfu nhw i fod yn aelodau o gymdeithas, ac yn y blaen. Dyna beth a olygir gan y pedwar diben, ac mae'r ysgolion gorau yn gwneud hyn. Felly, mae'r cwricwlwm newydd yn adlewyrchu, mewn gwirionedd, beth mae ysgolion yn ei wneud yn barod."[49]

**74.** Mewn araith enwog, dywedodd Cyfarwyddwr Addysg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Andreas Schleicher, "the knowledge

[47] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Dadansoddiad Ymgynghori, Hydref 2020.

[48] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Dadansoddiad o'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc, Hydref 2020.

[49] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 17 Medi 2020.

economy no longer pays you for what you know… it pays you for what you can do with what you know".[50] Adlewyrchwyd y safbwynt hwn yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Arweinydd Cyfadran Technoleg mewn ysgol uwchradd:

> "There is a focus not just on developing the knowledge and skills our young people need, but also the dispositions and competencies they will need to be successful. Acquisition of knowledge on its own is no longer a key to unlocking success. The ability to apply that knowledge in a range of contexts through critical and creative thinking is a vital competency now needed by all."[51]

**75.** Dywedodd Coleg Cambria y dylai dull y cwricwlwm newydd, a arweinir gan ddibenion ac sy'n seiliedig ar sgiliau, greu gwell sylfaen i bobl ifanc symud ymlaen[52], tra dywedodd Ysgol Uwchradd Hwlffordd y byddai'n ysbrydoledig i ysgolion ddarparu profiad addysgol sy'n fwy addas i'r gymdeithas yr ydym bellach yn byw ynddi.[53]

**76.** Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cefnogi dull strategol Llywodraeth Cymru o ddiwygio'r cwricwlwm, gan ddweud bod y Bil yn gam pwysig pellach tuag at gyflwyno cwricwlwm mwy perthnasol, bywiog a chyd-destunol ym mhob ysgol ledled Cymru.[54]

**77.** Dywedodd Sylfaen Cymru, sy'n hyrwyddo addysg ddinesig a chyfranogiad yng Nghymru:

> "If executed correctly, a skills-focused curriculum should have the advantage of providing all child citizens in Wales (that is, all children learning in Wales) with a foundation of transferable skills which will open up opportunities in later life."[55]

**78.** Yn y cyfamser, dywedodd swyddog arweiniol addysg ôl-16:

> "It is very refreshing seeing a new curriculum being designed around a set of principles that set out to define the sort of young people we wish

[50] Newyddion y BBC, Pisa: Pupils in Wales 'lack ambition' says Andreas Schleicher, 11 Mehefin 2014.

[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 34 – Susan Quirk, Arweinydd Cyfadran Technoleg mewn ysgol uwchradd.

[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 3 – Coleg Cambria.

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 11 – Ysgol Uwchradd Hwlffordd VC.

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 111 – Cyngor y Gweithlu Addysg.

[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 210 – Sylfaen Cymru Cyf.

> to see emerge from their years of compulsory education. Setting out all the elements of the curriculum experience from the four purposes to the cross-curricular skills, the mandatory elements to the pedagogical principles provides schools with the essential foundations for building an excellent curriculum model."[56]

**79.** Fodd bynnag, nododd rhai rhanddeiliaid fod angen i'r cwricwlwm hefyd gefnogi anghenion plant a phobl ifanc ar hyn o bryd. Mynegwyd hyn gan Chwarae Cymru yng nghyd-destun manteision chwarae a hamdden:

> "The current wording of the Bill is very much focused on deferred outcomes (i.e. '…ready to lead fulfilling lives as valued members of society'). Whilst deferred health and well-being benefits are important, of equal importance are the immediate benefits for children of all ages. [The UN Committee on the Rights of the Child] notes the range of multiple important physical, social, cognitive and emotional skills that playing brings, but it also stresses the immediate importance it holds for children – referring to play as 'a fundamental and vital dimension of the pleasure of childhood'."[57]

**80.** Dywedodd nifer o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg[58] ac a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron rithwir[59], fod bylchau mawr yn y cwricwlwm presennol o ran sgiliau bywyd a bod angen i'r cwricwlwm roi'r sgiliau a'r wybodaeth i bobl ifanc eu cymhwyso at amrywiaeth o feysydd gwahanol. Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r adroddiad a gyflwynwyd gan Senedd Ieuenctid Cymru i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019.[60]

**81.** Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r dull a arweinir gan ddibenion ac sy'n seiliedig ar sgiliau yn y Bil newydd, rhybuddiwyd bod dal angen sicrhau digon o drylwyredd deallusol a disgyblaethau sy'n seiliedig ar bynciau yn y cwricwlwm newydd. Mae un pennaeth unigol yn pryderu am y posibilrwydd o golli arbenigedd pwnc ac addysgu arbenigol os bydd ysgolion yn symud i gyflwyno'r ddarpariaeth ar sail meysydd dysgu a phrofiad. Dywedodd fod hyn yn fwy heriol i

---

[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 101 – John Fabes, Swyddog arweiniol addysg ôl-16.

[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 98 – Chwarae Cymru.

[58] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Arolwg Plant a Phobl Ifanc, Hydref 2020.

[59] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir â rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[60] Senedd Ieuenctid Cymru, y Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm, Sgiliau bywyd, sgiliau byw, Hydref 2019.

athrawon a bod llawer o dystiolaeth hanesyddol ei fod yn llai effeithiol i addysg disgyblion.[61]

**82.** Rhybuddiodd undebau'r athrawon am rai goblygiadau ymarferol yn sgil symud i ffwrdd o bynciau i feysydd dysgu a phrofiad a ddiffinnir yn fras. Rhybuddiodd yr Undeb Addysg Genedlaethol fod adrannau pwnc eisoes yn cael eu huno mewn rhai ysgolion, gan arwain at golli arbenigwyr pwnc, a allai arwain at ganlyniadau anfwriadol i ddysgwyr.[62] Disgrifiodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau sut y mae'r adrannau traddodiadol yn cael eu hollti bellach a'u cynnwys yn y cyfadrannau hyn, gan nodi y dylai hynny fod yn destun pryder.[63] Nododd Cyngor Abertawe mai un canlyniad anfwriadol posibl oedd glastwreiddio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â phwnc penodol.[64]

**83.** Ar y llaw arall, dywedodd consortiwm gwella ysgolion De-ddwyrain Cymru, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, wrthym y byddai'r cwricwlwm newydd yn galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau a meysydd y cânt eu haddysgu:

> "…the current curriculum is somewhat fragmented and it doesn't encourage that exploitation of the links between, and the connections between, individual subject areas. So, I think the new framework that we will be working towards does increase the focus on that.
>
> Also, the new curriculum does place the focus on the 'why?' and I think it's probably worth saying that it does outline the importance of the wider experiences that learners undertake, which, I think it's fair to say, in the existing curriculum is less clear."[65]

**84.** Dywedodd CLlLC y canlynol wrthym:

> "The Six Areas bring together familiar disciplines and encourage strong and meaningful links across different disciplines. Those individual

[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 84 – Alan Tootill, Pennaeth.

[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 49 – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru.

[63] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 246], 24 Medi 2020.

[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 142 – Cyngor Abertawe.

[65] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 194-195], 20 Gorffennaf 2020.

> disciplines will still play an important role, especially as learners progress and begin to specialise.
>
> The framework promotes collaboration and cross-disciplinary planning, learning and teaching, both within and across the Areas. This will enable learners to build connections across their learning and combine different experiences, knowledge and skills."[66]

**Hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol**

**85.** Mae sefydliadau fel Estyn, consortia rhanbarthol a CLlLC yn fodlon ar y cydbwysedd y mae'r Bil yn ei daro rhwng rhoi hyblygrwydd i ysgolion gynllunio cwricwla addas ar gyfer eu disgyblion a sicrhau dull cenedlaethol cydlynol sy'n darparu digon o gysondeb o ran yr hyn a addysgir.

**86.** Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor:

> "Egwyddor sylfaenol y cwricwlwm i Gymru ydy bod ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm eu hunain, ac mae hynny'n eu galluogi nhw i ddiwallu anghenion dysgwyr penodol, yn seiliedig, wrth gwrs, ar fframwaith cenedlaethol. (…)
>
> Felly, beth sy'n cael ei drio ei wneud fan hyn yw cael cydbwysedd rhwng cael digon o ryddid, a hefyd bod yna rywfaint o bresgripsiwn hefyd. Ac, ar y cyfan, dwi'n meddwl bod y cydbwysedd yna yn iawn."[67]

**87.** Dywedodd consortiwm Gogledd Cymru, GwE, fod cwricwlwm newydd yn rhoi "gofod i athrawon fod yn fwy creadigol" heb "hualau'r cwricwlwm cenedlaethol":

> "… a'u bod nhw'n gallu cynnig bwydlen sydd yn addas i'r dysgwyr yn lleol, ac nid, ar adegau, yn cael eu gorfodi i lenwi'r gofod efo cynnwys, efallai, nad ydy rhai o'r dysgwyr yma efo dim llawer o ddiddordeb ynddo fo, o bosib."[68]

**88.** Dywedodd GwE fod y cwricwlwm newydd, ar yr un pryd, yn cadw nodweddion allweddol fel llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol "felly, dydyn ni

---

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 158 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[67] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 10 a 20], 17 Medi 2020.

[68] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 199], 20 Gorffennaf 2020.

ddim yn gadael pob peth wrth inni fynd yn ein blaenau; mae yna fframwaith cadarn yn ei le, yn cael ei osod ar gyfer y cwricwlwm."[69]

**89.** Mae CLlLC yn croesawu'r cyfle i ysgolion gael y rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Dywedodd fod hyblygrwydd yn allweddol ac y bydd yn helpu ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm yn unol ag anghenion eu cymunedau lleol.[70]

**90.** Roedd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn glir o'r farn bod y Bil yn rhoi digon o strwythur i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol:

> "There's a good structure there... I think it covers sufficient ground for it also to allow for flexibility in interpretation and avoiding prescription.
>
> We've had prescription in the curriculum that we now deem to be outmoded. This will allow for much greater flexibility without it being a free-for-all. It gives the balance, I believe, between those two polar opposites. (...)
>
> But it won't create massive variation, where you've got hundreds of schools doing hundreds of different things, because you have already got that framework, which is clearly outlined in the implementation document and the planning, which, as I say, has been done with the profession."[71]

**91.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon hefyd mai'r hyblygrwydd a'r rhyddid hwnnw a fydd yn caniatáu i ysgolion ffynnu a bod yn rhaid i ni gael rhywfaint o hyder yn y proffesiwn i weithredu'r fframwaith cenedlaethol yn gyson.[72]

**92.** Tra bod llawer o randdeiliaid yn croesawu'r rhyddid a'r hyblygrwydd y mae'r Bil yn eu rhoi i ysgolion a phenaethiaid, mae gan eraill amheuon ynghylch yr hyn y

---

[69] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 184], 20 Gorffennaf 2020.

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 158 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

[71] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 15-16 a 29], 24 Medi 2020.

[72] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 31], 24 Medi 2020.

maent yn ei ystyried yn ddiffyg cwricwlwm cenedlaethol cyson. Rhoddodd un ymatebydd unigol grynodeb o'r cydbwysedd bregus y mae'r Bil yn ceisio'i daro:

> "On the one hand, a very deliberate rowing back from prescription affords teachers in Wales new levels of professional autonomy – and decentralises power over what is taught from government to the site of practice. This is a strength of the model, in that it builds agency and respects the craft of teaching as something dependent on experience, expertise and training.
>
> But on the other hand, the liberation of teachers from curriculum rules and regulation is also an inherent weakness; by definition, it encourages a break from uniformity and opens the door to a disparate system characterised by difference. (…)
>
> There is a genuine fear that if teachers are free to teach whatever they consider appropriate from one school to the next, it is inevitable that gaps will develop and children will emerge from their compulsory education with a random medley of knowledge and understanding. Granted, pupils leave school with varying abilities and competencies now – but they do so within the confines of a common structure that stems, at least in part, from nationally-agreed and moderated content."[73]

**93.** Dywedodd ymatebydd unigol arall fod lefel y disgresiwn yn rhoi rhwydd hynt i ysgolion unigol, gan greu "anghysondebau enfawr ar draws Cymru".[74] Dadleuodd un arall fod y "cyd-bwysedd wedi gwyro'n ormodol tuag at benrhyddid i ysgolion ddehongli sut y maent yn mynd i drosi gofynion syniadaethol (cwbl dderbyniol) y cwricwlwm newydd yn raglenni astudio ymarferol".[75]

**94.** Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at ganlyniadau anfwriadol posibl i grwpiau penodol o ddysgwyr o gwricwla ar lefel ysgol. Awgrymodd Cyngor Abertawe y gallai natur agored y fframwaith olygu dehongliadau gwahanol iawn o sut y gallai'r cwricwlwm edrych a diffyg tegwch o ran yr hyn a addysgir, a allai roi disgyblion o gefndiroedd tlotach o dan anfantais.[76]

**95.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith:

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 8 – Unigolyn.

[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 6 – Unigolyn.

[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 9 – Unigolyn.

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 142 – Cyngor Abertawe.

> "…whilst increased flexibility for schools is a huge opportunity, it will bring challenges in ensuring quality and standards. This may especially be the case for pupils with additional learning needs as schools will vary in their level of experience of supporting such pupils."[77]

**96.** Ar y llaw arall, mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn croesawu'r rhyddid a roddir i ysgolion gynllunio eu cwricwla eu hunain[78], a dywedodd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a chonsortiwm GwE fod y Bil yn "cynnig cyfle i'r proffesiwn addysgu gael mwy o ryddid a hyblygrwydd i gynllunio a dylunio cwricwlwm sy'n cwrdd ag anghenion pob dysgwr yn eu cymunedau".[79]

**97.** Dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg ei bod yn bwysig bod yr un pethau yn cael eu haddysgu i ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru.[80] Dywedodd nifer o blant, pobl ifanc a rhieni a gymerodd ran yn ein trafodaethau bord gron rhithwir y gallai caniatáu i ysgolion benderfynu beth i'w addysgu arwain at fylchau, gyda phroblemau penodol pan fydd plant yn symud ysgol. Gwnaethant awgrymu hefyd y gallai arwain at amrywiadau rhanbarthol a lleol, ac y dylai ysgolion gael hyfforddiant i sicrhau nad yw rhagfarn ddiarwybod yn dylanwadu ar y cwricwlwm a ddarperir ar gyfer eu disgyblion.[81]

**98.** Cytunodd Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm Senedd Ieuenctid Cymru:

> "Pryder mwyaf y pwyllgor oedd y gallai arwain at brofiadau dysgu anghyson i bobl ifanc ledled Cymru, gan mai ysgolion ac awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar nifer fawr o agweddau ar y cwricwlwm."[82]

**99.** Roedd rhai cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogadwyedd a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron rithwir yn pryderu am y risgiau wrth symud o gwricwlwm rhagnodol i un â chryn hyblygrwydd, oherwydd yr amrywiad y gallai ei achosi.

---

[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 145 – Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Cymru.

[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 31 – Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot.

[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , CAW 189 – Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol.

[80] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Arolwg Plant a Phobl Ifanc, Hydref 2020.

[81] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir â rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[82] Tystiolaeth fideo, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Senedd Ieuenctid Cymru - y Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm.

Gwnaethant bwysleisio hefyd y gallai mwy o ryddid i wneud penderfyniadau fesul ysgol arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng ysgolion mewn perthynas â'r cwricwlwm y maent yn ei gynnig, o ran ceisiadau rhieni am leoedd mewn ysgolion.[83]

**100.** Dadleuodd nifer o gynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogadwyedd fod angen i gwricwla lleol ysgolion fod yn seiliedig ar fframwaith cenedlaethol, sy'n cyd-fynd yn agos â strategaethau economaidd a blaenoriaethau rhanbarthol o ran y gweithlu. Roeddent hefyd yn cwestiynu pwy fyddai'n cymeradwyo cwricwlwm ysgol ac a ddylid cael rhyw fath o oruchwyliaeth. Yn yr un modd, er mwyn cymharu, tynnodd cynrychiolwyr addysg uwch sylw at y prosesau cymedroli a dilysu trwyadl y mae prifysgolion yn mynd drwyddynt wrth bennu eu cwricwla eu hunain, gan gyfeirio at nifer o ddulliau gwirio a gwrthbwyso.[84]

**101.** Rhoddodd Sylfaen Cymru grynodeb o'r broblem o ran taro'r cydbwysedd cywir rhwng cysondeb cenedlaethol a hyblygrwydd lleol:

> "The success of the curriculum does require a statutory footing, because even a vision which respects individuality must be guided by a concrete skeletal structure upon which it can rely. The dangers of too much rigidity, we have already experienced; too much flexibility risks creating unnecessary uncertainty, inconsistency and fluidity, which risks further disadvantaging already-excluded community groups."[85]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**102.** Pan ofynnwyd sut y byddai'r cwricwlwm newydd, wedi'i strwythuro o amgylch meysydd dysgu a phrofiad yn hytrach na phynciau, yn gweithredu o fewn ysgolion yn ymarferol, dywedodd y Gweinidog wrthym yn ein sesiwn gyntaf ar y Bil:

> "There are six areas, bringing together families of disciplines, and that's to encourage strong links between them, between those disciplines, and, indeed, between the AoLEs themselves. Disciplines will continue to remain important, but this new approach supports learners, as I said, to build those connections across learning, helping them, as I said

[83] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir â rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[84] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir â rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[85] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 210 – Sylfaen Cymru Cyf.

> earlier, to understand not just what they're learning but why they are learning it and the interconnectedness between ideas."[86]

**103.** Dywedodd y Gweinidog hefyd mai mater i benaethiaid a chyrff llywodraethu unigol yw sut y caiff y cwricwlwm ei drefnu wedyn mewn ysgol i fodloni'r gofynion deddfwriaethol yn y Bil.[87]

**104.** Wrth holi ymhellach, mewn perthynas â digonolrwydd y fframwaith cenedlaethol, y Bil a'r Codau a'r setiau canllaw cysylltiedig ar gyfer cwricwla unigol ysgolion, dywedodd y Gweinidog yn ystod ei hail ymddangosiad:

> "…the Bill provides a robust national framework in which individual schools will operate. The idea of schools doing totally random things is simply not borne out by how the legislation is structured or, indeed, the approach of our strategic partners. (…)
>
> So, there's a substantial amount of national scaffolding in framework and requirements, but then allowing the freedom for individual practitioners. And that is key. (…)
>
> …this is an appropriate mix of unleashing that professional agency, but doing so in the context of a national framework that ensures the entitlement for every child, no matter which setting they're in."[88]

**105.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol y Gweinidog ei bod yn "hanfodol deall hyblygrwydd ysgolion yn ei gyd-destun", gan dynnu sylw at "fframwaith cadarn lle y bydd angen i ysgolion weithredu".  Dywedodd y byddai'r fframwaith hwn yn nodi'r "hanfodion" ond na fyddai'n "rhagnodi pa bynciau a gweithgareddau penodol y dylid eu haddysgu, na phryd.[89]

**106.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y posibilrwydd i sefydliadau masnachol gynnig templed cwricwlwm i ysgolion, gan geisio manteisio ar yr hyn y mae rhai yn ei ystyried yn wagle o ran cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Dywedodd y

[86] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , Cofnod y Trafodion [paragraff 28], 14 Gorffennaf 2020

[87] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 14 Gorffennaf 2020

[88] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 7 a 9], 21 Hydref 2020.

[89] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

Gweinidog y byddai hyn yn tanseilio ethos y cwricwlwm newydd ac na ddylai ysgolion fuddsoddi mewn cynigion cwricwlwm parod oddi ar y silff.[90]

**107.** O ran pa ddulliau gwirio a gwrthbwyso a ddefnyddir i fesur addasrwydd cwricwla ysgolion unigol, dywedodd y Gweinidog:

> "…the first element of ensuring that the curriculum is suitable lies with the governing body that has to adopt what the headteacher brings forward. So, that's the first level of check and balance. (…)
>
> …schools will not be operating in an accountability-free zone. So, when you think about the role of the school improvement services and an ongoing accountability regime, our school improvement services and challenge and support advisers will be looking to the school to demonstrate the suitability and the compliance of their local curriculum with the Bill. And, of course, the curriculum that is adopted by the school needs to be published in summary form so there is wider community scrutiny, and, of course, Estyn will be continuing to carry out its role in ensuring that curricula are suitable. (…)
>
> So, there's a variety of levels of accountability to ensure that the curriculum is suitable and is scrutinised by organisations outside of the individual school itself."[91]

## Ein barn a'n hargymhellion: dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd

**108.** Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym a'r safbwyntiau a glywsom yn ystod ein gwaith craffu yng Nghyfnod 1 yn ein harwain i'r casgliad ein bod yn cefnogi'r dull a arweinir gan ddibenion a fabwysiedir yn y Bil. Rydym yn croesawu nod y Bil o roi mwy o bwyslais ar sgiliau, gan gynnal ffocws priodol ar wybodaeth a thrylwyredd. Felly, rydym yn cefnogi'r dull ag iddo tair elfen o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.

**109.** Fel dull eang, rydym yn hapus â'r ffordd y caiff y cwricwlwm newydd ei drefnu yn ôl meysydd dysgu a phrofiad, gyda mwy o fanylion ynghylch yr Hyn sy'n Bwysig mewn Cod a chanllawiau statudol. Serch hynny, credwn yn gryf ei bod yn hanfodol bod seilwaith digonol ar waith i sicrhau cwricwlwm cenedlaethol cyson (yn hytrach na chwricwlwm unffurf) ledled Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod, ymhlith y dystiolaeth a gasglwyd gennym gan blant a phobl ifanc, fod awydd

[90] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 21 Hydref 2020.

[91] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Hydref, paragraffau 12-13

cyffredinol i ddysgu am yr un pethau â'i gilydd yn gyffredinol (gweler paragraffau 97-98 uchod).

**110.** Gyda hynny mewn golwg, nodwn nad yw rhai o'r manylion sy'n sail i'r Bil a'r cwricwlwm newydd ar gael inni eu hystyried. Bydd y tri Chod statudol, yn enwedig y Cod yr Hyn sy'n Bwysig, yn rhan annatod o ddeall sut y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn gweithio'n ymarferol. Er bod y wybodaeth a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn rhoi syniad, pe bai'r Codau a'r holl ganllawiau terfynol wedi bod ar gael, credwn y gallai fod wedi helpu i dawelu ein meddwl ni, ac eraill, ynghylch digonolrwydd y manylion pwysig a fydd yn rhoi cnawd ar esgyrn y Bil hwn.

**111.** Nodwn fod y Bil yn ceisio taro cydbwysedd bregus rhwng hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol. Rydym yn credu bod risgiau sylweddol i'r dull hwn os na chaiff mesurau diogelu eu rhoi ar waith i sicrhau bod disgyblion ym mhob rhan o Gymru yn cael addysg ddigon cyson. Mae hyn yn bryder arbennig yn achos lleoliadau sy'n wynebu anawsterau ar hyn o bryd, neu blant sydd eisoes dan anfantais. Rydym yn ceisio sicrwydd pellach ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau y bydd pob lleoliad a phob dysgwr yn ffynnu o dan y cwricwlwm newydd ac na fydd yr anghydraddoldebau presennol yn gwaethygu. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd o ran sut y caiff hyn ei fonitro.

**112.** Rydym o'r farn y bydd llwyddiant dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd yn dibynnu i raddau helaeth ar ddysgu proffesiynol digonol a goresgyn heriau ehangach wrth weithredu. At hynny, rydym yn credu y bydd angen sicrhau bod dulliau gwirio a gwrthbwyso pwysig ar waith i sicrhau bod cwricwla ysgolion yn briodol. Bydd gan Estyn, y consortia rhanbarthol a chyrff llywodraethu ran hanfodol i'w chwarae.

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1:

- sut y mae wedi sicrhau ei hun fod y Bil wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol;
- pa ddulliau gwirio a gwrthbwyso y bydd yn eu rhoi ar waith i fonitro a chynnal y cydbwysedd cywir, gan gynnwys sicrhau bod cwricwla ysgolion unigol yn briodol; a
- beth arall y gall ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn lleoliadau ym mhob rhan o Gymru yn cael cynnig addysg digon cyson (ond nid o reidrwydd addysg unffurf) ac yn ffynnu o dan y dull a ddilynir yn y cwricwlwm newydd.

## Rhagolygon o ran safonau a'r bwlch cyrhaeddiad

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**113.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweld diwygio'r cwricwlwm fel cyfrwng ar gyfer codi safonau addysgol ac mae'n rhan ganolog o'i chynllun gwella ysgolion, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'.[92] Dywedodd y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf 2020:

> "…mae ein diwygiadau addysg, gyda'r cwricwlwm newydd yn ganolbwynt iddynt, hefyd yn ymdrech genedlaethol a rennir: arbenigedd, profiad ac egni cyfunol, fel ein bod yn codi safonau i bawb, yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ac yn sicrhau bod gennym system addysg yng Nghymru sy'n destun balchder ac yn ennyn hyder y cyhoedd."[93]

**114.** Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys unrhyw ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i opsiynau amgen i'r dull a nodir yn y Bil. Mae'n trafod dau opsiwn: cadw'r drefn bresennol neu gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru trwy'r Bil.

**115.** Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi hirsefydlog i fynd i'r afael â'r cysylltiad negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol, ac mae'n targedu cyllid atodol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion mewn ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.[94]

**116.** Yn un o'n sesiynau blaenorol i graffu ar y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2019, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y posibilrwydd y gallai dull y cwricwlwm newydd waethygu'r amrywiad rhwng disgyblion oherwydd diffyg cysondeb yn yr hyn a addysgir. Atebodd y Gweinidog:

> "I would never undertake a policy reform that I thought would lead to less equity in the Welsh education system. Closing the attainment gap is a core element of the national mission for education in Wales and we

[92] Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl

[93] Y Cyfarfod Llawn [paragraff 348], 8 Gorffennaf 2020.

[94] I gael rhagor o wybodaeth am y maes polisi hwn, gweler ein hadroddiad ar ein hymchwiliad, Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol, Mehefin 2018.

> would not proceed with anything that we thought could lead to an exacerbation of an achievement gap."[95]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**117.** Roedd sefydliadau ymbarél sy'n cynrychioli llywodraeth leol yn hyderus y byddai'r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn disgwyl gweld gwelliant o ran safonau, canlyniadau a phrofiad er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal,[96] tra dywedodd CLlLC wrthym:

> "…gyda'r cwricwlwm newydd, mae fyny i bob ysgol nawr i gynllunio ac i ddatblygu cwricwlwm eu hunain, a nhw sy'n adnabod eu plant nhw yn fwy na neb arall. Felly, fe ddylai, wedyn, godi safonau."[97]

**118.** Roedd y gwahaniaeth barn ynghylch a fydd dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cefnogi neu'n rhwystro ymdrechion i godi safonau ac yn cau'r bwlch cyrhaeddiad yn amlwg yn y dystiolaeth a gawsom.

**119.** Cyn cyflwyno'r Bil, clywsom gan Dr Nigel Newton yn Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru am ei ymchwil i effaith bosibl y cwricwlwm newydd i Gymru ar ddisgyblion difreintiedig.[98]

**120.** Disgrifiodd Dr Newton "dybiaeth ensyniedig" y bydd y cwricwlwm newydd yn fuddiol i bawb heb fawr ddim ystyriaeth o ran sut y bydd yn effeithio ar ddisgyblion dan anfantais. Rhoddodd rhagor o gyd-destun wrth ddweud:

> "Ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod mabwysiadu cwricwla newydd, yn gyffredinol, yn cynhyrchu gwelliannau sylweddol o ran canlyniadau dysgu i ddysgwyr dan anfantais mwy. (…)
>
> [Ceir] pryderon y gallai cynyddu hyblygrwydd a pherthnasedd arwain at gwricwlwm sy'n wahaniaethol iawn, wedi'i haenu hyd yn oed, a fydd yn dwysáu anfanteision."[99]

---

[95] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 18 Medi 2019.

[96] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 20 Gorffennaf 2020.

[97] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 17], 20 Gorffennaf 2020.

[98] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2019.

[99] Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, Dyfodol llwyddiannus i bawb: Ymchwiliadau i ddiwygio'r cwricwlwm, Gorffennaf 2019.

**121.** Rydym yn nodi y gwnaed pwyntiau tebyg mewn erthygl gan y Sefydliad Materion Cymreig (IWA) gan Gareth Evans, 'A liberated curriculum risks entrenching inequality', ym mis Tachwedd 2019. Roedd yn awgrymu:

> "More freedom for teachers is no bad thing but losing national consistency could lead to generations of learners falling further behind their peers."[100]

**122.** Rydym yn nodi hefyd y cafwyd beirniadaeth o'r effaith y mae'r Cwricwlwm er Rhagoriaeth yn yr Alban, a gafodd ei ddylanwadu hefyd gan yr Athro Donaldson ac sy'n dilyn egwyddorion tebyg i'r Cwricwlwm i Gymru, wedi'i chael ar safonau. Mae Dr Jim Scott o Brifysgol Dundee wedi cyflwyno canfyddiadau sydd yn ei dyb e'n dangos:

> "…sustained trends of decline in overall attainment at Scottish Credit and Qualifications Framework (SCQF) levels 3-6 coinciding with the introduction of Curriculum for Excellence and new National Qualifications, greater success at SCQF 7, a widening of the 'attainment gap' between the most able and least able, an increase in learners leaving school with no qualifications, a range of subject areas where attainment has significantly to very significantly declined and a reversal of previous long-term patterns of increased attainment at SCQF levels 6-7."[101]

**123.** Yng Nghymru, dywedodd Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi (Estyn) y dylai'r cwricwlwm newydd gael effaith gadarnhaol ar safonau a chyfeiriodd at yr angen am newid:

> "I think it's important to make the point that what we've got currently is modest incremental improvements in standards linked to modest improvements in provision. And I've said this before: if we want to see significant improvements in standards and in outcomes, you need to see substantial change—a step change in provision. And I think that is the case for education reform, that you need that step change, and that's the whole purpose of education and curriculum reform. (…)

[100] Y Sefydliad Materion Cymreig, Gareth Evans, A liberated curriculum risks entrenching inequality, Tachwedd 2019.

[101] Dr Jim Scott, Widening The Gap? Curriculum for Excellence and Attainment Patterns in National Examinations in Scottish Schools, 2019.

> So, I think we can be confident that the curriculum that's being offered here is better. (…)
>
> … the current curriculum hasn't helped to reduce variability and that's partly due to the lack of ownership or flexibility that teachers and pupils have. Teachers and pupils react differently to the current context and I think that's why it needs to be replaced. That's an argument for change really. The new curriculum is based on the latest research. It allows for more varied teaching and learning approaches and that doesn't mean greater variety in quality necessarily. It should lead to improved teaching and learning."[102]

**124.** Dywedodd consortiwm Gogledd Cymru, GwE, hefyd nad yw'r trefniadau presennol yn cyflawni digon o gynnydd:

> "… os ydyn ni'n edrych ar beth sydd gennym ni ar hyn o bryd, dydy hwnnw ddim yn cau'r bwlch chwaith (…)
>
> …mae hynny'n mynd i fod yn her oesol inni (…)
>
> Mae yna fwlch yn wastad, buaswn i'n tybio, yn mynd i fod. Mae'n debyg mai cwricwlwm lleol ydy'r arf gorau, wedyn, i symud a chau'r bwlch penodol yna."[103]

**125.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd fod angen i lywodraethau fod yn uchelgeisiol o ran gweithredu newid:

> "I think in the long term this is certainly the right approach, and I think that there's generally something within public sector service delivery and policy making where often we stick with the status quo because it's a bit safer than taking the risk of moving. But I think you have to also take into account the risk of sticking with the status quo—a curriculum that is outdated and not fit for purpose—and you have to balance that risk against what are the potential challenges of moving to this new system."[104]

---

[102] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 36-39], 17 Medi 2020.

[103] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 199-200], 20 Gorffennaf 2020.

[104] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 8 Hydref 2020.

**126.** Fodd bynnag, rhybuddiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd y gallai'r heriau yn sgil gweithredu newid diwylliannol ar y raddfa hon gynyddu'r bwlch rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r ysgolion sy'n perfformio waethaf ac na ddylai'r cwricwlwm newydd wneud yr anghydraddoldebau presennol yn waeth.[105]

**127.** Pan ofynnwyd iddo pa mor hyderus ydoedd y byddai'r gwelliannau y mae'n eu rhagweld o ganlyniad i'r newidiadau i'r cwricwlwm yn digwydd mewn gwirionedd, dywedodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi:

> "I can't say here that there's a guarantee because I can't foresee the future. (…)
>
> …it would be very disappointing if all that international research, all the input of practitioners in this country had got it really, really wrong. I think it is about improving the teaching and learning experiences and all the research shows that actually that helps disadvantaged learners disproportionately. It helps them more than anyone else if we increase and improve the teaching and learning."[106]

**128.** Dywedodd Cymwysterau Cymru fod y cwricwlwm newydd ynddo'i hun yn annhebygol o arwain at newid mawr neu gael effaith fawr ar safonau ond, ynghyd â'r diwygiadau ehangach, gallai ysgogi newid ar draws y system gyfan.[107]

**129.** Dywedodd Cyngor Abertawe y gallai diffyg cydraddoldeb o ran yr hyn a addysgir roi disgyblion o gefndiroedd tlotach dan fwy o anfantais, gan eu bod yn llai tebygol o gael gwybodaeth, sgiliau a phrofiad o'u cefndir teuluol a'u cyfoedion.[108] Ar y llaw arall, dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith y dylai'r Bil gyd-fynd yn agos â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac y bydd hyblygrwydd yn arbennig o bwysig o ran caniatáu i ysgolion ddarparu cymorth gwahanol i wahanol ddysgwyr fodloni disgwyliadau a mynd i'r afael â bylchau o ran cyrhaeddiad.[109]

---

[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 55 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

[106] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 41], 17 Medi 2020.

[107] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 17 Medi 2020.

[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 142 – Cyngor Abertawe.

[109] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 145 – Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Cymru.

**130.** Mae'r Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (2) yn croesawu'r syniad o ddirprwyo'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm i'r pennaeth mewn egwyddor, cyn belled â'i fod yn ystyried y dull system gyfan a thraws-sector ehangach, a bod amser priodol yn cael ei neilltuo i gyd-gynhyrchu'r cynllun i gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol.[110]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**131.** Ar ôl i ni ddweud wrth y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagdybiaeth eithaf mawr y bydd y cwricwlwm newydd yn arwain at wella ysgolion, atebodd fod y fath safbwynt yn awgrymu bod y safonau'n gwbl foddhaol ar hyn o bryd:

> "Now, the question suggests, … if you don't mind me saying, that the current curriculum currently meets the needs of all children and, therefore, allows all children to excel. We all know, and you all know, from sitting in the committee, that that is not the case. So, the argument that sticking with the status quo alone will address issues around the attainment gap I don't believe necessarily bears out."[111]

**132.** Cydnabu'r Gweinidog na fydd y cwricwlwm ynddo'i hun yn arwain yn awtomatig at wella safonau a bod hynny'n elfen allweddol o strategaeth ehangach:

> "…the curriculum, of course, is only one aspect of a raft of education policies that are needed to address the attainment gap. But I do believe that the curriculum, in the way that we are proposing, certainly gives our teachers the best chance to develop an education system that truly meets the needs of individuals.[112]

**133.** Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ategu pam y byddai safonau'n gostwng oherwydd bod ysgol unigol yn cynllunio ei chwricwlwm ei hun, gan nodi mai 'damcaniaeth' oedd hynny. Dywedodd hefyd y

---

[110] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 88 – Rhaglen gyda'n gilydd dros blant a phobl ifanc (2).

[111] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 7], 14 Gorffennaf 2020.

[112] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 7], 14 Gorffennaf 2020.

bydd y system gwella ysgolion, yn enwedig Estyn a'r consortia rhanbarthol, yn parhau i herio a chefnogi ysgolion i godi safonau.[113]

**134.** Dywedodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru yn dysgu o brofiad yr Alban ond, yn ei barn hi, fod unrhyw broblemau a gafwyd yno yn fwy cysylltiedig â gweithredu yn hytrach na dull y cwricwlwm:

> "I think, in Scotland, it's fair to say that it's not the principles of the curriculum that they have struggled with—it has been implementation that, perhaps, they have struggled with. Initially, I think—if you read the commentary—that people were concerned about a lack of scaffolding and guidance to individual schools, and, in reaction to that, then schools were overwhelmed and swamped with huge amounts of implementation guidance. So, we've looked at that about ensuring we get the balance right."[114]

**135.** Yn ei thystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd yn dilyn ein sesiynau tystiolaeth lafar, eglurodd y Gweinidog ymhellach pam ei bod yn teimlo y byddai'r dull yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei weithredu yn ategu yn helpu ysgolion i wella yn hytrach na'u rhwystro. Dywedodd fod y fframwaith cenedlaethol a'r seilwaith yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb ar draws y system, gan gynnwys cau'r bwlch cyrhaeddiad a chodi safonau.[115]

**136.** Dywedodd y Gweinidog y byddai dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm newydd yn gwella'r cymorth i grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai o gartrefi incwm isel, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol:

> "… the guidance provides details on ensuring that schools consider the needs of all of their learners, and learners will have a wide range of needs and backgrounds, and the framework offers schools and practitioners that agency that we were talking about at the beginning, rather than slavishly having to follow a national diktat. (…)
>
> … this balance between a national requirement and the individual ability of a school to develop a curriculum that meets the needs of the

[113] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 14 Gorffennaf 2020.

[114] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 14 Gorffennaf 2020.

[115] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

> cohort of those children gives us a better chance of developing a curriculum that is really relevant to those children."[116]

**137.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod y Bil yn cyd-fynd â'r dull o gynllunio'r cwricwlwm a hyrwyddir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, y mae Cymru yn cymryd rhan ynddi bob tair blynedd. Dywedodd fod y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn gefnogol iawn o'r cyfeiriad y mae'r cwricwlwm yn mynd iddo.[117]

**138.** Cyflwynodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd adroddiad ym mis Hydref 2020:

> "Wales has successfully mapped out its policy plan to move away from what had become a highly prescriptive national curriculum, to one that focuses on the future, is adapted to learners' diverse needs and puts the teachers and principals back into positions of leaders of learning and teaching. The policy vision is clear and looks to the long term."[118]

**139.** Fodd bynnag, tynnwyd sylw at sawl her o ran gweithredu, a drafodir ym mhennod 12, gan rybuddio hefyd:

> "There is a risk of inequalities increasing due to the challenges that disadvantaged schools can have in implementing the curriculum, which accentuates the need for clarifying resources available for schools."[119]

**140.** O ran y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "PISA tests, as you well know, look beyond simple knowledge acquisition. They look at how children utilise the knowledge that they acquire and it is often very much a skills-based and application-of-knowledge assessment. In the past, we have struggled in that. This curriculum has much more focus on not only knowledge acquisition,

---

[116] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , Cofnod y Trafodion [paragraff 23], 21 Hydref 2020.

[117] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 14 Gorffennaf 2020

[118] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Achieving the new Curriculum for Wales, Hydref 2020.

[119] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Achieving the new Curriculum for Wales, Hydref 2020.

> but skills acquisition and the ability to apply your knowledge, which would be very much in line with the attributes that PISA tests examine."[120]

**141.** Y llynedd, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad oedd Cymru'n cymryd rhan yn yr elfen Meddwl Creadigol yng nghylch 2022 o'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr,[121] er gwaetha'r ffaith bod agweddau tebyg, yn ôl pob golwg, i'r dull ar gyfer y cwricwlwm newydd. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yr amseru'n gyfleus, oherwydd y bydd ysgolion o dan lawer o bwysau eraill, ac y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu cymryd rhan mewn cylchoedd yn y dyfodol.[122]

## Ein barn a'n hargymhellion: rhagolygon o ran safonau a'r bwlch cyrhaeddiad

**142.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod gobaith sylweddol ymhlith rhanddeiliaid y bydd y cwricwlwm newydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ymdrechion parhaus i wella ysgolion.

**143.** Nodwn farn y Gweinidog, er na fydd y cwricwlwm ynddo'i hun yn arwain yn awtomatig at wella ysgolion, ei bod yn credu ei fod yn rhan allweddol o strategaeth ehangach i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Nodwn ymhellach ei barn nad oes tystiolaeth i awgrymu y bydd safonau'n gostwng oherwydd y bydd ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm eu hunain.

**144.** Er nad ydym yn anghytuno, ni welsom unrhyw dystiolaeth glir y bydd y cwricwlwm newydd yn arwain at safonau uwch. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog nad yw'r drefn bresennol yn cyrraedd y nod, ond pwysleisiwn fod angen sicrhau bod unrhyw newid a wneir yn newid *cywir*.

**145.** O ran y nod o wella safonau ysgolion, nid yw'n glir i ni a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau heblaw'r dull penodol hwn ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac os felly, sut y gwnaeth hynny. Fel y nodwn ym mhennod 13 sy'n ymwneud â goblygiadau ariannol, nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil (sydd, ymhlith pethau eraill, yn nodi'r opsiynau ar gyfer gweithredu a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru) yn cyfeirio at ystyried unrhyw ddewisiadau amgen heblaw cadw'r trefniadau presennol. Mae hyn yn rhoi cryn dipyn o ffydd yn y model

[120] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 14 Gorffennaf 2020.

[121] Cynhelir cylch 2021 o'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn 2022 yn awr oherwydd COVID-19.

[122] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 104-204], 18 Medi 2019.

cwricwlwm penodol hwn i helpu i gyflawni'r gwelliant addysg yr ydym i gyd am ei weld.

**146.** Yng ngoleuni hyn, credwn y bydd yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru gadw llygad barcud ar yr effaith y mae diwygio'r cwricwlwm yn ei chael ar safonau, a sicrhau ei bod yn ategu'r ymdrechion ehangach i wella ysgolion.

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r effaith y mae diwygio'r cwricwlwm yn ei chael ar safonau yn ofalus ac yn dryloyw, er mwyn sicrhau ei bod yn ategu'r ymdrechion ehangach sydd ar y gweill i wella ysgolion. Dylai'r gwaith hwn ddefnyddio cyngor arbenigol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill fel sail.

**147.** Rydym yn pryderu'n fawr am gasgliad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a ddyfynnwyd ym mharagraff 139 uchod, fod risg y bydd anghydraddoldebau'n cynyddu oherwydd yr heriau y gall ysgolion difreintiedig eu cael wrth weithredu'r cwricwlwm. Rydym yn cytuno â'r Sefydliad fod hyn yn dwysáu'r angen i nodi'n glir yr adnoddau fydd ar gael i ysgolion. Credwn hefyd fod hyn yn tynnu rhagor o sylw at yr angen i fonitro'n agos unrhyw amrywiad yn y cwricwlwm a ddarperir ac unrhyw effaith y mae hynny'n ei chael ar grwpiau penodol o ddisgyblion ac ysgolion. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o waethygu anfantais yn anfwriadol a rhaid iddi warchod rhagddynt.

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos unrhyw amrywiad yn y cwricwlwm a ddarperir ac unrhyw effaith y mae hynny'n ei chael ar grwpiau penodol o ddisgyblion ac ysgolion, gan fynd ati'n gynnar i ymdrin ag unrhyw arwyddion o waethygu anfantais ac anghydraddoldeb yn anfwriadol.

**148.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn elfen Meddwl Creadigol y Rhaglen Rhyngwladol Asesu Myfyrwyr yn 2022 (a ohiriwyd o 2021). Yng ngoleuni'r cysylltiadau clir â dull y cwricwlwm newydd, credwn ei bod yn werth rhoi ystyriaeth bellach i gymryd rhan yn yr elfen hon o'r Rhaglen yng nghylchoedd y dyfodol.

**Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i gymryd rhan yn elfen Meddwl Creadigol y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yng nghylchoedd y dyfodol, yng ngoleuni'r cysylltiadau clir rhwng yr elfen hon â dull y cwricwlwm newydd.

# 4. Manylion ar wyneb y Bil

Mae'r Bil yn nodi'r prif egwyddorion trefniadol ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd llawer o fanylion yr hyn a addysgir o fewn y meysydd dysgu a phrofiad eang yn cael eu cynnwys mewn Codau a chanllawiau statudol a gyhoeddir o dan y Bil.

Mae yna lawer o alwadau i gael cyfeiriadau mwy penodol at rai eitemau dysgu yn y Bil a / neu'r Codau a'r canllawiau. Mae'r Comisiynydd Plant wedi galw am gynnwys dyletswydd sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, fel yn achos ambell ddeddfwriaeth ddiweddar arall.

**149.** Fel y trafodwyd mewn penodau blaenorol, mae'r Bil yn ymdrin â'r cwricwlwm mewn ffordd eithaf amhenodol. Mae Llywodraeth Cymru am symud i ffwrdd o fodel y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol, lle mae'r ddeddfwriaeth yn rhestru pynciau i'w haddysgu a lle mae gan bob pwnc raglen astudio sy'n rhestru'r cynnwys. Mae hyn yn cyfateb yn fras i'r hyn a argymhellodd yr Athro Graham Donaldson yn 'Dyfodol Llwyddiannus'.

**150.** Yn ychwanegol at y ddadl sy'n rhedeg drwy'r dystiolaeth a gafwyd ynghylch manteision ac anfanteision hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol, mae yna ystod debyg o safbwyntiau ynghylch a oes angen manylu'n fwy penodol ar bynciau, disgyblaethau a setiau sgiliau penodol (y cyfeiriwn atynt fel "eitemau" drwy'r bennod hon) yn y Bil a/neu ei Godau a'i ganllawiau cysylltiedig.

**151.** Ceir sylwadau hefyd ynghylch a yw darnau perthnasol o ddeddfwriaeth, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â hawliau plant a llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yn cael eu hystyried yn ddigonol ar wyneb y Bil ac fel rhan o'r dull ehangach o ymdrin â'r cwricwlwm newydd.

## Prif egwyddorion trefniadol y Cwricwlwm newydd i Gymru, sydd wedi'u nodi ar wyneb y Bil.

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**152.** Fel yr amlinellwyd mewn penodau blaenorol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'i strwythuro o amgylch pedwar diben, chwe maes dysgu a phrofiad, tri sgìl trawsgwricwlaidd, pedair elfen orfodol, a sawl gofyniad cwricwlwm. Bydd manylion eraill y cwricwlwm yn cael eu cynnwys mewn tri Chod statudol a chyfres o ganllawiau statudol.

**153.** Mae adran 2 o'r Bil yn gosod pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm, sef galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu:

- yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

**154.** Mae adran 3 yn sefydlu chwe maes dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol;
- Iechyd a Lles;
- Y Dyniaethau;
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Mathemateg a Rhifedd;
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

**155.** Mae adran 4 yn pennu tri sgìl trawsgwricwlaidd gorfodol:

- Cymhwysedd Digidol;
- Llythrennedd;
- Rhifedd.

**156.** Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r meysydd dysgu a phrofiad a'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol drwy reoliadau o dan weithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd.[123] Nid oes pŵer o'r fath i ddiwygio'r dibenion drwy is-ddeddfwriaeth, sy'n golygu y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hynny. Mewn sesiwn friffio dechnegol ar 7 Gorffennaf 2020, esboniodd Llywodraeth Cymru mai'r rheswm am hyn oedd bod y dibenion mor sylfaenol i ethos y cwricwlwm fel mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y dylai unrhyw newid iddynt fod yn bosibl.[124]

**157.** Nid oes rhagor o fanylion ar wyneb y Bil ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei ddysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn canllawiau statudol a gyhoeddir o dan y ddeddfwriaeth a Chod yr Hyn sy'n Bwysig, a fydd yn nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad. Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio'r rhain fel 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' ac maent wedi eu cynnwys yn nogfennaeth y cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020.

**158.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi tri Chod statudol:

- Cod yr Hyn sy'n Bwysig (a drafodir yn y bennod hon);
- Y Cod Cynnydd (gweler pennod 11 o'r adroddiad hwn);
- Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (gweler pennod 6 o'r adroddiad hwn).

**159.** Yn unol ag adran 6 o'r Bil, mae'n rhaid i'r cwricwlwm a addysgir gwmpasu'r cysyniadau a nodir yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig. Bydd canllawiau statudol yn rhoi rhagor o fanylion am y cysyniadau hyn ynghylch yr hyn sy'n bwysig a'r hyn y gellir/y dylid ei gwmpasu ym mhob maes dysgu a phrofiad.

**160.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i God yr Hyn sy'n Bwysig gael ei wneud o dan uwch-weithdrefn negyddol y Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth.[125]

---

[123] Mae'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth oni fydd y Senedd wedi gwneud penderfyniad i gymeradwyo drafft o'r is-ddeddfwriaeth.

[124] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Briff technegol Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth sydd ar ddod, 7 Gorffennaf 2020.

[125] O dan yr uwch-weithdrefn negyddol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a gosod drafft gerbron y Senedd am gyfnod nad yw'n llai na 40 diwrnod. Os bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod, ni chaniateir ei gyhoeddi. Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod ar ffurf y drafft.

**161.** Cyfeiriwyd yn nogfennaeth y cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 at bedwar 'sgìl cyfannol', y dylid eu datblygu o fewn amrywiaeth eang o addysgu a dysgu, er mwyn ategu'r pedwar diben: dyma'r sgiliau cyfannol, na chyfeirir atynt yn y Bil:

- Creadigrwydd ac arloesedd;
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau;
- Effeithiolrwydd personol;
- Cynllunio a threfnu.[126]

**162.** Mae adran 3 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bedair elfen orfodol gael eu haddysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad:

- Saesneg (gweler pennod 5 o'r adroddiad hwn);
- Cymraeg (gweler pennod 5 o'r adroddiad hwn);
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) (gweler pennod 6 o'r adroddiad hwn);
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (gweler pennod 7 o'r adroddiad hwn).

**163.** Mae adran 10 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid unigol gynllunio cwricwlwm ar gyfer eu hysgolion. Yn ogystal â chwmpasu'r pedwar diben, y chwe maes dysgu a phrofiad, y tri sgìl trawsgwricwlaidd a'r pedair elfen orfodol, rhaid i gwricwlwm ysgolion gydymffurfio â'r gofynion a bennir yn adrannau 21 i 23 o'r Bil, sef:

- Rhaid i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer cynnydd priodol.
- Rhaid i'r cwricwlwm fod yn addas i ddisgyblion, neu blant, o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol.
- Rhaid i'r cwricwlwm fod yn eang ac yn gytbwys.

**164.** Mae adran 30 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid gweithredu cwricwlwm ysgolion hefyd mewn ffordd sy'n ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ALN) sydd gan ddisgyblion.

[126] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022, tudalen 216, Ionawr 2020.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**165.** Mae cefnogaeth eang i'r pedwar diben, y chwe maes dysgu a phrofiad a'r tri sgìl trawsgwricwlaidd, a nodir ar wyneb y Bil. Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn teimlo bod y rhain yn briodol ac yn cwmpasu'r hyn y dylai plant a phobl ifanc ei ddysgu o dan y cwricwlwm newydd.

**166.** Dywedodd Estyn fod y ddarpariaeth statudol, ar y cyfan, yn edrych yn synhwyrol[127], ac roedd Cymwysterau Cymru yn credu bod y cysyniadau allweddol, hanfod sylfaenol y dysgu a'r dibenion yn gwbl synhwyrol a bod strwythur rhesymegol iddynt.[128]

**167.** Cytunodd undebau'r prifathrawon fod y manylion ar wyneb y Bil yn addas, er bod Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn teimlo bod angen atgyfnerthu ymrwymiad y ddeddfwriaeth i arfer yn seiliedig ar ymchwil o bosibl.[129]

**168.** Nododd y Comisiynydd Plant fod y pedwar diben yn gyson ar y cyfan â'r diffiniadau a'r nodau addysg, fel y'u nodir yn Erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.[130] Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod y pedwar diben yn seiliedig ar y pŵer i ennill sgiliau ar gyfer llesiant unigol a chenedlaethol ehangach.[131]

**169.** Lle mae pryderon a hepgoriadau canfyddedig ym manylion y cwricwlwm, mae'r rhain yn tueddu i arwain at alwadau am ychwanegu mwy o elfennau gorfodol ar wyneb y Bil neu at alwadau am sicrwydd y byddant yn cael sylw penodol yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol ar y meysydd dysgu a phrofiad.

**170.** Fel y dengys y crynodeb o dystiolaeth ysgrifenedig a baratowyd gan Wavehill ar ran y Pwyllgor, soniodd yr ymatebwyr am sawl pwnc, disgyblaeth a sgìl nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu hadlewyrchu a'u hyrwyddo'n ddigonol yn y cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn cynnwys ystod amrywiol o bynciau, gan

[127] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 17 Medi 2020.

[128] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 18], 17 Medi 2020.

[129] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 24], 24 Medi 2020.

[130] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

[131] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 55 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

gynnwys Ieithoedd Tramor Modern a'r Dyniaethau. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer eitemau y gellid rhoi lle amlycach iddynt, gan gynnwys—ymhlith eraill—iechyd meddwl, Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a hanes Cymru, cymorth cyntaf ac achub bywyd.

**171.** Y rheswm am hyn yw'r canfyddiad nad yw'r eitemau a nodir yn cael digon o sylw yn yr ysgol ar hyn o bryd, neu y bydd cynllun y cwricwlwm yn arwain at lai o sylw iddynt yn yr ysgol. Pryder arall ymhlith ymatebion tebyg oedd na fyddai'r eitem neu bwnc dan sylw yn cael digon o sylw oni osodir disgwyliadau ar ysgolion i'w haddysgu, naill ai trwy fandadu ysgolion, neu drwy roi rhagor o gefnogaeth ac adnoddau iddynt.[132]

**172.** Mae rhywfaint o gonsensws o blaid meithrin dull hyblyg ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid yn awyddus y dylid rhoi blaenoriaeth i'w maes diddordeb penodol hwy, ac yn galw—yn yr achosion penodol hynny—am eithriad i gael ei wneud i'r hyblygrwydd cyffredinol hwnnw. Trafodir rhai o'r meysydd hyn yn nes ymlaen yn y bennod hon.

**173.** Gofynnodd Sylfaen Cymru gwestiwn a oedd yn debyg i'r hyn a ofynnwyd gan lawer o randdeiliaid ynghylch sut y nodwyd bod y pedair elfen orfodol yn y Bil yn gwarantu statws o'r fath pan allent gael eu cynnwys o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Dyma'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arno o ran sawl eitem arall, y gellid dadlau eu bod yr un mor bwysig. Ysgrifennodd Sylfaen Cymru:

> "In order to satisfactorily achieve the Four Purposes, sufficient attention must be given to the detail that makes up the guidance for the AoLEs, and the mandatory cross-curricular skills, and how these mandatory areas are identified: in other words, what is it about them that necessitates their mandatory status; how this will be delivered, and is there anything missing which could be identified now, rather than having to make significant amendments to the legislation at a later date. (…)
>
> One could give fresh consideration to what must be categorised as mandatory: how these are decided upon?"[133]

**174.** Mae Sylfaen Cymru yn dadlau y dylai gwybodaeth a chyfranogiad dinesig fod yn elfen orfodol ac maent yn cyferbynnu'r sylw a roddir yn y Bil i hyn a llawer o feysydd eraill â'r flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Ym

[132] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad, Hydref 2020.

[133] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 210 – Sylfaen Cymru Cyf.

marn Sylfaen Cymru, nid yw'r Bil yn llwyddo i esbonio pam y cyfeirir yn benodol at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel pwnc pwysicach na'r Dyniaethau eraill y gellid eu hystyried yn wybodaeth ddinesig hanfodol.[134]

**175.** Mae ymatebydd arall yn tynnu sylw at yr hyn y mae rhai yn ei ystyried yn ddull anghyson o wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn a ddylai ac na ddylai fod yn elfennau gorfodol. Mae'n gofyn sut y gall Llywodraeth Cymru gyfiawnhau cynnwys rhai pethau fel pethau gorfodol ond nid eraill.[135]

**176.** Mae awydd llawer i rai eitemau gael eu haddysgu o dan y cwricwlwm newydd wedi arwain at nifer o alwadau i feysydd gwaith gael eu gwarantu. Adlewyrchir hyn mewn deisebau diweddar a gyflwynwyd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, i Bwyllgor Deisebau'r Senedd a oedd yn galw i'r eitemau a ganlyn fod yn orfodol yn y Cwricwlwm i Gymru:

- Hanes Pobl dduon a phobl groenliw (PoC);
- Hanes Cymru;
- Gwrth-hiliaeth;
- Cymorth cyntaf a Dadebru Cardio-anadlol (CPR);
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol;
- Dysgu amaethyddiaeth Addysg Cefn Gwlad;
- Astudiaethau Natur;
- Rôl Cymru yn hanes trefedigaethol Prydain;
- Cymru'n gwladychu Patagonia;
- Cymorth cyntaf iechyd meddwl;
- Hanes LHDTC;
- Alergeddau bwyd a hyfforddiant EPI PEN;
- Diogelwch dŵr;
- Llesiant mislifol:

[134] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 210 – Sylfaen Cymru Cyf.
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 8 – Unigolyn.

**177.** Ar y cyd â'r Pwyllgor Deisebau, gwnaethom ysgrifennu at y deisebwyr hyn a thynnu eu sylw at ein galwad am dystiolaeth ysgrifenedig.

**178.** Roedd dwy o'r deisebau hyn – hanes pobl dduon a phobl groenliw, a hanes Cymru – yn destun dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Tachwedd 2020.[136]

**179.** Mae'r undebau addysgu o'r farn ei bod yn bwysig cadw'r cwricwlwm newydd yn amhenodol, fel y cynigir gan y Bil. Dywedodd penaethiaid cynrychioliadol, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau eu bod yn fodlon â'r hyn sydd ar wyneb y Bil ac nad oes unrhyw hepgoriadau yn eu barn hwy.[137]

**180.** Dywedodd UCAC:

> "…dwi'n credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod ni'n cadw'r rhestr o elfennau mandadol mor gryno â phosib, a'n bod ni'n ffeindio statws neu le arall yn y trefniadau ar gyfer elfennau eraill rŷn ni'n teimlo sydd yn bwysig—canllawiau neu adnoddau manwl. Ond dwi'n credu bod ethos y cwricwlwm newydd yn gofyn inni gadw'r rhestr o elfennau mandadol yn fyr."[138]

**181.** Cytunodd NASUWT:

> "… I think [UCAC are] right in terms of the ethos of the new curriculum. I think there were large numbers of groups with outstanding and very strong arguments for particular elements that they would like to see in the curriculum, but you very quickly get into a situation of overcrowding as 'this is a slotted in, that is slotted in' and the next issue is slotted in, and we're back to where we started, really."[139]

**182.** Rhybuddiodd nifer o ymatebwyr na ddylid defnyddio'r pŵer sydd ar gael i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ychwanegu meysydd dysgu a phrofiad trwy reoliadau mewn ffordd sy'n tanseilio egwyddorion gwreiddiol y Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd Estyn:

---

[136] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd 2020.

[137] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 101-106], 24 Medi 2020.

[138] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 295], 24 Medi 2020.

[139] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 301], 24 Medi 2020.

> "In particular, where additions to the areas of learning and experience are made or changes to cross-curricular skills, there will be a need to consider how to protect the curriculum from becoming overloaded or too prescriptive. Regard should be given to how the principle of subsidiarity can be maintained when Ministers exercise this function."[140]

**183.** Ysgrifennodd Cyngor y Gweithlu Addysg:

> "…whilst the powers to [sic] provide the opportunity for Ministers to make sure that schools are addressing important topics, the Council believes that it will also be important to ensure that the new curriculum does not incrementally become over-prescriptive. We also believe that it is of the utmost importance that powers are not used in such a way that undermines the principles of a curriculum that is designed at a local level by professionals within schools (the key principle of subsidiarity outlined by Professor Donaldson)."[141]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**184.** Mewn ymateb i ddeisebau amrywiol ynghylch cynnwys y cwricwlwm, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthsefyll galwadau am elfennau gorfodol ychwanegol ar wyneb y Bil, gan ddweud y byddai hyn yn tanseilio egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae hefyd wedi tynnu sylw at y canllawiau statudol dros dro ar y meysydd dysgu a phrofiad (Ionawr 2020) fel rhai sy'n dangos y bydd cyfleoedd i addysgu eitemau o'r fath. Er enghraifft, mewn ymateb i ddeiseb ynghylch diogelwch dŵr yn 2019, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae Dyfodol Llwyddiannus wedi ein herio i feddwl eto am ein hagwedd at y cwricwlwm. Mae'n nodi'n glir bod lefel uchel o ragnodi a manylder ar lefel genedlaethol yn cyfyngu ar "y llif a'r dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc". O ganlyniad, mae angen i ni sicrhau nad yw'r cwricwlwm newydd yn darparu rhestr gynhwysfawr o gynnwys manwl a fyddai'n mynd yn gymhleth ac yn orlawn yn gyflym iawn. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm roi'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol ddewis y cynnwys penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr ac yn adlewyrchu eu cyd-destunau lleol. Gydol y broses, buom yn gweithio

[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 20 – Estyn.

[141] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 111 – Cyngor y Gweithlu Addysg.

> gydag ymarferwyr i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hyblygrwydd ar lefel ysgol ac eglurder ar lefel genedlaethol."[142]

**185.** Yn ein sesiwn tystiolaeth lafar gyntaf ar y Bil, dywedodd y Gweinidog:

> "there is a natural tension, and I understand it, that people want specific issues put on the face of the Bill, or a specific thing that people absolutely want clarity about what is taught, and potentially the code is another way of putting that straitjacket on the decisions of individual teachers."[143]

**186.** Wrth wrthsefyll galwadau am elfennau gorfodol ychwanegol ar wyneb y Bil a dibynnu yn hytrach ar yr hyblygrwydd sydd yn y canllawiau statudol cysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cadw at y weledigaeth a nodwyd yn 'Dyfodol Llwyddiannus'. Yn un o'r sesiynau cyntaf a gynhaliwyd gennym yn y Senedd hon ynghylch diwygio'r cwricwlwm, pwysleisiodd yr Athro Donaldson yr angen i wrthsefyll y demtasiwn i ddeddfu yn rhy fanwl o ran cynnwys y cwricwlwm:

> "…while it's tempting to think that the more you put in legislation or the more you make it clear exactly what you expect of schools, the more likely that is to actually happen in practice, experience tells us that's not the way it works. The more you specify from the outside what it is that should happen inside a school, the more you stifle those inside the school thinking about their children, and the nature of the learning that their children need. (…)
>
> The more you put in legislation, the more you lock a curriculum into a particular point in time. The current curriculum is partly locked into 1988, which is when it was created. So, the more you put in statute, the more difficult it is to be flexible, agile and responsive in terms of the way in which the world is changing and the nature of what's happening in the world around schools just now in the lives that young people are currently leading. (…)
>
> So, one big lesson for Wales, I think, is to think hard about the balance between what we put in legislation and where we use other means in order to try and achieve the necessary consistency—but not uniformity, necessarily—across Wales. (…)

[142] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Deisebau, 15 Chwefror 2019.

[143] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 145], 14 Gorffennaf 2020.

> My counsel would be: be cautious about what you put in legislation."[144]

**187.** Mewn tystiolaeth lafar bellach, ailadroddodd y Gweinidog fod angen cydbwysedd o ran yr hyn sydd wedi ei gynnwys a'r hyn nad yw wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil. Meddai:

> "we're trying to create a national framework and expectation but not undermine the ethos and the principle of the Bill around dictating from the centre".

Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at enghreifftiau o sut mae eitemau fel sgiliau bywyd, iechyd meddwl, hunaniaeth a hanes yn cael eu cynnwys yn y meysydd dysgu a phrofiad statudol, y datganiadau yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol, ac felly nid oes angen iddynt fod yn elfennau gorfodol ynddynt eu hunain.[145]

**188.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam na theimlir bod y dull hwn yn ddigonol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sydd ill dau yn elfennau gorfodol a bennir ar wyneb y Bil. Yn ei hymateb ysgrifenedig, dywedodd fod gan y meysydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg "heriau eithaf unigryw" fel pynciau craidd, a'u bod:

> "…wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil oherwydd eu pwysigrwydd fel pynciau craidd o ran cyfrannu at y pedwar diben a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru."[146]

**189.** O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

> "Argymhellodd panel annibynnol o arbenigwyr y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd i Gymru, er mwyn annog ysgolion i ymgysylltu â'r amrywiaeth ehangach o bynciau a nodwyd gan y panel a sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn canolbwyntio mwy ar iechyd a llesiant."[147]

**190.** O ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

---

[144] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 24 a 29], 16 Tachwedd 2016.

[145] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 34-38], 21 Hydref 2020.

[146] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

[147] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

> "Mae MDaPH y Dyniaethau yn rhoi cyd-destunau i blant a phobl ifanc ddysgu am bobl, lle, amser a chred. Mae Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn elfen hanfodol o hyn am ei fod yn cynnig amrywiaeth o ddulliau disgyblaethol a ddefnyddir gan ddysgwyr i ymgysylltu mewn ffordd feirniadol ag amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. (…)
>
> Am y rheswm hwn, mae rhanddeiliaid allweddol a minnau yn cytuno y dylai pwnc mor bwysig â hwn fod ar wyneb y Bil."[148]

**191.** Esboniodd y Gweinidog hefyd pam nad yw Llywodraeth Cymru am gynnwys rhagor o elfennau gorfodol ar wyneb y Bil:

> "Mae risg y bydd ychwanegu themâu yn arwain ar ragnodi ar wyneb y Bil, a allai danseilio egwyddorion allweddol y Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'i arwain gan ddibenion. Byddai hyn hefyd yn tanseilio diben Cod yr Hyn sy'n Bwysig a fydd yn ymgorffori'r themâu hyn fel cysyniadau allweddol yn y cwricwlwm. Mae'n rhaid inni sicrhau, fel y nodwyd gennyf i a rhanddeiliaid allweddol mewn sesiynau tystiolaeth lafar â'r Pwyllgor, na fydd y Bil yn datblygu'n rhestr o bynciau na themâu."[149]

### Ein barn a'n hargymhellion: prif egwyddorion trefniadol y Cwricwlwm newydd i Gymru, sydd wedi'u nodi ar wyneb y Bil.

**192.** Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ein gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1 yn dangos, er bod consensws eang o blaid y pedwar diben, y chwe maes dysgu a phrofiad a'r tri sgìl trawsgwricwlaidd, fod lefel y manylder ar wyneb y Bil yn destun rhywfaint o drafodaeth. Mae rhai yn cytuno â'r Gweinidog y byddai cynnwys gorchmynion a manylion sylweddol ar wyneb y Bil yn tanseilio'r nod trosfwaol o ganiatáu hyblygrwydd i ysgolion gynllunio cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i anghenion eu plant a'u pobl ifanc. Mae eraill yn poeni bod angen mwy o fanylion ar wyneb y Bil er mwyn sicrhau bod gan feysydd pwysig, nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd, le diogel yn y cwricwlwm newydd.

**193.** Rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod taro cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i nodi yn y Codau a'r canllawiau statudol yn heriol. Mae'r her hon yn gyffredin i lawer o ddarnau o ddeddfwriaeth, ond credwn ei bod yn arbennig o wir yn yr achos hwn gan fod y Bil wedi'i ddatblygu ar sybsidiaredd fel ei nod sylfaenol, sef darparu system sy'n galluogi

[148] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.
[149] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

digon o hyblygrwydd i'r cwricwlwm gael ei gynllunio ar lefel leol gan weithwyr proffesiynol mewn ysgolion. At hynny, os yw'r ddeddfwriaeth hon yn mynd i ddal ei thir dros amser, rydym yn cydnabod bod angen lle i allu adlewyrchu anghenion a gofynion esblygol addysg, cymdeithas, a'n plant a'n pobl ifanc. Rydym yn derbyn po hwyaf y mae'r rhestr o ofynion ar wyneb y Bil, y mwyaf prin fydd y cyfleoedd i wireddu'r hyblygrwydd y mae'n ceisio ei sicrhau, a'r mwyaf tebygol y bydd yn dyddio'n gyflym.

**194.** Serch hynny, dylai'r egwyddorion a'r rhesymeg sy'n gymwys i benderfyniadau sy'n ymwneud â'r hyn a roddir ar wyneb Bil, a'r hyn sy'n bodoli mewn is-ddeddfwriaeth, fod yn glir. Yn ein barn ni, mae'n ymddangos bod anghysondeb yn y penderfyniadau ynghylch elfennau gorfodol a pham mae angen nodi rhai eitemau dysgu ar wyneb y Bil tra bo eraill yn gallu cael eu gadael i'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol. Pan wnaethom ofyn pam mae angen rhestru Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar wyneb y Bil, ond nid iechyd meddwl a lles (er enghraifft), dywedwyd wrthym fod gan y meysydd pwnc hyn heriau eithaf unigryw a'u bod wedi'u rhestru oherwydd eu harwyddocâd wrth gyfrannu at y pedwar diben a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Credwn y gellid gwneud dadleuon cyffelyb am feysydd eraill, a chredwn fod angen rhesymu cliriach i roi sicrwydd ynghylch statws cysyniadau a phynciau a pha mor flaenllaw ydynt o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

> **Argymhelliad 6.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi, fel mater o flaenoriaeth, yr egwyddorion a'r rhesymu sydd wedi llywio—ac a fydd yn parhau i lywio—penderfyniadau ynghylch pa agweddau ar addysgu a dysgu sy'n haeddu cael eu cynnwys ar wyneb y Bil fel elfennau gorfodol.

**195.** Nodwn fod y Bil yn gwneud darpariaeth i'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig gael ei wneud o dan uwch-weithdrefn negyddol y Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth. O ystyried natur hollbwysig y Cod hwn i'r ffordd y bydd y cwricwlwm yn gweithredu, credwn y dylai fod yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol, yn yr un modd ag unrhyw ddiwygiadau iddo yn y dyfodol. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau bod digon o gyfle i'r Senedd graffu arno.

> **Argymhelliad 7.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod yr Hyn sy'n Bwysig (neu'r Cod diwygiedig) yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod yr Hyn sy'n Bwysig (neu'r Cod diwygiedig) aros fel y mae.

**196.** Nodwn y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw newidiadau i'r pedwar diben a restrir ar wyneb y Bil ond gellir newid y chwe maes dysgu a

phrofiad a'r tri sgìl trawsgwricwlaidd trwy reoliadau. Er ein bod yn credu bod angen i Weinidogion a Llywodraethau allu diweddaru gofynion y cwricwlwm yn unol â newidiadau cymdeithasol, rydym yn cytuno â rhai rhanddeiliaid a rybuddiodd fod angen cymryd gofal i beidio â thanseilio egwyddorion ac ethos y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 8.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ac yn amlinellu sut y gellir sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gadarn ar gyfer y dyfodol, o fewn rheswm, i sicrhau nad yw rheoliadau'r dyfodol yn tanseilio egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft trwy wneud y cwricwlwm yn rhy llawn neu'n rhy ragnodol.

## Sylw i rai eitemau yn y cwricwlwm

### Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl

#### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**197.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn cael ei gynnwys yn Cwricwlwm newydd i Gymru. Un o'r pedwar diben a nodir yn adran 2 o'r Bil yw:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod ifyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

**198.** Un o'r chwe maes dysgu a phrofiad a nodir yn adran 3 yn y cwricwlwm newydd yw 'Iechyd a Lles'. Bydd cod statudol yn nodi 'yr hyn sy'n bwysig' ym mhob maes dysgu a phrofiad ac mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm gwmpasu pob un o'r cysyniadau o ran yr hyn sy'n bwysig yn y Cod. Nododd manylion y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 mai un o'r 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' i'r maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles fydd:

- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.[150]

**199.** Mae datganiad arall o'r hyn sy'n bwysig yn cyfeirio at iechyd corfforol a phwysigrwydd chwaraeon a gweithgaredd corfforol:

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.

**200.** Mae'r canllawiau statudol dros dro a gyhoeddir ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad yn rhoi rhagor o fanylion am y 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' ym

[150] Llywodraeth Cymru, Hwb, Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, Ionawr 2020.

mhob maes dysgu a phrofiad a'r disgrifiadau o ddysgu a'r cyflawniadau disgwyliedig ar gyfer gwahanol oedrannau.[151]

**201.** Ar wahân i'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith, trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y cyd[152], i ddatblygu a gweithredu dull 'ysgol gyfan' a 'system gyfan' o gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u hanghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Mae hyn yn dilyn ein hadroddiad ar yr ymchwiliad 'Cadernid Meddwl' yn 2018[153] a gwaith dilynol a arweiniodd at adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.[154]

**202.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn ystod haf 2020 ar ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ac ysgolion ar ymgorffori'r dull ysgol gyfan.[155]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**203.** Yn ein hymchwiliad blaenorol i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, mae rhanddeiliaid wedi pwysleisio bod y cwricwlwm newydd yn gyfle allweddol i fwrw ymlaen â'r agenda hon mewn ysgolion. Ond mae pobl yn dal i boeni y gellid colli'r cyfle a ddarperir gan y cwricwlwm newydd i wneud iechyd meddwl yn rhan bwysig iawn o addysg plentyn os na chaiff ei wneud yn flaenoriaeth wirioneddol glir.[156]

**204.** Dywedodd Samariaid Cymru mai ffon fesur allweddol o'r Bil a'r dull ysgol gyfan ehangach fyddai cadarnhau a yw pob plentyn ym mhob ysgol yn dysgu llythrennedd emosiynol, yn gallu adnabod adegau pan fyddant yn ei chael hi'n anodd ac, yn hollbwysig, yn gwybod o ble y gallant ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth. Mae'n croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Donaldson ac yn gweld y Bil fel cyfle gwirioneddol i wella iechyd meddwl a dealltwriaeth

---

[151] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022, Ionawr 2020. Gweler tudalennau 74 ac 80-81 i gael gwybodaeth am y sylw a roddir i iechyd meddwl yn y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles. Gweler tudalennau 74 a 78-79 i gael gwybodaeth am y sylw a roddir i iechyd corfforol.

[152] Llywodraeth Cymru, Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant.

[153] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, 2018.

[154] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, 2020.

[155]Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant, 8 Gorffennaf i 30 Medi 2020.

[156] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadernid meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach, Hydref 2020.

pobl ifanc. Mae hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd y canllawiau ar y dull ysgol gyfan yn statudol.[157]

**205.** Fodd bynnag, er bod Samariaid Cymru hefyd yn derbyn y bydd iechyd meddwl yn faes hanfodol o fewn y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles, mae'n holi pam mae elfennau fel Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol ar wyneb y Bil lle nad yw iechyd meddwl, er gwaethaf ei bwysigrwydd canolog a chydnabyddedig. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, mae'n dweud:

> "We have argued consistently that a key way in which to do this is to place learning about emotional health, what works to support it in yourself and in others, on a statutory footing. (…)
>
> … we remain of the view that the importance of mental health as a core part of every young person in every school's learning experience means that that mental health learning should be a mandatory part of the new curriculum, on the same basis as Relationships and Sexuality Education and Religion, Values and Ethics. This is because of the importance of mental health being at the heart of the curriculum and the need to deliver it consistently."[158]

**206.** Mae Mind Cymru yn cytuno, gan ddadlau ei fod yn gyfle a gollwyd i roi iechyd meddwl wrth galon dysgu a phrofiad pob disgybl. Nid yw wedi clywed rheswm digonol pam y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod yn elfennau gorfodol ac nad yw iechyd meddwl yn elfen orfodol.[159]

**207.** Ailadroddodd Mind hyn yn ei gyflwyniad fideo, gan ddweud y byddai gwneud iechyd meddwl yn elfen orfodol yn adlewyrchu barn pobl ifanc y siaradwyd â hwy sy'n dweud nad oes digon o amser yn y diwrnod ysgol i drafod materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Ychwanegodd:

> "It has been hugely positive that the Welsh Government has made a strong commitment to making mental health one of its priority areas within the Programme for Government. Making this amendment to the Bill would be realising that commitment within education policy and legislation."[160]

---

[157] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 151 – Samariaid Cymru.
[158] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 151 – Samariaid Cymru.
[159] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 187 – Mind Cymru.
[160] Tystiolaeth fideo, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Mind Cymru.

**208.** Roedd tystiolaeth fideo Senedd Ieuenctid Cymru hefyd yn annog mwy i gael ei wneud i feithrin hyder plant a phobl ifanc ac i wella mynediad at wybodaeth berthnasol:

> "Mae'n allweddol bod gan bobl ifanc mynediad at wybodaeth gywir a dilys, yn ogystal â digon o gyfleoedd i drafod iechyd meddwl yn yr ysgol, sy'n gallu helpu i waredu'r stigma, sef un o'r prif resymau pam nad yw pobl ifanc yn gyffyrddus i rannu eu problemau. Mae'n allweddol dechrau'r trafodaethau yma'n ifanc, gan ddatblygu dealltwriaeth pobl ifanc o iechyd meddwl ar y cyd ag iechyd corfforol."[161]

**209.** Dywedodd rhai plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron rithwir fod angen rhoi mwy o bwyslais ar iechyd meddwl yn yr hyn y mae disgyblion yn dysgu amdano yn yr ysgol, gan dynnu sylw at y ffaith bod gan blant a phobl ifanc lawer o faterion cymhleth i ymdrin â hwy, sydd wedi gwaethygu yn sgil COVID-19. Yn eu barn hwy, dylid dysgu iechyd meddwl o oedran ifanc ond yn aml, nid yw ysgolion nac athrawon yn gwybod sut i wneud hyn.[162]

**210.** Nid yw pob rhanddeiliad sy'n hyrwyddo'r angen i gefnogi anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion yn dadlau bod angen gwneud newidiadau i'r Bil er mwyn gwireddu hyn. Ym marn y Comisiynydd Plant, nid oes bellach angen darparu ar gyfer dull ysgol gyfan ar wyneb y Bil, o ystyried y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i wneud y canllawiau yn statudol.[163] Yn y cyfamser, mae'r Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (2) yn derbyn bod yr elfennau gorfodol bellach wedi'u penderfynu.[164]

**211.** Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid bwysigrwydd cyfeirio'n benodol at iechyd corfforol, yn ogystal ag iechyd meddwl, yn y Bil a'r Codau a'r canllawiau cysylltiedig. Dadleuodd Chwaraeon Cymru y dylai llythrennedd corfforol fod ar wyneb y Bil gan y gallai fel arall gael ei "wasgu" o fewn y cwricwlwm newydd. Y pryder i'r sefydliad yw nad oes digon o amser yn cael ei dreulio ar chwaraeon a

[161] Senedd Ieuenctid Cymru - y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Ieuenctid Cymru - y Pwyllgor Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl.

[162] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o grwpiau trafod rhithwir gyda rhanddeiliaid, Hydref 2020

[163] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

[164] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 88 – Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (2)

gweithgarwch corfforol mewn ysgolion, sy'n tynnu sylw at anghysondebau rhwng ysgolion.[165]

**212.** Ysgrifennodd Chwaraeon Cymru:

> "It is within the context of these potential barriers and the aspirations for the new curriculum that we make the case for adding physical literacy to be one of the compulsory skills alongside Digital Competence, Numeracy and Literacy. The parity of physical literacy and literacy has been an ambition by many, for many years, and this opportunity to recognise a skill which will be applicable throughout a student's education, life and supporting overall wellbeing, will help to produce healthy, confident learners."[166]

**213.** Yn 2019, gwrthododd y Gweinidog argymhelliad gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y dylai'r lleiafswm o 120 munud o addysg gorfforol a argymhellir fesul wythnos mewn ysgolion gael ei wneud yn ofyniad statudol. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles gan ddweud y dylai penderfyniadau ynghylch y modd y dylid troi'r cwricwlwm newydd "yn weithgareddau beunyddiol ddigwydd yn greadigol ar lefel yr ysgol, ac na cheir amserlenni ar eu cyfer".[167]

**214.** Pwysleisiodd Chwarae Cymru fuddion tymor byr a thymor canolig gweithgarwch corfforol, yn ogystal â'r buddion tymor hir. Dywedodd y sefydliad fod angen ymrwymiad a gwerthfawrogiad amlycach o werth chwarae, gan ddweud bod tystiolaeth gref fod chwarae yn ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant.[168]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**215.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles yn gwbl eglur ynghylch pwysigrwydd iechyd meddwl a lles, sef un o'r pethau gorau am y cwricwlwm newydd:

---

[165] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, Mawrth 2019.

[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 215 – Chwaraeon Cymru.

[167] Senedd Cymru, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Ymateb i ymchwiliad y pwyllgor Plant, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch yr ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, Mawrth 2019.

[168] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 98 – Chwarae Cymru.

> "…for instance, it talks about having an awareness of our own feelings and emotions, and that's the foundation of how we experience life. So, there's plenty of description and requirements around the field of mental health, which is so important."[169]

**216.** O ystyried bod natur sensitif Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gofyn am statws gorfodol yn y Bil, ac o ystyried y Cod cymharol ragnodol ar y ffordd y mae'r maes hwnnw i gael ei addysgu, gofynnwyd i'r Gweinidog a ellid gwneud yr un ddadl dros iechyd meddwl. Atebodd y Gweinidog drwy gyfeirio at rôl y dull ysgol gyfan, y tu hwnt i'r Bil:

> "In terms of content, I believe that there is a clear expectation around what should be available to young people and taught, but, around that, we cannot leave it to the Bill alone; that's why we have to have the whole-school approach, because learning a lesson about mental health is all very well, but, if you're in an environment that is fundamentally unhealthy, then we're not doing the best by our children. So, the curriculum content is important, but the whole-school approach and their expectations around that, you know that we're putting in statutory guidance, so that school itself becomes a healthy environment, not just for children, but for the people who work within our schools and work alongside our children."[170]

**217.** Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at bwysigrwydd dysgu proffesiynol i athrawon presennol a hyfforddiant cychwynnol ym maes iechyd meddwl a llesiant emosiynol i athrawon newydd.[171]

## Ein barn a'n hargymhellion: iechyd emosiynol ac iechyd meddwl

**218.** Mae ein barn ar bwysigrwydd canolog blaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn fater sydd wedi'i gofnodi'n gyhoeddus. Mynegodd ein hadroddiadau Cadernid Meddwl ym mis Ebrill 2018 a mis Hydref 2020 yn glir ac yn fanwl mor bwysig yr ydym yn credu yw darparu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, a'r dystiolaeth sy'n sail i'r farn honno.

---

169 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 36], 21 Hydref 2020.

170 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 192], 21 Hydref 2020.

171 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 193-194], 21 Hydref 2020.

**219.** Yn yr adroddiadau hynny, disgrifiwn y cwricwlwm newydd fel cyfle unwaith-mewn-cenhedlaeth i ymgorffori llesiant ym mywydau ein plant. Nodwn hefyd fod lleoliadau addysg, yn arbennig ysgolion, mewn sefyllfa ddelfrydol i wneud cyfraniad arwyddocaol at greu poblogaeth o bobl ifanc sy'n emosiynol wydn, gan leihau stigma a hybu iechyd meddwl da.

**220.** Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r lle amlwg a roddir i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl a lles yn nogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru. Rydym hefyd yn croesawu'r sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn rhan ganolog o'r gofynion statudol ar gyfer y cwricwlwm yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig', y Cod Dilyniant, a'r canllawiau statudol eraill a fydd yn sail i'r Bil. Credwn fod hyn yn hanfodol i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu haddysgu am y maes hanfodol hwn.

**221.** Mae gwerthfawrogi iechyd meddwl i'r un graddau ag iechyd corfforol yn hanfodol, yn enwedig i'n plant a'n pobl ifanc. Fel cymdeithas, mae gennym gryn ffordd i fynd cyn bod iechyd meddwl yn cael yr un parch. Er nad ydym yn amau bod y Bil hwn yn anelu at fynd i'r afael â'r materion hyn, credwn fod angen dull mwy pendant, yn debyg iawn i'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rhaid inni sicrhau bod pwysigrwydd iechyd meddwl a lles yn ein cwricwlwm yn amlwg i bawb nawr ac yn y dyfodol.

**222.** Ar y sail honno credwn fod angen cyfeirio'n benodol at iechyd meddwl ar wyneb y ddeddfwriaeth hon. Rydym yn cydnabod awydd Llywodraeth Cymru i osgoi gorlenwi'r Bil neu danseilio ei nodau. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r amlygrwydd i iechyd meddwl a lles y credwn sydd ei hangen, dylid ystyried opsiynau i ail-eirio naill ai'r meysydd dysgu a phrofiad, yr elfennau gorfodol, neu'r dyletswyddau ar wyneb y Bil.

> **Argymhelliad 9.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys cyfeiriad penodol, ar ei wyneb, at iechyd meddwl a lles a'i le yn y cwricwlwm.

### Hanes Cymru, hanes BAME, a hunaniaeth ac amrywiaeth

#### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**223.** Nododd dogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 fod Hanes yn cael ei gwmpasu ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau,

ynghyd â Daearyddiaeth; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol.[172]

**224.** Un o bedwar diben y cwricwlwm a nodir yn adran 2 o'r Bil yw:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a r byd.

**225.** Bydd Cod statudol yn nodi 'yr hyn sy'n bwysig' ym mhob maes dysgu a phrofiad ac mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm gwmpasu pob un o'r cysyniadau o ran yr hyn sy'n bwysig yn y cod. Yn ôl y manylion a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, mae yna bum 'Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig' yn y Dyniaethau:

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

**226.** Mae'r cysyniad o 'gynefin' yn ganolog i'r addysgu a'r dysgu o dan faes dysgu a phrofiad y Dyniaethau. Dyma ddisgrifiad Llywodraeth Cymru o 'cynefin':

> "Y man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw, serch hynny. Dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno."[173]

[172] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022: Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, Ionawr 2020.

[173] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru, 2022, tudalen 241, Ionawr 2020.

**227.** Mae'r canllawiau statudol dros dro a gyhoeddir ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad yn rhoi rhagor o fanylion am y 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' ym mhob maes dysgu a phrofiad a'r disgrifiadau o ddysgu a'r cyflawniadau disgwyliedig ar gyfer gwahanol oedrannau. Mae yna nifer o gyfeiriadau at addysgu hanes ac amrywiaeth Cymru, gan gynnwys safbwynt Cymru o hanes yn ehangach, yn y canllawiau statudol dros dro ar faes dysgu a phrofiad y Dyniaethau.[174]

**228.** Gwrthododd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn 2019[175] y dylai'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes, a hynny er mwyn galluogi pob disgybl i ddeall sut mae ei wlad wedi cael ei dylanwadu gan ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun hanesion Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol.

**229.** Yn ei hymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn mynd yn groes i dull y cwricwlwm newydd o fod yn seiliedig ar ddibenion (yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar gynnwys). Nododd hefyd y byddai maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau yn galluogi "i hanesion ardal leol y dysgwr a stori Cymru gael eu dadlennu yn barhaus, yn ogystal â pherthynas Cymru â'r byd yn ehangach, er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth ac amrywiol cymdeithasau'r gorffennol a chymdeithasau'r dyfodol."[176]

**230.** Fodd bynnag, derbyniodd Llywodraeth Cymru saith argymhelliad arall y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, gan gynnwys bod Estyn yn cynnal adolygiad thematig o drefniadau addysgu hanes Cymru mewn ysgolion ac y dylai'r cwricwlwm newydd gynnwys amrywiaeth fel elfen graidd gan ei bod yn bwysig bod pob disgybl yn gwybod stori cymunedau ethnig a chrefyddol amrywiol Cymru.

**231.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu 'Cymunedau, cyfraniadau a chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd', sy'n cael ei gadeirio gan yr Athro Charlotte Williams o Brifysgol Bangor.[177] Gofynnwyd i'r gweithgor roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar addysgu themâu sy'n

---

[174] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru, 2022, tudalennau 98-125, Ionawr 2020.

[175] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Addysgu Hanes Cymru, Tachwedd 2019.

[176] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Addysgu Hanes Cymru, Ionawr 2020.

[177] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig, Cymunedau, cyfraniadau a chynefin Profiadau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gweithgor y cwricwlwm newydd, 21 Gorffennaf 2020.

gysylltiedig â chymunedau a phrofiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o fewn y cwricwlwm.[178]

**232.** Cyhoeddodd y gweithgor adroddiad dros dro, gan gynnwys argymhellion, ar 19 Tachwedd 2020. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r cyntaf o'i dasgau, sef:

- cynnal adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chynefin ar draws pob rhan o'r cwricwlwm.[179]

**233.** Bydd adroddiad terfynol y gweithgor ar gael ar ddechrau tymor y gwanwyn 2021.[180] Bydd yr adroddiad hwnnw'n amlinellu ei ganfyddiadau a'i argymhellion mewn perthynas â'i ail dasg, sef:

- adolygu dysgu proffesiynol ac addysg gychwynnol i athrawon sy'n gysylltiedig â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, eu cyfraniadau a'u profiadau, a chynefin, ar draws y cwricwlwm.

**234.** Dywedodd y Gweinidog y byddai gwaith y gweithgor yn cyfateb yn agos i adolygiad thematig Estyn. Bydd yn llywio'r gwaith o gomisiynu adnoddau newydd i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, cynefin, cyfraniadau a phrofiadau, cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn raddol o fis Medi 2022.[181]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**235.** Fel y cyfeiriwyd ato uchod, daeth sylwadau i law'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gan randdeiliaid a'r cyhoedd yn ystod ei ymchwiliad i 'Addysgu hanes Cymru' yn 2019.[182]

---

[178] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r cyfryngau, Yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd gan y gweithgor ar adnoddau addysg ynghylch Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, 19 Tachwedd 2020.

[179] Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd, Adroddiad dros dro, Tachwedd 2020.

[180] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Adroddiad Interim Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd, 19 Tachwedd 2020.

[181] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig, Cymunedau, cyfraniadau a chynefin Profiadau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gweithgor y cwricwlwm newydd, 21 Gorffennaf 2020.

[182] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Addysgu Hanes Cymru.

**236.** Mae'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried deiseb i "greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu"[183], a gasglodd 7,927 o lofnodion ac y cynhaliwyd dadl arni yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Tachwedd 2020. Daeth hyn yn dilyn deiseb yn 2018 i "ddysgu hanes Cymru, a hynny o bersbectif Cymreig".[184]

**237.** Roedd deiseb i'w "gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a phobl groenliw y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru"[185], a gasglodd 34,736 o lofnodion, hefyd yn destun dadl y Cyfarfod Llawn ar 4 Tachwedd.

**238.** Ymatebodd nifer sylweddol o unigolion[186] i'n galwad am dystiolaeth, yn ogystal â rhai sefydliadau, yn galw am gynnwys hanes Cymru ar wyneb y Bil neu o leiaf yn galw am rywfaint o warant y bydd yn cael ei addysgu. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn cynnwys:

- Mae bod yn ymwybodol o'ch gwlad a'ch diwylliant yn eich gwneud chi'n ddinesydd mwy gwybodus a gwell.
- Mae angen addysgu digwyddiadau allweddol yn hanes Cymru ac elfennau unigryw ein diwylliant i bobl ifanc, a hynny mewn trefn gronolegol.
- Mae angen addysgu pobl ifanc am y digwyddiadau a'r themâu allweddol sydd wedi ffurfio cymunedau Cymru.
- Mae Hanes yn cael ei addysgu drwy lygaid Prydeinig.
- Mae yna ddiffyg dealltwriaeth o hanes Cymru a diffyg ymgyrchu i amddiffyn ein hiaith a'n treftadaeth fel cenedl.

**239.** Ysgrifennodd Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG):

> "Er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn rhoi lle creiddiol a chanolog i Hanes Cymru yn y cwricwlwm newydd, mae CYDAG yn credu'n gryf fod angen i ysgolion dderbyn canllawiau manwl yn nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer y rhaglenni astudio a'r manylebau, sef y cyfnodau

[183] Y Pwyllgor Deisebau, Deiseb P-05-992.

[184] Y Pwyllgor Deisebau, Deiseb P-05-799.

[185] Y Pwyllgor Deisebau, Deiseb P-05-1000.

[186] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 41, 42, 44, 45, 46, 52, 67, 89, 128, 143, 149, 198 - Ymatebwyr unigol.

a'r digwyddiadau allweddol yn ffurfiad a datblygiad ein cenedl sydd wedi cyfrannu i greu'r Gymru gyfoes.

Heb sicrhau hyn, ni fydd hanes cenedlaethol Cymru yn cael ei gyflwyno'n effeithiol ac yn gyson yn ein hysgolion."[187]

**240.** Dywedodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

> "mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn anghytuno gyda'r penderfyniad i beidio nodi yn eglur yn y cwricwlwm yr hyn sy'n ofynnol i ddisgyblion ei wybod er mwyn deall stori Cymru, ac i amlinellu 'corff cyffredin' o wybodaeth y dylai pob disgybl yng Nghymru wybod am y wlad. Credwn bod angen i Gymru, fel y mwyafrif o wledydd eraill ardraws y byd, sicrhau bod stori ein cenedl ni wrth galon cwricwlwm pob ysgol yn y wlad."[188]

**241.** Dywedodd Cyngor Abertawe ei fod yn ategu'r pryderon cynyddol a fynegwyd yn ddiweddar ynghylch agweddau allweddol ar hanes Cymru a'r DU, a'r ffaith nad oes cyfeiriad clir at ddiwylliant pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y cwricwlwm,[189] ac ysgrifennodd Cyngor Gwynedd y canlynol:

> "Heb ddiffinio'r disgwyliad hwn yn gwbl eglur yn y cwricwlwm, byddwn eto'n gweld cenedlaethau o blant a phobl ifanc yn cael eu hamddifadu o hanes cenedlaethol a lleol Cymru fyddai'n fodd o'u meithrina'u grymuso i fod yn ddinasyddion cyflawn, gydag ymdeimlad o berthyn i gymuned a gwlad."[190]

**242.** Yn ei gyflwyniad fideo, dywedodd Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru fod y Bil wedi dod "ar adeg amserol a phwysig iawn yng Nghymru ac ar draws y byd" a bod angen "[g]wella amrywiaeth y gweithlu addysgu yng Nghymru". Dywedodd hefyd:

> "Mae pawb yng Nghymru yn wynebu heriau anferth ar hyn o bryd, gyda'r coronafeirws ac ymgyrch Black Lives Matter, ac ni fu erioed mor bwysig i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wynebu'r heriau hyn. (…)

[187] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 64 – Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG).

[188] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 65 – Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

[189] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 142 – Cyngor Abertawe.

[190] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 91 – Cyngor Gwynedd.

> Yn ôl pob golwg, nid oes fawr ddim pwyslais yn y fframwaith presennol ar sut y caiff athrawon eu cefnogi ac o ble y daw'r adnoddau ar gyfer y weledigaeth hon. Codwyd y pryderon hyn fel rhan o'r sgyrsiau a gafwyd rhwng y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, sef yr elusen rwy'n bennaeth arni, â nifer fawr o bobl ifanc o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ar draws Cymru. Maen nhw'n croesawu'r Bil yn fawr ond maen nhw'n pryderu am amrywiaeth y gweithlu ac o ran sicrhau bod gan athrawon a'r gweithlu y sgiliau i wireddu'r weledigaeth hon..."[191]

**243.** Wrth drafod hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ysgrifennodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y canlynol:

> "[the Bill] provides an opportunity to build the need for this learning into curriculum legislation so that it cannot be diluted by schools. It should include Britain and Wales's immigration history to enable children to understand how this has shaped all aspects of our country."[192]

**244.** Pwysleisiodd Plismona yng Nghymru bwysigrwydd hyrwyddo hanes pobl dduon yn fwy ar draws Cymru gyfan ac anogodd i hyn beidio â chael ei golli wrth ystyried y cwricwlwm newydd.[193]

**245.** Er bod llawer o ymatebwyr wedi tynnu sylw at bwysigrwydd addysgu am hanes a diwylliant Cymru, nid oedd pawb yn teimlo bod angen newid y Bil o ystyried y disgresiwn a fydd ar gael i ysgolion. Er enghraifft, nododd ymateb rhanbarthol llywodraeth leol Gogledd Cymru:

> "Rydym hefyd yn croesawu y bydd ysgolion yng Nghymru, o fewn y cwricwlwm newydd, yn cael cyfle i ddatblygu eu cwricwlwm i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ddeall a chydnabod treftadaeth a diwylliant Cymru ar lefel leol a chenedlaethol."[194]

---

[191] Tystiolaeth fideo, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru.

[192] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 185 – Plismona yng Nghymru.

[194] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 189 – Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol.

**246.** Fodd bynnag, fel gydag iechyd meddwl, tynnodd y rhai a alwodd am newidiadau o ran hanes sylw at anghysondeb canfyddedig yn y ffordd y mae'r Bil yn ymdrin ag elfennau gorfodol:

> "Ni all Llywodraeth Cymru ddadlau ei fod yn erbyn yr egwyddor o orfodaeth, gan ei fod yn gorfodi y pedwar Diben, yr Hyn sydd yn Bwysig, Crefydd, gwerthoedd a moeseg ac Addysg cyd berthynas a moeseg ar ysgolion."[195]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**247.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi tynnu sylw at newidiadau a wnaed i'r manylebau hanes safon uwch/UG yn 2015 a TGAU yn 2017, a gynyddodd y ffocws ar hanes Cymru a safbwynt Cymru yn y cwricwlwm cyfredol.

**248.** Ym mis Gorffennaf 2018, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrth y Pwyllgor Deisebau:

> "What we've seen in the new A-level, AS-level and the new history GCSE is a much greater emphasis on the need to teach children aspects of Welsh history. (…)
>
> We've changed the course content of both GCSE and A-level, so those opportunities are there. I'd be the first to agree with you that they weren't there, perhaps, in our old GCSEs and our old A-levels. (…)[196]

**249.** O ran y cwricwlwm newydd y darperir ar ei gyfer o dan y Bil, dywedodd y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn:

> "… mae astudio hanes a hanesion Cymru yn elfen bwysig yn y gwaith o gyflawni pedwar diben ein cwricwlwm newydd. Mae fframwaith newydd y cwricwlwm yn adlewyrchu Cymru: ein treftadaeth ddiwylliannol a'n hamrywiaeth; ein hieithoedd a'n gwerthoedd; a hanesion a thraddodiadau pob un o'n cymunedau a'n holl bobl."[197]

**250.** Ychwanegodd y Gweinidog:

> "…ym maes y dyniaethau, rhaid i hyn gynnwys meithrin ymdeimlad o 'gynefin'—lle ac ymdeimlad o berthyn—gwerthfawrogiad o hunaniaeth a

[195] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 67 – Unigolyn.

[196] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [paragraffau 96 a 120], 17 Gorffennaf 2018.

[197] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 320], 4 Tachwedd 2020.

> threftadaeth; cysylltiad cyson â stori eu hardal a stori Cymru; datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, luosog ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol; ac ymgysylltu â heriau a chyfleoedd yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n eu hwynebu hwy fel dinasyddion, a'u cymunedau a'u cenedl. Bydd y rhain yn elfennau gorfodol yng nghwricwlwm pob ysgol, ar gyfer pob dysgwr ar bob cam. Ni fydd yn bosibl anwybyddu rôl ganolog ac allweddol ein holl hanesion, ein straeon lleol a chenedlaethol, gan gynnwys hanes pobl dduon, yng nghwricwlwm ysgol."[198]

**251.** O ran y gweithgor a sut y bydd yn llywio'r sylw a roddir i hanes a phrofiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, dywedodd y Gweinidog:

> "… mae'r gweithgor dan gadeiryddiaeth yr Athro Williams wedi adolygu'r adnoddau presennol i gefnogi addysgu themâu sy'n ymwneud â phrofiad a chyfraniadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws ein cwricwlwm, ac fel y nodwyd, bydd Estyn hefyd yn adrodd ar eu hadolygiad o addysgu hanes Cymru ac amrywiaeth mewn ysgolion y flwyddyn nesaf. Bydd ei ganfyddiadau yn ein helpu ymhellach i gomisiynu adnoddau i sicrhau bod athrawon yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus(…)
>
> Yn gynnar y flwyddyn nesaf, rwy'n disgwyl cael ail adroddiad gan weithgor yr Athro Williams, a fydd yn ystyried anghenion dysgu a datblygiad proffesiynol staff yn ein hysgolion yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y grŵp yn darparu argymhellion ar sut i sicrhau y gall athrawon ar draws y cwricwlwm fynd ati'n gymwys i gyflwyno dysgu sy'n gysylltiedig â chymunedau a phrofiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig."[199]

**252.** Croesawodd y Gweinidog adroddiad interim y gweithgor, sy'n ymwneud ag adnoddau addysgu a dysgu, a dywedodd y byddai'n ystyried yr argymhellion yn fanwl ac yn cyhoeddi ei hymateb yn ddiweddarach yn 2020.[200]

---

[198] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 321], 4 Tachwedd 2020.

[199] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraffau 327-328], 4 Tachwedd 2020.

[200] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Adroddiad Interim Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd, 19 Tachwedd 2020.

**253.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd materion sy'n ymwneud â hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth nid yn unig yn cael eu dysgu trwy'r Dyniaethau ond trwy'r Cwricwlwm i Gymru:

> "In terms of identity, cultural identity, and some of the issues that you're talking about in terms of history, again, there is absolutely a theme running right the way through the AoLEs of the importance of this in the 'what matters' statements. (…)
>
> And I think what's really important, especially with regard to cultural identities, and some of the issues that we've all been grappling with recently—that's why we've set up the work of Charlotte Williams. And what she's absolutely clear about, in conversations with us already, is that we can't pigeonhole those issues into one aspect of the curriculum—they have to be cross-curricular. So, simply putting it in one AoLE, under the content of history, is not good enough and will not meet the needs of students."[201]

## Ein barn a'n hargymhellion: hanes Cymru, hanes BAME, a hunaniaeth ac amrywiaeth

**254.** Mae pwysigrwydd dysgu am hanes, hunaniaeth ac amrywiaeth wedi bod yn thema allweddol yn y dystiolaeth a ddaeth i law yn ein gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1. Yn fwy eang, mae materion yn ymwneud â hanes BAME, hunaniaeth ac amrywiaeth wedi bod yn nodwedd amlwg o drafodaethau cyhoeddus yn fyd-eang dros y 12 mis diwethaf.

**255.** Credwn ei bod yn hanfodol sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn dysgu am eu hanes a hanes Cymru, gan gynnwys hanes BAME, yn ogystal â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a hunaniaeth. Nodwn y gwaith y mae Estyn a'r Athro Charlotte Williams wrthi'n ei wneud yn hyn o beth, ac rydym yn awyddus i weld eu canfyddiadau cyn i'r Bil hwn gwblhau ei daith drwy'r Senedd. Yn ein barn ni, mae'r gwaith hwn yn hanfodol bwysig i sicrhau bod yr adnoddau addysgu a dysgu angenrheidiol ar gael ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.

**256.** Rydym yn croesawu cynnwys materion perthnasol ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau ond yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai yn y dystiolaeth a ddaeth i law fod angen cyfeirio'n fwy penodol at hanes BAME yn y ddeddfwriaeth. Nodwn rybudd y Gweinidog nad yw'n ddigon da categoreiddio materion fel hyn fel un agwedd ar y cwricwlwm, yn hytrach na sicrhau eu bod yn

[201] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraf 37], 21 Hydref 2020.

drawsgwricwlaidd eu natur. Serch hynny, credwn hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod iddynt le clir yn y cwricwlwm a bod modd eu hadnabod, a hynny fel bod pobl yn teimlo'n sicr y bydd plant a phobl ifanc yn dysgu am faterion mor sylfaenol.

**257.** Ar ôl pwyso a mesur, o ystyried y dystiolaeth a gafwyd, mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor[202] yn fodlon aros ar hyn o bryd am ganfyddiadau gwaith yr Athro Williams ac Estyn cyn argymell gwneud diwygiad i wyneb y Bil. Mae hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar yr awydd i gael sicrwydd pellach gan y Gweinidog fod y materion hyn yn ddiogel o fewn y cwricwlwm nawr ac yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pellach y bydd cyfeiriadau penodol at hanes Cymru, hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, amrywiaeth a hunaniaeth yn cael eu gwneud yn y gyfres o Godau a chanllawiau sy'n sail i'r Bil.

### Eitemau eraill

#### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**258.** Roedd yna eitemau eraill yr hoffai rhai rhanddeiliaid gael rhagor o sicrwydd yn eu cylch o ran eu cynnwys yn y cwricwlwm - naill ai fel elfennau gorfodol ychwanegol ar wyneb y Bil neu i gael cyfeiriadau mwy eglur yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau. Mae rhai o'r rhain yn adlewyrchu'r deisebau a gyflwynwyd i'r Senedd, yn ystod y misoedd diwethaf (ceir rhestr ym mharagraff 176).

**259.** Un enghraifft yw'r maes cymorth cyntaf, CPR[203] a sgiliau achub bywyd ehangach.[204] Yn ei gyflwyniad fideo, dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon:

> "Rydym hefyd yn falch o weld bod sgiliau cymorth cyntaf ac achub bywydau wedi eu hychwanegu at y canllawiau i ysgolion. Ond mae yna un broblem fawr o hyd, sef y loteri o ran p'un a fydd pobl ifanc yn dysgu sgiliau fel CPR yn yr ysgol uwchradd ai peidio. (…)

[202] Cred Siân Gwenllian AS y dylid diwygio'r Bil i gynnwys cyfeiriad penodol, ar ei wyneb, at hanes Cymru, hanes BAME, amrywiaeth a hunaniaeth a'u statws yn y cwricwlwm.

[203] Talfyriad ar gyfer "dadebru cardio-anadlol" yw CPR. Geithdrefn frys ydyw a gynhelir pan fydd rhywun wedi stopio anadlu neu pan fydd ei galon wedi stopio curo.

[204] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 16 - Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru; CAW 16 - Unigolyn; CAW 40 - Unigolyn; CAW 84 - Alan Toothill, Pennaeth; CAW 87 - Ambiwlans Sant Ioan Cymru; CAW 139 - Cyngor Dadebru'r DU; CAW 160 - Y Groes Goch Brydeinig.

> Gallwn ni ddatrys hyn. Drwy ddiwygio'r Bil a'r canllawiau, gallwn sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i ddysgu sgiliau sy'n achub bywydau yn y dyfodol."[205]

**260.** Awgrymodd Sefydliad Prydeinig y Galon[206], y Groes Goch Brydeinig[207] ac Ambiwlans Sant Ioan Cymru[208] naill ai:

- y gallai'r canllawiau statudol ar y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles gynnwys y gair 'rhaid' yn hytrach na 'caiff' wrth gyfeirio at ddysgu sgiliau cymorth cyntaf ac achub bywyd; neu

- y gellid cynnwys sgiliau achub bywyd ar wyneb y Bil fel elfen orfodol drawsbynciol, fel Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i sicrhau ei fod yn cael ei addysgu ym mhobman.

**261.** Cafwyd galwadau hefyd i addysg ddinesig a gwleidyddol[209] fod yn nodwedd gryfach o'r cwricwlwm newydd, gyda Senedd Ieuenctid Cymru yn nodi:

> "Mae'r canran isel o bobl ifanc sy'n cael gwersi am wleidyddiaeth yn peri pryder i ni, o gofio y bydd pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael pleidleisio am y tro cyntaf yn etholiad nesaf y Senedd yn 2021. Rydym ni'n gwneud tro gwael â'n cenhedlaeth drwy roi'r hawl iddynt bleidleisio."[210]

**262.** Mae dau ymatebydd unigol[211] – y ddau yn athrawon – o'r farn nad yw'r Bil yn rhoi digon o flaenoriaeth i ieithoedd tramor modern. Maent yn nodi bod ieithoedd tramor modern eisoes yn dirywio ac maent yn dadlau y bydd y cwricwlwm newydd yn cyflymu hyn, gyda chyfleoedd i ddysgu ieithoedd yn dod yn loteri.[212]

---

[205] Tystiolaeth fideo, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru.

[206] Tystiolaeth fideo, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 16 - Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru.

[207] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 160 – Y Groes Goch Brydeinig.

[208] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 87 - Ambiwlans Sant Ioan Cymru.

[209] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 40 – Unigolyn a CAW 210 – Sylfaen Cymru Cyf.

[210] Tystiolaeth fideo, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Ieuenctid Cymru - y Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm.

[211] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 2 - Kim Morgan, athro a CAW 35 - Unigolyn.

[212] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 35 – Unigolyn.

**263.** Mae addysg mislifol yn eitem arall yr oedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod angen mwy o sylw iddi yn y Bil y Codau a'r canllawiau cysylltiedig.[213] Roedd hyn yn destun dadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Hydref 2020[214] yn ogystal â deiseb a gyflwynwyd i'r Senedd[215].

**264.** Yn ein trafodaeth ford gron rithwir, pwysleisiodd rhai o'r cyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogadwyedd y siaradom â nhw fod angen ymgorffori gyrfaoedd o ansawdd uchel ac addysg gysylltiedig â gwaith ar draws y cwricwlwm. Gofynnwyd pam na chyfeirir at hyn yn y Bil, o ystyried bod addysg gysylltiedig â gwaith yn un o ofynion y cwricwlwm sylfaenol cyfredol mewn ysgolion uwchradd, a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol – Deddf Addysg 2002.[216]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**265.** Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod galwadau i gynnwys elfennau gorfodol ychwanegol yn y Bil. Cyhoeddwyd dogfennaeth y cwricwlwm yn gyntaf ym mis Ebrill 2019 ar ffurf ddrafft ac yn amodol ar adborth y cyhoedd. Yna cafodd ei fireinio cyn ei gyhoeddi ar ffurf derfynol ym mis Ionawr 2020.

**266.** Felly mae Llywodraeth Cymru, i raddau helaeth, yn ystyried bod y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a chanllawiau'r cwricwlwm yn derfynol ac nad ydynt yn agored i'w hadolygu ymhellach. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig, fel y'i drafftiwyd yn y Bil ar hyn o bryd, fynd drwy uwch-weithdrefn negyddol y Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth o dan adran 72 o'r Bil.

**267.** Cyfeiriodd ymateb y Gweinidog i'r ddeiseb a oedd yn galw am addysg orfodol ar lesiant mislifol at y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles a dywedodd y bydd gan ysgolion y "rhyddid i addysgu am laslencyndod a'r mislif ar oedran sy'n addas o ran datblygiad. Gallant hefyd roi'r wybodaeth a'r hyder i ddysgwyr i chwilio am gefnogaeth a chymorth i ymdrin â'r newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd gydol bywyd".[217]

[213] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 56 - Endometriosis UK; CAW 57 - Cyflwyniad ar ran sawl sefydliad ac unigolyn; CAW 123 - Triniaeth Deg i Fenywod Cymru.

[214] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 14 Hydref 2020.

[215] Y Pwyllgor Deisebau, Deiseb P-05-925.

[216] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir gyda rhanddeiliaid, Hydref 2020

[217] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Deisebau, 23 Mawrth 2020.

**268.** Mewn perthynas â'r ffaith nad yw'r Bil yn cynnwys cyfeiriad penodol at yrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "With regard to mainstream learners, our expectation is that they would access careers education and work-related education across all areas of the curriculum, which is in line with the ethos of what we're designing. We also propose additional statutory guidance for careers education, aiming at supporting schools to ensure that they do that well. It's really important that that happens across the curriculum, from the age of three. We know that children's expectations and aspirations around careers form when they're very, very young, so simply leaving this back to the secondary school, or even the upper end of secondary school, is not going to meet our students' needs. So, we have a working group that has been set up to help us refine that guidance, to ensure that it's fit for purpose."[218]

## Ein barn a'n hargymhellion: eitemau eraill

**269.** Nodwn y galwadau am ychwanegu eitemau eraill at y rhestr o elfennau gorfodol i'w cynnwys yn y Bil, a'r deisebau perthnasol a gyflwynwyd i'r Senedd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd llawer o'r eitemau y tynnwyd ein sylw atynt, a'r ymrwymiad a ddangoswyd iddynt gan yr unigolion a'r sefydliadau sydd wedi ymgyrchu dros eu cynnwys ar wyneb y Bil.

**270.** Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 193 uchod, mae sicrhau cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Codau a'r canllawiau statudol yn heriol, ni waeth pa ddeddfwriaeth ydyw. Gan ystyried y dystiolaeth a gawsom yn ystod ein gwaith craffu Cyfnod 1 – ac er gwaethaf ein barn ar iechyd meddwl a lles a fynegwyd yn gynharach yn y bennod hon – rydym yn pryderu bod ychwanegu'r eitemau hyn at y rhestr o elfennau gorfodol yn peryglu gorlenwi'r cwricwlwm.

**271.** O ystyried nodau datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil a'i dull gweithredu yn y Bil, credwn fod angen cadw'r manylion ar ei wyneb yn gryno ac ar lefel uchel. Serch hynny, byddem yn croesawu cael sicrwydd bod yr eitemau dysgu pwysig a nodwyd mewn tystiolaeth i ni, a thrwy ddeisebau i'r Senedd, yn cael eu hystyried yn llawn at y diben o ddarparu cwricwlwm llawn a chyflawn ar gyfer Cymru fodern.

[218] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 42], 21 Hydref 2020.

**Argymhelliad 11.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pellach ar sut y caiff yr eitemau dysgu amrywiol y mae rhanddeiliaid a deisebwyr wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys fel elfennau gorfodol ar wyneb y Bil eu hatgyfnerthu gan y ddeddfwriaeth hon a'r gyfres o Godau a chanllawiau sy'n sail iddi.

### Hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant

#### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**272.** Un o bedwar diben y Bil, a nodir yn adran 2, yw "galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a r byd". Mae addysg hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i chynnwys yn y cyd-destun hwn ac o fewn maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau.

**273.** Thema drawsbynciol ar gyfer cynllun cwricwlwm ysgolion yw "hawliau dynol a'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)".[219] Mae'r canllawiau statudol dros dro a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn annog ysgolion i ymgorffori cyfleoedd i ddysgu am hawliau dynol, gan gynnwys ffynhonnell yr hawliau hynny, sy'n cynnwys Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.[220]

**274.** Un o Ddatganiadau yr Hyn sy'n Bwysig o fewn maes dysgu a phrofiad y dyniaethau yw: "Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol." Ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau, "dylid cael cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig at Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac i annog dysgwyr i gydnabod eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill".[221]

**275.** Felly, ym mis Medi 2020, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion yn ein hadroddiad ar yr ymchwiliad i Hawliau Plant i sicrhau bod addysg hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant, gyda chyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei addysgu o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru.[222]

---

[219] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru 2022, tudalen 41, Ionawr 2020.

[220] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru 2022, tudalen 19, Ionawr 2020.

[221] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru 2022, tudalen 125, Ionawr 2020.

[222] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Hawliau Plant yng Nghymru, Medi 2020.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**276.** Ysgrifennodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

> "Human Rights Education should be clearly defined and embedded within the Curriculum and Assessment (Wales) Bill and shown to underpin all four purposes of the curriculum. We would recommend that Human Rights Education is added to the General [implementation] requirements, as set out in Clause 30 of the Bill."[223]

**277.** Nid yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn credu ei bod yn ddigonol dibynnu ar ganllawiau'r cwricwlwm i nodi pwysigrwydd addysg hawliau dynol. Felly, hoffai gael cyfeiriad penodol yn y Bil ei hun.[224]

**278.** Nododd Comisiynydd Plant Cymru sut roedd cyfranogiad ei swyddfa wedi arwain at sawl canlyniad cadarnhaol o ran diwygio'r cwricwlwm, megis "cynnwys addysg hawliau dynol a CCUHP yn y canllawiau cwricwlwm trosfwaol". Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "On the whole, I'm satisfied that the current written content for the curriculum does give children a much greater, much more universal opportunity to learn about their human rights and the human rights of others. I'm very pleased my office has had a chance to be part of the development of that."[225]

**279.** Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd Plant yn ei thystiolaeth ysgrifenedig y "collwyd sawl cyfle, a mannau lle byddwn i wedi hoffi i'r cwricwlwm fynd ymhellach oran cynnwys hawliau dynol plant". Fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, roedd y Comisiynydd yn teimlo y "gallai hawliau plant a CCUHP fod wedi cael eu hintegreiddio'n benodol i bob Maes Dysgu a Phrofiad".[226]

**280.** Ychwanegodd y Comisiynydd hefyd, heb ddyletswydd sylw dyledus mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar wyneb y Bil, y gellid newid cynnwys addysg hawliau plant yng nghanllawiau'r cwricwlwm

[223]Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[224]Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[225] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 8 Hydref 2020.

[226] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

yn y dyfodol.[227] Mae paragraffau 295 i 300 yn trafod yr alwad i'r Bil gynnwys dyletswydd sy'n rhoi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn fwy manwl.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**281.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "Rights are a mandatory part of the schools' curriculum. Under the statements of what matters, it will be statutory. And the accompanying rationales of the statements of what matters in the humanities area of learning and experience makes reference to children's rights."[228]

**282.** Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Gweinidog fod dogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 "yn rhoi canllawiau clir ynglŷn â dysgu ac addysg ym maes hawliau dynol". Mae hefyd yn nodi y bydd y Cod yr Hyn sy'n Bwysig yn "cynnwys yr angen i ddysgwyr ddeall eu hawliau ac ymgysylltu â'r cysyniad o hawliau yn fwy cyffredinol", gan gynnwys hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.[229]

## Ein barn a'n hargymhellion: hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant

**283.** Rydym yn croesawu cynnwys addysg hawliau dynol ac addysg hawliau plant yn y cwricwlwm newydd. Credwn fod hyn yn rhan bwysig o sicrhau bod pedwar diben y Bil yn cael eu cyflawni.

**284.** Nodwn ddatganiad y Gweinidog fod canllawiau clir ar addysgu a dysgu hawliau dynol yn nogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Nodwn ymhellach awydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Plant i weld addysg hawliau dynol yn cael ei hintegreiddio'n benodol i bob maes dysgu a phrofiad.

**Argymhelliad 12.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall sicrhau bod lle hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant, yn ddiogel yn y tymor hir o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

[227] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 8 Hydref 2020.

[228] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 46], 21 Hydref 2020.

[229] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

## Sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a llesiant cenedlaethau'r dyfodol

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

**285.** Yn 2011, pleidleisiodd y Cynulliad (bryd hynny) yn unfrydol o blaid Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac wrth wneud hyn, y Cynulliad oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y Deyrnas Unedig i basio deddfwriaeth yn ymwneud â hawliau plant yn benodol. Roedd y Mesur yn cryfhau ac yn adeiladu ar y dull sy'n seiliedig ar hawliau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru o ran pennu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Rhoddodd ddyletstwydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i hawliau a rhwymedigaethau o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol.

**286.** Mae sylw dyladwy yn golygu mwy na dim ond rhoi ystyriaeth. Mae'r ddyletswydd sylw dyladwy yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi'r pwys priodol yn holl amgylchiadau'r achos i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gydbwyso hynny â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

**287.** Ar y cychwyn, roedd y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn gymwys wrth gynllunio a datblygu polisi neu ddeddfwriaeth newydd, neu adolygu neu newid deddfwriaeth neu bolisi presennol. Fodd bynnag, ers 2014, mae wedi bod yn gymwys i'w holl swyddogaethau.

**288.** Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sy'n gyfrifol am gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm o dan y Bil roi "sylw dyladwy" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**289.** Yn hanesyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod gosod dyletswydd "sylw dyladwy" ar wyneb deddfwriaeth. Y rheswm am hyn yw ei bod o'r farn bod gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn statws statudol eisoes trwy Fesur 2011 ac na ddylai deddfwriaeth newydd ailadrodd yr hyn sydd eisoes ar y llyfr statud.[230] Ar ben hynny, safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i anelu at

[230] Llywodraeth Cymru, Adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2018 i 2019: Ymateb Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2019.

wladwriaethau ac mai “mater i Lywodraethau yw sicrhau cydymffurfiaeth drwy eu cyfreithiau, eu camau gweinyddol a mesurau priodol eraill”.[231]

**290.** Serch hynny, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cynnwys dyletswydd ar y rhai sy’n gweithredu’r ddeddfwriaeth i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Yn y ddau achos, cafodd y dyletswyddau hyn eu cynnwys o ganlyniad i ddiwygiadau i’r Biliau wrth iddynt fynd drwy’r Cynulliad (fel y’i gelwid bryd hynny). Yn achos y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwangeol, roedd hyn yn dilyn ein hargymhelliad y dylid ychwanegu dyletswydd o roi sylw dyladwy i Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn at y ddeddfwriaeth.[232]

**291.** Roedd geiriad y ddyletswydd “sylw dyladwy” yn Neddf 2018 ychydig yn wahanol o ran dull i’r hyn a ddefnyddiwyd yn Neddf 2015, gan ei fod yn darparu’n benodol nad oedd yn ofynnol i gyrff sy’n ddarostyngedig i’r dyletswyddau “sylw dyladwy” ystyried y Confensiwn ar bob achlysur yr oeddent yn arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf. Mae hefyd yn gosod y ddyletswydd ar “gyrff perthnasol” yn hytrach nag ar “bersonau”.

### Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

**292.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (“Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol”) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, ac mae wedi ei chynllunio i sicrhau bod camau gweithredu yn diwallu anghenion y presennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

**293.** Mae’r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant ar gyfer Cymru ac yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru) i bennu a chyhoeddi amcanion i ddangos sut y byddant yn cyflawni’r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y nodau llesiant. Mae’n ofynnol i’r cyrff wneud y cyfraniad gorau posibl i gyflawni pob un o’r amcanion llesiant.

**294.** Nid yw cyrff llywodraethu ysgolion ac arweinwyr ysgolion yn “gyrff cyhoeddus” at ddibenion Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol.

---

[231] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

[232] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru), Mai 2017.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

**295.** Mae Comisiynydd Plant Cymru yn credu bod bwlch sylweddol yn y Bil gan nad yw'r egwyddor o alluogi hawliau dynol plant yn ymddangos yn unman yn y ddeddfwriaeth.[233]

**296.** Noda'r Comisiynydd fod yn rhaid mynd i'r afael â hyn trwy gynnwys dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar wyneb y Bil. Fel arall, bydd angen "newidiadau niferus" ar y Bil i sicrhau ei fod yn "cydymffurfio â CCUHP".[234] Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, rhestrodd y Comisiynydd nifer o adrannau o'r Bil y byddai angen eu newid, yn ei barn hi, pe na bai'r ddyletswydd gyffredinol o roi sylw dyladwy yn cael ei chynnwys yn y Bil. Heb y fath ddyletswydd, dywedodd y canlynol wrthym:

> "I would be asking the committee to make scores, or dozens at least, of very detailed amendments to every section of the Bill. I still think there will be some other sections of the Bill that will need amending, but with the due regard duty, we would be avoiding doing some very, very detailed ones, would be what I would argue."[235]

**297.** Esboniodd y Comisiynydd fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ei chais i'r Bil gynnwys dyletswydd ar bersonau/cyrff perthnasol i roi sylw i' Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Disgrifiodd honiad y llywodraeth nad oes angen gosod dyletswydd ar y rhai sy'n ymwneud â chyflawni'r Bil oherwydd bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o'r fath o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 "yn gamgymeriad llwyr".[236]

**298.** Dywedodd y Comisiynydd wrthym yn ei thystiolaeth lafar:

> "…that duty is placed only on Ministers—it's not placed on local authorities, it's not placed on headteachers, it's not placed on governing bodies. And we're looking now at a curriculum that I think quite rightly gives more autonomy to schools and governing bodies and local authorities. It's beyond the scope of the Measure to ensure

[233] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

[234] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

[235] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 24], 8 Hydref 2020.

[236] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

> that children's rights are central to the decision making of headteachers and governing bodies."[237]

**299.** Dadleuodd y Comisiynydd fod dyletswydd o roi sylw dyladwy hyd yn oed yn bwysicach gan fod y Bil yn rhoi pwerau a chyfrifoldebau ychwanegol i ysgolion wrth gynllunio'r cwricwlwm. Disgrifiodd nifer o fuddion o fod â dyletswydd sylw dyladwy, gan gynnwys yn benodol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheini sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, ac mae'n dadlau y byddant fel arall yn arbennig o agored i niwed.[238]

**300.** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn credu y dylai'r Bil gyfeirio'n benodol at Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Argymhellodd y dylid ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth weithredu yn unol â Chomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn hytrach na rhoi sylw dyladwy iddo. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod hepgor dyletswydd o'r fath yn golygu y bydd risg na fydd hawliau dynol yn cael eu hystyried wrth i'r Bil gael ei weithredu ac y byddai hynny ar draul cydraddoldeb a thegwch.[239]

**Llesiant cenedlaethau'r dyfodol**

**301.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym:

> "I'd like to see a bit more in terms of how the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 is being considered. There's no explicit, from what we can see, requirement around applying the five ways of working in the future generations Act to how the curriculum is developed and rolled out in practice."[240]

**302.** Teimlai'r Comisiynydd mai'r hyn sydd ar goll yn arbennig yn y Bil yw cyfeiriad penodol at feddwl hirdymor fel egwyddor allweddol sy'n rhedeg trwy ddatblygiad y cwricwlwm:

> "Because if we're setting curriculums, even just in the short term—because there is the flexibility for headteachers to amend and adapt—but if we're not thinking about long-term trends and scenarios such as

[237] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 8 Hydref 2020.

[238] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

[239] Tystiolaeth ysgrifenedig, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[240] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 8 Hydref 2020.

> the massive increase and trajectory in terms of mental health challenges amongst young people, such as climate change and what the world of work will look like in future and so on—if we're not considering that right at the outset, then whatever we're implementing is almost out of date before we start."[241]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**303.** Roedd y Gweinidog yn anghytuno'n gryf â barn y Comisiynydd Plant fod rhesymeg Llywodraeth Cymru dros beidio â chynnwys dyletswydd ar y rhai sy'n gweithredu'r Bil i roi sylw dyladwy i Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn "yn gamgymeriad llwyr".

**304.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Bil yn rhoi hawliau plant ar waith a'i fod yn sicrhau hawliau plant drwy eu gallu i dderbyn yr addysg sydd ei hangen arnynt. Nododd hefyd fod yr hyn sydd yn y cwricwlwm ei hun yn bwysicach na'r dyletswyddau sydd ar ymarferwyr ar sut i'w ddarparu:

> "Having a duty on bodies [to pay due regard to the UNCRC] is for nothing unless children themselves understand and know how to exercise their rights, and that has been the priority in ensuring that children have the opportunity to learn about them and then to be able to press them."[242]

**305.** Ceisiodd tystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gweinidog egluro pam ei bod yn amhriodol gosod dyletswydd sylw dyladwy ar ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen. Gellir crynhoi ei rhesymau fel a ganlyn:-

- Mae Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i anelu at lywodraethau sydd â'r rôl o lunio deddfwriaeth a dyletswyddau statudol ar gyrff gweithredu mewn ffordd sy'n gweithredu'r hawliau a gynhwysir yn y Confensiwn. Felly mae cydymffurfio â'r Comisiwn yn digwydd trwy osod dyletswyddau manwl.

- Ni fyddai dyletswydd o roi sylw dyladwy i'r rheini sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau gwell. Yn hytrach, gallai arwain at ddiwylliant ymgyfreitha lle byddai awdurdodau lleol ac ysgolion yn destun heriau cyfreithiol, a

[241] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 8 Hydref 2020.

[242] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 46], 21 Hydref 2020.

hyd yn oed pe bai'n llwyddiannus, ni fyddai'n arwain at unrhyw newid cadarnhaol i blant.

- Gallai dyletswydd ar ymarferwyr rheng flaen dynnu eu sylw oddi ar yr hyn sy'n bwysig trwy greu beichiau gweinyddol a biwrocratiaeth, gan greu ymarfer ticio blychau lle mae staff yn teimlo'r angen parhaus i gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi ystyried Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.[243]

## Ein barn a'n hargymhellion: sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a llesiant cenedlaethau'r dyfodol

**306.** Nodwn y dystiolaeth a gawsom yn galw ar y Bil i gynnwys dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**307.** Yn yr un modd â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac yn unol â'r casgliadau y daethom iddynt fel rhan o'n hadroddiad diweddar ar hawliau plant, credwn y dylai'r ddeddfwriaeth hon gynnwys dyletswydd benodol i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys, ar ei wyneb, ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ystyried eu priod rolau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, dylid gosod y ddyletswydd hon ar bawb a restrir yn adran 66(3) o'r Bil wrth arfer unrhyw un o'r swyddogaethau a roddir iddynt gan neu o dan y Bil.

**308.** Nodwn ymhellach y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r angen i ymgorffori y ffyrdd o weithio yr amlinellir ynddo yn natblygiad y cwricwlwm a'r gwaith o'i gyflwyno. Credwn ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod darpariaethau'r Bil hwn yn rhyngweithio'n effeithiol â nodau ac amcanion y Ddeddf honno.

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod synergedd digonol rhwng y Bil, y cwricwlwm newydd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod hyn yn cael ei atgyfnerthu yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol a wneir o dan y Bil.

[243] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020

# 5. Ieithoedd: y Gymraeg a'r Saesneg

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu haddysgu fel elfennau gorfodol i blant o 3 i 16 oed. Fodd bynnag, er mwyn galluogi lleoliadau cyfrwng Cymraeg i barhau i drochi plant yn y Gymraeg hyd at saith oed, mae'r Bil yn caniatáu iddynt ddatgymhwyso'r gofyniad hwn ar gyfer plant ym Mlwyddyn 2 ac iau. Mae hyn wedi bod yn ddadleuol ymhlith rhanddeiliaid ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i ddiwygio'r agwedd hon ar y Bil.

Mae yna bryderon am y ffordd y mae'r Bil yn trin y Gymraeg heblaw am y materion o ran trochi. Mae rhai—gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg—yn ofni ei fod yn tanseilio amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith.

**309.** Er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050,[244] dywed y Memorandwm Esboniadol fod "angen cydnabod dysgu ac addysgu'r Gymraeg a rhoi gwerth arnynt fel rhan annatod o'r cwricwlwm i Gymru".[245]

**310.** Nod Llywodraeth Cymru yw trawsnewid y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu fel bod y system addysg yn cyfrannu at ei gweledigaeth. Erbyn 2050, nod y Llywodraeth yw sicrhau bod o leiaf 70 y cant o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn gallu siarad Cymraeg.

**311.** Mae dau ddimensiwn i'r agenda hon:

- yn gyntaf, mae angen ehangu addysg cyfrwng Cymraeg; ac
- yn ail, mae angen i'r sector cyfrwng Saesneg ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion llawer iawn yn fwy nag ar hyn o bryd.

**312.** Dyma'r rhesymeg am roi'r gorau i addysgu Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith fel pynciau ar wahân ac fel cymwysterau ar wahân. Yn lle hynny, mae

[244] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg

[245] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.141.

Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg.

## Y gofyniad i ddysgu Saesneg i bob oedran

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**313.** Mae'r Bil yn sefydlu'r Gymraeg a'r Saesneg fel elfennau gorfodol o'r cwricwlwm newydd o dair oed ymlaen. Fodd bynnag, er mwyn galluogi lleoliadau i barhau i drochi dysgwyr yn llawn yn y Gymraeg yn ifanc (a gydnabyddir yn gyffredinol fel y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu sgiliau mewn iaith leiafrifol mewn cymdeithas lle y mae iaith fwyafrifol fwy cyffredin), mae adrannau 26 a 27 o'r Bil yn galluogi lleoliadau i ddatgymhwyso'r gofyniad i ddysgu Saesneg i ddysgwyr hyd at saith oed (hyd at ddiwedd Blwyddyn 2).

**314.** Y drefn o dan y cwricwlwm presennol yw bod y Gymraeg a'r Saesneg yn bynciau gorfodol o Gyfnod Allweddol 2 (dechrau Blwyddyn 3), tra bod Datblygu'r Gymraeg yn un o'r saith maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen (tair i saith oed). Nid yw'r Saesneg wedi'i nodi fel elfen orfodol o'r Cyfnod Sylfaen, ond yn amlwg, caiff ei dysgu mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg fel rhan o'r maes dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**315.** Mynegodd llawer o randdeiliaid bryderon cryf am yr hyn sy'n fater o drefn yn y Bil, h.y. bod Saesneg yn orfodol ar bob oedran, ac felly bod yn rhaid i ysgol ddatgymhwyso'r gofyniad hwnnw ('optio allan') er mwyn darparu addysg drochi yn y Gymraeg cyn saith oed. Mynegwyd pryderon am hyn yn yr ymatebion i'n galwad am dystiolaeth ysgrifenedig, y dystiolaeth lafar a glywyd ac mewn cyflwyniadau fideo.

**316.** Roedd yr hyn a nododd Dyfodol i'r Iaith yn crynhoi'r farn gyffredinol:

> "Yng ngoleuni'r ffaith bod nifer o awdurdodau lleol eisoes yn darparu addysg drochi ddiofyn yn y Gymraeg i blant dan 7 oed, yna'n amlwg mae'r cymal hwn yn cymryd cam yn ôl, drwy fynnu mai'r Saesneg yw'r norm fel cyfrwng addysg a bod angen gwneud eithriad ar gyfer y Gymraeg. (…)
>
> Dylai Bil y Cwricwlwm, o ran y Gymraeg, annog y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg nifer cynyddol o blant dan 7 oed.   Mae angen y flaenoriaeth yma i gadarnhau dull trochi ieithyddol sydd yn llwyddiannus ledled y byd, ac i roi i blant sylfaen ieithyddol gadarn yn y

> Gymraeg a fydd maes o law yn peri y byddant yn meistroli o leiaf dwy iaith erbyn bod yn 16 oed."[246]

**317.** Cyfeiriodd Cymdeithas yr Iaith at ymateb Llywodraeth Cymru i gais Rhyddid Gwybodaeth[247] a oedd yn datgelu nad oedd unrhyw arbenigwr wedi argymell gwneud Saesneg yn orfodol i bob oedran ym mhob lleoliad, a nododd nad oedd yr Athro Donaldson wedi argymell hynny ychwaith. Ym marn Cymdeithas yr Iaith, mae'r Bil yn dangos "camddealltwriaeth sylfaenol o wahanol sefyllfaoedd y ddwy iaith".[248]

**318.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod adrannau 26 a 27 "wedi ein harwain at gul de sac deddfwriaethol y gallesid fod wedi ei osgoi", gan egluro, "er mai dwyieithrwydd yw'r nod, nid yw o reidrwydd yn dilyn bod angen trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl gyfartal er mwyn cyflawni hyn".[249] Dywedodd y Comisiynydd nad yw'n "faes chwarae gwastad rhwng iaith fwyafrifol ac iaith leiafrifol", a bod hynny'n "cyfiawnhau triniaeth wahaniaethol o safbwynt deddfu".[250]

**319.** Dywedodd Estyn fod y gallu i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar drochi plant yn gyfan gwbl yn y Gymraeg hyd at saith oed yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu'r sgiliau iaith hyn yn gynnar, a holodd ai'r drefn yn y Bil o 'optio allan' yw'r ffordd orau o gyflawni hyn.[251] Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn cytuno bod y drefn yn y Bil yn hyn o beth yn drwsgl.[252]

**320.** Roedd Mudiad Meithrin, sy'n cynrychioli darparwyr blynyddoedd cynnar Cymraeg, yn dadlau y gellid camddehongli cynnwys Saesneg fel elfen orfodol yn y blynyddoedd cynnar fel awgrym "mai Saesneg yw iaith normadol cyfundrefn gofal ac addysg Cymru" a bod trochi disgyblion yn y Gymraeg yn "gwyro oddi wrth y drefn gywir".[253] Yn ei dystiolaeth ychwanegol, galwodd Mudiad Meithrin am ddiwygio'r agwedd hon ar y Bil fel blaenoriaeth "er mwyn osgoi'r dryswch

[246] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 30 – Dyfodol i'r Iaith.
[247] Llywodraeth Cymru, datganiad Rhyddid Gwybodaeth, Addysgu ieithoedd yn y papur gwyn ar y cwricwlwm newydd, Ebrill 2019.
[248] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 224 – Cymdeithas yr Iaith.
[249] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 70 – Comisiynydd y Gymraeg.
[250] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 70 – Comisiynydd y Gymraeg.
[251] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 20 – Estyn.
[252] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 71 a 73], 24 Medi 2020.
[253] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 24 – Mudiad Meithrin.

niweidiol" ac er mwyn osgoi "tanseilio'r" gwaith a wnaed eisoes i ddatblygu addysg Gymraeg.[254]

**321.** Roedd llawer o randdeiliaid hefyd o'r farn y byddai'n broblematig gadael i ysgolion unigol, yn hytrach nag awdurdodau lleol, benderfynu p'un ai i ddatgymhwyso'r gofyniad i ddysgu Saesneg cyn saith oed ai peidio. Fel y dywedodd un ymatebydd unigol, "byddai'n berffaith bosib, felly, i ysgolion unigol dynnu'n groes i bolisi awdurdod lleol o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant dan 7 oed".[255]

**322.** Dywedodd Cyngor Gwynedd y gallai arwain at "newid polisi drwy'r drws cefn", gan danseilio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol a'r dyheadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn strategaeth Cymraeg 2050:

> "Mae hyn yn tanseilio'n llwyr Polisi Iaith Addysg Gwynedd sydd wedi sicrhau cysondeb ac unffurfiaeth yn y ddarpariaeth ar draws y sir, gan sicrhau yr un cyfle i bob plentyn gaffael y Gymraeg drwy addysg drochi, a dod yn hyfedr ddwyieithog maes o law. Mae'n tynnu grym yn llwyr oddi wrth Awdurdodau Lleol sydd â pholisi iaith sirol cyson yn weithredol ar draws y gyfundrefn ysgolion."[256]

**323.** Dywedodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Dirprwy Lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Addysg a'r Gymraeg:

> "… local authorities, as the statutory authorities, need to retain the right to put a wider blanket policy in place for things like this, especially as, as I've said before, there's this tension between this new legislation [the Curriculum and Assessment (Wales) Bill] and legislation we have to work to now [the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013] to prepare Welsh in education strategic plans for developing Welsh language education. If we don't, as authorities, have the right to put that policy in place, we're not going to be able to deliver on the WESPs. So, that needs to be reviewed urgently to make sure that they're hand in hand…"[257]

---

[254] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Mudiad Meithrin yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Medi 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg .

[255] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 192 – Unigolyn.

[256] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 91 – Cyngor Gwynedd.

[257] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 20 Gorffennaf 2020.

**324.** Dywedodd Cyngor Ceredigion y gallai safbwynt y Bil o ran y Gymraeg a'r Saesneg yn y blynyddoedd cynnar gael "effaith gwbl ddinistriol" ar y Gymraeg a "rhoi ysgolion, penaethiaid a Llywodraethwyr mewn sefyllfa anodd".[258]

**325.** Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg y gallai'r sefyllfa gael ei datrys drwy naill ai:

- peidio â gwneud Saesneg yn elfen orfodol; neu
- ei gwneud yn glir nad yw'r Saesneg yn orfodol mewn lleoliadau Cymraeg cyn saith oed (Blwyddyn 3).

**326.** Roedd UCAC, yr undeb addysg, yn gadarn yn erbyn yr agwedd hon ar y Bil, a dywedodd wrthym:

> "Mae yna wahanol opsiynau, dwi'n credu, ond effaith y newid yw'r peth pwysig—bod e ddim yn ddiofyn fandadol hyd at saith oed, a bod dim angen datgymhwyso'r Saesneg."[259]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**327.** Yn ystod dadl ar y cwricwlwm newydd yn y Cyfarfod Llawn, ymatebodd y Gweinidog i'r farn nad oes angen i'r Saesneg fod yn orfodol ac nad yw'r sefyllfa'n gyfartal o ran datblygu a dysgu dwy iaith swyddogol Cymru:

> "Bydd y Bil hwn yn galluogi rhaglenni trochi Cymraeg i barhau, gan roi sylfaen gyfreithiol gadarn iddo a chryfhau ei sefyllfa fel elfen allweddol o gyrraedd ein dyheadau, fel dull gweithredu addysgeg sydd wedi ei brofi."[260]

**328.** Fodd bynnag, gan gydnabod y pryderon cynnar, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi addysg drochi ac y byddai'n parhau i drafod y materion hyn ac ymgysylltu â phobl tra bod y Senedd yn craffu ar y Bil.[261]

---

[258] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 54 – Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion.

[259] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 322], 24 Medi 2020.

[260] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 614], 1 Gorffennaf 2020

[261] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 615], 1 Gorffennaf 2020

**329.** Pan ofynnwyd iddi, yn ystod ein sesiwn gyntaf ar y Bil, y rhesymau pam mai'r sefyllfa ddiofyn oedd bod y Saesneg yn orfodol ym mhob lleoliad, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg, cyn Blwyddyn 3, atebodd y Gweinidog:

> "First of all, the Bill reflects the fact that we are a bilingual nation and, secondly, it reflects the point that it is really important and it is a building block to access the rest of the curriculum that children have strong language skills. (…)
>
> With regard to immersion, as I've said repeatedly, the Welsh Government absolutely supports the principle of immersion. It is a well-tested, well-understood and very successful way in which children can acquire Welsh language skills, and the Bill makes specific provision to allow that to happen, and to put it on a statutory footing."[262]

**330.** Erbyn ail ymddangosiad y Gweinidog, eglurodd ei bod wedi ailystyried yr angen i ddiwygio'r agwedd hon ar y Bil:

> "I am very keen to avoid any possible unintended consequences for the principle of immersion arising out of the way that the Bill is currently drafted. So, I have been listening to those concerns, reflecting on those concerns, and it certainly would be my intention, following those conversations, to look to make English mandatory from seven, through an amendment at Stage 2."[263]

**331.** Cadarnhaodd y Gweinidog yn ysgrifenedig wedi hynny[264] fod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad byr[265], yn cynnig diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 fel na fyddai'r Saesneg ond yn elfen orfodol o saith oed (Blwyddyn 3) ymlaen. O dan y cynnig, dywedodd:

- byddai'r Saesneg yn ddewisol i bob ysgol cyn saith oed; a
- byddai'r Gymraeg yn elfen orfodol o dair oed, yn unol â'r drafft cyfredol o'r Bil.

**332.** Dywedodd y Gweinidog y byddai hyn yn sicrhau bod y Bil yn gyson â'r arfer cyfredol yn y Cyfnod Sylfaen, lle y mae ysgolion yn cyflwyno'r maes dysgu a

---

[262] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 68-69], 14 Gorffennaf 2020.

[263] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 68], 21 Hydref 2020.

[264] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

[265] Llywodraeth Cymru, Arolwg, Statws mandadol y Saesneg yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu naill ai'n Gymraeg neu Saesneg, er ei bod yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud hynny'n Saesneg hefyd gyflwyno'r maes dysgu a phrofiad Datblygu'r Gymraeg. Mae'r rhai sy'n gwneud hynny'n Gymraeg yn trochi plant yn y Gymraeg yn bennaf.

**333.** Dywedodd y Gweinidog y penderfynwyd dilyn y drefn hon yn sgil y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor hwn a'r pryderon a fynegwyd yn ystod Cyfnod 1.

### Ein barn a'n hargymhellion: gofyniad i ddysgu Saesneg i bob oedran

**334.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn cydnabod faint o dystiolaeth a gafwyd, a chryfder y dystiolaeth honno, yn galw am newid y Bil o ran gwneud Saesneg yn elfen orfodol yn y blynyddoedd cynnar ac addysg babanod.

**335.** Credwn ei bod yn hanfodol bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd llawn i ddatblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau hyfedredd yn y ddwy iaith cyhyd ag y bo modd erbyn iddynt adael yr ysgol. Yn ein barn ni, dyma'r brif ffordd y bydd addysg yn gwneud y cyfraniad sydd ei angen i wireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg a nodwyd yn strategaeth Cymraeg 2050 .

**336.** Rydym yn cytuno mai trochi yw'r ffordd orau o ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg yn ifanc. Rydym yn cefnogi'r galwadau i'r Bil alluogi'r model trochi hwn i barhau hyd at saith oed ac rydym yn cytuno bod angen newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

**337.** Felly, rydym yn croesawu penderfyniad y Gweinidog i ymgynghori ar ei bwriad i gyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn yng Nghyfnod 2 ac yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â hyn.

> **Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i leddfu'r pryderon am yr effaith ar addysg drochi yn y Gymraeg hyd at saith oed (cyn Blwyddyn 3), gan nodi bod y Gweinidog yn bwriadu cyflwyno gwelliant sy'n dileu'r Saesneg fel elfen orfodol ar gyfer y grŵp oedran hwn.

## Sicrhau un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**338.** O dan y cwricwlwm newydd, bydd un continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg ym mhob ysgol, gan ddileu'r gwahaniaeth cyfredol rhwng Cymraeg iaith gyntaf (a addysgir yn bennaf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg) a Chymraeg ail iaith (a

addysgir yn bennaf mewn ysgolion cyfrwng Saesneg). Bydd y gofynion ar bob ysgol i ddysgu Cymraeg yr un fath, beth bynnag yw cyfrwng addysgu'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd dysgwyr ar wahanol bwyntiau ar yr un continwwm, sy'n debygol o adlewyrchu cyfrwng yr ysgol y maent yn mynd iddi.[266] Mae hyn i'w weld yn y gwahanol ddisgrifiadau o ddysgu Cymraeg ar y gwahanol gamau dilyniant, ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg.[267]

**339.** Bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu haddysgu'n bennaf drwy'r maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Yn yr un modd â'r meysydd dysgu a phrofiad eraill, cyhoeddwyd canllawiau statudol dros dro ar sut y bydd y maes hwn yn cael ei ddarparu mewn ysgolion ym mis Ionawr 2020.[268]

**340.** Mae'r cynllun wedi'i ddiweddaru gan Lywodraeth Cymru, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl' (Hydref 2020) yn cynnwys adran ar 'Y Gymraeg mewn addysg'. Mae hyn yn cadarnhau pwysigrwydd addysg i'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg a nodwyd yn strategaeth Cymraeg 2050 a bod Llywodraeth Cymru "am i fwy o blant feithrin sgiliau yn y ddwy iaith a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd". Mae'r cynllun hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg erbyn mis Medi 2021.[269]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**341.** Mae pryderon Comisiynydd y Gymraeg ynghylch y ffordd y mae'r Bil yn trin y Gymraeg yn mynd y tu hwnt i'r mater o ran addysg drochi yn y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a drafodwyd yn yr adran flaenorol o'r adroddiad hwn:

> "…dwi yn pryderu bod yr holl sylw ar hyn o bryd yn cael ei roi at yr elfen fandadol yma, a'r ymwneud o ran datgymhwyso Saesneg a phethau felly. Fy mhrif bryder i ynglŷn â'r ddeddfwriaeth yma ydy bod cyn lleied o sylw yn cael ei roi i'r Gymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg, lle mae'r cyrhaeddiad ar hyn o bryd yn ofnadwy o wael, wedi bod ers degawdau".[270]

---

[266] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.28.

[267] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022, Mae Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Ionawr 2020.

[268] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022.

[269] Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad Hydref 2020.

[270] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 37], 8 Hydref 2020.

**342.** Cred y Comisiynydd nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'i fod yn tanseilio'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn strategaeth Cymraeg 2050. Yn ei farn ef, nid yw'r Bil yn gwneud digon i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg nac i drawsnewid y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiynydd yn nodi'r canlynol am y Bil:

- nid yw'n gosod sail gadarn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly nid yw'n atgyfnerthu amcan polisi'r Llywodraeth i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru; ac
- nid yw'n gosod disgwyliadau a gofynion deddfwriaethol digon cadarn er mwyn symbylu'r newidiadau fydd eu hangen i'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i defnyddio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog.[271]

**343.** Nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod y Bil "yn cefnogi amcanion polisi'r Llywodraeth o safbwynt y Gymraeg yn y sector addysg statudol" ac felly ni all "gefnogi'r Bil fel y mae'n sefyll".[272] Mae'n galw am God statudol o dan y Bil i nodi sut y bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i dysgu o dan un continwwm. Byddai hwn yn God statudol ychwanegol i'r tri sydd eisoes yn ofynnol gan y Bil (Cod yr Hyn sy'n Bwysig, y Cod Cynnydd a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb).

**344.** Nododd y Comisiynydd ei farn ar yr angen am God o'r fath fel a ganlyn:

> "Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod her anferthol yng nghyd-destun cyfraniad y sector cyfrwng Saesneg i'r nod o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg. Bydd cyflawni targedau'r strategaeth ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg yn golygu gweddnewid y sefyllfa gyfredol lle mai ychydig iawn o ddisgyblion y gyfundrefn addysg cyfrwng Saesneg sy'n datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Nid yw gwneud y Gymraeg yn rhan orfodol o'r cwricwlwm yn ddigonol er mwyn cyflawni hyn. Mae angen i'r Llywodraeth gynnig arweiniad cryfach, yn ogystal â gosod gofynion deddfwriaethol pellach ar gyfer sicrhau bod ysgolion, dros

[271] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 70 – Comisiynydd y Gymraeg.

[272] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 70 – Comisiynydd y Gymraeg.

> gyfnod o amser, yn newid y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i defnyddio."[273]

**345.** Mewn tystiolaeth lafar, ychwanegodd:

> "Dydy'r sefyllfa o ran ysgolion cyfrwng Saesneg ddim yn mynd i newid dros nos. Mae hon yn dasg enfawr. (…)
>
> Os dydyn ni ddim yn barod i newid y gyfundrefn addysg, os dydyn ni ddim yn barod i newid y cwricwlwm, gadewch inni ddweud hynny. Ond bydd hynny hefyd yn creu sefyllfa lle fydd rhai o'r targedau o ran Cymraeg 2050 yn gorfod cael eu taflu allan o'r ffenest, achos fyddwn ni ddim yn cyrraedd y sefyllfa erbyn 2050 lle mae hanner y plant—achos mae'n rhaid inni newid yn gyfan gwbl y ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu o fewn yr ysgolion Saesneg. Nid jest mater o gynyddu nifer yr ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog ydy o."[274]

**346.** Mewn llythyr dilynol atom, yn ymateb i sylwadau'r Gweinidog yr hoffai glywed yr hyn yr oedd pobl yn teimlo oedd ar goll o ddogfennau'r Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, dywedodd y Comisiynydd nad oes "unrhyw waith arwyddocaol, ymarferol na phenodol wedi'i gyhoeddi ynglŷn â'r continwwm iaith Gymraeg". Dywedodd fod Llywodraeth Cymru "yn methu ar gyfle euraid", gan rybuddio ei fod yn pryderu, "heb gyfarwyddyd pellach" y byddwn "i bob pwrpas yn ail-adrodd methiannau'r gorffennol".[275]

**347.** Cytunodd nifer o randdeiliaid eraill fod angen rhagor o fanylion ar sut y byddai'r continwwm dysgu yn gweithio'n ymarferol. Mewn tystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd ar ôl iddo ymddangos gerbron y Pwyllgor, gwnaeth UCAC "gymell yn gryf" y dylid diwygio'r Bil i ddarparu ar gyfer llunio Cod Addysg Gymraeg.[276]

**348.** Dywedodd UCAC y dylid gwneud hynny "er mwyn i ysgolion (yn ogystal ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ac eraill o fewn y system addysg), gael dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau, a'r daith sydd o'u blaenau mewn perthynas â'r Gymraeg yn y cwricwlwm newydd". Ym marn UCAC, mae'r diffyg darpariaeth ar

---

[273] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 70 – Comisiynydd y Gymraeg.

[274] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 94-95], 8 Hydref 2020.

[275] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 8 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[276] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan UCAC yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 24 Medi 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

gyfer Cod o'r fath yn "gwrthgyferbyniad clir iawn gyda'r prif newidiadau polisi eraill y mae'r cwricwlwm yn eu cyflwyno".[277]

**349.** Ysgrifennodd Cyngor Ceredigion:

> "Mae'r MDaPh 'Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu' yn cael ei ddefnyddio nawr fel y diffiniad o'r continiwwm ieithyddol – nid dyna oedd y bwriad gwreiddiol ac mae angen fframwaith glir, cyson a chenedlaethol ar ddisgwyliadau camau ieithyddol sy'n arwain at ddwyieithrwydd."[278]

**350.** Nododd y Gymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG) hefyd na fydd y canllawiau ar y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn ddigonol ar eu pen eu hunain i ddiffinio'r continwwm. Mae CYDAG "yn gryf o'r farn bod angen cyfeiriad ar wyneb y Bil at y newid sylfaenol hwn" fel sy'n digwydd yn achos Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan nodi:

> "…byddai'n briodol darparu ar gyfer Cod sy'n ymwneud â'r materion hyn yn benodol ac yn fanwl er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector addysg ar bob lefel ynghylch y disgwyliadau yn y maes hwn."[279]

**351.** Mae Cymdeithas yr Iaith (rhanbarth Caerfyrddin) yn pryderu "y bydd y llywodraeth yn cefnu ar ei ymrwymiad" i ddileu Cymraeg ail iaith a chyflwyno un continwwm dysgu.[280] Mae ymateb cenedlaethol Cymdeithas yr Iaith hefyd yn nodi nad oes darpariaeth o ran Cod ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg, yn wahanol i'r tri Chod arall sy'n ofynnol o dan y Bil. Mae'n cytuno â'r alwad i God o'r fath gyflawni uchelgais strategaeth Cymraeg 2050 a "sicrhau ein bod yn gweithredu un continwwm go iawn ar gyfer dysgu'r Gymraeg".[281]

**352.** O ran cymwysterau, dywedodd Cymwysterau Cymru "mae yna sawl her a chyfle i'w hystyried":

> "O ystyried yr ystod eang o ddatblygiad iaith y mae'r continwwm yn ei gwmpasu, mae'n debygol y bydd angen mwy nag un cymhwyster i

[277] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan UCAC yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 24 Medi 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[278] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 54 – Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion.

[279] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 64 – Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG).

[280] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 81 – Cymdeithas yr Iaith (rhanbarth Caerfyrddin).

[281] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 224 – Cymdeithas yr Iaith.

> alluogi asesiad teg a chymesur o ddysgwyr sydd ar wahanol gamau dilyniant. Rhagwelwn y byddai unrhyw gymwysterau Cymraeg yn cysylltu'n glir ag un continwwm dysgu ac yn symud oddi wrth y gwahaniaeth presennol rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith."[282]

**353.** Ychwanegodd Cymwysterau Cymru y byddai'n gofyn am farn pobl ar gynigion ar gyfer cymwysterau Cymraeg yn gynnar yn 2021, fel rhan o'i ail ymgynghoriad mewn cyfres o dri ynghylch diwygio cymwysterau.[283]

**354.** Yn ei dystiolaeth lafar, galwodd Comisiynydd y Gymraeg am God neu ganllawiau cryfach, gan nodi:

> "Dwi'n meddwl bod y Bil ei hun yn gadarnhaol o ran lle rydyn ni eisiau cyrraedd. Mae'r penawdau yn rhywbeth sydd i'w canmol (…)
>
> Y cwestiwn dwi'n codi ydy—ar ôl trafod hyn am ddwy flynedd, dwi'n dal ddim yn deall sut rydyn ni'n disgwyl i ysgolion, yn ymarferol, newid i'r graddau rydyn ni'n disgwyl iddyn nhw newid, heb rywfaint o arweiniad o'r canol.
>
> Dwi'n meddwl mai'r ffordd orau o wneud hynny ydy mewn cod, ond dwi ddim yn gaeth i god. Os oes yna resymau cyfreithiol dros ganllawiau, mae'n rhaid i'r canllawiau fod yn glir."[284]

**355.** Ychwanegodd y Comisiynydd yn ei lythyr dilynol nad oes angen cyhoeddi Cod o'r fath cyn diwedd y Senedd hon ond y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd iddo ddigwydd.[285]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**356.** Pan awgrymwyd i'r Gweinidog nad yw'r Bil yn gwneud digon i gefnogi datblygiad a chynnydd y Gymraeg ac y gallai danseilio'r agenda a nodir gan Lywodraeth Cymru yn strategaeth Cymraeg 2050, atebodd:

---

[282] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Cymwysterau Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Medi 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[283] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Cymwysterau Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Medi 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[284] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 98-99], 8 Hydref 2020.

[285] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 8 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

> "…the Bill, and the contents of it, are very much in alignment with and are necessary to support the advancement of the 2050 agenda, especially with regards to the higher expectations that I believe that the languages and literacy and communications area of learning and experience has for the teaching of Welsh in English-medium schools, compared to our current curriculum. There's a lot of detail, I would argue, within that AoLE around expectations of progression and the development of Welsh language skills in the English-medium setting."[286]

**357.** O ran y disgwyliadau priodol mewn perthynas ag addysgu a dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, dywedodd y Gweinidog:

> "…the Bill requires Welsh to be mandatory for every learner from three to 16, and it gets away from the idea of having a Welsh first-language curriculum and a Welsh second-language curriculum. We get away from that in this legislation by saying that there is a progression. There is a mapping out of how those skills will be developed for all of our learners, rather than what we have at the moment, where some learners are regarded as first-language and second-language learners."[287]

**358.** Wrth ymateb i farn Comisiynydd yr Iaith fod diffyg gwybodaeth ac arweiniad o ran sut y bydd y continwwm yn gweithio a'i alwad am god statudol ar gyfer y Gymraeg, dywedodd y Gweinidog:

> "… I'd be interested to know the details of what details people think are missing, because I would regard the detail set out in the languages and literacy area of learning as very clear around expectations and progression. I think it's very detailed indeed. At this point, I have to say, we don't have any plans for introducing any other codes than those that are already accounted for in the Bill, because we think the detail is there in the AoLE and in the progression points."[288]

[286] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 61], 21 Hydref 2020.

[287] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 21 Hydref 2020.

[288] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 64], 21 Hydref 2020.

**359.** Awgrymodd y Gweinidog hefyd fod datrys pryderon tebyg i rai Comisiynydd y Gymraeg yn fater y tu hwnt i'r Bil:

> "I don't think it's the Bill itself, actually, that is the issue; I think it is the mechanism by which you deliver the Bill, and I think changing the Bill and giving greater detail in the Bill is not what's needed. (...)
>
> I don't want to give the impression that we think everything is fine—I think the challenge is not the Bill; the challenge is making good what is in the Bill, and that requires policy interventions in other areas to operationalise what is in the Bill."[289]

## Ein barn a'n hargymhellion: sicrhau un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg

**360.** Mae'n amlwg bod gan y system addysg ran ganolog i'w chwarae wrth gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyflawni hyn, mae'n glir i ni y bydd angen newid sylweddol i'r ffordd yr eir ati i ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ogystal ag ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.

**361.** Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg. Nodwn, i ddechrau, y bydd disgrifiadau gwahanol o ddysgu ar y gwahanol bwyntiau dilyniant ar hyd y continwwm hwn, a fydd yn adlewyrchu a yw dysgwyr yn mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg neu leoliad cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, heb gyfarwyddyd ac arweiniad clir a chadarn, mae'n anodd i ni weld sut y bydd y continwwm hwn yn gweithio'n ymarferol.

**362.** Os mai'r uchelgais yn yr hirdymor yw i bob ysgol fod yn gweithio'n unol â'r un disgrifiadau o ddysgu ar y continwwm, ni ellir gorbwysleisio'r graddau y mae angen trawsnewid addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd yn amlwg bod Comisiynydd y Gymraeg yn pryderu'n fawr am hyn. Yn sgil hynny, credwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod y mater hwn gyda'r Comisiynydd ac atgyfnerthu'r sail yn y Bil—a'r fframwaith cwricwlwm ehangach—o ran y continwwm ar gyfer y Gymraeg. Gallai hynny gynnwys ystyried Cod statudol.

**Argymhelliad 16.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg i fynd i'r afael â'i bryderon am y Bil, y drefn o ran cyflwyno un continwwm a nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ran strategaeth Cymraeg 2050. Dylai hyn gynnwys ystyried diwygio'r Bil i'w gwneud

[289] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 21 Hydref 2020.

yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod statudol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg o dan y cwricwlwm, neu atgyfnerthu'r canllawiau dros dro ar sut y disgwylir i ysgolion gyflawni un continwwm dysgu a chyfrannu at agenda Cymraeg 2050.

**Argymhelliad 17.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a phartneriaid perthnasol eraill i sicrhau bod cymwysterau priodol o ran y Gymraeg yn cael eu datblygu a'u bod ar gael i gyd-fynd â'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r elfen orfodol hon.

## Categorïau iaith ysgolion

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**363.** Nid yw'r Bil yn cyfeirio at gyfrwng iaith, hynny yw, mae'n nodi'r hyn a addysgir o dan y cwricwlwm ac nid yr iaith ar gyfer addysgu'r cwricwlwm.

**364.** Yn hynny o beth, mae'r elfennau orfodol Cymraeg a Saesneg y cyfeirir atynt yn y Bil yn ymwneud ag addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg o ran yr hyn a elwir yn bynciau ar hyn o bryd, yn hytrach na'r cyfrwng iaith ar gyfer addysgu'r pynciau. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd categori iaith ysgol yn cael dylanwad sylweddol ar:

- fan cychwyn y dysgwyr ar y continwwm ar gyfer y Gymraeg; a
- y disgwyliadau o ran cynnydd.

**365.** Yn wreiddiol, bwriad Llywodraeth Cymru oedd i'r Bil hwn ddarparu pwerau i wneud rheoliadau i nodi categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion, fel y nodwyd ym Mhapur Gwyn 2019:

> "O fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu newydd, bydd yr holl ddysgwr yn dilyn yr un cwricwlwm ar gyfer dysgu Cymraeg ar hyd y continwwm, gan ddileu'r termau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a dileu'r rhaglenni astudio cysylltiedig. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi ei lunio i gydnabod bod cyflymder y dysgu yn amrywio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg.  Bydd y disgwyliadau hyn yn cael eu diwygio bob tair i bum mlynedd er mwyn cynyddu'r her yn raddol ac i adlewyrchu bod profiadau dysgwyr o ddysgu Cymraeg yn newid wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith gam wrth gam ac wrth i ni weithio tuag at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. (…)

> Er mwyn nodi pa Ddeilliannau Cyflawni fydd yn gymwys i wahanol ysgolion yn ystod y cyfnod pontio, bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a fyddai yn caniatáu iddynt ragnodi'r diffiniadau ar gyfer y categorïau iaith i'r ysgolion hynny. Bydd y diffiniadau hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion cynllunio cwricwlwm a threfniadaeth ysgol."[290]

**366.** Fodd bynnag, nid yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn cynnwys pŵer o'r fath i wneud rheoliadau i ddiffinio categorïau iaith ysgolion statudol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar wahân i'r Bil ac mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd ymgynghoriad yn fuan.[291] Mae hyn yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2017)[292] a'r Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2019)[293] y dylid adolygu a diwygio'r canllawiau cyfredol o 2007[294] a'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer categoreiddio iaith ysgolion.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**367.** Gan gyfeirio at y disgwyliadau o ran ble y bydd dysgwyr yn cyrraedd ar y continwwm, dywed Comisiynydd y Gymraeg, "yn y tymor byr o leiaf", y bydd y system newydd "yn parhau i osod disgwyliadau gwahanol yn seiliedig ar gyfrwng iaith ysgolion". Mae ei dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn derbyn bod hyn yn anochel i raddau yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae'n dadlau y dylid cadw at fwriad hirdymor i bob ysgol a phob disgybl weithio i'r un disgwyliadau o ran addysgu a dysgu Cymraeg, ac mae'n tynnu sylw at ddatganiad Llywodraeth Cymru i'r perwyl hwnnw yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 9.28).[295]

**368.** Dywedodd y Comisiynydd wrthym y gellid gosod disgwyliadau clir ar ysgolion a chynllun ar gyfer eu cynnydd ar hyd y continwwm tuag at weledigaeth

---

[290] Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol, paragraffau 3.99-3.100, Ionawr 2019.

[291] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 21 Hydref 2020.

[292] Llywodraeth Cymru, Adolygiad o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg 2017 i 2020: adroddiad terfynol, Awst 2017.

[293] Llywodraeth Cymru, Gwella'r broses cynllunio addysg Gymraeg: Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg Mewn Addysg, Mai 2019.

[294] Llywodraeth Cymru, Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, 2007.

[295] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 70 – Comisiynydd y Gymraeg.

strategaeth Cymraeg 2050 drwy gael categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion o ran cyfrwng eu darpariaeth.[296]

**369.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, ategodd y Comisiynydd ei farn bod categorïau iaith ysgolion yn rhan annatod o'r cwricwlwm, er i'r Gweinidog ddweud eu bod yn fater trefniadaeth ysgol yn bennaf. Pwysleisiodd hefyd eu bod yn hanfodol i weithredu strategaeth addysg Gymraeg ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg yr awdurdodau lleol. Dadl y Comisiynydd oedd y bydd parhau â'r dull anstatudol cyfredol "yn tanseilio arwyddocâd strategol y categorïau hyn oherwydd ni fydd unrhyw sail statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn dilyn y drefn arfaethedig yn gywir".[297]

**370.** Roedd y Comisiynydd yn cwestiynu, felly, pam na all y Bil fynd i'r afael â'r mater hwn a chynnwys darpariaeth o'r fath ar gyfer rheoliadau, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol yn y Papur Gwyn, hyd yn oed os yw'r rheoliadau hynny'n cael eu gwneud yn ddiweddarach.[298]

**371.** Gwnaeth sawl rhanddeiliad arall sylwadau penodol ar y mater hwn. Dywedodd Cyngor Ceredigion fod "alinio canllawiau categoreiddio ieithyddol ysgolion" â dyheadau strategaeth Cymraeg 2050,[299] tra nodwyd yn ymateb rhanbarthol Gogledd Cymru (consortiwm GwE a'r chwe awdurdod lleol):

> "Rydym yn arbennig yn croesawu ac yn cydnabod y pwyslais y mae'r Bil hwn yn ei roi ar sicrhau bod dysgu ac addysgu'r Gymraeg yn y cwricwlwm newydd. Mae datblygu gallu dysgwyr i ddatblygu sgiliau ieithyddol ac i ymgysylltu â'r Gymraeg ar draws un continwwm o ddysgu iaith yn agwedd hanfodol ar weledigaeth ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol i sicrhau dull gweithredu cyson sy'n cyd-fynd â strategaethau a pholisïau

[296] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 93], 8 Hydref 2020.

[297] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 8 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[298] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 8 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[299] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 54 – Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion.

> rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol sy'n Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Pholisïau Iaith".[300]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**372.** Pan ofynnwyd iddi pam nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chategorïau iaith ysgolion, dywedodd y Gweinidog:

> "…linguistic categorisation was originally included in the White Paper, but as we've continued to work on the Bill, a decision was taken that schools categorisation was a schools organisation matter and, therefore, outside of a curriculum matter. If I'm brutally honest, in terms of the work streams, there was further work that needed to be done on categorisation. So, that work is ongoing and, indeed, it's my intention, if at all possible, that we'll be consulting on new arrangements around designation in a few weeks' time. So, that work has fallen a little bit behind, but it's imminent. But a decision was taken that that was a matter for schools organisation, rather than a matter for curriculum."[301]

**373.** Ceisiodd y Gweinidog ein sicrhau nad yw'r gwaith wedi dod i ben, gan nodi ei fod yn cael ei wneud ar wahân i'r cwricwlwm.[302]

## Ein barn a'n hargymhellion: categorïau iaith ysgolion

**374.** Rydym yn cytuno â Chomisiynydd yr Iaith y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ati'n gyflym i adolygu categorïau iaith ysgolion ac ystyried eu gosod ar sylfaen statudol. Byddai hyn yn helpu o ran gweithredu'r continwwm ar gyfer y Gymraeg a deall cynnydd dysgwyr ar hyd y continwwm mewn gwahanol ysgolion.

**375.** Nid oes gennym farn gadarn o ran a ddylai'r Bil gynnwys darpariaeth ar gyfer hyn ai peidio. Ni fyddai rhagnodi categorïau ysgolion yn y Bil, neu gynnwys pwerau gwneud rheoliadau i wneud hynny, yn ateb ynddo'i hun i'r pryderon ynghylch sut y bydd y continwwm yn gweithio'n ymarferol a sut y caiff cynnydd dysgwr ar hyd y continwwm ei fesur.

---

[300] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 189 - Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol

[301] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 21 Hydref 2020.

[302] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 21 Hydref 2020.

**376.** Fodd bynnag, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i symud ymlaen yn gyflym â'i gwaith ar ddiffinio categorïau iaith ysgolion, er mwyn cynnig canllawiau i alluogi darpariaeth glir ac effeithiol, drwy gyfeirio at y categorïau iaith hynny, ynglŷn â sut y bydd y continwwm yn gweithio. Mae'n ofid i ni na fu'n bosibl cwblhau'r gwaith hwn eto.

**Argymhelliad 18.** Bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflym i adolygu categorïau iaith ysgolion ac ystyried eu gosod ar sylfaen statudol, er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg a dealltwriaeth o'r continwwm mewn gwahanol ysgolion.

## Capasiti cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysg

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**377.** Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn croesawu'r darpariaethau i wneud y Gymraeg yn elfen orfodol yn y cwricwlwm newydd ac i gyflwyno un continwwm dysgu. Er enghraifft, ysgrifennodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot:

> "…we welcome the emphasis on creating a bilingual nation. As a part of this, we fully support the implementation of the concept of one continuum of learning and we agree with the removal of the Welsh first and second language programmes of study."[303]

**378.** Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid yn poeni am y goblygiadau o ran capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynnydd hwn o ran dysgu a datblygu'r Gymraeg. Awgrymodd un ymatebydd unigol y gallai niferoedd annigonol o athrawon sy'n gallu dysgu Cymraeg fod yn rhwystr i weithredu'r continwwm.[304] Yn yr un modd, croesawodd y Coleg Nyrsio Brenhinol yr uchelgais i ymgorffori'r Gymraeg, ond mae'n poeni y gallai diffyg athrawon, staff cymorth a nyrsys sy'n siarad Cymraeg fod yn rhwystr.[305]

**379.** Cyhoeddodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg adroddiad ym mis Awst 2020 ynghylch y Gymraeg a chapasiti'r gweithlu addysg statudol, gan ddisgrifio'r her i sicrhau digon o athrawon fel "un anferthol". Rhybuddiodd hefyd fod "perygl

---

[303] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 31 – Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot.

[304] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 167 – Unigolyn.

[305] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 32 – Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.

gwirioneddol y bydd diffyg athrawon cyfrwng Cymraeg yn tanseilio" agenda strategaeth Cymraeg 2050.[306]

**380.** Trafodwyd y goblygiadau o ran capasiti hefyd yng nghyd-destun y sector addysg bellach. Dywedodd Colegau Cymru wrthym:

> "Any expansion of Welsh language skills in learners as a result of the proposed bill is welcomed and an important addition to compulsory schooling. This however, needs to be matched by the ability for learners to study partly or fully through the medium of Welsh at post-16. This means continued investment in the Welsh language skills of the FE workforce to ensure that demand can be met."[307]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**381.** Er na soniodd y Gweinidog yn benodol am gapasiti'r gweithlu addysg i gefnogi'r continwwm, mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o £5 miliwn i ategu'r system addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyllid i gefnogi dysgu proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg a Chynllun Sabothol i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg neu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.[308]

**382.** Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn cydnabod bod "prinder athrawon uwchradd a all addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg." Mae hefyd yn cydnabod y gallai fod angen "darparu mwy o gyllid" i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, er ei fod yn dweud nad yw hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Bil. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw'r "anghenion ychwanegol mewn ysgolion ac, felly, y costau yn hysbys".[309]

## Ein barn a'n hargymhellion: capasiti cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysg

**383.** Mae'n amlwg i ni, er mwyn cyflwyno un continwwm ar gyfer y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal â chyfraniad y system addysg at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae angen cynyddu capasiti'r gweithlu addysg o

[306] Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru, Awst 2020

[307] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 91 – Colegau Cymru.

[308] Y Gweinidog Addysg, Papur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, paragraffau 2.15.10-2.15-15, Ionawr 2020

[309] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.185.

ran y Gymraeg yn sylweddol. Trafodir y broses o roi'r Bil ar waith yn ehangach ym mhennod 12.

**384.** Gwyddom fod sawl menter ar waith gan Lywodraeth Cymru â'r nod o fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys ymgyrch farchnata i godi ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau pobl o ran astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch, a chynnig cymhellion Addysg Gychwynnol i Athrawon er mwyn cynyddu nifer yr ymgeiswyr a all addysgu'r Gymraeg fel pwnc neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**385.** Fodd bynnag, i sicrhau'r cynnydd sydd ei angen, yng nghyswllt y continwwm dysgu ac agenda strategaeth Cymraeg 2050, o ran caffaeliad plant a phobl ifanc o'r Gymraeg, mae angen gwaith cynllunio a gweithredu dwys. Fel y dywed adroddiad Comisiynydd y Gymraeg (Awst 2020), mae angen "gweithredu ar frys".[310] Rydym yn cytuno, ac yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod gan Gymru y gweithlu addysg wrth gefn sydd ei hangen arni.

**386.** Mae ein hargymhelliad rhif 16 ynghylch gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn adlewyrchu'r angen am weithredu dwys i sicrhau sylfeini cadarn ar gyfer elfen orfodol y Gymraeg a'r continwwm dysgu i ystyried cynnwys Cod statudol yn y Bil neu atgyfnerthu'r canllawiau er mwyn mynd i'r afael â'i bryderon ynghylch y broses o roi'r continwwm ar waith. Fodd bynnag, bydd hefyd angen gwaith cynllunio, cyllid a hyfforddiant digonol er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu addysg y capasiti i gyflawni hyn.

**Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y darperir y gwaith cynllunio, y cyllid a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi'r broses o gyflwyno'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg yn effeithiol o dan y cwricwlwm newydd.

[310] Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru, Awst 2020

# 6. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae cryn gefnogaeth i'r ddarpariaeth orfodol yn y Bil ynghylch addysg cydberthynas a rhywioldeb, er bod nifer o ymatebion cydgysylltiedig yn gwrthwynebu'r gofyniad i addysgu hyn mewn ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd, a'r ffaith nad yw'r Bil yn rhoi hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o'r gwersi.

Mae'r gefnogaeth yn amodol ar yr angen am fwy o eglurder a manylder ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei addysgu, darpariaeth dysgu proffesiynol cynhwysfawr ar gyfer staff addysgu, a mewnbwn arbenigol. Mae angen cyfleu'r hyn y bydd Addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ei gwmpasu'n glir er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wybodaeth anghywir am yr agwedd hon ar y Bil.

**387.** Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn datgan:

> "Gofynion cyfyngedig iawn sydd yn y cwricwlwm presennol o ran addysg rhyw. Mae datblygiadau diwylliannol a chymdeithasol o ran y ffordd rydym yn meddwl am berthnasoedd a rhywedd, ac o ran y ffordd rydym yn eu mesur a'r gwerth rydym yn ei roi arnynt yn golygu bod y gofynion hyn wedi mynd braidd yn hen ffasiwn. Arweiniodd hyn at alwadau i adolygu addysg rhyw a pherthnasoedd."[311]

**388.** Yn 2017 comisiynodd Llywodraeth Cymru y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i wneud argymhellion ar ddyfodol addysg rhyw a pherthnasoedd yng Nghymru. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Ionawr 2018 ac roedd yn dod i'r casgliad:

- bod angen diweddaru'r gyfraith a'r canllawiau cyfredol; a

[311] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.28.

- bod y ddarpariaeth o dan y trefniadau presennol yn gyfyngedig, nid yw'n gynrychioladol ac mae'n anghyson.[312]

**389.** Caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei disgrifio yn y Memorandwm Esboniadol fel "…elfen bwysig o greu dull gweithredu ysgol gyfan o ran cynorthwyo iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd emosiynol a lles".[313] Mae hefyd yn nodi:

- bydd ACRh yn cael ei haddysgu ar draws y cwricwlwm;
- bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn archwilio'r "…ffyrdd cydgysylltiedig y mae ystod eang ac amrywiol o ddylanwadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol a biolegol yn effeithio ar y gallu i ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol"; ac
- amcan Llywodraeth Cymru yw gwella proffil, ansawdd a chysondeb addysg cydberthynas a rhywioldeb.[314]

**390.** Mae materion yn ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb ar gyfer y rhai dros oedran ysgol gorfodol yn cael eu hystyried ym mhennod 9.

## Statws gorfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd a'r cefndir ehangach

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**391.** Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw un o bedair elfen orfodol y cwricwlwm newydd ar gyfer plant 3 i 16 oed a bennir o dan adran 3 o'r Bil.

**392.** Bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn disodli addysg rhyw. Ar hyn o bryd, mae addysg rhyw yn orfodol mewn ysgolion uwchradd fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol (sy'n cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol, ond mae hefyd yn cynnwys pynciau eraill fel addysg bersonol a chymdeithasol, ac addysg gysylltiedig â gwaith). Mae ysgolion cynradd yn gallu addysgu addysg rhyw ond nid oes rheidrwydd arnynt i wneud hynny. Ar hyn o bryd mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o addysg rhyw nad yw'n rhan o un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol – mae hyn yn golygu nad yw hawl rhieni i dynnu disgyblion yn ôl o wersi yn ymestyn i, er enghraifft, ddosbarthiadau gwyddoniaeth lle mae disgyblion

[312] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.31.

[313] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.52.

[314] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.52-53.

yn dysgu am atgenhedlu. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar sut y dylid addysgu addysg rhyw a chydberthynas.

**393.** Yn wahanol i addysg rhyw ar hyn o bryd, bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn orfodol i bob dysgwr o 3 oed. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i addysg cydberthynas a rhywioldeb gael ei haddysgu mewn ffordd sy'n "briodol yn ddatblygiadol" i ddisgyblion a phlant.[315] Nid oes unrhyw fanylion eraill am gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb wedi'u cynnwys yn y Bil ei hun. Yn hytrach, bydd y ddarpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei harwain gan god statudol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi o dan adran 8(1) o'r Bil. Ni thybir bod cwricwlwm, addysgu a dysgu ysgol yn cwmpasu elfen orfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb oni bai eu bod yn cyd-fynd â'r Cod.

**394.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2019 ar ganllawiau drafft i ysgolion ar ddarparu addysg cydberthynas a rhywioldeb.[316]

**395.** Nid oes unrhyw hawl yn y Bil i riant dynnu ei blentyn yn ôl o addysg cydberthynas a rhywioldeb. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn hydref 2019 ar effaith y cynnig i newid gallu rhieni i dynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd.[317]

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

**396.** Ymhlith sefydliadau a gweithwyr proffesiynol a roddodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig inni, roedd y mwyafrif helaeth yn frwd o blaid cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb fel un o bedair elfen orfodol y cwricwlwm. Serch hynny, o'r rhai a ymatebodd fel unigolion i gofnodi eu gwrthwynebiad i'r Bil, nododd cyfran uchel drefniadau yn ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb fel ffynhonnell eu gwrthwynebiad.

**397.** Seiliodd y rhai o blaid cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb fel un o bedair elfen orfodol y cwricwlwm newydd eu dadl ar un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

---

[315] Adrannau 24(2), 31(3)(a), 32(6)(a), 38(2), 52(4), 54(3), 55(4) a 57(2) o'r Bil.

[316] Llywodraeth Cymru, Canllawiau drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, Chwefror-Ebrill 2019.

[317] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn, Hydref-Tachwedd 2019.

- mae angen diweddaru'r gyfraith gyfredol ac nid yw'n adlewyrchu darpariaeth seiliedig ar degwch o ran rhywedd;[318]

- heb statws gorfodol, mae'n annhebygol y bydd gwelliannau i ddysgu am y materion hyn yn cael eu gwneud, mae'n annhebygol y bydd yr amser, yr adnoddau a dysgu proffesiynol angenrheidiol yn cael eu neilltuo, a bydd y "loteri cod post" gyfredol sy'n wynebu plant a phobl ifanc o ran ansawdd y ddarpariaeth yn parhau;[319]

- bydd yn galluogi plant a phobl ifanc i adnabod perthnasoedd iach ac afiach yn well[320] ac yn helpu i gadw plant yn ddiogel rhag niwed[321];

- mae'n sicrhau bod rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn derbyn gwybodaeth ddiduedd am faterion na fyddent fel arall yn ymwybodol ohonynt/yn cael eu hamddiffyn rhagddynt;[322]

- mae plant a phobl ifanc eisiau gwell addysg cydberthynas a rhywioldeb;[323] a

- bydd yn arwain at fwy o gydlyniant a goddefgarwch mewn cymunedau.[324]

**398.** Mynegodd safbwynt Estyn farn llawer o randdeiliaid sy'n cefnogi cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb gorfodol yn y Bil:

> "We think it's a very important part of health and well-being. We're pleased that it's part of the AoLE, but there's also a cross-curricular requirement. We support it, but our feedback is that learners support this as well. It's an area of the curriculum, currently, that is quite patchy

[318] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 - Comisiynydd Plant Cymru.

[319] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 157 - Max Richard Ashton a thystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 159 a 167], 8 Hydref 2020.

[320] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 29 - Unigolyn.

[321] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 136], 8 Hydref 2020.

[322] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 176 - Dyneiddwyr Cymru a CAW 147 - Mencap.

[323] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 126 a 142], 8 Hydref 2020.

[324] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 23 - Ysgol Gynradd Franksbridge.

> and the quality varies. So, we think by placing this in health and well-being it will help schools to plan for a co-ordinated, whole-school approach to health and well-being that includes RSE."[325]

**399.** Dadleuodd cynrychiolwyr consortia rhanbarthol fod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn chwarae rhan hanfodol yn lles a diogelwch dysgwyr.[326] Ategwyd hyn gan yr NSPCC, a nododd:

> "We know that high-quality RSE is associated with a range of positive outcomes for children, but as its most basic function, it helps to keep children safe from harm. And the new compulsory RSE curriculum in Wales really brings an exciting potential to ensure that all children are equipped with the information and the language they need to understand that they have a right to safety, to recognise all forms of abusive or controlling behaviour and to empower them to speak out and get support at the earliest opportunity."[327]

**400.** Ymhelaethodd Cymorth i Ferched Cymru ar rôl addysg cydberthynas a rhywioldeb o ran diogelwch, gan esbonio:

> "…mandatory RSE within the new curriculum for all ages from three to 16 is best practice and is definitely needed (…)
>
> RSE based on gender equality and human rights is a powerful tool in the universal prevention of violence against women, domestic abuse and sexual violence, and challenges the inequalities that drive domestic abuse and rape and sexual violence and other forms of violence against women. So, we really think it would be critical."[328]

**401.** Cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at angen dybryd am addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm i sicrhau bod plant yn gallu gwireddu eu holl hawliau, gan gynnwys eu hawliau i gydraddoldeb, i beidio â dioddef

---

[325] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 17 Medi 2020.

[326] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 251], 20 Gorffennaf 2020.

[327] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 136], 8 Hydref 2020.

[328] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 126-127], 8 Hydref 2020.

gwahaniaethu, i wybodaeth o ansawdd uchel, i iechyd a gofal iechyd, ac i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a chamfanteisio.[329] Ychwanegodd:

> "…it's absolutely important that every child has that right and they're never withdrawn from receiving those rights. And that's what this Bill will do (…) I think it's absolutely vital that the RSE element goes through as it is on the Bill, so that we have that strong foundation for children's rights, and I strongly urge the committee to support that."[330]

**402.** Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai o'r rheini a oedd o blaid statws gorfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb fod peidio â chynnwys hawl i dynnu disgyblion yn ôl o wersi yn golygu bod angen i'r ddarpariaeth fod yn wrthrychol, o ansawdd uchel, yn blwraliaethol ac yn gynhwysol. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei fod yn cefnogi darpariaethau'r Bil ar addysg cydberthynas a rhywioldeb:

> "…on the basis that the Welsh Government make the curriculum more inclusive before the right to withdraw is removed."[331]

**403.** Crynhodd cynrychiolwyr Brook hyn fel a ganlyn:

> "…what's really important about the objectivity and the pluralistic side of things is about making sure that they're matters of fact, that they're verifiable, and they need to be distinguished from what's a matter of belief or personal opinion (…) We want our young people to be critical thinkers, but, ultimately, we need to ensure that the conversations are safe, and it's not just a case of anything goes. (…) it's just about ensuring, as we said earlier, that you've got reputable information, you've got correct information that's usable, that's reliable and is factually right, to be able to ensure that the curriculum is delivered to the highest of possible standards, to ensure that objectivity is there."[332]

**404.** Roedd nifer o randdeiliaid yn cefnogi'r ffaith nad yw'r Bil yn cynnwys yr hawl i dynnu plant yn ôl o addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dywedodd Humanists UK:

---

[329] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 23 a 55], 8 Hydref 2020.

[330] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 8 Hydref 2020.

[331] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).

[332] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 284], 8 Hydref 2020.

> "… removing the right to withdraw puts all children on the same footing; it gives them all access to that same information."[333]

**405.** Cytunodd yr Eglwys yng Nghymru, gan nodi:

> "…every child should learn about RSE in a safe environment, rather than perhaps hearing the playground version, the internet version; there are so many other means for children to access perhaps inappropriate guidance on relationships and sexuality education, so we think it's really important for all children to have access to high-quality but developmentally appropriate relationships and sexuality education. We think that that's very, very important—for all to hear the same messages there."[334]

**406.** Nid oedd peidio â chynnwys hawl i dynnu disgyblion yn ôl o wersi yn boblogaidd yn gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid. Er bod y Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig wedi egluro ei fod yn cefnogi RSE fel maes hanfodol ar gyfer datblygiad ac amddiffyn plant a phobl ifanc,[335] roedd yn dadlau:

> "…maintaining the right to withdraw would involve parents in that dialogue, so that any parents who did have concerns would enter into the dialogue with the school and become actively involved and actually wouldn't withdraw, whereas they might do if that right were taken away. So, that would be our concern, that removing the right to withdraw would actually create a problem that presently doesn't exist."[336]

**407.** Cefnogwyd y farn hon gan Cytûn, a oedd yn rhagweld y byddai diffyg hawl i dynnu disgyblion yn ôl o wersi yn arwain at "ofnau ynghylch cynnwys", ac yn "creu anghydfod cwbl ddi-angen rhwng cymunedau ac ysgolion".[337] Credai Grŵp Gwella

---

333 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 284], 15 Hydref 2020.

334 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 15 Hydref 2020.

335 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 15 Hydref 2020.

336 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 125, 15 Hydref 2020.

337 Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 106 – Cytûn.

Awdurdodau Lleol Consortiwm De Ddwyrain Cymru y gallai diffyg hawl i dynnu disgyblion yn ôl o wersi arwain rhai rhieni i addysgu eu plant gartref.[338]

**408.** Rhybuddiodd yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol a Phennaeth Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor, y gallai peidio â chynnwys darpariaeth optio allan mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb beri i Lywodraeth Cymru dorri Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[339] Mae hi'n dadlau bod y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Erthygl 2 Protocol 1, Hawl i Addysg) yn datgan bod yn rhaid i'r posibilrwydd o dynnu disgybl yn ôl o ddosbarth fodoli oni all y Wladwriaeth brofi bod y wybodaeth sy'n cael ei chyfleu yn y dosbarth hwnnw'n cael ei gwneud mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Mae'r Athro Mawhinney yn pwysleisio bod hyn yn berthnasol i bob pwnc a gweithgaredd sy'n digwydd yn ystod y diwrnod ysgol, nid pynciau sy'n gysylltiedig ag addysgu crefydd a moeseg yn unig.[340] Dadleua, oni bai y gall Llywodraeth Cymru fod yn hollol hyderus y bydd y cynnwys a'r cyflwyniad, ym mhob ysgol yng Nghymru, bob amser yn arwain at gyflwyno a chyfleu gwybodaeth mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol, y byddai'n hynod ddoeth cynnwys hawl gyfyngedig i dynnu disgyblion yn ôl o'r ddarpariaeth mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb er mwyn osgoi her lwyddiannus.

**409.** Roedd y rhai a wrthwynebai ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb yn gwneud hynny i raddau helaeth oherwydd na allai rhieni dynnu eu plant yn ôl o'r gwersi. Amlinellodd nifer o ymatebion unigol eu barn fel a ganlyn:

> "RSE being brought to our schools with little explanation on a very important change (…) [The Bill] doesn't give parents the right to withdraw their children, breaching parents (sic) rights to respect for their religious and philosophical convictions under article 2. protocol 1 (Right to education) and their right to freedom of thought, conscience

[338] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 118 – Grŵp Gwella Awdurdodau Lleol Consortiwm De Ddwyrain Cymru.

[339] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 122 – Yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor.

[340] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 122 – Yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor.

> and religion under Article 9 of the European convention of Human Rights."[341]

**410.** Roedd llawer o wrthwynebwyr y darpariaethau hyn hefyd yn teimlo bod dysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb o 3 oed yn rhy ifanc.[342] Ar y llaw arall, dadleuodd nifer o randdeiliaid a oedd o blaid y darpariaethau fod addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n briodol i ddatblygiad o oedran ifanc yn hanfodol o safbwynt hawliau plant, ac er mwyn ceisio amddiffyn – o'r cyfle cynharaf posibl – blant o oedran ifanc iawn sydd yn profi camdriniaeth, esgeulustod neu drais.[343]

**411.** Cododd ymatebion gan rai sefydliadau ffydd bryderon hefyd ynghylch diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Roeddynt yn gwrthwynebu'r hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel dileu amddiffyniadau pwysig, gan gynnwys:

- "the requirement that RSE is provided in a way to encourage due regard to moral considerations and the value of family life";
- "that guidance issued by Welsh Ministers must be designed to secure that pupils learn about the nature of marriage and its importance for family life and the raising of children";
- "that children are protected from teaching and materials that are inappropriate having regard to their age, religious culture and background."[344]

**412.** Roedd nifer sylweddol o wrthwynebiadau i gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb gorfodol yn y Bil hefyd yn seiliedig ar dybiaethau di-sail bod y darpariaethau yn rhan o fudiad byd-eang i rywioli a/neu gam-drin plant.[345]

---

[341] Gweler, er enghraifft, dystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 80, 82, 83, 153, 166, 168, 178, 181, 183, 188, 190, 194, 206, 209, 213, 217, 219, 220, 221, 222, 223, 226 a 227 - Unigolion.

[342] Gweler, er enghraifft, dystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 12, 39, 105 – Unigolion

[343] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 209 a 228], 8 Hydref 2020.

[344] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 174 – Archesgobaeth Babyddol Caerdydd. Gweler hefyd CAW 225 – Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

[345] Gweler, er enghraifft, dystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 18, 37, 38, 39, 75, 78, 79, 80, 82, 83, 94, 95, 105, 108, 109, 110, 152, 161, 180, 186, 193, 196, 197, 199, 201, 203, 208, 218, 230, 233, 236 - Unigolion.

**413.** Cafwyd cefnogaeth sylweddol yn ein harolwg plant a phobl ifanc i'r cynigion ynghylch addysg cydberthynas a rhywioldeb. Roedd 82 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion y dylai pob plentyn a pherson ifanc ddysgu am sut i gael cyfeillgarwch a pherthnasoedd iach. Teimlai 62 y cant o'r ymatebwyr na ddylai rhieni a gofalwyr fod â'r hawl i dynnu plant a phobl ifanc yn ôl o ddarpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb, ac felly roeddent yn cytuno â'r sefyllfa a nodir yn y Bil.[346]

**414.** Dywedodd rhai plant a phobl ifanc wrthym yn ein trafodaeth bord gron rithwir mai addysg cydberthynas a rhywioldeb a Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol oedd nodweddion gorau y cwricwlwm newydd yn eu barn nhw. Roeddent yn teimlo mai addysg cydberthynas a rhywioldeb oedd un o agweddau gwannaf eu haddysg ar hyn o bryd a bod angen ei haddysgu fwy nag ychydig o weithiau'r flwyddyn, sef eu profiad ar hyn o bryd. Roeddent yn cydnabod y gallai peidio â rhoi'r hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o addysg cydberthynas a rhywioldeb greu potensial ar gyfer tensiynau o fewn teuluoedd, a rhwng teuluoedd ac ysgolion, a phwysleisiwyd pwysigrwydd ceisio peidio â dieithrio pobl pe bai hyn yn wir.[347]

**415.** Roedd y rhieni a'r gofalwyr y buom yn siarad â hwy yn ein trafodaethau bord gron rhithwir yn cefnogi addysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb ar yr amod ei bod yn briodol i oedran y dysgwr ac yn briodol ar gyfer lefel dealltwriaeth y dysgwr. Mynegwyd peth pryder y gallai addysg cydberthynas a rhywioldeb sbarduno ymatebion negyddol ymysg plant sydd wedi cael profiadau niweidiol.[348]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**416.** Pan ofynnwyd iddi am statws addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y Bil, esboniodd y Gweinidog:

> "…this [mandatory RSE] is a really, really important part of our new curriculum approach (…) It is absolutely, in my eyes, essential that children and young people have access to high-quality RSE. We cannot achieve the purposes of our curriculum if children are prevented from accessing the full curriculum, including this very important part. (…) indeed, if we listen to young people themselves (…) how we manage

[346] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Dadansoddiad o'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc, Hydref 2020.

[347] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020

[348] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020

> our relationships, how we keep ourselves safe, how we relate to one another are important life skills, and therefore it is important that all children have access to that part of the curriculum."[349]

**417.** Wrth ymateb i bryderon ynghylch peidio â chaniatáu tynnu plant yn ôl o addysg cydberthynas a rhywioldeb, dywedodd y Gweinidog:

> "…I don't believe we can deliver the full purposes that are required in the law without ensuring that all children have access to those lessons. The purposes cannot be achieved if we allow children to be denied access to a full, broad and balanced curriculum."[350]

**418.** Pan ofynnwyd iddi pa fesurau diogelu sy'n bodoli yn y Bil, neu'n ehangach, i geisio sicrhau bod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno mewn ffordd wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol, cyfeiriodd y Gweinidog at:

- y newid enw (er mwyn ehangu'r pwnc a'r cysyniadau y dylid eu cynnwys);
- y gofyniad am god statudol sy'n nodi'r dysgu craidd, y mae'n ei ddisgrifio fel "…ffordd o weithredu eithriadol er mwyn adlewyrchu'r materion diwylliannol, moesol a moesegol pwysig sy'n rhan annatod o addysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb, mewn cwricwlwm sy'n ceisio peidio â bod yn rhagnodol i raddau helaeth"; a'r
- ddarpariaeth benodol yn y Bil i'r addysg cydberthynas a rhywioldeb a ddarperir fod yn briodol o ran datblygiad.[351]

**419.** Wrth ymateb i'r hawliadau di-sail sydd ar led o ganlyniad i ymgyrchoedd adweithiol yn ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, dywedodd y Gweinidog:

> "…it is positively dangerous, it presents some real safeguarding issues to children and young people, and it is causing unnecessary fear amongst

[349] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 76], 21 Hydref 2020

[350] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 14 Gorffennaf 2020

[351] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

> parents. And, I have to say, some of it is wilful; it is wilful misinterpretation and fearmongering."[352]

## Ein barn: statws gorfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd

**420.** Fel Pwyllgor rydym yn unfrydol yn ein cefnogaeth i gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb fel elfen orfodol o'r Bil.

**421.** Rydym wedi ystyried yn ofalus y pryderon a godwyd ynghylch:

- y ffaith nad yw'r Bil yn rhoi hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o'r ddarpariaeth; a
- sut mae hynny'n effeithio ar hawliau rhieni i barch i'w hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol o dan Erthygl 2, Protocol 1[353] ac Erthygl 9[354] o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ystyrir manylion y rhain yn fanylach ym mhennod 1.).

**422.** Tra bod cyfraith achosion bresennol[355] yn ei gwneud yn ofynnol i bob elfen o'r cwricwlwm (gan gynnwys y ffordd y caiff ei gyflwyno) fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol – gan barchu argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol rhieni trwy hynny – rydym yn cydnabod bod hawliau rhieni i dynnu eu plant yn ôl o'r ddarpariaeth yn cael eu hystyried weithiau yn fesur diogelu pwysig o ran sicrhau cydymffurfiaeth â hawliau dynol. Mae hyn oherwydd mewn achosion lle nad yw'r cwricwlwm (neu'r ffordd y caiff ei addysgu) yn ddigon gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol, gall rhiant dynnu ei blentyn yn ôl o'r dosbarthiadau hynny a thrwy hynny sicrhau bod ei argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol yn cael eu parchu.

**423.** Rydym yn fodlon nad yw peidio â chynnwys hawl i dynnu disgyblion yn ôl o'r ddarpariaeth o reidrwydd yn arwain at dorri hawliau rhieni o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ond mae'n hanfodol bod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol er mwyn sicrhau bod hawliau rhieni yn cael eu parchu ac yn parhau i gael eu parchu. Rydym yn cydnabod rôl hanfodol rhieni wrth addysgu a darparu

[352] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 93], 21 Hydref 2020.

[353] Hawl i addysg.

[354] Hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd.

[355] *Folgero v Norway* (2008) 46 EHRR 47, *Zengin v Turkey* (2008) 46 EHRR 44.

arweiniad i'w plant, ac rydym o'r farn y dylai addysg cydberthynas a rhywioldeb ategu hyn.

**424.** Credwn fod natur orfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb yn hanfodol i greu'r amodau angenrheidiol i alluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael mynediad at addysg cydberthynas a rhywioldeb cynhwysfawr o ansawdd uchel sy'n gweddu i wlad fodern, oddefgar a chynhwysol. Mae hefyd yn ddull pwysig i helpu plant a phobl ifanc i ddeall a pharchu eu hawliau eu hunain a hawliau eraill o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn ehangach, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**425.** Ar y sail hon, rydym yn cefnogi'r ffaith nad yw'r Bil yn cynnwys hawl i dynnu disgyblion yn ôl o'r ddarpariaeth gan ein bod yn credu y dylai pob plentyn gael mynediad llawn at ddysgu am gydberthynas a rhywioldeb. Yn ein barn ni, byddai cynnwys hyd yn oed hawl gyfyngedig i dynnu disgyblion yn ôl o'r ddarpariaeth yn peri risg o danseilio'r dull gweithredu hwn. Serch hynny, rydym yn pwysleisio'n gryf bod ein cefnogaeth yn amodol ar y ffaith fod yr addysg cydberthynas a rhywioldeb a ddylunnir ac a ddarperir:

- yn briodol o ran datblygiad;
- yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol;
- yn cael ei chyflwyno yn unol â chanllawiau statudol manwl a chlir, a luniwyd gan arbenigwyr, ymarferwyr a phlant a phobl ifanc eu hunain;
- yn cael ei hategu gan y dysgu proffesiynol, yr adnoddau a'r gefnogaeth arbenigol angenrheidiol.

**426.** At hynny, rydym yn cefnogi gwneud addysg cydberthynas a rhywioldeb yn orfodol o 3 oed. Rydym yn rhoi'r gefnogaeth hon ar y sail ganlynol:

- credwn ei bod yn hanfodol o safbwynt hawliau plant i blant a phobl ifanc eu bod yn cael eu hysbysu am faterion sylfaenol o'u blynyddoedd cynnar;
- bydd cynnwys yn cael ei deilwra ar gyfer disgyblion ar wahanol oedrannau a gwahanol gamau yn eu datblygiad emosiynol ac ymddygiadol; ac
- rydym yn cytuno â Brook a ddywedodd

  "We trust the medical profession to make sure that we're all healthy human beings; let's trust our teachers to ensure that they're going to

give a comprehensive and solid education to our children and young people to prepare them for life."[356]

**427.** Rydym wedi ystyried a ddylid diwygio'r Bil i osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, cyrff llywodraethu a phenaethiaid i wneud gofyniad penodol i addysg cydberthynas a rhywioldeb gael ei chynllunio a'i chyflwyno yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Rydym wedi dod i'r casgliad bod hyn yn ddiangen. Mae Gweinidogion Cymru eisoes dan ddyletswydd i weithredu'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wrth gyhoeddi'r Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb (ac unrhyw ganllawiau) o ganlyniad i adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac felly bydd yn ofynnol iddynt sicrhau bod y themâu a'r materion a nodir yn y Cod a'r canllawiau yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Yn yr un modd, mae adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu a phenaethiaid weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â'r Confensiwn

## Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**428.** Bydd darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei harwain gan God statudol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi o dan adran 8(1) o'r Bil. Mae adran 72 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod fod yn destun craffu gan y Senedd, o dan yr uwch-weithdrefn negyddol.[357]

**429.** Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi y bydd y Cod:

- yn sicrhau y bydd cwricwlwm pob ysgol yn cynnwys yr hyn a nodir yn y Cod;
- yn disgrifio'r "dysgu craidd lefel uchel" y bydd disgyblion a phlant yn ymgymryd ag ef yn elfen orfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb; ac
- yn creu gofynion statudol mewn perthynas â'r hyn y mae'n rhaid ei addysgu fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb a fydd yn sicrhau bod y dysgu yn briodol i oedran a datblygiad;

[356] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 207], 8 Hydref 2020.

[357] Mae'r uwch-weithdrefn negyddol yn golygu mai dim ond ar ôl i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y Cod a'i osod gerbron y Senedd y gellir cyhoeddi'r Cod. Ni fydd yn cael ei gyhoeddi os bydd y Senedd, o fewn 40 diwrnod o'i osod, yn penderfynu peidio â'i gymeradwyo.

- yn sicrhau tryloywder o ran cynnwys ar gyfer dysgwyr 3-16 oed.[358]

**430.** Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn esbonio hefyd:

> "Rhagwelir y gallai fod angen diwygio'r Cod dros amser er mwyn adlewyrchu anghenion newidiol disgyblion neu newidiadau mewn cymdeithas. Er mwyn ymateb i newid mewn amgylchiadau, ystyrir ei bod yn briodol cyhoeddi'r manylion hyn fel Cod yn hytrach na'u cynnwys yn y Bil."[359]

**431.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2019 ar ganllawiau drafft i ysgolion ar ddarparu addysg cydberthynas a rhywioldeb.[360] Dywed y Datganiad o Fwriad Polisi fod y "Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan weithgor gyda ystod o rhanddeiliaid ac ymgynghorir arno yn ystod hydref 2020".[361] Nid oedd y Cod wedi'i gyhoeddi adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**432.** Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn rhestru'r chwe "phennawd" sydd i'w hamlinellu yn y Cod fel:

- hawliau a chydraddoldeb;
- cydberthnasau;
- rhyw, rhywedd a rhywioldeb;
- cyrff a delwedd gorfforol;
- iechyd a lles rhywiol;
- trais, diogelwch a chymorth.[362]

**433.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y penawdau hyn yn deillio o ganllawiau technegol UNESCO ar gyfer addysg rhywioldeb, "…sydd wedi llywio'n

---

[358] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau, Gorffennaf 2020.

[359] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau, Gorffennaf 2020.

[360] Llywodraeth Cymru, Canllawiau drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, Chwefror-Ebrill 2019.

[361] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau, Gorffennaf 2020

[362] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.69

uniongyrchol ganllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020".[363]

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

**434.** Roedd mwyafrif helaeth y rhai a oedd yn cefnogi'r darpariaethau addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y Bil yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod digon o fanylder ac eglurder ynghylch natur a chynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb wedi'u cynnwys yn y Cod. Rhoddwyd un neu fwy o'r rhesymau canlynol am hyn:

- i liniaru unrhyw bryderon ymhlith rhieni, gofalwyr a / neu weithwyr addysg proffesiynol am yr hyn a fydd yn cael ei drafod yn addysg cydberthynas a rhywioldeb;[364]
- i ddarparu dull gweithredu cyson ledled Cymru, trwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer datblygu'r adnoddau a'r dysgu proffesiynol angenrheidiol;[365]
- i sicrhau bod y ddarpariaeth yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol;[366]
- i geisio amddiffyn athrawon, penaethiaid ac ysgolion unigol rhag heriau tebyg i'r rhai a brofwyd yn Birmingham mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhyw/rhywioldeb;[367] ac
- i gyflawni hawl plentyn i ddiogelwch.[368]

**435.** Galwodd cynrychiolwyr penaethiaid am "ganllawiau llym" ar gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb:

---

[363] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.70.

[364] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 243], 8 Hydref 2020.

[365] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 24 Medi 2020.

[366] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 88], 20 Gorffennaf 2020.

[367] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 279], 24 Medi 2020.

[368] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 147], 8 Hydref 2020.

> "We need clear direction of approach from Welsh Government in order to provide clarity and consistency as to what schools are expected to deliver and how to ensure that this is accessed by children across to the stage of their development and understanding."[369]

**436.** Cytunodd cynrychiolwyr athrawon, gan bwysleisio pwysigrwydd y ffordd y mae'r Cod wedi'i lunio yn y ddeddfwriaeth fel nad yw'n gyfrifoldeb ar benaethiaid unigol.[370]

**437.** Cefnogodd Comisiynydd Plant Cymru y ffaith bod manylion mewn perthynas â chynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael eu gadael i'r Cod yn hytrach na chael eu nodi ar wyneb y Bil:

> "There will be a code and guidance, which will really get into the detail of what is to be taught and how it is to be taught. And that's the right place for that to happen. I don't think that can happen in this Bill."[371]

**438.** Dywedodd yr Athro EJ Renold a gadeiriodd y Panel o Arbenigwyr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wrthym:

> "There's a balance to be made, but it's vital that we have explicit content and that flexibility, so that teachers can basically deliver developmentally appropriate practice. (…)
>
> …we need to have more explicit content so that teachers are very clear about what they can do."[372]

**439.** Cefnogodd Stonewall y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb ar y sail:

> "…there is a need for learning to be explicit in terms of alleviating anxieties with regard to what people think and want to know what will be taught, and I think that's [the Code] an important vehicle for that."[373]

---

[369] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 24 Medi 2020.

[370] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 279], 24 Medi 2020.

[371] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 8 Hydref 2020.

[372] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 134 a 230], 8 Hydref 2020.

[373] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 243], 8 Hydref 2020.

**440.** Cytunodd yr Eglwys yng Nghymru:

> "…we support that [the Code], because we think that that will give much-needed clarity. This will be a contentious issue, and we want to work with wider organisations to ensure that this is implemented smoothly."[374]

**441.** Esboniodd cynrychiolydd Brook fod angen y manylion y bwriedir eu cynnwys yn y Cod hefyd er mwyn osgoi'r anghysondeb a'r loteri cod post a welir o fewn ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru:

> "…as long as it's detailed and it's clear about what education young people should be having access to, that will take away that unfairness."[375]

**442.** Ychwanegodd:

> "…there are really important lessons to be learnt from there [England] about the lack of clarity about what should actually be taught […] if we're not clear within the code what needs to be taught, we're going to be in the same situation."[376]

**443.** Yn ogystal ag anogaeth i ddysgu gwersi o Loegr, dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru wrthym fod canllawiau anstatudol ar y dull ysgol gyfan o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn dangos pwysigrwydd cael Cod statudol:

> "…schools have struggled to take that up because of its lack of statutory stance (…) They're really wanting the statutory guidance on how and what to deliver around this. They're asking for that, and so, we really need to deliver that within this Bill."[377]

---

[374] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 15 Hydref 2020.

[375] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 159], 15 Hydref 2020.

[376] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 224], 8 Hydref 2020.

[377] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 161], 8 Hydref 2020.

**444.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu, fodd bynnag, nad oes llawer o fanylion ar gael o hyd am gynnwys y Cod. Crynhowyd hyn gan gynrychiolydd yr NSPCC, a ddywedodd:

> "...the Bill states that the core learning in the RSE code is designed to be explicit, but we do feel that there's a concerning lack of detail included in the core learning areas. So, while we know there are six thematic areas, and then there's the brief summaries that were included in the Curriculum for Wales guidance, they're a really good starting point, but they are much too vague and lack specific detail of what topics should be covered within each of those themes. We feel that schools need a really clear and comprehensive RSE code and statutory guidance, with explicit detail, so they know what topics should be taught within each of those themes. And we're concerned that, without this, it will create an inconsistent approach to RSE."[378]

**445.** Galwodd rhai sefydliadau am gyfeirio'n benodol at faterion penodol yn y Cod, gan gynnwys:

- cydnabod y sbectrwm llawn o berthnasoedd a rhywioldeb, a hunaniaethau LGBT;[379]
- pob maes camdriniaeth ac esgeulustod,[380] gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol[381];
- datganiad clir ar gadw plant yn ddiogel rhag niwed;[382] a
- phwyslais ar gadw'n ddiogel ar-lein.[383]

---

[378] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 220], 8 Hydref 2020.

[379] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a thystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 140 a 220], 8 Hydref 2020.

[380] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 220], 8 Hydref 2020.

[381] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 226], 8 Hydref 2020.

[382] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 220], 8 Hydref 2020.

[383] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 220], 8 Hydref 2020.

**446.** Ychydig a ddywedwyd yn benodol yn y dystiolaeth a gawsom ynghylch priodoldeb y weithdrefn ar gyfer llunio'r Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb, heblaw am Stonewall, a ddadleuodd y byddai angen i unrhyw graffu dynnu ar wybodaeth arbenigol am—a dealltwriaeth—addysg cydberthynas a rhywioldeb.[384] Serch hynny, pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sydd ar ddod ar y Cod.

**447.** Er mai ychydig a soniodd yn benodol yn y dystiolaeth a gawsom am y trefniadau y byddai angen iddynt fod ar waith i fonitro sut mae lleoliadau'n cyflawni gofynion y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb, cyfeiriodd cynrychiolwyr y Consortia Rhanbarthol at y rôl bwysig y bydd Estyn a'i fframwaith arolygu yn ei chwarae wrth roi'r cwricwlwm ar waith.[385] Yn yr un modd, er iddynt gael eu codi yng nghyd-destun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, pwysleisiodd cynrychiolwyr Humanists UK bwysigrwydd cael arolygiadau annibynnol i ddilysu bod yr addysgu yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith nad yw'r Bil yn cynnwys hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o'r ddarpariaeth.[386]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**448.** Pan ofynnwyd iddi am y penderfyniad i greu Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb statudol, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "…the decision to issue a code with regard to RSE is to provide absolute clarity around our expectations as to what is taught. I think that's really important because clearly this is an area where parents have an interest. It is an area where already we have seen some people seek to misinform and mislead parents as to what inclusive RSE looks like. And so this gives absolute clarity as to what it is, and perhaps equally as important what it is not, and therefore can give real confidence to parents and practitioners in an area where (…) there can be some controversy."[387]

[384] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 244], 8 Hydref 2020.

[385] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 329], 20 Gorffennaf 2020.

[386] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 270], 15 Hydref 2020.

[387] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 142], 14 Gorffennaf 2020.

**449.** Esboniodd swyddog y Gweinidog fod bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Cod hefyd yn ymateb i rai o'r pryderon a godwyd ynghylch addysg cydberthynas a rhywioldeb, ac yn offeryn i helpu ymarferwyr i deimlo'n fwy hyderus yn yr hyn y dylent fod yn ei drafod trwy ddarparu ychydig mwy o strwythur.[388]

**450.** Esboniodd y Gweinidog hefyd fod y Cod wedi'i ddatblygu i sicrhau ein bod yn darparu addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n blwraliaethol a chynhwysol yn ngwir ystyr y gair[389]:

> "Listening to the feedback of young people with regard to RSE, often it has not been delivered in a way that is truly inclusive or respects the lived experience of some of the young people. So, this is about providing absolute clarity and confidence to parents, students and professionals as to what their expectations and entitlements are with regard to RSE. The code will be based on the principles of the work undertaken by the United Nations as to what constitutes high-quality RSE provision."[390]

**451.** Mewn gohebiaeth ysgrifenedig, cydnabu'r Gweinidog fod cael cod statudol ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb yn:

> "…ffordd o weithredu eithriadol er mwyn adlewyrchu'r materion diwylliannol, moesol a moesegol pwysig sy'n rhan annatod o addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mewn cwricwlwm sy'n ceisio peidio â bod yn rhagnodol i raddau helaeth."[391]

**452.** Pan ofynnwyd iddi, o ystyried pwysigrwydd y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb, a oedd yr uwch-weithdrefn negyddol yn ddigonol, nododd y Gweinidog ei bod wrthi'n ystyried y broses ddeddfwriaethol sydd fwyaf cymwys i'r cod hwn.[392] Ychwanegodd ei bod yn ystyried a oedd angen gweithdrefn wahanol

---

[388] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 14 Gorffennaf 2020.

[389] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 142], 14 Gorffennaf 2020.

[390] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 142], 14 Gorffennaf 2020.

[391] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

[392] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 21 Hydref 2020.

ar gyfer iteriad cyntaf y Cod,[393] ond rhybuddiodd nad oedd hi am ddewis gweithdrefn a allai danseilio'r gwaith o'i gyd-awduro.[394]

## Ein barn a'n hargymhellion: Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb

**453.** Mae'n amlwg i ni fod cynnwys y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn hollbwysig ac yn hanfodol i gyflawni'r agwedd hon ar y Bil yn effeithiol. Er bod y cwricwlwm newydd, ar y cyfan, yn gymharol anragnodol, credwn fod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn faes sydd angen sicrwydd, cysondeb ac arweiniad clir o ran y yr hyn sy'n cael ei gynnwys a sut mae'n cael ei addysgu.

**454.** At hynny, os nad yw'r hawl i dynnu disgybl yn ôl o addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei chynnwys yn y Bil, mae'r Cod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod hawliau rhieni o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cael eu parchu (trwy osod y gofynion angenrheidiol fod cynllunio ac addysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, a gan barchu argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol rhieni trwy hynny).

**455.** Yn ogystal, credwn fod monitro ac arolygu'r ffordd y mae lleoliadau addysgol yn cyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb yn hanfodol er mwyn sicrhau bod lleoliadau yn cydymffurfio â gofynion y Cod a thrwy hynny yn cyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol yn ymarferol.

**Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i sicrhau bod y gwaith o fonitro ac arolygu sut mae lleoliadau addysgol yn gweithredu'r Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn nodwedd allweddol o raglen waith yr arolygiaeth yn y dyfodol.

**456.** Rydym yn croesawu cyd-awduro'r Cod, ac yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y darn cymhleth ond hanfodol hwn o is-ddeddfwriaeth yn cael ei ddrafftio'n ofalus ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, rydym yn siomedig – o ystyried pwysigrwydd canolog y Cod yn nhyb cefnogwyr a gwrthwynebwyr yr agwedd hon ar y Bil – nad yw cynnwys y Cod ar gael yn ystod y cam hwn o'n gwaith craffu. Pe bai'r Cod ar gael, credwn y gallai hynny fod wedi lliniaru llawer o'r pryderon a dynnwyd i'n sylw ac y byddai wedi cynorthwyo'n sylweddol gyda'r dasg o fynd i'r afael â'r gamwybodaeth sydd ar led ynghylch cynlluniau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb.

[393] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 21 Hydref 2020.

[394] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 21 Hydref 2020.

**Argymhelliad 21.** Bod Llywodraeth Cymru, er mwyn llywio gwaith pwysig ysgolion i baratoi ar gyfer cychwyn y Bil ac er mwyn galluogi Aelodau i gyflwyno ac ystyried gwelliannau, yn sicrhau bod y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb drafft ar gael cyn dechrau Cyfnod 3.

**457.** O ystyried pwysigrwydd canolog y Cod hwn i'r agwedd sensitif hon – a dadleuol i rai – ar y Bil, nid ydym yn credu bod yr uwch-weithdrefn negyddol yn darparu craffu digonol. Rydym yn cydnabod awydd y Gweinidog i osgoi tanseilio'r gwaith o gyd-awduro'r Cod ond rydym yn parhau i fod yn awyddus i sicrhau bod craffu digonol ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n darparu sylfeini pwysig i ddarpariaethau addysg cydberthynas a rhywioldeb y Bil. Ar y sail hon, credwn y dylai'r Bil gadw'r darpariaethau sy'n gofyn am ymgynghori ar y Cod (neu'r Cod diwygiedig) cyn iddo gael ei gyhoeddi neu ei ddiwygio (adran 72(2)), ond y dylai'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol a bennir yn adran 72(3).

**Argymhelliad 22.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb (neu'r Cod diwygiedig) yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb (neu'r Cod diwygiedig) aros.

## Addysgu sy'n "briodol yn ddatblygiadol"

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**458.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu'r elfen fandadol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn briodol yn ddatblygiadol.[395]

**459.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod darpariaeth yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru "sicrhau bod y dysgu craidd a amlinellir yn y cod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn addas i ddisgyblion o wahanol oedrannau a gwahanol gyfnodau o ran eu datblygiad emosiynol ac ymddygiadol".[396] Mae'n dweud hefyd:

> "Er bod gofyniad cyffredinol drwyddi draw yn y Bil arfaethedig y dylai'r dysgu a'r addysgu fod yn briodol i oedrannau, galluoedd a doniau'r dysgwyr, bwriedir i hyn fod yn ddiamwys o ran addysg cydberthynas a

[395] Adrannau 24(2), 31(3)(a), 32(6)(a), 38(2), 52(4), 54(3), 55(4) a 57(2) o'r Bil.

[396] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.72.

> rhywioldeb er mwyn cefnogi athrawon, rhieni/gofalwyr a dysgwyr a rhoi sicrwydd iddynt y bydd y cwricwlwm yn briodol."[397]

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

**460.** Pwysleisiodd mwyafrif helaeth y rhai a oedd yn cefnogi'r darpariaethau addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y Bil pa mor bwysig oedd hi i'r ddarpariaeth fod yn briodol yn ddatblygiadol. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r Bil yn aml yn gwneud hynny ar sail pryderon na fyddai'r cynnwys yn briodol i oedran.

**461.** Crynhodd Stonewall y farn gyffredinol a fynegwyd gan gefnogwyr y darpariaethau addysg cydberthynas a rhywioldeb fel a ganlyn:

> "I think we all (…) would agree that we don't want our young people, children and pupils in schools to be taught stuff that isn't appropriate to their development at that stage in their lives. And I think that point is really crucial to be made."[398]

**462.** Pwysleisiodd yr Athro EJ Renold, cadeirydd y Panel o Arbenigwyr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, bwysigrwydd defnyddio'r term "priodol yn ddatblygiadol" yn gywir:

> "…the term 'developmentally appropriate' is often misused, or not quite understood (…) all teachers, whatever subject they teach, will strive to ensure that their pedagogy is developmentally appropriate, and RSE is no different in that respect. I think that's our starting point. Research also suggests that RSE is most effective when it's relevant and provided in ways that are developmentally appropriate. So what this means is it has to be timely. It doesn't assume we know what's happening for young people, but it does build on their evolving knowledge and experience."[399]

**463.** Rhoddodd cynrychiolwyr Brook ddarlun ymarferol o addysgu a dysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol:

> "…if I take consent as an issue, you might talk to three, four, five-year-olds when it comes to consent. It isn't about teaching them about

[397] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.72.

[398] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 8 Hydref 2020.

[399] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 197], 8 Hydref 2020.

> sexual consent, which gets misconstrued a lot in the media. What we mean by that is maybe asking permission to share toys with somebody, or holding hands with somebody, or giving consent for somebody to touch your hair. That's the basic level of introducing consent that you might do at a younger age, but as they get older you would add to it—you'd come back to the issue, you would continuously build on that education. It's not the case that at the age of six, they learn everything and that's it, off they go—no. Actually, developmentally, it gets added to up until the point where in comprehensive and when it's appropriate, you might talk about sexual consent with young people then. So, again, it's appropriate, it's relevant for them, but it's building that real structure of a spiral curriculum."[400]

**464.** Rhybuddiodd yr Athro Renold fod athrawon yn fedrus iawn yn hyn o beth, ond bod angen cynllunio'n ofalus, a bod hynny'n gofyn am amser.[401] Ychwanegodd:

> "…you need professional learning. You need to know what's appropriate and what isn't. You need those external providers to support you, and you need that up-to-date research evidence. So, it's a package. I guess what we're trying to say as a sector is that there's much more to be done once you move from non-statutory to statutory, and professional learning is absolutely essential here. But I have confidence that this can be achieved."[402]

**465.** Rhybuddiodd Cymorth i Fenywod Cymru:

> "We have children coming in to sexual violence services at a very young age, so we really do need to teach about body integrity, and about equality and about respect, and consent is part of that—obviously, in a developmentally appropriate way."[403]

**466.** Fodd bynnag, pwysleisiodd Mencap a Cymorth i Fenywod Cymru bwysigrwydd darpariaeth sy'n briodol yn ddatblygiadol, nid priodol i oedran yn

---

[400] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 205], 8 Hydref 2020.

[401] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 202], 8 Hydref 2020.

[402] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 203], 8 Hydref 2020.

[403] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 209], 8 Hydref 2020.

unig. Pwysleisiodd Mencap fod gan addysg cydberthynas a rhywioldeb ran bwysig i'w chwarae mewn perthynas â'r rheini ag anabledd dysgu,[404] a dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru wrthym:

> "We talked to adult women with additional learning needs who had had no RSE at all, because it was just assumed that they wouldn't have relationships when they got older, which, obviously they do, as we all do."[405]

**467.** Dywedodd rhai o'r plant a phobl ifanc a siaradodd gyda ni yn ein trafodaeth ford gron rithwir fod plant a phobl ifanc yn dod yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â chydberthynas a rhywioldeb yn gymharol ifanc. O'r herwydd, roedd y grŵp o'r farn ei bod yn iawn i addysg cydberthynas a rhywioldeb gael ei haddysgu mor gynnar â phosibl.[406]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**468.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog sut y bydd darpariaeth briodol i ddatblygiad yn cael ei darparu yn ymarferol os ystyrir bod disgyblion yn yr un dosbarth ar wahanol gamau datblygiad, ymatebodd:

> "…teachers deal with differentiation every day of their working life and they are well able to—and they do on a daily basis—meet the different requirements of children within their class."[407]

**469.** Cydnabu'r Gweinidog, fodd bynnag, y byddai angen cefnogaeth i gyflawni hyn:

> "[teachers] clearly need to be supported to do this in this very important area and that's why we will be issuing, as was referenced earlier, statutory guidance on RSE, and we will be co-constructing that guidance with key stakeholders and I can assure you we will be taking advice and input from child development experts. The RSE working group will also advise on pedagogy, the professional learning requirements for RSE and the teaching resources that will be required

[404] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 147 - Mencap.

[405] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 210], 8 Hydref 2020.

[406] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[407] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 21 Hydref 2020.

> to support the delivery of RSE within the new curriculum. So, this is important to provide that reassurance, and that's why we are working closely to create that statutory guidance as well as the professional learning to ensure that teachers have the skills to do that appropriately."[408]

### Ein barn a'n hargymhellion: addysgu sy'n "briodol yn ddatblygiadol"

**470.** Rydym yn cytuno â'r Gweinidog a rhanddeiliaid ei bod yn hanfodol bod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei haddysgu mewn ffordd sy'n briodol yn ddatblygiadol, a bod athrawon yn cael cymorth digonol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn orfodol mewn meithrinfeydd nas cynhelir, ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd, er mwyn sicrhau bod egwyddorion allweddol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n addas i oedran a datblygiad y plentyn.

**471.** Credwn fod angen digon o amser, adnoddau a chymorth arbenigol i gefnogi nodau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a sicrhau bod hawliau plant a rhieni yn cael eu cynnal.

**Argymhelliad 23.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddarparu, erbyn y bydd y Bil yn barod i'w weithredu, fframwaith sy'n amlinellu'r dysgu proffesiynol craidd, yr adnoddau a'r cymorth arbenigol sy'n debygol o fod eu hangen i addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol o 3-16 oed o dan y cwricwlwm newydd.

## Dysgu proffesiynol a chymorth arbenigol i athrawon

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**472.** Nid yw'r Bil yn cynnwys gofynion deddfwriaethol penodol mewn perthynas â dysgu proffesiynol a chymorth arbenigol ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb. Serch hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> "Roedd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a lansiwyd yn 2018, yn nodi pwynt allweddol ar y siwrnai tuag at ddiwygio. Mae'n cyd-fynd â'r safonau proffesiynol newydd, y dull Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a'r model dysgu proffesiynol i greu gweledigaeth sy'n addas ar gyfer y system addysg wrth iddi esblygu yng Nghymru i bob

[408] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 21 Hydref 2020.

ymarferydd addysg, gan gynnwys, ymhlith eraill, athrawon. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arno i gyflwyno'r cwricwlwm newydd."[409]

**473.** Cyfeirir at gostau posibl dysgu proffesiynol, adnoddau a deunyddiau, a chymorth allanol arbenigol i addysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb ym mhennod 8 (costau a manteision) o'r Memorandwm Esboniadol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol mewn perthynas â phob un:

- Dysgu proffesiynol - "Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd angen dysgu proffesiynol er mwyn i athrawon gael y wybodaeth a'r hyder i gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb yn eu haddysgu.";[410]
- Adnoddau a deunyddiau - "Bydd [Llywodraeth Cymru] yn cynnal archwiliad o'r adnoddau presennol ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb sydd ar Hwb er mwyn asesu i ba raddau y maent yn addas at y diben. Caiff adnoddau newydd eu datblygu os bydd angen a'u darparu am ddim. Disgwylir hefyd i elusennau ac asiantaethau eraill lunio adnoddau am ddim a fyddai'n addas i'w defnyddio gan ysgolion.";[411]
- Cymorth allanol arbenigol i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb - "Bwriedir i'r cwricwlwm newydd sicrhau bod ysgolion yn meithrin gallu o fewn eu gweithlu i gyflwyno'r cwricwlwm. Felly, pan ddeuir ag arbenigedd allanol i mewn, dylid gwneud hyn gyda'r nod o sicrhau bod y staff yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm eu hunain mewn ffordd sy'n briodol i'w dysgwyr, a dylai fod yn rhan o gynlluniau dysgu proffesiynol yr ysgol."[412]

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

**474.** Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd addysg gychwynnol i athrawon, dysgu proffesiynol, ac adnoddau i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb orfodol yn effeithiol. Pwysleisiwyd mai'r brif her oedd magu hyder a

[409] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.126.

[410] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol,paragraff 8.298.

[411] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol,paragraff 8.299.

[412] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol,paragraff 8.300.

dealltwriaeth fwy arbenigol ymhlith staff addysgu,[413] yn enwedig gan y bydd hwn yn faes newydd o ddarpariaeth statudol[414].

**475.** Dadleuodd yr NAHT, NASUWT ac UCAC y byddai angen hyfforddiant cynhwysfawr i sicrhau lefelau digonol o arbenigedd. Roedd yr NSPCC yn cytuno:

> "…without that specialist training, we're concerned that teachers could avoid addressing sensitive or challenging issues, and then there's a risk that the opportunity to develop this inclusive content and to really rally the whole school and community to protect children could be undermined."[415]

**476.** Ymhelaethodd Brook ar hyn, gan esbonio:

> "…the important thing that comes in here is how teachers are trained to be able to deliver effective RSE, because to go in and talk to young people about contraception, talk to young people about youth-produced sexual imagery, to talk to young people about pornography, all of these things that are facing our young people and the generation today, is really difficult."[416]

**477.** Dadleuodd yr Athro EJ Renold fod yr hyfforddiant a dysgu proffesiynol hwn yn ofyniad brys gan fod angen ei gynllunio'n ofalus. Galwodd yr Athro Renold hefyd am i ddysgu proffesiynol fod yn seiliedig ar sylfaen strwythurol rhwydwaith hyfforddiant ymchwil cadarn.[417]

**478.** Pwysleisiodd Stonewall bwysigrwydd hyfforddiant penodol ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb, yn enwedig mewn perthynas â hunaniaethau LGBT, o fewn y ddarpariaeth dysgu proffesiynol ehangach.[418] Yn yr un modd, galwodd

---

[413] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 280], 8 Hydref 2020.

[414] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragrafff 284], 15 Hydref 2020.

[415] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 277], 8 Hydref 2020.

[416] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 182-184], 8 Hydref 2020.

[417] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 263], 8 Hydref 2020.

[418] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 256], 8 Hydref 2020.

Mencap am adnodd wedi'i glustnodi, a mynediad at ddarparwyr arbenigol addysg cydberthynas a rhywioldeb allanol.[419] Adleisiwyd hyn gan yr NSPCC:

> "…major investment is needed to ensure that teachers are well trained to design and deliver high-quality RSE (…) it's essential that we have some investment in ongoing professional learning, development, training, on RSE."[420]

**479.** Pwysleisiodd Cymorth i Fenywod Cymru yr angen i sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi mewn perthynas â'r rhwydweithiau cymorth o'u hamgylch,[421] a chyfeiriodd y mudiad at yr angen i fanteisio ar wasanaethau arbenigol presennol:

> "There is expertise in the communities that sit around schools, and I think what we really need to see this curriculum invest in is bringing those communities together, and bringing in those specialist services to support the schools and to support teachers in the delivery of RSE."[422]

**480.** Rhybuddiodd un ymatebydd unigol, a oedd yn astudio ar gyfer doethuriaeth yn y maes hwn:

> "…without additional clarity on the methods, providers, duration and cost of practitioner training in RSE, and a detailed explanation of the process, participants in, scope, and costs of new resource development, I remain concerned that the information provided in the Bill might come to represent an empty gesture on the part of the Welsh Government."[423]

**481.** Roedd nifer o'r plant a'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy yn ein trafodaeth bord gron rithwir yn teimlo bod angen i addysgu yn y maes pwnc hwn fod yn fwy arbenigol ei natur.[424]

---

[419] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 147 - Mencap.

[420] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 277], 8 Hydref 2020.

[421] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 261], 8 Hydref 2020.

[422] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 177], 8 Hydref 2020.

[423] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 157 - Max Richard Ashton.

[424] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

**482.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog am yr heriau ymarferol i staff addysgu sy'n cyflawni addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol, ymatebodd:

> "The RSE working group will also advise on pedagogy, the professional learning requirements for RSE and the teaching resources that will be required to support the delivery of RSE within the new curriculum. So, this is important to provide that reassurance, and that's why we are working closely to create that statutory guidance as well as the professional learning to ensure that teachers have the skills to do that appropriately."[425]

### Ein barn: dysgu proffesiynol athrawon a chymorth arbenigol

**483.** Trafodir ein pryderon ynghylch dysgu proffesiynol ac adnoddau yn fwy cyffredinol, yn enwedig effaith y pandemig COVID-19 cyfredol ar y gofod sydd ar gael i'r sector i gyflawni'r hyn sy'n angenrheidiol i gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus, ym mhennod 12 o'r adroddiad hwn.

**484.** Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni o'r dystiolaeth a gawsom, na ddylem danamcangyfrif pwysigrwydd addysg gychwynnol i athrawon, dysgu proffesiynol, a datblygiad a hyfforddiant proffesiynol parhaus digonol o ran cyflwyno elfen addysg cydberthynas a rhywioldeb orfodol y cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.

**485.** Ar y sail hon, rydym yn ailadrodd ein hargymhelliad 23 uchod.

## Ymgysylltu a chyfathrebu

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**486.** Er bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ar y cod statudol ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, nid oes unrhyw ofynion deddfwriaethol eraill i ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr agwedd hon ar y ddeddfwriaeth na, er enghraifft, i gyfathrebu â hwy ynghylch ei gynnwys.

### Tystiolaeth rhanddeiliaid

**487.** Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid yr angen i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a chyfathrebu'n gywir yr hyn a fydd ac na fydd yn cael ei addysgu o dan addysg

[425] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 21 Hydref 2020.

cydberthynas a rhywioldeb, yn enwedig yng nghyd-destun cywiro unrhyw gamwybodaeth o bosibl sydd ar led am y Bil.

**488.** Dywedodd cynrychiolwyr athrawon fod cyfathrebu yn hanfodol.[426] Dadleuodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru:

> "There needs to be strong communication, there needs to be a strong message that's put out around the fact that this is (…) about tolerance, it's about entitlement (…) there needs to be a communication strategy so that we don't get the kick-back that been seen, for example, in Birmingham in some of the schools, which has placed significant pressure on those teachers and those leaders."[427]

**489.** Pwysleisiodd y rhieni a'r gofalwyr y buom yn siarad â hwy yn ein trafodaethau bord gron rhithwir bwysigrwydd hysbysu ac ymgysylltu â rhieni am yr hyn a fydd yn cael ei addysgu mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb. Esboniodd cynrychiolwyr Parentkind eu bod wedi cynnal arolwg am y pwnc hwn a bod gwahaniaeth barn mawr ymysg rhieni. Fe wnaethant awgrymu y gallai hyn fod oherwydd nad yw rhieni o reidrwydd yn deall pa gynnwys a fydd yn cael ei addysgu.[428]

**490.** Dadleuodd y Comisiynydd Plant fod cyfathrebu yn bwysig i roi sicrwydd i rieni am yr elfen newydd hon o ddysgu a gwrthddweud y gamwybodaeth sydd ar led ar hyn o bryd yng Nghymru a thu hwnt:

> "I think communication to the public is going to be very important here (…) there's a lot of misinformation going around and misunderstanding. And, of course, for something that's new in the curriculum, whether that's the broader AoLE, or this specific part of it—relationships and sexuality education—that is going to cause concern to some parents because it's new and it's different. So, the communication with parents is really important."[429]

**491.** Ar y testun hwn, dywedodd Stonewall wrthym:

---

[426] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 285], 24 Medi 2020.

[427] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 92], 24 Medi 2020.

[428] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[429] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 8 Hydref 2020.

> "…we are worried about the misinformation that is circulating at the moment about what RSE is and isn't (…) it does cause concern about undermining the vision that Welsh Government has in ensuring that this education and the purpose of this education is actually for the well-being, for the safety and for safeguarding our young people from harm (…) there is a lot of misinformation going out there at the moment, and I would urge colleagues in Welsh Government to ensure that it is communicated clearly to schools, local authorities and parents alike what actually good, effective RSE is and what it isn't."[430]

**492.** Pwysleisiodd yr NSPCC bwysigrwydd cyfathrebu clir a thryloyw i feithrin ymddiriedaeth a hyder wrth gynllunio ac addysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb ac i sicrhau bod ysgolion yn teimlo'n hyderus yn ymgysylltu â rhieni ynghylch eu pryderon. Ar y sail hon, fe wnaethant alw am i ganllawiau statudol gynnwys gwybodaeth i ysgolion am sut i ymgysylltu'n ystyrlon â rhieni a gofalwyr ynghylch addysg cydberthynas a rhywioldeb a hefyd sut i reoli unrhyw sefyllfaoedd heriol neu bryderon ymhlith rhieni.[431]

**493.** Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod gan awdurdodau lleol rôl allweddol wrth gefnogi ysgolion i gyfryngu a lliniaru pryderon rhieni.[432]

**494.** Crynhowyd y farn a fynegwyd gan fwyafrif y rhai a wnaeth sylwadau ar yr angen am gyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch addysg cydberthynas a rhywioldeb gan Humanists UK fel a ganlyn:

> "We've all seen the misinformation that's been spread around the subject of RSE and the fact that it's going to be taught from 3 to 16. (…) there needs to be a very clear communication out to all parents about what's being taught, when it's being taught, and why it's so important that their children receive that education."[433]

[430] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 8 Hydref 2020.

[431] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 173], 8 Hydref 2020.

[432] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 88], 20 Gorffennaf 2020.

[433] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 284], 15 Hydref 2020.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**495.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog am ymgysylltu a chyfathrebu mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, cydnabu bwysigrwydd datblygu gwybodaeth glir a chywir i rieni a gofalwyr. Nododd fod angen i'r wybodaeth hon bwysleisio:

> "…the importance of this area of learning and to proactively counter misinformation that is there in communities that seeks to frighten and undermine the teaching of this important aspect of the curriculum."[434]

**496.** Mewn perthynas ag ymgysylltu, ychwanegodd y Gweinidog:

> "Ongoing community engagement is planned to ensure that myths about RSE are dispelled through dialogue with our newly established BAME and faith community involvement group. This group consists of members from both, as I said, community groups, faith groups, for them to feed in, in the spirit of co-construction, to the RSE guidance, and to be able to, as I said, dispel those myths that can certainly be propagated by people."[435]

**497.** Derbyniodd y Gweinidog yr angen am gynllun cyfathrebu mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb:

> "We will need—and I recognise, as a Government that we will need—a robust communication plan to ensure meaningful and sustained engagement with our schools and our parents, our carers and learners, so that they are very clear about what is being taught."[436]

**498.** Gan gyfeirio at bryderon am gamwybodaeth yn benodol, dadleuodd y Gweinidog:

> "…it is really important that misinformation that is being placed in the public domain is challenged. Some of what I have seen is positively dangerous to young people and is causing unnecessary fear to parents and carers, and that's why the code is so important. I will be having conversations with a range of stakeholders on how we can work

[434] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 21 Hydref 2020.

[435] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 21 Hydref 2020.

[436] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 21 Hydref 2020.

together so that that information is challenged and the Government's intentions are clear."[437]

## Ein barn a'n hargymhellion: ymgysylltu a chyfathrebu

**499.** Rydym yn bryderus iawn bod camwybodaeth ar led am ddarpariaethau addysg cydberthynas a rhywioldeb y Bil. Mae'n gwbl amlwg i ni mai bwriad addysg cydberthynas a rhywioldeb yw addysgu ac amddiffyn plant a phobl ifanc, yn hytrach na dangos cynnwys amhriodol iddynt mewn unrhyw ffordd.

**500.** Mae pa mor gyflym mae camwybodaeth mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb wedi lledaenu yn dangos pa mor hanfodol yw dull sy'n seiliedig ar ffeithiau, ac sy'n wrthrychol, plwraliaethol a beirniadol er mwyn gweithredu'r agwedd hon ar addysg (ac eraill). Mae'n ddarlun byw a phryderus iawn o'r angen i sicrhau bod gan ein plant a'n pobl ifanc y sgiliau angenrheidiol i ddehongli gwybodaeth, yn enwedig ar-lein, ac i geisio ffynonellau gwybodaeth dibynadwy, y gallant archwilio eu dibynadwyedd a'u cywirdeb yn ofalus.

**501.** Er gwaethaf hyn, gall camwybodaeth ledaenu'n hawdd os oes diffyg manylion ar gael i'r cyhoedd yn nodi'n glir beth yn union a fydd yn cael sylw fel rhan o agweddau addysg cydberthynas a rhywioldeb ar y cwricwlwm newydd. Yng ngoleuni hynny, credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar frys i ddarparu gwybodaeth syml a chlir sy'n chwalu'r mythau am y cynlluniau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb yng Nghymru, sy'n ceisio tawelu meddwl rhieni am ei chynnwys a'i dull cyflwyno sy'n briodol yn ddatblygiadol, ac sy'n egluro pam ei bod yn bwysig i bob plentyn gael yr addysg hon.

**Argymhelliad 24.** Bod Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, yn lansio ymgyrch chwalu mythau am yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a fydd yn cael ei chyflwyno o ganlyniad i'r Bil hwn. Dylai'r ymgyrch hon:

- herio'r camwybodaeth sydd ar led am addysg cydberthynas a rhywioldeb ar hyn o bryd;
- ceisio rhoi sicrwydd i rieni ynghylch cynnwys a dull cyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol; ac
- esbonio pam ei bod yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc gael addysg cydberthynas a rhywioldeb.

[437] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 93], 21 Gorffennaf 2020.

# 7. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae'r Bil yn gwneud Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o'r pedair elfen orfodol o chwe maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd. Mae amrywiaeth eang o safbwyntiau ar ddarpariaeth y Bil mewn perthynas â chynllunio a darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn anad dim mewn perthynas â'r hawl i dynnu'n ôl, ehangu'r pwnc i gwmpasu gwerthoedd a moeseg, a'r gwahanol drefniadau mae'r Bil yn eu gwneud ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol a'r rhai sydd â chymeriad nad yw'n grefyddol.

## Trefniadau cyfredol ar gyfer addysg grefyddol

**502.** Ar hyn o bryd, mae addysg grefyddol (yn yr un modd ag addysg rhyw) yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol. Mae hyn yn golygu, er nad oes rhaid i ddysgwyr astudio ar gyfer cymhwyster addysg grefyddol, rhaid iddynt gael cyfleoedd i gael ei dysgu. Mae adran 71 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhoi hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o wersi addysg grefyddol.

**503.** Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal cynhadledd maes llafur cytunedig os bydd unrhyw grŵp cynrychioladol ar ei Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn gofyn iddo wneud hynny. Yna defnyddir y gynhadledd i benderfynu ar gynnwys y maes llafur cytunedig o ran addysg grefyddol a gaiff ei addysgu yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol hwnnw. Mae addysgu'r maes llafur cytunedig yn amrywio yn ôl categori'r ysgol.

**504.** Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir nad oes iddynt gymeriad crefyddol addysgu addysg grefyddol i gyd-fynd â'r maes llafur cytunedig.

**505.** Yr arfer gyffredin ar hyn o bryd i ysgolion gwirfoddol a reolir[438] ag iddynt gymeriad crefyddol yw i ddysgwyr gael addysg grefyddol sy'n cyd-fynd â'r maes

[438] Caiff ysgolion gwirfoddol a reolir eu rhedeg gan sefydliad gwirfoddol (yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru fel arfer) ond fe'u rheolir yn fanwl gan yr awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol sy'n cyflogi'r staff ac yn gosod y meini prawf derbyn, ond mae tir ac adeiladau'r ysgol yn eiddo i elusen (yr eglwys yn aml) sy'n penodi rhai o aelodau'r corff llywodraethu.

llafur cytunedig. Fodd bynnag, pan fydd rhiant yn gofyn am addysg grefyddol yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau'r ffydd (h.y. addysg grefyddol enwadol), rhaid i'r ysgol sicrhau addysg grefyddol enwadol ar gyfer y disgybl yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu (os nad yw'r weithred ymddiriedolaeth yn gwneud darpariaeth at y diben hwnnw) yn unol â daliadau'r ffydd a bennir mewn perthynas â'r ysgol, oni bai bod y corff llywodraethu yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau arbennig.

**506.** Yr arfer gyffredin ar hyn o bryd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir[439] sydd â chymeriad crefyddol yw i ddysgwyr dderbyn addysg grefyddol enwadol. Fodd bynnag, pan fydd rhiant yn gofyn am addysg grefyddol sy'n cyd-fynd â maes llafur cytunedig, ac na all y rhiant, gyda chyfleustra rhesymol, beri i'r disgybl fynd i ysgol arall lle addysgir maes llafur cytunedig o'r math hwnnw, rhaid i'r ysgol sicrhau addysg grefyddol ar gyfer y disgybl sy'n cyd-fynd â maes llafur cytunedig o'r math hwnnw, oni bai bod y corff llywodraethu yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau arbennig.

## Darpariaethau yn y Bil ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**507.** Mae'r Bil yn sefydlu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel un o elfennau gorfodol y cwricwlwm ar gyfer mwyafrif y disgyblion rhwng 3 a 16 oed.[440] Bydd yn cael ei ddarparu ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau[441] a'i fwriad yw bod yn ehangach ac yn fwy cynhwysol na'r addysg grefyddol draddodiadol y mae'n ei disodli.

**508.** Mae'r Bil yn diwygio'r diffiniad presennol o "faes llafur cytunedig" yng Nghymru (adran 375 o Ddeddf Addysg 1996 ar hyn o bryd) fel bod y maes llafur newydd yn gorfod:

- adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol ym Mhrydain Fawr, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr; ac

[439] Caiff ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir eu rhedeg gan sefydliad gwirfoddol ac mae ganddynt fwy o ryddid o ran polisi a materion ariannol nag ysgolion gwirfoddol a reolir. Maent yn tueddu i fod yn ysgolion crefyddol neu ysgolion ffydd, sef ysgolion yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru fel arfer yng Nghymru. Y corff llywodraethu sy'n cyflogi'r staff ac yn gosod y meini prawf derbyn, ac mae tir ac adeiladau'r ysgol yn eiddo i elusen fel arfer (yr eglwys yn aml).

[440] Ni fydd yn orfodol i'r disgyblion hynny nad ydynt yn cael eu haddysgu mewn ysgolion na'r rhai sydd mewn uned cyfeirio disgyblion (gweler pennod 10). O ran plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, nid oes rhaid darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r Bil.

[441] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.51.

- adlewyrchu hefyd y ffaith y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym Mhrydain Fawr.

**509.** Mae'r cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol yn cyfeirio at argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr Erthygl 2 Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i addysg) – ("A2P1").

**510.** Nid yw'r Bil yn darparu modd i rieni dynnu eu plant yn ôl o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**511.** Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn faes astudio lle y mae dysgwyr yn defnyddio amryw o ddulliau disgyblaethol i ymdrin yn feirniadol ag ystod eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Y bwriad yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i archwilio perthynas hanesyddol a chyfoes Cymru ag athroniaeth a safbwyntiau crefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol".[442]

**512.** Mae Llywodraeth Cymru yn rhestru'r rhesymau a ganlyn dros gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd:

- mae'n sicrhau bod dysgwyr yn "datblygu fframwaith cysyniadol sydd o gymorth iddynt i ddeall ac archwilio bydolygon sy'n cynnwys crefyddau a chredoau eraill, ac effaith y rhain arnynt hwy eu hunain ac eraill mewn cymdeithasau, yn lleol ac yng ngweddill y byd";

- mae'n sicrhau eu bod yn "deall categorïau cysyniadol 'crefydd', 'seciwlariaeth', ac 'ysbrydolrwydd', er mwyn taflu goleuni ar y drafodaeth a meithrin dealltwriaeth gyflawn o grefydd fel grym sy'n llywio cymdeithas";

- mae'n sicrhau eu bod yn "deall natur realiti a'u lle hwythau yn y byd, a sut mae eu bydolwg yn debygol o ddylanwadu ar eu credoau, eu gwerthoedd, eu hymddygiad, eu profiadau, eu hunaniaethau a'u hymrwymiadau, a sut y gall y rheini hefyd yn eu tro ddylanwadu ar eu bydolwg"; ac

- mae'n sicrhau eu bod yn "ymwneud â'r gymdeithas blwraliaethol y maent yn byw ynddi, a'i gwerthfawrogi".[443]

---

[442] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.46.

[443] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.47.

**513.** Esbonnir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil:

> "Mae'r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn nodi'r ddarpariaeth addysg grefyddol y mae'n ofynnol ei darparu ar gyfer pob categori o ysgol. Y bwriad yw cadw'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon, a gwneud rhai diwygiadau i sicrhau bod y fframwaith presennol yn cydblethu â darpariaeth y cwricwlwm newydd."[444]

**514.** Mae adrannau 24, 31 a 32 o'r Bil yn golygu bod yn rhaid i elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (yn amodol ar eithriadau ar gyfer disgyblion sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol) gael ei chynllunio a'i haddysgu yn unol ag Atodlen 1 y Bil.[445] Mae Atodlen 1 yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel a ganlyn ar gyfer y tri chategori gwahanol o ysgolion:

- Yn achos **ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol**, bydd gofyn iddynt roi sylw i'r maes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu addysgu a dysgu ar gyfer yr elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm.

- Yn achos **ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol**, bydd gofyn iddynt roi sylw i'r maes llafur cytunedig wrth gynllunio elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y cwricwlwm. Lle nad yw'r ddarpariaeth honno'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu—os nad oes darpariaeth yn y weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg—ddaliadau ei chrefydd neu enwad crefyddol, rhaid i'r cwricwlwm hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n gwneud hynny'n briodol. Fel mater o drefn, bydd y ddarpariaeth addysgu a dysgu wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, os yw rhiant disgybl yn gofyn i'r ddarpariaeth addysgu a dysgu gael ei chynllunio yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol yn lle hynny i'w blentyn, neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad, rhaid cydymffurfio â'r cais.

- Yn achos **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol,** rhaid bod y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm wedi cael ei chynllunio yn unol â gweithred

[444] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.35.

[445] Mae adran 62 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd disgybl chweched dosbarth yn gofyn am ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bod yn rhaid i ysgol ei darparu. Nid oes angen i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir i ddisgyblion y chweched dosbarth gydymffurfio ag Atodlen 1 i'r Bil.

> ymddiriedolaeth yr ysgol neu—os nad oes darpariaeth yn y weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg—ddaliadau ei chrefydd neu enwad crefyddol. Os nad yw'r ddarpariaeth honno'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig, rhaid i'r cwricwlwm hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig. Fel mater o drefn, bydd y ddarpariaeth addysgu a dysgu wedi ei chynllunio yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau crefydd neu enwad crefyddol yr ysgol. Fodd bynnag, os yw rhiant disgybl yn gofyn i'r ddarpariaeth addysgu a dysgu gael ei chynllunio yn unol â'r maes llafur cytunedig yn lle hynny i'w blentyn, rhaid cydymffurfio â'r cais.

**515.** Trafodir y gwahanol drefniadau ar gyfer ysgolion sydd â chymeriad crefyddol a'r rhai nad oes ganddynt gymeriad o'r fath, a'u heffaith, yn fanylach ym mharagraffau 563 – 612 o'r bennod hon. Mae materion yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer y rhai dros yr oedran ysgol gorfodol yn cael eu hystyried ym mhennod 9.

## Statws gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm newydd

### Y drefn a nodir yn Bil a'r cefndir ehangach

#### Hawl i dynnu yn ôl

**516.** Yn yr un modd â'r darpariaethau yn y Bil hwn ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn darparu hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**517.** Roedd y penderfyniad i beidio â chynnwys hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o wersi (yn achos Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) yn rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn hydref 2019 ynghylch "sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn" i bawb.[446] Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Yn sgil yr ymgynghoriad, nid oes bwriad i gadw'r darpariaethau presennol sy'n caniatáu i rieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant dynnu eu plant yn ôl o addysg grefyddol (a ailenwir yn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) (...) Bwriedir i'r Bil roi cyfle cyfartal i bob dysgwr i

[446] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn, Hydref-Tachwedd 2019.

> gael addysg eang a chytbwys a fydd yn ei helpu i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir yn y pedwar diben."[447]

**518.** Mewn perthynas â chydnawsedd y cynigion Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (ac addysg cydberthynas a rhywioldeb) â hawliau dynol, nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Roedd yr Asesiad Effaith hefyd yn ystyried p'un a yw'r cynigion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gydnaws â'r hawliau a warchodir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar hawl plentyn neu berson ifanc i addysg, gan gynnwys gwybodaeth gynhwysfawr o safon uchel am y materion gwmpesir gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Drwy beidio â chynnig yr hawl i dynnu plentyn o wersi'r cwricwlwm newydd, bydd pob dysgwr nawr yn gallu cymryd rhan yn yr elfen bwysig hon o'r cwricwlwm. Bydd angen cydweithio'n agos â phob ysgol er mwyn sicrhau bod y dysg a gynigir yn y gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol yn cydnabod egwyddorion amrywiol ac nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un safbwynt."[448]

### Newid enw o addysg grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**519.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu'r esboniad a ganlyn ar gyfer defnyddio'r enw newydd, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Bil:

> "Ein pwrpas wrth gynnig newid yr enw ar Addysg Grefyddol oedd sicrhau bod enw'r elfen orfodol hon o'r cwricwlwm yn adlewyrchu ei chwmpas cywir yn briodol. Byddai'n ei gwneud yn glir beth yw ein hamcanion, sef ehangu ffocws yr hyn a addysgir mewn sesiynau Addysg Grefyddol, gan gadw'r ffocws priodol ar yr un pryd ar ddysgu am grefydd."[449]

### Canllawiau ac ymgynghori perthnasol

**520.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch eu meysydd llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, o dan y pŵer cyffredinol i gyhoeddi canllawiau o dan adran 66 o'r Bil. Cyn cyhoeddi'r canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru

[447] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.34.

[448] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.72.

[449] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.65.

ymgynghori â'r rhai sy'n briodol yn eu barn hwy, os o gwbl.[450] Ni fydd y Gorchymyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Senedd.[451]

**521.** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2020 ar y darpariaethau ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Bil.[452]

**522.** Disgwylir ymgynghori pellach ar y fframwaith statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg cyn diwedd eleni,[453] ond nid oedd wedi ei lansio ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

**523.** Ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth, roedd barn gymysg am y ffordd mae'r Bil yn deddfu mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**524.** Lleisiodd cynrychiolwyr grwpiau ffydd ac ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn benodol, nifer o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol, a nifer o ymatebwyr unigol amryw o bryderon ynghylch y darpariaethau sy'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd y rhain yn cynnwys un neu ragor o'r materion a ganlyn:

- yr effaith maent yn teimlo mae darpariaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Bil, yn enwedig y ffaith nad oes hawl i riant dynnu ei blentyn yn ôl, yn ei chael ar hawl rhieni i gael addysg i'w plant yn unol â'u dymuniadau;
- y newid enw o addysg grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y maent o'r farn ei fod yn tanseilio addysg grefyddol fel pwnc trwyadl;
- y ffaith nad yw'r canllawiau manwl ar fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael eto i'w hystyried a rhoi sylwadau arnynt;

[450] Adran 66(2) o'r Bil.

[451] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau, Gorffennaf 2020.

[452] Llywodraeth Cymru, Cynigion deddfwriaethol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg, Mai - Gorffennaf 2020.

[453] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

- eu cred bod angen cyfeiriad mwy eglur at ddatblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol dysgwyr yn y canllawiau sy'n sail i'r Bil;
- eu cred bod y darpariaethau yn y Bil yn trin ysgolion â chymeriad crefyddol ac ysgolion nad ydynt yn grefyddol yn wahanol ac yn anghyfartal, gan awgrymu diffyg ymddiriedaeth mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i gyflawni Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn modd gwrthrychol, plwraliaethol a beirniadol (ystyrir hyn yn fanylach ym mharagraffau 563 – 612 y bennod hon); a'u
- cred y bydd darpariaethau'r Bil yn rhoi baich ychwanegol ar ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu dau faes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd â'r potensial i wrthdaro â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth a/neu ddaliadau eu ffydd (ystyrir hyn yn fanylach hefyd ym mharagraffau 563 – 612 y bennod hon).[454]

**525.** Cofnododd y Comisiynydd Plant ei "phryderon sylweddol" am ddarpariaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Bil, gan ddadlau:

> "…Nid yw'r darpariaethau hyn yn cydymffurfio â CCUHP, ac mewn gwirionedd maent yn gwbl groes iddo. Y rheswm am hynny yw bod darpariaethau'r Bil hwn yn golygu na fydd plant mewn lleoliadau ffydd o reidrwydd yn cael mynediad at addysg amryfath yn unol â gofynion hawliau dynol o dan CCUHP; yn ail, oherwydd bod eu rhieni yn gallu penderfynu ar y cwricwlwm RVE maen nhw'n ei brofi."[455]

**526.** Disgrifiodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel 'mater anodd', ond dadleuodd fod darpariaethau'r Bil yn 'welliant' i'r cwricwlwm.[456]

**527.** Cododd Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid rai pryderon ynghylch sut byddai'r darpariaethau'n cael eu gweithredu yn ymarferol:

> "…in allowing these almost two systems to run in tandem with each other, are we in danger of sending a mixed message, and does that

---

[454] Gweler, er enghraifft, tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 45, 69, 92, 100, 113, 120, 125, 127, 132, 156, 162, 165, 172, 174, 177, 200, 207, 211, 216, 231, 232, 235.

[455] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 8 Hydref, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[456] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 17 Medi 2020.

> kind of undermine the principles of the Bill itself on what it's trying to achieve, which is to create and inform the young citizens of the world. [...] it's going to cause difficulty when it comes to the delivery in those schools, and that is a concern for us."[457]

**528.** Fel y nodwyd ym mhennod 6, dywedodd nifer o blant a phobl ifanc wrthym yn ein grŵp trafod rhithwir mai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol oedd 'nodweddion gorau' y cwricwlwm newydd yn eu barn nhw.[458]

**529.** Ymhlith y rhieni a'r gofalwyr y buom yn siarad â nhw yn ein trafodaethau bord gron rhithwir, roedd cefnogaeth i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd hyn ar y sail eu bod o'r farn ei bod yn bwysig bod gan blant a phobl ifanc ddealltwriaeth eang o'r holl grefyddau neu systemau cred, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn cefnogi cynwysoldeb.[459]

### Hawl i dynnu'n ôl

**530.** Codwyd nifer o bryderon mewn tystiolaeth ynghylch y ffaith nad oedd hawl yn y Bil i rieni dynnu eu plant yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**531.** Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig:

> "The removal [of] the right of withdrawal is an erosion of parental rights and represents a regressive step in the trust and relationship between parents and the State, and parents and schools (...) The Welsh Government appears to have concluded in the consultation document that the rights of parents will be appropriately respected even if the right of withdrawal is removed, but in our view this cannot be the case.
>
> This is likely to lead to an increase in unrest among parents, with unfortunate consequences of protests and increases in removal of children from school and greater home education."[460]

---

[457] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 100], 24 Medi 2020.

[458] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[459] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[460] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 225 - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

**532.** Dywedodd y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol wrthym:

> "There's no doubt that this is, perhaps, the most difficult and controversial area of the proposals. I don't think that anyone loves the right to withdraw; I think we all recognise that there are significant problems with it. It's designed to protect children from proselytisation, but it can be used to shield children from knowledge about other religions and world views (…)."[461]

**533.** Cododd rhai ymatebwyr y potensial o gyfreitha yng ngoleuni'r ffaith nad oedd hawl i dynnu'n ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys Anthony Towey, Athro a Chyfarwyddwr Canolfan Llythrennedd Diwinyddol Aquinas ac aelod o Gomisiwn Addysg Grefyddol 2016-18 yn Lloegr. Dadleuodd ei bod yn ymddangos bod y darpariaethau yn tresmasu ar "…the sensitive area of parental choice (…) any compromise or novelty in that area would infringe international protocols on human rights".[462] Dywedodd y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol:

> "…simply ending the right to withdraw does open potential legal problems. It's a standard, effectively, across Europe that, if education is genuinely critical, pluralistic, non-proselytising, that you don't necessarily need the right to withdraw (…) Parents who may have been reluctantly withdrawing their children from RE at school for years because of proselytisation, if they're suddenly told they can't withdraw, but there's this new option, and then that option isn't necessarily accessible or it's not that different, it's simply inevitable."[463]

**534.** Dadleuodd yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol, a Phennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor:

> "This absence [hawl rhiant i dynnu ei blentyn yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg] significantly risks causing the Welsh Government to be in breach of the Human Rights Act 1998 and the European Convention on Human Rights. A breach of the latter would invalidate the relevant provisions under the Government of Wales Act 2006 and the Wales Act 2017.

[461] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 266], 15 Hydref 2020.

[462] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 214 - Yr Athro Anthony Towey.

[463] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 268], 15 Hydref 2020

In order to respect parental religious and philosophical convictions in the education and teaching of their children, the European Convention on Human Rights (Article 2 Protocol 1, Right to Education) holds that the possibility of withdrawing from a class must exist unless the State Party can prove that the information being conveyed in that class is done so in a manner which is 'objective, critical and pluralistic'.

The Welsh Government should only remove a right to withdraw (which had previously existed with respect to the former religious education subject) if it is absolutely confident that the content of all RVE classes, and the manner in which it is delivered, will, in every school in Wales, always result in information being delivered and conveyed in an 'objective, critical and pluralistic' manner."[464]

**535.** Nodwyd yn nhystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

"Provided that the new RVE curriculum ensures that RE is taught in an objective, critical and pluralistic manner, covers both religious and non-religious concepts, is human rights compliant and respects the rights of children and young people, then we welcome the ending of the right to withdrawal.

In its response to the Commission on Religious Education, the Commission has previously argued, with regard to RE (in England), that it is important that any limitations on the right to withdrawal should be human rights compliant and should respect the rights of children and young people. We recognise that parental rights to choose how their children are educated are not absolute but expressed concern that making RE lessons compulsory for all with no right of withdrawal would seriously risk infringing those rights. Our position is different in response to this consultation because Welsh Government is proposing safeguards to make it explicit that teaching must be properly inclusive in all maintained schools. Our position is dependent upon Welsh Government safeguards being implemented."[465]

**536.** Dywedodd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol fod rhai o'i aelodau yn ffafrio hawl i dynnu'n ôl fel 'rhwyd ddiogelwch', ond eglurodd nad oedd y mwyafrif o aelodau o'r farn bod ei hangen yn y Bil oherwydd na ddylai

[464] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 122 Yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor.

[465] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 - y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

rhieni orfod tynnu eu plant yn ôl o addysg grefyddol wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol.[466] Roedd yn dadlau, fodd bynnag, y byddai angen dysgu proffesiynol a chefnogaeth arbenigol er mwyn sicrhau bod yr addysg grefyddol yr hyn y dylai fod.[467] Trafodir tystiolaeth sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ddiweddarach yn y bennod hon.

**537.** Roedd y Comisiynydd Plant yn anghytuno â'r galwadau i'r Bil wneud darpariaeth i rieni gael hawl i dynnu eu plant yn ôl, gan ddadlau:

> "Mae cadw deddfwriaeth sy'n caniatáu i rieni dynnu person ifanc allan o'r pynciau hyn [Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb] yn atal plant a phobl ifanc rhag cael eu hawliau eu hunain."[468]

**538.** Croesawodd cynrychiolwyr Estyn y ffaith nad oes hawl i dynnu'n ôl yn y Bil. Roeddent yn dadlau, fodd bynnag, y dylai darpariaethau'r Bil fynd ymhellach, ac y dylai'r maes llafur cytunedig fod yn orfodol i bawb, gyda Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn rhywbeth ychwanegol ac yn atodol iddo.[469]

### Newid enw o addysg grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**539.** Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch newid yr enw i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd y pryderon hyn yn amrywio o ran eu natur.

**540.** Ar y naill law, roedd nifer o grwpiau ffydd, ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, ymatebwyr unigol a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn poeni y gallai'r newid enw arwain at orsymleiddio'r pwnc.[470] Crynhowyd y farn hon gan y Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, a ddadleuodd:

[466] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 105-106], 15 Hydref 2020

[467] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 106], 15 Hydref 2020

[468] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 - Comisiynydd Plant Cymru.

[469] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 17 Medi 2020.

[470] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 130 - Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Torfaen.

> "The new name for the subject (RVE) is misleading and unhelpful. It does not adequately describe the scope of the subject nor reflect the rigorous, academic nature of the subject."[471]

**541.** Dadleuodd cynrychiolwyr y Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru fod y newid enw yn gam yn ôl ar y sail ei fod yn atal gwerthoedd a moeseg rhag bod yn gyfrifoldeb ysgol gyfan. Roedd yn well gan y Gymdeithas grefydd a safbwyntiau'r byd, gan ddadlau ei fod yn enw mwy priodol yng nghyd-destun datblygiadau addysg grefyddol rhyngwladol:

> "In the first consultation, Welsh Government got that wrong because they added an 's' on the end of the word 'religion' and put 'religions and world views', which took away from the fact that religion as a concept was being taught rather than religions in silos, which we are trying to move away from. Religions are much more messy than teaching them in silos. So, for example, you could have someone being brought up with a Hindu mum and a Muslim dad, and their view is not straightforward. So I think to look at 'religion and world views', which the RE framework was headed towards when it was being written, is a much more suitable name.
>
> In terms of the first consultation on the name change, if you ask the wrong question, you get the wrong answer, and I think that's what's happened here. They shouldn't have put that 's' on the name, and I think it would have been vastly supported by lots more people if that hadn't have happened in the first place."[472]

**542.** Ymhelaethodd Mudiad Addysg Grefyddol Cymru ar bryderon ynghylch cynnwys gwerthoedd a moeseg yn yr elfen orfodol hon:

> "Religion, values and ethics all have their place in the school curriculum. However, values and ethics should pervade all six areas of learning and experience, in a manner that the study of religion cannot. The consideration of religion in the wider context of values and ethics is a reasonable proposition, already embodied in Welsh agreed syllabuses. The replacement of religious education with an entity called 'religion, values and ethics' would be counterproductive in the quest for a genuinely pluralistic curriculum because it would inevitably lead to a

[471] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 163 - y Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru.

[472] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 39-40], 15 Hydref 2020

> further reduction in the already minimal religious content currently encountered by most pupils in Wales."[473]

**543.** Amlygodd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol bryderon ynghylch effaith debygol yr hyn a ddisgrifiwyd ganddo fel disgrifiad eang ac annelwig o argyhoeddiadau athronyddol.[474] Rhybuddiodd cynrychiolydd hefyd:

> "The other concern [ynglŷn â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel enw] is that it could be misinterpreted by teachers, parents and learners (…) without really extensive professional learning for RVE, teachers could really get that wrong in what they're teaching, and that could have a huge effect on parents' rights if they're not allowed to withdraw."[475]

**544.** Ar y llaw arall, dadleuodd cynrychiolydd y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol fod y teitl yn dal i fframio crefydd fel y rhagosodiad, nad yw o reidrwydd yn briodol. Dywedodd, fodd bynnag, fod y Gymdeithas yn hapus i wneud y tro â 'Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg', gan egluro ei fod hynny'n adlewyrchu dechrau newydd. Nododd ei fod yn gobeithio bod y newid i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi dangos cyfeiriad teithio ar gyfer y pwnc a oedd yn mynd ag ef i ffwrdd o fod yn lle i hysbysebu gwahanol fydolygon i un sy'n cymryd trosolwg beirniadol o'r maes cyfan.[476]

**545.** Nododd cynrychiolwyr Humanists UK eu bod yn hapus gyda'r newid enw, gan roi'r rhesymau a ganlyn:

> "…having a name change that signals the inclusion of non-religious world views as equal to religious views is really important. We originally supported 'religions and world views' as a name that would be representative of the subject, but we have no problem with RVE—religion, values and ethics—as the chosen name moving forward.
>
> (…) 'religious education' sends a message that all you're teaching about is religion. And for parents and pupils, particularly those who perhaps live a non-religious life, we want to make sure that they recognise that

[473] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 216 - Mudiad Addysg Grefyddol Cymru.

[474] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 137 - Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol.

[475] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 43], 15 Hydref 2020.

[476] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 200], 15 Hydref 2020.

> that subject is relevant to them as well—that it's relevant to all of us. So, that inclusive language in the name, it might just be looked at as a name and that it is the content that matters, but actually the name signifies what's happening in that subject. So, we are happy to change the name to 'religion, values and ethics', because it marks a really significant step in the right direction."[477]

### Canllawiau ac ymgynghori perthnasol

**546.** Pwysleisiodd yr Eglwys yng Nghymru yr heriau a ddaw yn sgil canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg perthnasol nad ydynt ar gael eto:

> "…the issue that the RVE framework hasn't yet been published makes this debate really very difficult, and I think that that is one of the issues that perhaps we need to think about, particularly when you set that alongside the lengthy list of philosophical convictions that are referenced in the European Convention on Human Rights."[478]

**547.** Ategwyd y farn hon gan gynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol, a ddisgrifiodd hyn fel pryder gwirioneddol. Dadleuodd fod angen i'r ymgynghoriad ar y canllawiau ddigwydd yn awr o ystyried yr amserlenni ar gyfer eu gweithredu.[479] Cytunodd cynrychiolydd y Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, gan bwysleisio bod y broses o greu'r fframwaith ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i fod yn broses gydweithredol a'i bod yn bwysig bod arbenigwyr yn rhan o'i ddrafftio.[480]

**548.** Beirniadodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig y ffaith fod y Bil wedi cael ei gyhoeddi cyn i'r canllawiau drafft gael eu cyhoeddi, a chyn cau'r ymgynghoriad ar Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

> "(…) the Bill has been published before the distribution of draft statutory guidance for the implementation of the mandatory elements of the curriculum (…)

---

[477] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 194 a 199], 15 Hydref 2020.

[478] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 15 Hydref 2020.

[479] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 166], 15 Hydref 2020.

[480] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 168], 15 Hydref 2020.

> The Bill has been published prior to the closure of the consultation on RVE and takes no account of the concerns raised during the consultation and the worries expressed by the head teachers and governors of Church schools. (…)
>
> The contents of the Bill have certainly not been 'co-constructed'."[481]

**549.** Roedd nifer o sefydliadau ffydd yn cydnabod y bydd y Bil—drwy'r pedwar diben—yn parhau i weithredu'r ddyletswydd statudol bresennol sydd wedi ei chynnwys yn adran 99 o Ddeddf Addysg 2002, i'r cwricwlwm hyrwyddo "datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion a'r gymdeithas". Roeddent yn galw am gyfeirio'n benodol at hyn mewn canllawiau wedi eu llunio o dan y Bil. Roedd barn yr Eglwys yng Nghymru yn adlewyrchu barn nifer o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol[482] a'r Panel Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol[483] pan ddywedodd:

> "We support the retention of the "spiritual, moral, cultural, mental and physical development of pupils and preparing them for the opportunities, responsibilities and experiences of later life" in legislation and acknowledge that these are subsumed within the Four Purposes. However, it would be helpful if the retention of this were more clearly recognised in supporting documentation."[484]

**550.** Nodwn fod y Bil yn diddymu'r ddyletswydd yn adran 99 o Ddeddf Addysg 2002 mewn perthynas â dysgwyr oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae adran 61 o'r Bil a pharagraff 25(4) o Atodlen 2 i'r Bil yn sicrhau bod y ddyletswydd yn parhau i fod yn berthnasol i'r disgyblion hynny sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir ac unedau atgyfeirio disgyblion.

---

[481] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 225 - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

[482] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 130, 136, 142, 144, 154.

[483] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 15 Hydref 2020

[484] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 171 – yr Eglwys yng Nghymru

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**551.** Pan ofynnwyd pam nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth i rieni gael hawl i dynnu eu plant yn ôl o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (ac addysg cydberthynas a rhywioldeb), atebodd y Gweinidog:

> "I don't believe we can deliver the full purposes that are required in the law without ensuring that all children have access to those lessons. The purposes cannot be achieved if we allow children to be denied access to a full, broad and balanced curriculum."[485]

**552.** Aeth swyddog y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> "…what the Bill seeks to do is, in removing the right to withdraw, to ensure for all children in all schools there is a right to access the pluralistic agreed-syllabus RVE if that is what is wanted. But we do recognise that, for some parents, they will want to have the RVE provided in accordance with the faith of the schools, and that's available if it's wanted, but that's a matter of parental preference."[486]

**553.** Pan ofynnwyd iddi mewn gohebiaeth a oedd hi'n fodlon bod peidio â chael unrhyw ddarpariaeth yn y Bil i dynnu'n ôl o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gydnaws â hawliau rhieni o dan A2P1 ac A9 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop, cadarnhaodd y Gweinidog ei bod hi'n fodlon, ar y seiliau a ganlyn:

- mae darpariaethau'r Bil yn sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol a bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob plentyn ym mhob ysgol;
- rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei chynllunio a'i haddysgu gan ystyried canllawiau statudol Gweinidogion Cymru;
- mae'r Bil yn ymdrechu i barchu'r ffaith bod y wladwriaeth wedi croesawu sawl ffydd wahanol i'r ddarpariaeth addysg yn hanesyddol, a chydbwyso hawl bresennol rhieni yn y system ysgolion yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig i ddewis addysg grefyddol i'w plentyn gan gydnabod na fydd yn briodol i bob disgybl mewn ysgolion o'r fath;

[485] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 14 Gorffennaf 2020.

[486] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 79], 14 Gorffennaf 2020.

- mae'r Bil, yng ngoleuni'r ffaith nad yw Llywodraeth Cymru yn gweld ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â gweithredoedd ymddiriedolaeth â chymeriad crefyddol (a'r posibilrwydd ei bod yn ofynnol yn ôl eu gweithredoedd ymddiriedolaeth i'r ysgolion hynny ddarparu addysg mewn ffordd benodol nad yw'n blwraliaethol o bosibl), yn darparu, os nad yw rhiant eisiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol, y gallant ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig (ystyrir hyn yn fanylach yn adran nesaf y bennod hon); ac
- mae'r Bil yn darparu, os yw rhiant mewn ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol yn dymuno i'w plentyn dderbyn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol, y gellir darparu hynny (ystyrir hyn yn fanylach yn adran nesaf y bennod hon).[487]

**554.** Mewn perthynas â newid enw o addysg grefyddol i Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, dywedodd y Gweinidog:

> "Diben y newid enw yw adlewyrchu cwmpas estynedig addysg grefyddol a sicrhau ei bod yn glir yn y ddeddfwriaeth ei hun y dylai'r pwnc newydd gynnwys safbwyntiau anghrefyddol. Gwnaed hyn drwy gysylltu darpariaeth y Bil â'r term "argyhoeddiadau athronyddol" yn A2P1 (gweler 62 o'r Bil). Hynny yw, mae'n rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn unol â'r Bil gydymffurfio ag A2P1 yn yr ystyr bod yn rhaid cynnwys addysgu am argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol."[488]

**555.** Gan ymateb i bryderon ynghylch argaeledd canllawiau perthnasol ac amseriad unrhyw ymgynghoriad ar hynny, dywedodd y Gweinidog wrthym mewn gohebiaeth:

- mae Fframwaith Ategol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn ganllawiau statudol wedi cael ei lunio ar y cyd ag ymarferwyr ac arbenigwyr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg dros y 12 mis diwethaf;
- bydd ymgynghori ar y fframwaith statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar ddiwedd y flwyddyn (2020); ac
- bwriedir cyhoeddi rhagor o ganllawiau i helpu ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i gynllunio'r cwricwlwm, ac mae swyddogion

[487] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.
[488] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau â Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i ddatblygu'r canllawiau ar y cyd.[489]

## Ein barn a'n hargymhellion: statws gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm

**556.** Fel Pwyllgor rydym yn unfrydol yn ein cefnogaeth i gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel elfen orfodol o'r Bil. Ein barn ni yw bod hyn yn angenrheidiol er mwyn adeiladu cymdeithas oddefgar, gynhwysol, ac—yn benodol—"galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd", sef un o bedwar diben y cwricwlwm newydd a restrir ar wyneb y Bil.[490]

**557.** Ar y sail hon, rydym hefyd yn cytuno bod angen newid enw i adlewyrchu'r nodau ehangach sydd ynghlwm wrth yr elfen orfodol hon o'r cwricwlwm yn well. Rydym yn cydnabod nad yw enw yn unig yn gwarantu bod cynnwys yn cwmpasu ehangder crefydd(au) a bydolygon y credwn y dylai ein plant a'n pobl ifanc fod yn ymwybodol ohonynt, eu deall a gallu eu hystyried yn feirniadol. Fodd bynnag, credwn ei fod yn ddatganiad o fwriad a disgwyliad pwysig. Nodwn y drafodaeth ynghylch yr enw mwyaf priodol, gydag awgrymiadau yn cynnwys "Crefydd a Bydolygon" a "Crefyddau a Bydolygon", yn ogystal â'r un a ddewiswyd, sef "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg". Rydym yn cytuno â rhai tystion bod angen adlewyrchu gwerthoedd a moeseg ar draws y cwricwlwm, ond nid ydym wedi derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n ein hargyhoeddi bod y Bil fel y'i drafftiwyd yn golygu y cânt eu traddodi i'w hystyried o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unig.

**558.** Yn yr un modd â darpariaethau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y Bil, rydym wedi ystyried yn ofalus y pryderon a godwyd ynghylch y ffaith nad yw'r Bil yn rhoi hawl i rieni dynnu'n ôl. Er ein bod yn cydnabod bod yr hawl i dynnu'n ôl yn aml yn cael ei ystyried yn amddiffyniad ar gyfer amddiffyn hawliau rhieni o dan A2P1 ac A9 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop, yn yr un modd ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, nid yw peidio â chael hawl i dynnu'n ôl o reidrwydd yn golygu y bydd hawliau rhieni yn cael eu torri. Yr hyn sy'n bwysig at ddibenion hawliau rhieni o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop yw y gall rhiant, ym mhob ysgol, ddewis i'w blentyn gael darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol a gynlluniwyd ac a weithredwyd gan roi sylw i / yn unol â maes llafur cytunedig. Bydd y rhieni sy'n dewis i'w plant dderbyn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn seiliedig ar weithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau

[489] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

[490] Adran 2(1) o'r Bil.

ffydd/crefyddol ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn arfer eu dewis fel rhiant eu hunain.

**559.** Unwaith eto, yn yr un modd ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, er mwyn sicrhau bod hawliau rhieni o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn cael eu parchu—ac yn parhau i gael eu parchu—mae'n hanfodol bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig yn cael ei gynllunio a'i weithredu mewn ffordd sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn bwlraliaethol.

**560.** Rydym yn fodlon bod digon o fesurau diogelu ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw bryder na fydd darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei chynllunio na'i chyflawni mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Yn ei llythyr atom ar 12 Awst 2020, mae'r Gweinidog yn nodi nifer o ddarpariaethau yn y Bil sydd wedi eu cynllunio i sicrhau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg plwraliaethol.[491] Isod, rydym wedi nodi rhai mesurau diogelu ychwanegol sydd eisoes yn bodoli, sy'n bwysig yn ein barn ni:

- Pŵer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau o dan adran 66 o'r Bil mewn perthynas ag arfer swyddogaethau - wrth gyhoeddi canllawiau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'n gydnaws â Siarter Hawliau Dynol Ewrop.[492] Er nad yw Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig wedi eu cynnwys yn y rhestr o bobl y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau,[493] mae Atodlen 2 i'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r maes llafur cytunedig.[494]

- Adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 - mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu'n gydnaws â Siarter Hawliau Dynol Ewrop wrth fabwysiadu'r maes llafur cytunedig. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid a chyrff llywodraethu weithredu'n gydnaws â Siarter Hawliau Dynol Ewrop wrth gynllunio eu darpariaeth

[491] Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at ailenwi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a dywed mai pwrpas hynny yw adlewyrchu cwmpas estynedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a sicrhau ei bod yn amlwg o'r ddeddfwriaeth ei hun y dylai'r pwnc newydd gynnwys safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol. Mae'r Gweinidog hefyd yn cyfeirio at y newidiadau y mae'r Bil yn eu gwneud i gyfansoddiad Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig.

[492] Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[493] Adran 66(3) o'r Bil.

[494] Paragraffau 7, 10 a 26 o Atodlen 2 i'r Bil.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gwneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu.

- **System arolygu** Mae gan Estyn bwerau i arolygu ysgolion a gynhelir. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried a yw ysgol yn gweithredu'n anghyfreithlon, gan gynnwys mewn perthynas â darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

- **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** - mae gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru bwerau o dan y Ddeddf i ymyrryd mewn ysgol lle mae corff llywodraethu neu bennaeth wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg[495] neu wedi gweithredu (neu'n bwriadu gweithredu) yn afresymol wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Deddfau. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i ymyrryd wrth i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau addysg ar seiliau tebyg.

- **Y buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd**. Ystyrir hyn ymhellach yn ddiweddarach yn y bennod hon.

**561.** Fodd bynnag, rydym yn siomedig—o ystyried pwysigrwydd canolog y canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg—nad yw ei gynnwys ar gael ar hyn o bryd i ni graffu arno. Rydym o'r farn y gallai argaeledd y canllawiau fod wedi lleddfu llawer o'r pryderon y tynnwyd ein sylw atynt, ac wedi cynorthwyo'n sylweddol â rhai o'r materion a amlygwyd yn adran nesaf y bennod hon, sy'n delio â meysydd llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**Argymhelliad 25.** Bod Llywodraeth Cymru, er mwyn llywio gwaith pwysig ysgolion i baratoi ar gyfer cychwyn y Bil a chyflwyno gwelliannau gan Aelodau a'u trafod, yn sicrhau bod canllawiau drafft Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael cyn dechrau Cyfnod 3.

**562.** Rydym yn cydnabod bod yr hawl i barch at argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol o dan A2P1 wedi ei fframio o ran hawliau rhieni, ac nid plant. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd y ffordd mae darpariaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu drafftio yn golygu nad oes unrhyw sicrwydd y bydd pob plentyn yn *derbyn* Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Er y gall y Bil fel y'i drafftiwyd fod yn gydnaws â

[495] Mae'r "Deddfau Addysg" yn Ddeddfau penodol a restrir yn Neddf Addysg 1996. Diffinnir y Deddfau hyn ynghyd â Deddf Addysg 1996 ei hun fel y "Deddfau Addysg". Mae diffiniadau ac ymadroddion a ddefnyddir yn Neddf Addysg 1996 yn bwydo drwodd i'r "Deddfau Addysg" eraill oni bai bod darpariaeth benodol fel arall.

hawliau rhieni o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop, rydym yn pryderu am yr effaith y gallai hyn ei chael ar hawliau plant. Ystyrir hyn ymhellach ym mharagraffau 604 – 612 o'r bennod hon.

## Meysydd llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**563.** Mae Atodlen 1 i'r Bil yn darparu'r manylion ynghylch cynllunio a gweithredu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol ar gyfer y rhai mewn oedran ysgol gorfodol.

**564.** Bydd Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig—yn yr un modd ag y maent ar hyn o bryd—yn gyfrifol am lunio maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y bydd gan bob ysgol fynediad ato. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn amlinellu sut bydd yn ofynnol i ysgolion drin y maes llafur cytunedig hwnnw, a natur y gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y bydd disgyblion yn eu cael. Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae hyn yn amrywio yn ôl y math o ysgol maent yn ei mynychu.

**565.** Fel y nodwyd hefyd yn gynharach, mae'r Bil yn diwygio'r diffiniad presennol o faes llafur cytunedig yn adran 375 o Ddeddf Addysg 1996 fel ei bod yn amlwg bod yn rhaid i'r maes llafur adlewyrchu "argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol" (o fewn ystyr A2P1 Siarter Hawliau Dynol Ewrop - yr hawl i addysg) yn ychwanegol at y prif grefyddau "a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr".

### Tystiolaeth rhanddeiliaid

**566.** Un o'r materion mwyaf dadleuol ymysg y rhai a roddodd dystiolaeth i'n gwaith craffu Cyfnod 1 oedd sut bydd yn ofynnol i ysgolion drin y maes llafur cytunedig, a natur y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y dylai disgyblion ei derbyn gan ddibynnu ar gategori eu hysgol.

**567.** Roedd mwyafrif llethol yr ysgolion ffydd a'r sefydliadau ffydd a roddodd dystiolaeth i ni yn gwrthwynebu darpariaethau'r Bil fel maent yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn enwedig y modd yr ymdrinnir ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Roedd hyn ar y sail eu bod o'r farn:

- bod darpariaethau'r Bil yn seiliedig ar honiad anghywir nad yw eu darpariaeth addysg grefyddol eisoes yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn bwlraliaethol;

- y gallai'r Bil arwain at ysgolion â chymeriad crefyddol yn gorfod darparu dau faes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Maent o'r farn y byddai hynny'n debygol o roi baich ychwanegol sylweddol arnynt a naill ai gwrthdaro â chyfraith elusennol (os nad yw'r ddarpariaeth yn cydymffurfio â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth/daliadau eu ffydd) neu gyfraith addysg (os nad yw'r ddarpariaeth yn cydymffurfio â'r maes llafur cytunedig); a
- bod y Bil yn trin ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn wahanol i ysgolion eraill, sydd, yn eu barn nhw, yn awgrymu diffyg ymddiriedaeth ynddynt.

**568.** Roedd y Comisiynydd Plant hefyd yn gwrthwynebu darpariaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd, ond ar seiliau gwahanol iawn. Yn ei barn hi, nid yw Atodlen 1 yn "gyson â hawliau dynol plant a phobl ifanc" o ran:

- cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu bywyd (erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) - mae hi'n dadlau y gall rhieni bennu pa fath o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae eu plant yn ei derbyn, a fyddai "i bob pwrpas yn amddifadu rhai plant o fynediad i'r cwricwlwm llawn";
- addysg gyfannol sy'n hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith yr holl bobloedd, grwpiau ethnig, cenedlaethol a chrefyddol a phobl o darddiad brodorol (erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig) - mae hi'n dadlau nad yw dysgwyr mewn lleoliadau crefyddol eu natur "o reidrwydd yn cael mynediad at addysg blwraliaethol".[496]

**569.** Cofnododd y Comisiynydd Plant ei bod yn "anghytuno'n gryf" â threfniadau'r Bil ar gyfer ysgolion â chymeriad crefyddol, gan nodi:

> "…I mi, mae hon yn ymgais i gyfaddawdu nad yw'n cynnal hawliau plant fel prif ystyriaeth. Mae'n nodi bod barn y rhiant yn cael y lle blaenaf os bydd gwahaniaeth barn rhwng y plentyn a'r rhiant, ac mae hefyd yn amddifadu plentyn o fynediad at addysg blwraliaethol."[497]

[496] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 - Comisiynydd Plant Cymru

[497] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 - Comisiynydd Plant Cymru

**570.** Dywedodd Dyneiddwyr Cymru wrthym nad oedd y ddarpariaeth a wnaed yn y Bil ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ddelfrydol yn eu barn nhw oherwydd nad oedd yn gwneud y maes llafur cytunedig yn orfodol ym mhob ysgol. Roeddent yn derbyn, fodd bynnag, er bod hynny'n wir, eu bod yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftiwyd:

> "…the ideal state of affairs with respect to the introduction of the new, inclusive RVE curriculum would be for it to be compulsory in all schools irrespective of their religious character […] However, short of that, we support the proposal to require that voluntary aided schools teach RVE according to the agreed syllabus when parents demand it. Legally speaking, the Government's decision to abolish the parental right to withdraw from RVE across all schools, including faith schools, necessitates that the law is amended to ensure that the freedom of religion or belief of families whose beliefs do not cohere with the religion of the school is protected through the offer of such an alternative. For this reason, as set out in the Bill, schools should not be able to refuse this when requested."[498]

**Darpariaeth "wrthrychol, beirniadol a lluosog"**

**571.** Pwysleisiodd cynrychiolwyr grwpiau ffydd ei bod yn ofynnol yn barod i ysgolion â chymeriad crefyddol fod yn wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol wrth ddarparu addysg grefyddol. Crynhowyd hyn gan yr Eglwys yng Nghymru, a esboniodd:

> "…we don't believe that there is a problem, and we feel that this whole piece of legislation has been predicated on the belief that there is actually a problem, and that the delivery of religious education in schools with a religious character is not pluralistic. We see terminology such as a lack of pluralism means indoctrination, and that sort of link is actually really quite offensive in many ways. But we don't feel that religious education in schools of a religious character is anything other than pluralistic. That's the law, and we certainly have had no references that that is being broken in any of our schools in that respect."[499]

**572.** Nid oedd yr holl randdeiliaid o'r un farn. Dadleuodd Humanists UK:

[498] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 176 - Dyneiddwyr Cymru.
[499] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 50], 15 Hydref 2020.

> "The ideal situation would be for all children in all schools to be receiving this critical, objective and pluralistic RVE curriculum in line with their locally agreed syllabus. (…) [that] isn't currently on the table, because we are going to allow faith schools to continue with a faith-based version of the subject, which they try to argue is already critical, objective and pluralistic, but it just isn't the case. That's a very high bar to satisfy in law. In law, critical, objective and pluralistic—you can't have that objective part if you are teaching from a particular faith perspective. No matter how much you want to try and bolt on other religions or world views into your curriculum, you're coming at it from a particular stance, and you won't meet that standard in the law—it just can't meet it. It's substantively different; it's qualitatively different religious education."[500]

**573.** Dywedodd cynrychiolydd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig wrthym:

> "Catholic school RE curricula already meet the legally required "objective, critical and pluralistic" standard. However, an assumption that this means it would thereby necessarily share a basic core with other non-denominational curricula is erroneous. It would be a failure to recognise that there are several different ways a curriculum could meet these requirements."[501]

**574.** Amlinellodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru fod addysg grefyddol mewn ysgol â chymeriad crefyddol yn sylfaenol o ran gwerthoedd ac ethos yr ysgol gyfan ac nid dim ond yn un o lawer o bynciau sy'n llunio'r cwricwlwm.[502] Dadleuodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, yng ngoleuni hyn, fod yr awgrym y byddai'n gymharol ddidrafferth ei gwneud yn ofynnol i ysgolion â chymeriad crefyddol gael cwricwlwm sy'n cydymffurfio â gweithredoedd ymddiriedolaeth/daliadau'r ffydd a'r maes llafur cytunedig yn rhagdybiaeth naïf sy'n dangos diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng cwricwla ysgolion sydd â chymeriad crefyddol a'r hyn sy'n cyfateb i'r maes llafur cytunedig.[503] Ar y sail hon, daethant i'r casgliad canlynol:

[500] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 225], 15 Hydref 2020.

[501] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[502] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Eglwys yng Nghymru yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[503] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

> "…it is possible, and indeed likely, that the agreed syllabus and the syllabus used in a Church school will be very different in practice even if both meet the objective, critical and pluralistic requirement. Therefore, any requirement to produce an additional curriculum on top of a Church school RE curriculum would be an onerous and unreasonable additional burden on Church school."[504]

**575.** Gwnaethom ofyn i Gomisiynydd Plant Cymru pa mor blwraliaethol yw'r ddarpariaeth addysg grefyddol gyfredol yng Nghymru yn ei barn hi, a pha mor blwraliaethol mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn debygol o fod o dan y cwricwlwm newydd. Ymatebodd fod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn galluogi rhai ysgolion i gael cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel mater o drefn nad oes angen iddo roi sylw i'r maes llafur cytunedig (ac ysgolion eraill i gynnig cwricwlwm sy'n cyfateb i weithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau'r ffydd os yw rhiant yn gofyn am hynny) a dadleuodd nad yw darpariaeth o'r fath o reidrwydd yn blwraliaethol.[505]

### Effaith bosibl mwy nag un maes llafur

**576.** Disgrifiodd Cymdeithas y Beibl y gofyniad i ddarparu'r maes llafur cytunedig os bydd rhiant yn gofyn amdano, yn ogystal â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol ar gyfer dysgwyr eraill, yn feichus iawn, gyda goblygiadau difrifol i lwyth gwaith athrawon.[506] Cytunodd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, gan ychwanegu y byddai effaith gyllidebol mwy nag un maes llafur yn sylweddol.[507]

**577.** Rhestrodd yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig nifer o feichiau adnoddau a fydd yn codi yn eu barn nhw o ganlyniad i ddarpariaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Bil, gan gynnwys:

- yr angen am amser ac adnoddau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn ychwanegol;
- datblygiad proffesiynol i baratoi athrawon i gyflwyno dau faes llafur;

---

[504] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[505] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 8 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[506] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 43 - Cymdeithas y Beibl.

[507] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 163 – Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru.

- capasiti ychwanegol i ddarparu dau faes llafur, gan gynnwys staff ac amser yn yr amserlen, lle mewn ystafell ddosbarth ac adnoddau (neu'r gwaith posibl i drefnu darpariaeth gydag ysgol arall os yw'r niferoedd yn isel/os nad yw gweithredoedd ymddiriedolaeth yn caniatáu cyflwyno'r maes llafur cytunedig); a
- chymorth proffesiynol i gyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg anenwadol.[508]

**578.** Pwysleisiodd yr Eglwys yng Nghymru fod asesu effaith debygol yr angen posibl i ddarparu mwy nag un maes llafur hyd yn oed yn fwy heriol heb weld y fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

> "Currently the national Religion, Values and Ethics Framework has not been published for consultation, so it is impossible to know whether the additional syllabus, which voluntary aided schools may be required to follow, will be in breach of the Trust Deed. Even when the national framework is published, there is the potential for significant variation between the twenty two locally agreed syllabii (sic) and therefore the potential for significant variation in terms of what schools are expected to deliver."[509]

**579.** Dadleuodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig fod y trefniadau ar gyfer mwy nag un maes llafur o bosibl yn wahaniaethol oherwydd yr effaith wahanol ar ysgolion â chymeriad crefyddol:

> "…as it is only Church schools that would be required to take on such an additional burden it is also contrary to the demand of natural justice, and possibly discriminatory."[510]

**580.** Gwrthwynebodd y Comisiynydd Plant drefniadau'r maes llafur ar ddwy sail:

- yn gyntaf, ar sail hawliau dynol:

> "Under the current Bill, not all children will have their right to a broad education about different faiths and different ethics and different

[508] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[509] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Eglwys yng Nghymru yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[510] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

beliefs, because there are exemptions built in for faith schools. And this is about what they learn in the classroom about those things; it's not about the overall religious nature of the school, which would be untouched, as would collective worship, as would the ethics and values of the school. What's important is that every child, no matter what, has the same opportunity to learn broadly about the faith and values and ethics of everyone, and that's really important for equality, and it's really important for non-discrimination. We mustn't allow any child to be opted out of that very broad learning if we want to have an equal society here in Wales."[511]

- yn ail, ar sail ymarferoldeb:

"Mae goblygiadau ymarferol sylweddol hefyd i'r dull gweithredu hwn (yn arbennig mewn cwricwlwm integredig) ac mae'n aneglur sut byddai ysgolion yn rheoli hyn o ran amserlennu a staffio. O ganlyniad, ymddengys bod hwn yn ateb a gynigiwyd na ellir ei weithredu'n ymarferol."[512]

**581.** Dadleuodd rhai ymatebwyr i'n hymgynghoriad ysgrifenedig, gan gynnwys Estyn a'r Athro Russell Sandberg, Athro'r Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd, y dylai'r maes llafur cytunedig fod ar gael ym mhob ysgol, waeth beth fo'u categori, gyda Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn atodol pe bai ei eisiau.[513] Cytunodd y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol, gan esbonio:

"We deeply regret that by permitting faith schools to continue to use the subject to promote their particular religious outlook through the denominational syllabus, many pupils in Wales will continue to be denied access to genuinely non-partisan and balanced education about the full range of religious and non-religious worldviews. We believe this should be the right of every child, irrespective of the type of school they attend. If the ambition is for every child to have universal entitlement to a broad and balanced curriculum, we believe implementing a duty on all schools to teach an objective, critical, and pluralistic RVE syllabus, without exception, must be the starting point.

[511] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 8 Hydref 2020.

[512] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 - Comisiynydd Plant Cymru.

[513] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 5 - Yr Athro Russell Sandberg, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd a CAW 20 - Estyn.

> We therefore urge you to extend the duty to teach pluralistic RVE in accordance with the agreed syllabus too (sic) all schools, regardless of religious designations."[514]

**582.** Galwodd Humanists UK am dryloywder llwyr ynghylch argaeledd y maes llafur cytunedig i ddysgwyr mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Roedd yn dadlau y dylid rhoi esboniad llawn i rieni, yn rheolaidd, o'u hawliau mewn perthynas â'r cwricwlwm y gallant ofyn amdano ar gyfer eu plentyn.[515] Gwrthwynebodd yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig hyn, gan ddadlau ei fod yn dangos yr hyn roeddent yn ei ystyried yn ddiffyg ymddiriedaeth mewn athrawon ac arweinwyr mewn ysgolion â chymeriad crefyddol.[516]

### Y maes llafur cytunedig: "cyd-fynd â" a "rhoi sylw i"

**583.** Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau ffydd ac ysgolion â chymeriad crefyddol a roddodd dystiolaeth, a nifer o ymatebwyr unigol, yn poeni bod y gofyniad ar ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig os yw rhiant yn gofyn amdano yn golygu:

- bod ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cael eu trin yn wahanol—ac yn anghyfartal yn eu barn nhw—i ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion cymunedol (y mae'n ofynnol iddynt yn eu tro ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n rhoi sylw i'r maes llafur cytunedig); a
- y gall fod ysgolion crefyddol naill ai'n tynnu'n groes i'w gweithredoedd ymddiriedolaeth/daliadau eu ffydd (os ydynt yn cynllunio ac yn cyflwyno'r maes llafur cytunedig), neu'r maes llafur cytunedig (os ydynt yn cyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n cyd-fynd â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth/daliadau eu ffydd).

**584.** Dywedodd y Gwasanaeth Addysg Catholig wrthym:

> "The Bill currently proposes (uniquely for VA schools) to require an alternative curriculum to be *in accordance with* the agreed syllabus. The effect of this is that, if any agreed syllabus is incompatible, in any

[514] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 50 – Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol.

[515] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 242], 15 Hydref 2020.

[516] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 77 a 108], 15 Hydref 2020.

> detail, with the Trust Deed of the school, it places school leaders in the impossible position of choosing whether to break the law by not complying with the agreed syllabus, or to break the law by not complying with the school's Trust Deed. In addition, if it chose the former, the school would have to find alternative premises on which to deliver the alternative curriculum, as it could not take place on school premises. No responsible legislature would put school leaders in such an impossible position."[517]

**585.** Pan ofynnwyd a oedd y gwrthdaro rhwng y maes llafur cytunedig a gweithredoedd ymddiriedolaeth yn debygol o ddigwydd, ymatebodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig:

> "Because of the number of different agreed syllabi, and the different wording to be found in individual school Trust Deeds, it is impossible to give a general answer to this question at the present time but (…) it is at least foreseeable, if not likely, that there will be incompatibility between those two legal requirements. This possibility is made almost certain by the proposals in the Bill to make fundamental changes to the composition of the bodies responsible for the agreed syllabi."[518]

(Trafodir cyfansoddiad y cyrff sy'n gyfrifol am feysydd llafur cytunedig yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod hon.)

**586.** Dywedodd cynrychiolwyr Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru eu bod wedi sylwi ar yr annhegwch yn yr iaith o ran 'cyd-fynd â' a 'rhoi sylw i' a dadleuodd Dr Louise Brown, aelod o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, fod y darpariaethau hyn yn golygu y bydd disgwyl i rai ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ddilyn y maes llafur cytunedig hyd yn oed yn fwy trylwyr nag ysgolion wladol a gynhelir am fod yn rhaid iddynt gyd-fynd â'r maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn hytrach na rhoi sylw iddo.[519]

**587.** Aeth Dr Brown ymlaen i dynnu sylw at y ffaith, er bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gyflwyno'r maes llafur cytunedig os bydd rhiant yn gofyn amdano, ni ddarperir unrhyw ofyniad cyfatebol i ddarparu

---

[517] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[518] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[519] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 162 - Dr Louise Brown, aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol ar gyfer plentyn sy'n mynychu ysgol nad yw'n grefyddol os yw rhiant yn gofyn am hynny:

> "…there is no requirement for State schools to have to provide a denominational education for parents who request it for a child. They only have to design and implement one RVE agreed syllabus curriculum."[520]

**588.** Ailadroddodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig y pwynt hwn, gan ddadlau bod y darpariaethau yn gyfystyr â thrin ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn wahanol ac mewn ffordd niweidiol:

> "The proposed legislation treats schools with a religious character in a different way to schools without a religious character. It discriminates unfairly against such schools, and against families of faith who want their children educated in conformity with their own religious and philosophical convictions. Essentially a child of faith in a school without a religious character may not be able to access RE which is in conformity with their religious beliefs. However, a child from a family without the religious belief of the school they are attending will be able to access alternative RE which is in accordance with the agreed syllabus. There is no rationale as to why different (and detrimental) treatment of those of faith is justified."[521]

**589.** Dadleuodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig y byddai'n ddefnyddiol diwygio Atodlen 1 i'r Bil, i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg *sy'n rhoi sylw i* yn hytrach na *chyd-fynd â'r* maes llafur. Roedd yn dadlau hyn ar y sail ei fod o'r farn y bydd gwelliant o'r fath yn sicrhau y bydd unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro â Gweithred Ymddiriedolaeth yr ysgol yn cael ei ddileu. Aeth ymlaen i ddweud:

> "If this change were made, then it would respect the integrity of the Church school starting point and would invert the misunderstanding that there is a common core to which Church schools add denominational tassels. A legal requirement not to follow the agreed syllabus deriving from the school's Trust Deed would constitute a good reason, thus meaning that the possibility of a conflict between a school's Trust Deed and the agreed syllabus would be entirely

[520] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 162 - Dr Louise Brown, aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol.

[521] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 225 - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

> eliminated. Such a change would also allow us to demonstrate the ways in which the Catholic RE curriculum already meets the objectives of the agreed syllabus and to modify it where it does not. This would allow a genuine pluralism to flourish in Wales, since it would recognise the distinctiveness of the different contexts in which Religious Education happens and does not presume to impose approaches that would be alien to the religious traditions of particular Welsh schools and communities."[522]

**Y maes llafur cytunedig: cyfeiriadau at "Prydain Fawr"**

**590.** Roedd nifer o ymatebion ysgrifenedig gan Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn cwestiynu drafftio diwygiadau i Ddeddf Addysg 1996 yn Atodlen 2 i'r Bil (yn ogystal â'r cyfeiriad yn adran 62 mewn perthynas â threfniadau ar gyfer dysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol), sy'n gofyn am addysgu a dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer disgyblion oedran ysgol gorfodol i

- "…adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol ym Mhrydain Fawr, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr"; ac yn
- "adlewyrchu hefyd y ffaith y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym Mhrydain Fawr".

**591.** Crynhodd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol Cymru y safbwyntiau hyn fel a ganlyn:

> "The panel has questioned whether this should be 'Wales' rather than 'Great Britain' in order to better reflect the new curriculum approach? If not 'Wales', then perhaps 'United Kingdom' would be more appropriate (if historically accurate and not problematic), as 'Great Britain' sounds very colonial. This whole section should be future proofed to take account of the evolving nature of religion and worldviews in Wales and the wider world, so that this legislation is not outdated from the outset."[523]

**592.** Rhybuddiodd yr Athro Russell Sandberg, Athro'r Gyfraith yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd, fod cadw'r cyfeiriad at y ffaith bod

[522] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 15 Hydref 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[523] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 137 - Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol Cymru.

traddodiadau crefyddol Prydain Fawr yn Gristnogol yn bennaf yn debygol o annog gogwydd Cristnogol ac agwedd geidwadol tuag at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Ar y sail hon, dywedodd y byddai'n ddoeth ymgorffori'r gofyniad plwraliaethol mewn deddfwriaeth.[524]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**593.** Pan ofynnwyd iddi pam nad yw'r Bil yn gosod gofyniad i bob ysgol gynllunio ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig, ymatebodd y Gweinidog:

> "Gallem ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol drwy un o ddwy ffordd. Byddai'r ddwy ohonynt yn sicrhau bod y canllawiau a'r fframwaith deddfwriaethol arfaethedig yn unol â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Y ffordd gyntaf fyddai gorfodi rhwymedigaeth newydd ar bob ysgol i addysgu Addysg Grefyddol mewn modd plwraliaethol. Byddai'r dull gweithredu hwn yn dileu pob cyfyngiad arall ac yn gorfodi pob ysgol i newid y ffordd y mae'n addysgu (gan dybio bod unrhyw newid yn angenrheidiol). Byddai hefyd yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth a bennir yn ei gweithred ymddiriedolaeth. Mae hyn yn debygol o effeithio ar allu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu eu henwad. Byddai maint yr effaith honno yn amrywio yn dibynnu ar y ddarpariaeth benodol yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol a dull addysgu presennol yr ysgol. Nid yw'r Bil yn cynnwys y gofyniad hwn am y byddai goblygiadau sylweddol i ysgolion â chymeriad crefyddol. Y ffordd arall yw'r hyn a geir yn y Bil ei hun sydd, yn ein barn ni, yn ymateb priodol i'r materion sy'n codi ac yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn."[525]

**594.** Nid oedd y Gweinidog yn cytuno â barn y Comisiynydd Plant fod darpariaethau Atodlen 1 yn gyfaddawd:

> "…it's not a compromise; it is about trying to give effect to the recommendations, first of all, that religion, values and ethics are an important part of the curriculum. It recognises the importance of religion, but also recognises that other people have philosophical

[524] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 5 - Yr Athro Russell Sandberg, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd.

[525] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

convictions that also need an opportunity for children and young people to engage in.

We recognise the important role of schools of a religious character to our education system and the contribution that they make, and we want to be able to continue to allow them very explicitly to deliver RVE in perfect harmony with the tenets of their particular faith. (…) It may be a common belief that any learner in a school of a religious character is there to receive denominational education, but that's not always the case. Therefore, given the fact that we are removing the right to withdraw children from RVE, we need to ensure that there are arrangements in place for all pupils to have access to pluralistic RVE if that is what they or their parents or carers desire. So, what we're trying to do here is give effect to an important aspect of the curriculum whilst recognising the important role of schools of a religious character, but also protecting children's rights and human rights to have pluralistic RVE education, if they want."[526]

**595.** Mewn ymateb i bryderon ynghylch gwrthdaro rhwng gweithredoedd ymddiriedolaeth a'r maes llafur cytunedig, dywedodd y Gweinidog:

- "Nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu gweithredoedd ymddiriedolaeth pob ysgol ac, felly, ni allwn fod yn sicr eu bod yn blwraliaethol;
- Mae cyfraith achosion a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i addysg grefyddol blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr. Felly, mae'r Bil yn rhoi'r hawl i rieni ddewis addysg grefyddol blwraliaethol i'w plant, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i ysgolion â nodweddion crefyddol; ac
- Mae'r Bil yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol, gan alluogi ysgolion â nodweddion crefyddol i barhau i addysgu addysg grefyddol yn unol â'u hethos enwadol".[527]

**596.** Mewn perthynas â'r posibilrwydd y bydd ysgolion crefyddol yn gorfod darparu mwy nag un maes llafur, dywedodd y Gweinidog "Mae'r Bil yn darparu bod angen gwneud 'darpariaeth ychwanegol' sy'n cyd-fynd â'r maes llafur

[526] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 97-98], 21 Hydref 2020.

[527] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

cytunedig o dan amgylchiadau lle nad yw'r maes llafur enwadol yn cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig." Ychwanegodd:

> "Rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ysgolion â nodweddion crefyddol, er ein bod ar ddeall mai prin iawn oedd y rhieni a dynnodd eu plant yn ôl o Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn flaenorol. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei adlewyrchu yn y cynnig hwn.
>
> Mae CYSAG ym mhob awdurdod lleol yn helpu ysgolion i gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig. A gall ysgolion ystyried sut y gallent gydweithio ag ysgolion eraill i ddarparu Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd y fframwaith drafft ategol ar gyfer Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhoi canllawiau i bob ysgol ar sut i gymhwyso maes llafur cytunedig wrth lunio ei chwricwlwm.
>
> Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru ar roi'r Bil ar waith, ac mae cyllid wedi'i ddyrannu i'w galluogi i ddatblygu rhagor o ganllawiau er mwyn cefnogi Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol mewn ysgolion."[528]

**597.** Gwnaethom ofyn hefyd pam mae'r sefyllfa'n wahanol i ysgolion gwirfoddol a reolir, y mae'n ofynnol iddynt gynllunio a darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar ôl *rhoi sylw i'r* maes llafur cytunedig, ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y mae'n ofynnol iddynt gynllunio a darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg *sy'n cyd-fynd â'r* maes llafur cytunedig os bydd rhiant yn gofyn amdano. Dywedodd y Gweinidog fod y ddyletswydd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir:

> "… Yn gyson â'r ddyletswydd i'r ysgolion hyn gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth (…) Mae dyletswydd i roi sylw i faes llafur cytunedig yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ysgolion gwirfoddol a reolir o ran y ffordd y maent yn cymhwyso maes llafur cytunedig. Nid dyma'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y bwriad yw cysoni'r gofyniad arnynt i gyflwyno'r maes llafur cytunedig â'r gofyniad i gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth."[529]

[528] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.
[529] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.

**598.** Pan ofynnwyd mewn gohebiaeth ysgrifenedig pam mae'r Bil yn cyfeirio at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym "Mhrydain Fawr", yn hytrach nag yng "Nghymru", o gofio bod hwn yn Gwricwlwm pwrpasol i Gymru, atebodd y Gweinidog:

> "Mae'r ddarpariaeth a wneir yn y Bil yn hyn o beth yn gyson â'r ddarpariaeth bresennol ynglŷn â threfniadau'r maes llafur cytunedig yn Neddf Addysg 1996 sy'n cyfeirio at Brydain Fawr. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried a yw hyn yn fater y gellid ei ailystyried ar gyfer gwelliannau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 2."[530]

## Ein barn a'n hargymhellion: meysydd llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**599.** Nodwn gydnabyddiaeth y Gweinidog fod gwahanol ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi deddfu mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond bod y Bil wedi mabwysiadu dull sy'n ceisio parchu sefyllfa hanesyddol ysgolion sydd â chymeriad crefyddol wrth sicrhau—yn absenoldeb yr hawl i dynnu'n ôl—y gall pob rhiant, os dewisant, fynnu bod eu plant yn derbyn gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig (y mae'n rhaid iddo fod yn wrthrychol, yn blwraliaethol ac yn feirniadol).

**600.** Nodwn ymhellach y pwynt a wnaed gan y rhai sy'n cynrychioli ysgolion sydd â chymeriad crefyddol bod yr addysg grefyddol maent yn ei darparu eisoes yn ofynnol, o ganlyniad i'r gyfraith achosion bresennol,[531] i fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Serch hynny, o gofio nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawl i dynnu'n ôl, ac nad yw'n bosibl gwybod a fydd y gweithredoedd ymddiriedolaeth yn benodol yn caniatáu ar gyfer darparu cwricwlwm cwbl wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, rydym o'r farn bod gallu rhieni i fynnu bod eu plentyn yn derbyn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig—ar y lleiaf—yn amddiffyniad angenrheidiol.

### Effaith bosibl mwy nag un maes llafur

**601.** Rydym wedi gwrando'n ofalus ar y pryderon ynghylch y gwahanol drefniadau ar gyfer ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, a'r heriau ymarferol y gallai darparu mwy nag un maes llafur eu hachosi. Nodwn, fodd bynnag, o dan y trefniadau cyfredol, y gall fod yn ofynnol eisoes i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol (mewn

[530] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.
[531] Trafodir ymhellach ym mhennod 1.

rhai amgylchiadau)[532] ddarparu mwy nag un math o addysg grefyddol. Nodwn ymhellach y dystiolaeth a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr grwpiau ffydd ac ysgolion ffydd a bwysleisiai fod yr addysg grefyddol maent yn ei darparu eisoes yn wrthrychol, yn blwraliaethol ac yn feirniadol, ac mai ychydig o rieni sy'n tynnu eu plant yn ôl o'r ddarpariaeth hon. Ar sail hyn, nid ydym wedi ein hargyhoeddi o hyd y bydd effaith ymarferol y darpariaethau hyn mor sylweddol ag y mae rhai yn ei ofni.

**Y maes llafur cytunedig: "cyd-fynd â" a "rhoi sylw i"**

**602.** Yng ngoleuni'r gwahanol eiriad a ddefnyddir yn Atodlen 1 i'r Bil ynghylch sut mae'n ofynnol i wahanol gategorïau o ysgol ystyried y maes llafur cytunedig wrth gynllunio eu cwricwlwm (gweler paragraffau 514 a 583 – 589 y bennod hon), dadleuodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig dros newid y Bil. Roedd yn dadlau y byddai'n fwy teg pe bai'n ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gynllunio eu cwricwlwm *gan roi sylw i'r* maes llafur cytunedig, yn hytrach na bod hynny'n ofynnol—fel y mae wedi ei ddrafftio yn y Bil ar hyn o bryd—i gynllunio cwricwlwm *sy'n cyd-fynd â'r* maes llafur cytunedig.

**603.** Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr alwad hon. Er ein bod yn deall y pryderon, nodwn fod y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gydnaws â Siarter Hawliau Dynol Ewrop. O'r herwydd, rydym yn ymwybodol y gallai unrhyw newid arwain at ganlyniadau anfwriadol. Gyda hyn mewn golwg, gofynnwn i'r Gweinidog archwili —ac egluro ymhellach yn ystod y ddadl Cyfnod 1—a fyddai'n bosibl diwygio Atodlen 1 i'r Bil fel bod cysondeb rhwng sut mae'r gwahanol gategorïau o ysgolion yn ystyried y maes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng nghwricwlwm yr ysgol.

**Argymhelliad 26.** Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ac yn egluro ymhellach yn ystod y ddadl Cyfnod 1 a fyddai'n bosibl diwygio Atodlen 1 i'r Bil fel bod cysondeb rhwng sut mae'r gwahanol gategorïau o ysgolion yn ystyried y maes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu'r elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng nghwricwlwm yr ysgol.

**Hawliau plant**

**604.** Fel y gwnaethom esbonio ym mharagraff 550 uchod, er ein bod ni'n cydnabod bod A2P1 wedi ei fframio o ran hawliau rhieni i barchu eu hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol, yn hytrach na hawliau plant, fel

[532] Gweler paragraffau 505-506 o'r Bennod hon.

Pwyllgor rydym bob amser yn ofalus i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu a'u parchu ymhellach.

**605.** Codwyd pryderon gyda ni y gallai gwahaniaethau barn ddigwydd rhwng rhieni a'u plant. Mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, gallai hyn olygu nad yw dysgwyr o aeddfedrwydd digonol sy'n dymuno derbyn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig yn gallu gwneud hynny os yw eu rhieni'n anghytuno. Rydym hefyd yn pryderu er bod gan bob dysgwr *fynediad* at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig, na fydd pob dysgwr o reidrwydd yn ei *dderbyn*. Mae risg y gallai hyn danseilio rhai o'r uchelgeisiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol.

**606.** Er yr ymdrinnir â darpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol ym mhennod 9, rydym yn falch bod y Bil wedi dileu'r gofyniad bod yn *rhaid* i ddisgyblion uwchlaw oedran ysgol gorfodol dderbyn addysg grefyddol. Yn lle hynny, mae adran 62 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg lle mae disgybl uwchlaw oedran ysgol gorfodol wedi gofyn am y ddarpariaeth honno. Mae hyn yn gwneud darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion yn gyson â'r trefniadau ar gyfer dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach.

**607.** Nodwn y siom a fynegwyd gan rai tystion, yn enwedig y Comisiynydd Plant, fod rhai agweddau ar y Bil lle mae'n bosibl na fydd hawliau plant yn cael eu gwireddu'n llawn.

**608.** Mae'r Pwyllgor hwn wedi dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn gyson mewn perthynas â'i:

- dyletswyddau i gyflawni hawliau plant;
- ei dyletswyddau i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; a hefyd
- ei dyletswyddau dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru).

**609.** Mae'r materion a godwyd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gymhleth, ac rydym yn ymwybodol bod y Bil hwn yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth y cyfeirir ati fel y "Deddfau Addysg" sy'n ymwneud ag addysg mewn ysgolion. Fel y daethom i'r casgliad ym mharagraff 603 uchod, rydym wedi bod yn ofalus wrth ystyried y Bil hwn i fod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol y gallai unrhyw newid i'w ddarpariaethau eu cael. Er bod galluogi dysgwyr sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd digonol i benderfynu pa fath o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg maent yn ei derbyn mewn ysgolion sydd â

chymeriad crefyddol yn ymddangos fel ei fod yn gwireddu hawliau plant ymhellach mewn un ffordd, gallai fod canlyniadau anfwriadol posibl gwneud newid o'r fath ar ei ben ei hun. Er enghraifft, os yw rhieni'r plentyn yn anghytuno, gallent arfer eu hawl i addysgu eu plentyn gartref, neu eu symud i ysgol arall.

**610.** Yn absenoldeb tystiolaeth o effaith ymarferol newid o'r fath, ac unrhyw esboniad pam nad yw'r Bil yn cynnwys hawl o'r fath, mae'n anodd i ni ddod i farn ynghylch a ddylid diwygio'r Bil i ganiatáu i ddysgwyr sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd digonol—mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir— gael yr hawl i ddewis yr addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir ar eu cyfer. Gofynnwn felly i'r Gweinidog egluro yn ystod y ddadl Cyfnod 1 pam nad yw'r Bil yn darparu hawl o'r fath i ddysgwyr sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd digonol.

> **Argymhelliad 27.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro, yn ystod y ddadl Cyfnod 1, pam nad yw'r Bil yn cynnwys hawl i ddysgwyr sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd digonol ddewis y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gânt lle mae modd dewis.

**611.** Rydym hefyd wedi ystyried a ellid gwireddu hawliau plant ymhellach drwy ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig, naill ai ar ei ben ei hun neu wedi ei ategu gan Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai hyn waethygu'r tensiynau y mae nifer o dystion wedi eu codi gyda ni ynghylch torri gweithredoedd ymddiriedolaeth. Unwaith eto, mae'n anodd i ni ddod i farn ar y mater hwn gan nad ydym yn gwybod beth yw gweithredoedd ymddiriedolaeth ysgolion unigol ac ni allwn fod yn sicr beth fydd yn cael ei gynnwys yn y meysydd llafur cytunedig. Nodwn fod Atodlen 1 i'r Bil wedi ei drafftio ar y sail ei bod yn bosibl, o leiaf, y gall ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir baratoi un maes llafur sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol ac unrhyw faes llafur cytunedig.

**612.** Gyda'r uchod mewn golwg, gofynnwn i'r Gweinidog archwilio ymhellach, mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd Plant Cymru a chyn y ddadl Cyfnod 1, y dewisiadau sydd ar gael i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wireddu hawliau plant ymhellach mewn perthynas â darpariaeth y Bil ar gyfer elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

> **Argymhelliad 28.** Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach, mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd Plant Cymru, y dewisiadau sydd ar gael i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wireddu hawliau plant ymhellach mewn perthynas â

darpariaeth y Bil ar gyfer elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan roi diweddariad ar hyn yn ystod y ddadl Cyfnod 1.

**Y maes llafur cytunedig: cyfeiriadau at "Brydain Fawr"**

**613.** Nodwn y dystiolaeth a gawsom yn cwestiynu pam mae'r Bil yn cyfeirio at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym "Mhrydain Fawr" yn hytrach nag yng "Nghymru", o gofio bod hwn yn gwricwlwm pwrpasol i Gymru. Rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog ei bod wedi gofyn i swyddogion ystyried a yw hyn yn rhywbeth y gellid ailedrych arno ar gyfer gwelliannau'r llywodraeth yng Nghyfnod 2.

**Argymhelliad 29.** Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dewisiadau i ddiwygio'r Bil i gyfeirio at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yng "Nghymru" yn hytrach nag ym "Mhrydain Fawr", o gofio bod hwn yn gwricwlwm pwrpasol i Gymru.

## Cyfansoddiad a swyddogaeth Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig

**614.** Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ffurfio Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn ei ardal leol. Ei bwrpas yw cynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion a gynhelir. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys trefnu Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig i fonitro darpariaeth ac ansawdd addysg grefyddol a addysgir i gyd-fynd â'r maes llafur cytunedig.

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**615.** Mae Atodlen 2 i'r Bil yn diwygio'r darpariaethau yn Neddf Addysg 1996 sy'n delio â chyfansoddiad a swyddogaethau Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. Bydd y Bil yn golygu y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys yn eu Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig "grŵp o bersonau i gynrychioli'r cyfryw argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn ei Gynhadledd Maes Llafur Cytundeb ag a ddylai gael eu cynrychioli ym marn yr awdurdod".[533]

**616.** Eglurir yn y Memorandwm Esboniadol:

- nid yw penodi pobl i gynrychioli argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn orfodol; yn hytrach, mater i'r awdurdod lleol yw

[533] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

penderfynu a fyddai'n briodol gwneud hynny er mwyn adlewyrchu traddodiadau perthnasol yr ardal leol; ac

- mae'r Bil yn dileu "Addysg Grefyddol" ar ôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (gyda'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn dod yn Gyngor Ymgynghorol Sefydlog) oherwydd yng Nghymru byddant yn cynghori ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, tra yn Lloegr byddant yn parhau i gynghori ar addysg grefyddol.[534]

**617.** Wrth ddatblygu'r cwricwlwm, bydd angen i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig hefyd roi sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru[535], y bydd y Gweinidog yn ymgynghori arnynt ddiwedd 2020.[536]

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

**618.** Daeth y dystiolaeth a gawsom am yr agwedd hon ar y Bil i raddau helaeth gan Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, grwpiau ffydd, grwpiau nad ydynt yn seiliedig ar ffydd ac unigolion.

**619.** Cododd ymatebion ysgrifenedig gan Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, nifer o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol unigol, Cytûn, a'r Eglwys yng Nghymru un neu ragor o'r pryderon a ganlyn:

- bod yr ailenwi (o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i Gyngor Ymgynghorol Sefydlog) yn arwain at golli eglurder ynghylch yr hyn maent yn bodoli i gynghori yn ei gylch;
- y gallai ychwanegu grŵp newydd ar gyfer y rhai sy'n coleddu argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol, gyda hawliau pleidleisio posibl, achosi gwrthdaro, yn enwedig mewn achosion lle maent yn cynrychioli lleiafrif yn y gymuned leol. Wrth geisio bod yn deg, gall hyn gael effaith anfwriadol ar hawliau cynrychiolaeth ar gyfer crefyddau eraill a'u henwadau; a

[534] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol: paragraffau 3.99-3.100.
[535] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol: paragraff 3.101.
[536] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Awst 2020.

- gallai ei gwneud yn ofynnol i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig roi sylw i ganllaw cwricwlwm Gweinidogion Cymru danseilio democratiaeth leol.[537]

**620.** Dywedodd cynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol nad oedd y Panel yn cytuno â'r cynnig i gael grŵp *ar wahân*, gyda hawliau pleidleisio, i gynrychioli'r rhai ag argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol, ond cefnogai gynrychiolaeth *o fewn grŵp presennol*:

> "…. we don't have any problem with an additional group within committee A to ensure that non-religious convictions or people who have non-religious beliefs get a place. (…) But we would have an issue (…) if that separate group had a separate voting right, because that would create imbalance. (…) that would mean that every different religion that is represented on SACRE would need a separate voting right."[538]

**621.** Cododd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig bryderon hefyd ynghylch effaith darpariaethau'r Bil o ran dylanwad Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol:

> "The proposals in the Bill to extend the functions of Ministers to issue statutory guidance on denominational RE and SACREs to advise on denominational RE, including Catholic RE, usurp the proper role of the denominational religious authority (in our case the Diocesan Bishop) to be the determiner of denominational religious education. We greatly value and support the work of SACREs in setting an appropriate local framework for non-denominational RE, but neither they nor the Government have the competence to give guidance on Church teachings, and we do not believe that SACREs wish to be given such a power. This proposal breaches the very basis upon which the Catholic Church agreed to be part of the State education system 173 years ago, and is unacceptable."[539]

**622.** Roedd y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol yn feirniadol o'r system bresennol o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol:

---

[537] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 106, 130, 136, 137, 144, 154, 163, 167, 225.

[538] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 15 Hydref 2020.

[539] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 225 - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

> "We simply don't think that the SACRE system is at all fit for purpose, and simply adding people to supposedly represent the non-religious majority doesn't fix that issue, so that's a big can of worms."[540]

**623.** Croesawodd Humanists UK y darpariaethau yn y Bil mewn perthynas ag aelodaeth Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig:

> "We've worked really hard over the last few years to try and increase the representation of non-religious on SACREs, and, despite the Minister's letter from two and a half years ago telling all local authorities that humanists and non-religious should be admitted to SACREs, we've still only managed to get small representation on six out of the 22. We're met with opposition for many different reasons. We're asked to prove how many humanists we have in a local area, we're asked to present on why we believe we deserve a seat at the table—things that religious groups are never asked to do. And so we don't believe that SACREs currently represent their communities in the way they should. Adding an extra group is a step towards making them do that. It's a step towards showing that the non-religious viewpoint should be at least 50 per cent of that group. We'd like to see that change move forward."[541]

**624.** Cwestiynodd yr Athro Russell Sandberg, Athro'r Gyfraith yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd, yr angen am Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig lleol, a meysydd llafur cytunedig lleol:

> "…given the nature of the new curriculum (which will be created as a school level) and the fact that there will be statutory guidance, it is questionable whether there is a need for locally agreed syllabi at all.
>
> The current system dates back to a time when it was thought that religious diversity differed on a regional basis. Affording power and discretion to the local authority level made sense in that context. It does not make sense now. Given financial pressures, it is now questionable whether Standing Advisory Councils now need to exist. A

[540] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 302], 15 Hydref 2020.

[541] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 304], 15 Hydref 2020.

> case could be made for one such council to serve the whole of Wales."[542]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**625.** Ni chodwyd cyfansoddiad a swyddogaeth Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog, ac ni roddodd y Gweinidog sylwadau ar y materion hyn.

## Ein barn a'n hargymhellion: cyfansoddiad y Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig

**626.** Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, rydym yn cytuno â chynnwys elfen orfodol ehangach "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" yn y cwricwlwm. O'r herwydd, rydym hefyd yn cytuno y dylai teitl y Pwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol newid i adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod gwahanol safbwyntiau ynghylch sut dylid enwi'r Pwyllgorau Ymgynghorol os yw eu teitl am adlewyrchu'n ddigonol y rôl mae'n rhaid iddynt ei chyflawni mewn perthynas â'r Bil hwn a'u cyfrifoldebau ehangach. Rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r pryderon a godwyd yn hyn o beth.

> **Argymhelliad 30.** Bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynllun i newid teitl Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i adlewyrchu'r elfen orfodol newydd o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm, ond y dylid ystyried mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch yr angen i fod yn glir am Bwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog a'r hyn y maent yn bodoli i gynghori yn ei gylch.

**627.** Codwyd nifer o bryderon ynghylch effaith y gofyniad yn y Bil ar awdurdodau lleol i gynnwys yn eu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig grŵp o bobl i gynrychioli argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol fel y dylid, ym marn yr awdurdod, eu cynrychioli. Ein barn ni yw bod y cyfle i gynrychioli argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y maes llafur cytunedig yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod gwahanol safbwyntiau ynghylch cydbwysedd a thegwch cyfansoddiad Pwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, a sut y cynigir bod hawliau pleidleisio yn cael eu dosrannu rhwng aelodau. Credwn y byddai'n ddefnyddiol pe

[542] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 5 - Yr Athro Russell Sandberg, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd.

bai Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r pryderon a godwyd yn hyn o beth.

**Argymhelliad 31.** Bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynllun i'r Bil osod gofyniad ar awdurdodau lleol i gynnwys yn eu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig grŵp o bobl i gynrychioli'r cyfryw argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol y dylid eu cynrychioli ym marn yr awdurdod, ond y dylid ystyried mynd i'r afael â phryderon a godwyd (gan grwpiau crefyddol, grwpiau nad ydynt yn grefyddol a grwpiau cynghori) ynghylch cydbwysedd a thegwch cyfansoddiad Pwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, yn enwedig mewn perthynas â hawliau pleidleisio.

## Addoli ar y cyd

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**628.** Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth sylweddol mewn perthynas ag addoli ar y cyd, ond cododd nifer fach o randdeiliaid ef fel mater yr hoffent ei weld yn cael ei gwmpasu gan y ddeddfwriaeth hon.

**629.** Dadleuodd Dyneiddwyr Cymru y dylid defnyddio'r Bil fel cyfle i gael gwared ar y gofyniad i ysgolion gyflawni gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gristnogol ei gymeriad. Dadleuwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Dyneiddwyr Cymru, er bod gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o addoli ar y cyd, y gall fod yn broses anodd sy'n ynysu plant ym marn y mudiad. O'r herwydd, dadleuwyd yn ei dystiolaeth fod cadw addoli ar y cyd yn tanseilio nodau ehangach y Bil yn y maes hwn:

> "…the continuation of statutory Christian worship contradicts much of the rationale for the new curriculum, particularly the requirement to ensure that children and young people develop into ethical citizens of Wales and the world. Given that, in other respects, this is likely to be the most inclusive curriculum in the UK, this undermines its purpose and risks diminishing the impact of the important changes this innovative curriculum seeks to make."[543]

**630.** Cytunodd yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol, a Phennaeth Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor, nad oedd cadw addoli ar y cyd mewn ysgolion â chymeriad nad yw'n grefyddol yn cyd-fynd â nodau "gweddnewidiol" y Bil:

[543] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 176 - Dyneiddwyr Cymru.

> "Retaining a duty of collective worship on non-religious state schools leads to legitimate concerns around the depth of authenticity that is attached by the Government to its stated key enabling objectives, in particular, the objective of creating 'strong and inclusive schools committed to excellence, equity and well-being'. Certainly, very many pupils and parents will find it hard to reconcile this aspiration of inclusive schools with a continued duty on non-religious schools to hold daily acts of worship.
>
> Further, the duty sits uneasily and illogically with the pioneering move to introduce the new Religion, Values and Ethics subject, the first country in the United Kingdom to take such an ambitious step."[544]

**631.** Nododd cynrychiolydd y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol hefyd siom nad yw'r Bil yn deddfu i ddileu'r gofyniad ar ysgolion i gyflawni gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd.[545]

**632.** Ni holwyd cynrychiolwyr ffydd a oedd yn rhoi tystiolaeth lafar ynghylch addoli ar y cyd—ac ni wnaethant sylwadau ar y mater—nac a ddylai'r Bil fynd i'r afael ag ef ai peidio. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn cynnwys gwybodaeth ar ei wefan ynghylch pam ei fod o'r faen bod addoli ar y cyd yn bwysig ym mhob ysgol:

> "In schools with a designated religious character, like Catholic schools, collective worship is far more than a statutory requirement. It is crucial to the spiritual life of the school and to pupils' moral and spiritual development. Collective worship is an important part of a Catholic school's distinctive ethos. (…)
>
> Britain is a multicultural and multi-faith society. In this context, collective worship remains an essential part of the life of every school, for community schools and academies just as much as in denominational faith schools. Many schools continue to hold acts of collective worship because of the value to the school community and to children's broader educational development."[546]

[544] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 122 Yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor.

[545] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 302], 15 Hydref 2020.

[546] Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, Collective worship, [cyrchwyd 17 Tachwedd 2020].

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**633.** Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Deisebau ar 7 Ionawr 2020, holwyd y Gweinidog ynghylch deddfu ar addoli ar y cyd mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm. Esboniodd fod y mater yn gymhleth iawn, ac nid un yr oedd hi wedi bod mewn sefyllfa i'w flaenoriaethu - y tu hwnt i archwiliad cychwynnol - oherwydd cyfyngiadau capasiti.[547]

**634.** Pan ofynnwyd iddi gan y Pwyllgor Deisebau a yw cadw'r gofyniad addoli ar y cyd yn mynd yn groes i ethos y cwricwlwm newydd i sicrhau bod dysgwyr yn dod yn ddinasyddion moesegol yng Nghymru a'r byd, ymatebodd y Gweinidog:

> "I think it's important to say that collective worship is not part of the curriculum; it is discrete from the curriculum. It's obviously an important part of the organisation of the school day, but it's not a formal part of the curriculum (…)
>
> …[it's] not just capacity reasons (…) We don't want to conflate collective worship with our curriculum reform, and there is a danger that that might happen if we were trying to make changes all at one time, if the Government decided to make a change."[548]

## Ein barn ni: addoli ar y cyd

**635.** Rydym yn cydnabod cryfder y teimlad sy'n bodoli o blaid ac yn erbyn y gofyniad i ysgolion gyflawni gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd. Rydym hefyd yn nodi'r deisebau ar y pwnc hwn a ddaeth i law Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn mynegi cefnogaeth i addoli ar y cyd a'r gwrthwynebiad iddo.[549]

**636.** Nid yw cwmpas—na'r amser sydd ar gael ar gyfer—ein gwaith craffu Cyfnod 1 wedi ein galluogi i roi'r ystyriaeth y byddai ei hangen i wneud cyfiawnder â'r pwnc cymhleth a dadleuol hwn. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad yw o'r farn bod addoli ar y cyd yn fater i'r Bil hwn. O'r herwydd, nid yw wedi ymgynghori ar y graddau y byddai hynny'n angenrheidiol i lywio ei ystyriaeth, (ac wedi hynny, ein hystyriaeth ni) o fater mor sylweddol.

---

[547] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 7 Ionawr 2020.

[548] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [paragraffau 152-155], 7 Ionawr 2020.

[549] Mae deisebau yn galw am gael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol a chadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol, wedi cael eu hystyried a'u cwblhau yn ystod y Senedd hon gan y Pwyllgor Deisebau.

**637.** Yng ngoleuni'r uchod, nid ydym o'r farn y byddai'n briodol defnyddio'r Bil hwn fel cyfrwng i ddeddfu mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

## Addysg broffesiynol athrawon

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**638.** Yn debyg iawn i achos y trefniadau ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a drafodwyd yn y bennod flaenorol, nid yw'r Bil yn cynnwys gofynion deddfwriaethol penodol mewn perthynas â dysgu proffesiynol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**639.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys manylion sylweddol am ddysgu proffesiynol gan ei fod yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn benodol, heblaw am ddweud:

> "I sicrhau effaith gadarnhaol, ac i fynd i'r afael â phryderon a godwyd yn yr ymatebion ynghylch yr angen am ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon uchel, rydym yn buddsoddi'n helaeth mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol. Dyrennir £24m i sicrhau bod pob ymarferydd yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Gellir bod yn hyblyg wrth ddefnyddio'r cyllid hwn, a chaiff ysgolion gydweithio mewn ffyrdd sy'n addas i'w hamgylchiadau nhw, a chreu'r amser a'r lle i ymarferwyr ac arweinwyr weithio rhwng ysgolion a rhwydweithiau wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd."[550]

### Tystiolaeth rhanddeiliaid

**640.** Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol ar gyfer cyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol yn effeithiol. Yn yr un modd ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, barnwyd bod hyn yn angenrheidiol o ystyried sensitifrwydd posibl y pynciau a drafodir fel rhan o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a phwysigrwydd (at ddibenion Siarter Hawliau Dynol Ewrop a hawliau ehangach) darparu addysg gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol.

[550] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.58.

**641.** Dadleuodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol gan ei fod yn faes cymhleth, yn sylfaenol, fod pawb angen y cyfleoedd hyfforddi i sicrhau eu bod yn hyderus i ddysgu'r maes hwn.[551] Dywedodd yr Undeb:

> "We believe it is essential that schools and education professionals have access to high-quality training to ensure that they can deliver the new RVE curriculum. If the funding for this is not made available to schools, they will not be as able to teach an inclusive and developmentally appropriate curriculum, which in turn, could lead to tensions between Local Authorities, education professionals, parents and schools."[552]

**642.** Dadleuodd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol fod angen pecyn helaeth o ddysgu proffesiynol i sicrhau nad yw addysg grefyddol yn cael ei cholli o fewn y dull integredig o ymdrin â'r cwricwlwm.[553] Ategwyd hyn gan gynrychiolwyr Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, a ychwanegodd fod dysgu proffesiynol yn benodol am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bwysig gan y bydd yn bwnc gorfodol, y bydd yn ymdrin â phynciau sensitif, ac y bydd yn rhaid iddo fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol.[554] Rhybuddiodd y Gymdeithas:

> "… I don't think that there's been money provided for it [dysgu proffesiynol ar gyfer addysg grefyddol] or any brief to the providers, or any indication of who those providers will be, to roll this out […] if RE is a mandatory element of the curriculum—the right to withdraw has been removed and the sensitive issues with which we deal—it [dysgu proffesiynol ar gyfer addysg grefyddol] is absolutely needed, and we need to know where that funding is and who is going to deliver the professional learning."[555]

**643.** Cyfeiriodd Humanists UK hefyd at bwysigrwydd dysgu proffesiynol yng ngoleuni'r ffaith nad yw'r Bil yn darparu hawl i dynnu'n ôl:

---

[551] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 291], 24 Medi 2020.

[552] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar 24 Medi 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[553] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 15 Hydref 2020.

[554] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 50 a 79], 15 Hydref 2020.

[555] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 157], 15 Hydref 2020.

> "…our key worry is that the extent of the training necessary to ensure that schools are compliant with that requirement to provide an RVE curriculum that's objective, critical and pluralistic in the absence of the safety valve offered by the right to withdraw has perhaps not been fully appreciated. But we don't think that those barriers are insurmountable. We think it's going to require additional investment, as we've already said, in SACREs and ASCs, as well as in training and development for the schools themselves."[556]

**644.** Aeth Humanists UK ymlaen hefyd i bwysleisio bod y fframwaith arolygu, yn ogystal â dysgu proffesiynol, yn bwysig iawn o ran cyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a sicrhau ei fod yn cael ei ddysgu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â chyfraith hawliau dynol:

> "I just wanted to re-emphasise the critical importance of that [y fframwaith arolygu], that it isn't for denominational bodies who are inspecting themselves teaching critical, objective, pluralistic RVE, since they already think that they do that. We need a neutral assessment of that that isn't just people essentially marking their own homework."[557]

**645.** Dywedodd yr Eglwys yng Nghymru wrthym:

> "…there is a danger, without the much-needed professional learning, that there will be a real problem to balance religious and non-religious world views. There is a risk, therefore, that there could be a very secular approach to the delivery of religious education—not that it needs to be a religious approach, but it could be that religion and religions are sidelined."[558]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**646.** Ni chodwyd dysgu proffesiynol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn benodol yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog, ac ni wnaeth y Gweinidog sylw ar y mater. Fodd bynnag, cydnabu'r Gweinidog bwysigrwydd dysgu proffesiynol yn fwy cyffredinol o ran gweithredu'r Bil, a thrafodir hyn yn fanylach ym mhennod 12.

---

[556] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 235], 15 Hydref 2020.

[557] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 315], 15 Hydref 2020.

[558] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 15 Hydref 2020.

## Ein barn a'n hargymhellion

**647.** Trafodir ein pryderon ynghylch dysgu proffesiynol ac adnoddau yn fwy cyffredinol, yn enwedig effaith y pandemig COVID-19 cyfredol ar yr amser sydd ar gael i'r sector gyflawni'r hyn sy'n angenrheidiol o ran cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus, ym mhennod 12 o'r adroddiad hwn.

**648.** Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni o'r dystiolaeth a gawsom, yn yr un modd ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (a drafodir ym mhennod 6) - na ddylem danamcangyfrif pwysigrwydd digon o addysg gychwynnol i athrawon, dysgu proffesiynol, a datblygiad a hyfforddiant proffesiynol parhaus o ran cyflwyno elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr angen i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei gynllunio a'i ddarparu'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, ac yng ngoleuni'r ffaith nad oes hawl i dynnu'n ôl a fyddai wedi bod yn 'rhwyd ddiogelwch' pe bernid nad oedd ysgol wedi cyrraedd y trothwy hwn.

**Argymhelliad 32.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr perthnasol ac arbenigol yn y sector addysg i ddarparu, yn barod ar gyfer gweithredu'r Bil, fframwaith sy'n amlinellu'r dysgu proffesiynol craidd, yr adnoddau a'r cymorth arbenigol sy'n debygol o fod eu hangen i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol o dan y cwricwlwm newydd.

# 8. Y blynyddoedd cynnar

Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw blynyddoedd cynnar dysgu a datblygu plant. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu o 3 i 16 oed. Mae'r bennod hon yn trafod darpariaeth y Bil ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar hyd at yr oedran ysgol gorfodol (5 oed).

**649.** Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn gymwys o 3 oed mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir[559]. Nid yw'r Bil yn diwygio'r oedran y daw addysg yn orfodol, a fydd yn aros yr un fath, sef 5 oed (dechrau'r tymor ysgol yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed).[560] Yn ymarferol, mae mwyafrif llethol y plant yn dechrau addysg ffurfiol cyn iddynt droi'n 5 oed.

**650.** Ers 2010, y cwricwlwm ar gyfer plant 3-7 oed (hyd at ddiwedd Blwyddyn 2) yng Nghymru yw'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cynnwys saith maes dysgu. O'i gymharu â'i ragflaenydd, Cyfnod Allweddol 1, mae'r Cyfnod Sylfaen yn ddull o ddysgu trwy brofiad "gyda'r busnes difrifol o 'chwarae' yn darparu'r cyfrwng"[561]. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei ddisgrifio fel a ganlyn:

> "Bwriedir iddo annog plant i fod yn greadigol a defnyddio'u dychymyg, a gwneud dysgu'n fwy hwyliog ac effeithiol."[562]

**651.** Disgrifiodd adolygiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Graham Donaldson, a agorodd y ffordd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm presennol, y Cyfnod Sylfaen fel un o'r "pethau gorau" am addysg yng Nghymru a bod iddi "gryfderau gwirioneddol" i adeiladu'r cwricwlwm newydd arno.[563]

**652.** I raddau helaeth felly, mae'r mwyafrif yn cydnabod bod y Cwricwlwm i Gymru wedi cael ei ddatblygu ar sail debyg i egwyddorion ac ethos y Cyfnod Sylfaen.

---

559 Mae'r rhain yn lleoliadau preifat, sy'n derbyn cyllid cyhoeddus i ddarparu darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar i blant rhwng 3 a 5 oed.

560 Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.36.

561 Llywodraeth Cymru, Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, 2015.

562 Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, Geirfa.

563 Yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus: adolygiad annibynnol o'r cwrwlwm a'r trefniadau asesu, 2015.

## Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**653.** Mae gofynion y cwricwlwm ar leoliadau blynyddoedd cynnar[564] yn fwy neu lai yr un fath ag ar gyfer ysgolion, a nodir ym mhennod 4 o'r adroddiad hwn. Rhaid i'r cwricwlwm ar gyfer y ddau gwmpasu'r chwe maes dysgu a phrofiad a phedair elfen orfodol, a datblygu'r tair sgìl trawsgwricwlaidd. Mae'r un gofynion cyffredinol ag sydd ar ysgolion yn berthnasol i leoliadau blynyddoedd cynnar gan fod yn rhaid i'w cwricwlwm:

- fodloni'r pedwar diben;
- cynnig dilyniant priodol;
- bod yn addas ar gyfer oedran, gallu a doniau pob disgybl;
- ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd gan bob disgybl, a
- bod yn eang a chytbwys.

**654.** Fel y trafodwyd ym mhennod 5, mae adran 27 o'r Bil yn galluogi lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir i ddatgymhwyso Saesneg fel elfen orfodol o'r cwricwlwm hyd at 7 oed (hyd at ddiwedd Blwyddyn 2). Gwahaniaeth arall yw er bod yn rhaid i leoliadau ddysgu elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny yn unol ag Atodlen 1 i'r Bil.

**655.** Fel gydag ysgolion, rhaid i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir addysgu'r elfen orfodol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) mewn ffordd sy'n addas ar gyfer cam datblygu plant.

**656.** Y prif wahaniaeth rhwng y darpariaethau yn y Bil ar gyfer ysgolion a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yw y trefniadau o ran sefydlu eu cwricwlwm.

**657.** Er y bydd gofyn i benaethiaid ysgolion gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, mae adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cwricwlwm i'w ddefnyddio mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, gan gydnabod y lefelau gwahanol o adnoddau sydd mewn lleoliadau o'r fath i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Yna, bydd gan leoliadau'r dewis pa un ai i fabwysiadu cwricwlwm Llywodraeth Cymru neu gynllunio a mabwysiadu eu

[564] Mae'r "blynyddoedd cynnar", mewn ystyr addysgol, yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel y cyfnod cyn yr oedran ysgol gorfodol (5 oed).

cwricwlwm eu hunain, ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r gofynion cwricwlwm a nodwyd.

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

### Y dull gweithredu o ran y cwricwlwm a pharhad o'r arfer presennol

**658.** Clywsom dystiolaeth lafar gan gyrff ymbarél sy'n cynrychioli darparwyr blynyddoedd cynnar.[565] Roeddent yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, yr angen am gwricwlwm newydd a deddfwriaeth i'w sefydlu. Fodd bynnag, nid yw'r sector o reidrwydd yn ystyried nad yw'r cwricwlwm presennol i blant ifanc bellach yn addas at y diben (fel y teimlir yn gyffredinol am y cwricwlwm i blant hŷn) oherwydd dull cymharol newydd y Cyfnod Sylfaen, a gyflwynwyd yn 2010.[566]

**659.** Dywedodd Mudiad Meithrin:

> "Yr un peth arall i'w gofio, dwi'n meddwl, yw mai un o werthoedd mwyaf y cyfnod sylfaen oedd y pwyslais roedd yn ei roi ar ddatblygiad plant bach a'r ffaith ei fod e wedi'i ysgrifennu'n benodol. Felly, roedd e mewn ffordd yn rhoi statws arbennig i'r blynyddoedd cynnar yna. Er ein bod ni'n croesawu'r symudiad i'r cwricwlwm newydd, yr unig beth y byddem ni'n frwd i'w gadw ydy'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar fel y lle mwyaf pwysig lle mae datblygiad addysgiadol yn digwydd, i ddechrau'r daith yna. (…)
>
> Rydyn ni mewn sefyllfa gref iawn yn y sector blynyddoedd cynnar, achos rydyn ni wedi bod yn ei wneud e'n barod gydag egwyddorion y cyfnod sylfaen. Ond yn edrych yn ehangach ar y cwricwlwm cyfan, mi fydd y ffordd yma o weithio yn newydd i lawer."[567]

**660.** Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru yn croesawu'r ffaith bod ethos ac arferion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu defnyddio ar gyfer y cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd, ac mae'n falch y bydd hyn yn darparu parhad yn yr ymagwedd at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar.[568] Dywed y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer

[565] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2020.

[566] Tystiolaeth ysgrifenedig, a thystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Medi 2020.

[567] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 135], 17 Medi 2020.

[568] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 19 - Blynyddoedd Cynnar Cymru

Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY) ei bod yn galonogol gweld y bydd addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn sail i'r addysg gyfan.[569]

**Cynllunio a mabwysiadu cwricwlwm blynyddoedd cynnar**

**661.** Croesawodd rhanddeiliaid y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cwricwlwm y gallai lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ddewis ei fabwysiadu. Roeddent yn rhagweld y byddai'r mwyafrif o leoliadau, yn y lle cyntaf o leiaf, yn mabwysiadu cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Dywedodd PACEY, sy'n cynrychioli gwarchodwyr plant yn bennaf, wrthym:

> "…in theory, we wouldn't ever see a child minder going off on their own, potentially, and developing their own curriculum, where one has been developed on a national level that is fit for purpose and meets their needs and has been developed in partnership with the sector. (…)
>
> …it's not to say that that wouldn't be built on over time and maybe added to, to ensure that the context of the setting is sort of covered within that, especially as confidence grows around the delivery of the new curriculum going forward, and they become more familiar with it."[570]

**662.** Cytunodd eraill, er bod lleoliadau'n debygol o fabwysiadu cwricwlwm Llywodraeth Cymru, y gellir addasu ac adeiladu ar hyn dros amser yn unol ag amgylchiadau penodol y lleoliad a'r plant y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu haddysgu.

**663.** Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd y byddent yn rhagweld y bydd mwyafrif y lleoliadau yn mabwysiadu cwricwlwm Llywodraeth Cymru, ond y gallent ychwanegu ato hefyd dros amser,[571] a dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru wrthym:

> "In the first instance, that curriculum framework will be welcomed by the non-maintained settings. It'll certainly be very helpful to those settings that have other time constraints, so those settings that are in multipurpose buildings or that have to create environments and then

[569] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 17 – y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY).

[570] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 248], 17 Medi 2020.

[571] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 17 Medi 2020.

> pack them away at the end of sessions. So, those kind of settings will very much value that support and having that framework in place. (…)
>
> I would imagine, in the first instance, because there'll be an alignment, I assume, to some of the professional learning, that settings will welcome that and will see that as an easy way into the curriculum, and will develop, over time, their own practice and their own responses to the curriculum."[572]

**664.** Dywedodd Mudiad Meithrin:

> "Dwi'n rhagweld y bydd y rhan helaeth o gylchoedd meithrin â diddordeb yn ei fabwysiadu e [cwricwlwm Llywodraeth Cymru], ac yn ei weld e o fudd ac yn help yn eu gwaith nhw i fynd ati i gynllunio, yn hytrach na gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r baich o ddatblygu cwricwlwm penodol eu hunain. Ond, wrth gwrs, mi fydd wastad hyblygrwydd—petasai unrhyw leoliad eisiau gwneud hynny, mi fuasen nhw yn gallu. Ond dwi'n rhagweld y bydd y mwyafrif yn defnyddio'r cwricwlwm newydd yma."[573]

**665.** Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei chwricwlwm ar gael cyn gynted â phosibl. Galwodd PACEY ar Lywodraeth Cymru i rannu'r cwricwlwm yn gynnar i sicrhau digon o amser i'r sector gynllunio, paratoi a threialu'r cwricwlwm newydd cyn iddo gael ei weithredu. Hefyd, galwodd am i sector y blynyddoedd cynnar fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys treialon mewn lleoliadau, fel y gellir casglu adborth.[574] Roedd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd hefyd yn teimlo ei bod yn hanfodol bod y sector hwn wedi cynyddu cyfranogiad yn y broses ddatblygu a'r cyfnod prawf yn symud ymlaen.[575]

---

[572] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 250], 17 Medi 2020.

[573] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 252], 17 Medi 2020.

[574] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 17 – y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY).

[575] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 145 – Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd

## Y cymorth sydd ei angen ar y sector i weithredu'r cwricwlwm newydd

**666.** Tynnodd rhanddeiliaid sylw at ddiffyg cymorth a hyfforddiant cymharol ar gyfer sector y blynyddoedd cynnar nas cynhelir, o'i gymharu ag ysgolion. Dywed Blynyddoedd Cynnar Cymru ei bod yn hanfodol osgoi system dwy haen lle mae bwlch sgiliau cynyddol a bod y sector gofal plant yn teimlo ei fod yn cael ei ddibrisio.[576] Ysgrifennodd Mudiad Meithrin "trwy gydol datblygiad y cwricwlwm i Gymru ni fu ariannu teg ar gael i sicrhau fod lleoliadau ariennir nas cynhelir yn gallu bod yn rhan o'r gwaith datblygu". Er bod y Mudiad yn cydnabod bod "camau arwyddocaol" wedi eu cymryd i geisio gwneud iawn, ei ddadl yw "bod y sector wedi cael eu hanwybyddu i rannau helaeth".[577]

**667.** Tynnodd y sector sylw at y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau cyllido ar gyfer darpariaeth Cyfnod Sylfaen (addysgol) mewn meithrinfeydd nas cynhelir ac ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Cyfeiria at hyn fel rhwystr posibl rhag gweithredu, gan sôn am y pwysau ariannol sy'n wynebu llawer o ddarparwyr blynyddoedd cynnar.

**668.** Tynnodd Mudiad Meithrin sylw at absenoldeb lleoliadau nas cynhelir yn yr amcangyfrifon ariannol a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru:

> "Croesawn fod yma gydnabyddiaeth o'r angen am gymorth yn y dyfodol, ond gresynwn nad wnaed ymgais i gynllunio yn fanwl y gost o greu'r Cwricwlwm a chefnogi'r gwaith cyflwyno a datblygu i leoliadau ariennir nas cynhelir".[578]

## Yr elfennau gorfodol

**669.** Roedd Mudiad Meithrin yn bryderus iawn ynghylch y sefyllfa ddiofyn yn y Bil i'r Saesneg fod yn orfodol, hyd yn oed os yw adran 27 yn galluogi lleoliadau blynyddoedd cynnar i ddatgymhwyso hyn a pharhau i drochi plant yn y Gymraeg.[579] Trafodir hyn ym mhennod 5.

**670.** Croesawodd rhanddeiliaid y blynyddoedd cynnar y darpariaethau yn y Bil ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Dywedon nhw eu bod yn adlewyrchu i raddau helaeth yr arfer presennol yn y blynyddoedd cynnar ac,

---

[576] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 19 – Blynyddoedd Cynnar Cymru.

[577] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 24 – Mudiad Meithrin.

[578] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 24 – Mudiad Meithrin.

[579] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 24 – Mudiad Meithrin; a gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Medi 2020.

eglurodd PACEY ei fod yn ei weld fel rhan o'r broses gyfannol o ddarparu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau nas cynhelir.[580]

**671.** Tynnodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sylw at bwysigrwydd cyfathrebu clir ynghylch natur ddatblygiadol briodol y ffordd y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei haddysgu i blant ifanc:

> "…it's considering that reassuring message to parents that at the stage and age of development of these children it's mostly around personal relationships and building that understanding of the world around them, as opposed to anything that would be more concerning to parents. (…)
>
> … the messaging to parents, to reassure them that this is developmentally appropriate learning and is part of a child's holistic development, … would be a key to making sure that it goes quite smoothly from a Welsh Government perspective at the time of implementation."[581]

**672.** O ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd wrthym y byddai'n debyg i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y Cyfnod Sylfaen.[582] Soniodd Blynyddoedd Cynnar Cymru am berthnasedd y pedwar diben i wthio ymlaen â popeth y mae'r cwricwlwm yn ei gynnig, gan ddweud:

> "…if we get the whole package right, we will be helping young people from three, all the way through their education, to understand what healthy is, to understand what ethically informed is and how to behave in a society that we'd like to build in Wales.[583]

### Asesu a chynnydd

**673.** Nid yw'r Bil ei hun yn cynnwys y trefniadau manwl o ran asesu, a fydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Fodd bynnag, mae dogfennau y Cwricwlwm i Gymru

[580] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 213], 17 Medi 2020.

[581] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 216-217], 17 Medi 2020.

[582] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 229], 17 Medi 2020.

[583] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 236], 17 Medi 2020.

yn nodi'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer camau cynnydd a deilliannau cyflawniad yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.[584]

**674.** Galwodd PACEY am gam cynnydd cynharach o dan y cwricwlwm newydd nag a gynigir ar hyn o bryd:

> "...we've got to recognise the learning and development that happens before the age of five and also potentially look at where a child is on entry to the new curriculum—that's not just on entry to the school maintained curriculum but on entry to the curriculum at any point on that continuum. And that supports, then, the progress and assessment of development and learning. (...)
>
> ...quite often it can be overlooked as in, 'Well, they'll get an assessment and be assessed once they start school', and then there's not as much taken from that journey for the child from getting to that point as a five-year-old."[585]

**675.** Cytunodd Mudiad Meithrin, gan ddweud:

> "Yr unig beth sydd yn peri ychydig o her ar hyn o bryd ydy bod y camau datblygu cyntaf sydd yn cael eu gosod allan yn addas ar gyfer plant pump oed. Felly, yn amlwg, fedrwn ni ddim o'u hasesu nhw yn ddwy, tair oed tuag at sut fyddan nhw pan fyddan nhw'n bump; fyddai hynny ddim yn briodol o gwbl. (...)
>
> Pan ddaw'r cwricwlwm newydd, os bydd yna gamau cynnydd yn cael eu nodi yn hwnnw wedyn, bydd yn fwy addas i blant o bob lefel o oedran babis i fyny. O bosib ar y pwynt yna, mi fydd yna efallai ffyrdd creadigol newydd o gasglu tystiolaeth am eu datblygiad nhw yn gallu cyd-fynd â'r dysgu yna."[586]

**676.** Cyfeiriodd PACEY hefyd at Broffil y Cyfnod Sylfaen fel dull effeithiol o asesu datblygiad plentyn yn gyson yn y blynyddoedd cynnar. Dadleuodd:

---

[584] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022, Ionawr 2020.

[585] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 243], 17 Medi 2020.

[586] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 240-241], 17 Medi 2020.

> "It is important that this consistency is not lost in the new curriculum and an appropriate resource similar to the FPP is developed to support assessments in line with the new curriculum."[587]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**677.** Siaradodd y Gweinidog am ddull tebyg y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm i Gymru:

> "Can I just absolutely reassure you that the ethos and the principles of the current foundation phase curriculum have formed the very starting point for much of the ongoing curriculum development work for learners in early years, and it will form the basis of the curriculum for non-maintained settings."[588]

**678.** Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio yn agos iawn gyda rhanddeiliaid yn sector y blynyddoedd cynnar i sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf yn briodol ar gyfer eu camau datblygu.[589]

**679.** Esboniodd y Gweinidog y rhesymeg dros roi'r dewis i leoliadau blynyddoedd cynnar rhwng cynllunio eu cwricwlwm eu hunain neu fabwysiadu'r cwricwlwm a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru:

> "…we felt, because of the nature of the sector, some of which is run on a voluntary basis, that it was only fair that the Welsh Government also produced a curriculum that could be used if the sector felt that it was too onerous—if a setting felt it was too onerous to develop their own. (…)
>
> …there is a great diversity in the range of the settings that deliver that education—that early education. So, if I think of my own constituency, we have voluntary-led childcare settings that are run by groups of volunteers, with very professional staff, but they simply might not have the capacity or the time to do that, which is different, of course, to a school."[590]

---

587 Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 17 – y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY).

588 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 21 Hydref 2020.

589 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 21 Hydref 2020.

590 Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 125], 14 Gorffennaf 2020

**680.** Pan ofynnwyd iddi am ei hymateb i'r galwadau gan randdeiliaid am gam cynnydd cynharach, cyn 5 oed, dywedodd y Gweinidog, ar ôl cael adborth gan y sector:

> "…we're developing supplementary guidance for practitioners working with three and four-year-old learners in schools and settings, to support their learning to progression step 1 [age 5].
>
> Now, I have to admit, because of the circumstances we do find ourselves in, there has been a slight delay in the development of this work, but progress is being made."[591]

## Ein barn a'n hargymhellion: y blynyddoedd cynnar

**681.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr egwyddorion—a'r dull gweithredu—o ran y cwricwlwm newydd yn adlewyrchu'r Cyfnod Sylfaen presennol, gan adlewyrchu cryfderau darpariaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Credwn fod sector y blynyddoedd cynnar mewn sefyllfa dda i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'i arwain gan ddibenion oherwydd yr elfennau cyffredin gyda'r ethos a'r arfer sefydlwyd eisoes yn y Cyfnod Sylfaen.

**682.** Ar sail y dystiolaeth a gawsom gan sector y blynyddoedd cynnar, rydym yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cwricwlwm lle bydd gan leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yr opsiwn i fabwysiadu'r cwricwlwm yn hytrach na bod pob sefydliad o reidrwydd yn gorfod cynllunio cwricwlwm ei hun.

**683.** Dros amser, gall lleoliadau achub ar y cyfle i addasu templed y cwricwlwm i'w hamgylchiadau eu hunain, wedi'i deilwra i'r plant y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu haddysgu. Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn annog hyn er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr egwyddorion sybsidiaredd a'r dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru.

**684.** Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cwricwlwm blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru ar gael yn gyflym, er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i leoliadau ei weithredu. Roeddent hefyd yn dadlau y dylid ei gynllunio gyda mewnbwn a chyfranogiad y sector.

**Argymhelliad 33.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod cwricwlwm y blynyddoedd cynnar ar gael, er mwyn cynyddu'r amser sydd gan

[591] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 140-141], 21 Hydref 2020.

leoliadau i baratoi ar gyfer ei weithredu. Rhaid i randdeiliaid perthnasol chwarae rhan agos yn y gwaith o'i ddatblygu.

**685.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn seilio ei hamcangyfrif o gostau'r Bil ar wybodaeth a roddwyd gan 16 o "Ysgolion Arloesi" sydd wedi bod yn ymwneud rhywfaint â'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm ac sydd wedi cymhwyso ystod +/- 50 y cant ar yr amcangyfrifon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Rydym yn pryderu nad yw'r fethodoleg hon yn rhoi cyfrif digonol am y goblygiadau ariannol i sector y blynyddoedd cynnar ac rydym yn annog cynnal rhagor o amcangyfrifon mewn perthynas â hyn. Trafodir goblygiadau ariannol y Bil yn ehangach ym mhennod 13.

**Argymhelliad 34.** Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i amcangyfrif goblygiadau cost y Bil ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, a'i bod yn ei ddarparu i'r Senedd i'w chynorthwyo wrth ystyried y Bil.

**686.** Roedd y dystiolaeth a gawsom gan sector y blynyddoedd cynnar yn ategu ein cred y dylai plant a phobl ifanc gael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i'w cam datblygu o oedran cynnar. Rydym yn trafod hyn yn fwy manwl ym mhennod 6, gan gynnwys pwysigrwydd darparu gwybodaeth glir am beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a sut y caiff ei haddysgu i wahanol oedrannau er mwyn tawelu unrhyw bryderon a allai fod gan rieni neu eraill.

**687.** Roedd tystiolaeth rhanddeiliaid hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o oedran ifanc a pha mor ganolog ydyw i'r pedwar diben sy'n llywio'r Cwricwlwm cyfan i Gymru. Rydym yn trafod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym mhennod 7.

**688.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau atodol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar, i gefnogi dysgu plant i gam cynnydd 1 yn 5 oed. Credwn y dylid asesu cynnydd plant o ran eu datblygiad a'u dysgu cyn yr oedran ysgol gorfodol (5 oed) yn ddigonol ac yn gyson er mwyn llywio'r addysg a'r gofal a gânt, ond nodwn yr angen i osgoi rhoi unrhyw blant nad ydynt yn mynychu lleoliadau cyn yr oedran ysgol gorfodol dan anfantais.

**Argymhelliad 35.** Bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflym gyda'i gwaith i ddatblygu canllawiau atodol i gefnogi dilyniant ac asesiad plant cyn 5 oed ac yn ystyried angen—a phwrpas—cael cam cynnydd cynharach na 5 oed ar ei chontinwwm dysgu arfaethedig.

# 9. Ôl-16

## Mae'r bennod hon yn trafod y ddarpariaeth gyfyngedig mae'r Bil yn ei gwneud mewn perthynas ag addysg ôl-orfodol.

**689.** Nid yw'r Bil yn diwygio'r oedran pan fydd addysg yn peidio â bod yn orfodol, a fydd yn parhau i fod yn 16 oed (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd pan ddaw disgybl yn 16 oed).[592]

**690.** Er bod y Bil yn canolbwyntio'n bennaf ar oedrannau 3-16, sef yr ystod oedran ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, mae hefyd yn gwneud darpariaeth gyfyngedig ynghylch y cwricwlwm ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol (chweched dosbarth mewn ysgol).

**691.** Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach.

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**692.** Mae adran 61 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer disgyblion uwchlaw oedran ysgol gorfodol yn "gwricwlwm cytbwys ac eang":

- sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion a'r gymdeithas, ac
- sy'n paratoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd yn ddiweddarach.

**693.** Ar hyn o bryd mae addysg grefyddol yn orfodol i ddisgyblion chweched dosbarth yn yr ysgol. O dan y Bil, ni fydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i ddisgyblion chweched dosbarth ysgolion, er y bydd yn rhaid ei ddarparu i'r rhai sy'n gofyn am y ddarpariaeth honno. Pan fydd disgybl chweched dosbarth yn gofyn am addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, rhaid i ysgol ei darparu yn unol ag adran 62 o'r Bil. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

[592] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.36

- adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol ym Mhrydain Fawr, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr, ac
- adlewyrchu hefyd y ffaith y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym Mhrydain Fawr.

**694.** Yn yr un modd â phlant o dan oedran ysgol gorfodol, nid oes angen i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir i ddisgyblion chweched dosbarth gydymffurfio ag Atodlen 1 i'r Bil.

**695.** Nid oes unrhyw ofyniad cyfatebol ar ysgolion i ddysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i fyfyrwyr chweched dosbarth sy'n gofyn am y ddarpariaeth honno. Ar hyn o bryd nid yw addysg rhyw nac addysg bersonol a chymdeithasol (y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ei disodli) yn orfodol i ddisgyblion chweched dosbarth, yn wahanol i addysg grefyddol.

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

**Goblygiadau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol**

**696.** Mae Colegau Cymru, sy'n cynrychioli sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, yn croesawu'r Bil ac o'r farn a ganlyn:

> "The principles have the potential to deliver independent learners who are capable of adapting to the challenges of post-16 study."[593]

**697.** Fodd bynnag, roedd Colegau Cymru yn teimlo'n gryf bod angen deall y Bil yn ei gyd-destun ehangach. Er ei fod yn cydnabod bod y Bil yn canolbwyntio ar y cwricwlwm oedran ysgol gorfodol, dywedodd y gallai canlyniadau anfwriadol fod i'r system addysg ôl-16:

> "Learners will have learnt in different ways, via areas of learning and experience, and the impact this has on their post-16 education needs to be considered. Discussions with Welsh Government officials are ongoing but serious attention needs to be given to ensuring that learners do not experience a sharp difference between pre and post-16 education. This means training post-16 sector tutors in the pedagogical approach but also other staff, such as careers advisors."[594]

[593] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 48 - Colegau Cymru.

[594] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 48 - Colegau Cymru.

**698.** Tynnodd Colegau Cymru sylw hefyd at oblygiadau i sefydliadau addysg bellach wrth ganolbwyntio'n gynyddol ar ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion drwy un continwwm 3-16 oed, os yw hyn yn mynd i fod yn wir hefyd o ran darpariaeth Gymraeg gynyddol ar ôl 16 oed. Cyfeirir at hyn ym mhennod 5. Tynnodd sylw at gymwysterau hefyd, a drafodir ym mhennod 11.

**699.** Galwodd swyddog arweiniol ôl-16 a ymatebodd i'n hymgynghoriad am estyn y Cwricwlwm i Gymru i 18 oed. Dadleuodd y byddai hyn yn rhoi mwy o barhad i bobl ifanc, yn hytrach na'i fod yn dod i ben ar ddiwedd addysg orfodol, sydd ar hyn o bryd yn 16 oed:

> "It is a pity that Welsh Government has not taken advantage of this new legislation to look at compulsory components of the curriculum from 3 to 18. I believe that the principles, values and skills envisaged in the Bill for 3-16 year-olds are equally applicable to learners up to 18. (…)
>
> …the Bill represents a missed opportunity to embed the principles, values and aspiration of the new curriculum into 16-18 education."[595]

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

**700.** Yn gyffredinol, mae ymatebwyr a fynegodd gefnogaeth i'r darpariaethau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Bil yn galw am ddarparu'r addysg honno lle mae disgyblion chweched dosbarth yn gwneud cais am y ddarpariaeth honno, fel sy'n wir am addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nodwyd mewn cyflwyniad ar y cyd gan y Grŵp Gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

> "We are concerned that there is no similar provision [i'r un ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg] for teaching and learning in Relationships and Sexuality Education for pupils in post-compulsory education. This is a critical time in young people's learning and experience."[596]

**701.** Cyfeiriodd y Grŵp Gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd at ymchwil a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caerdydd, a nododd fod tua hanner y

[595] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 101 - John Fabes, swyddog arweiniol Ôl-16.

[596] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 85 - Grŵp Gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

gwrywod a benywod mewn sampl o fyfyrwyr 16-19 oed yng Nghymru a Lloegr wedi profi rhyw fath o drais ar ddêt ac mewn perthynas.[597]

**702.** Amlygodd Stonewall Cymru y gwahaniaeth yn agwedd y Bil tuag at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan nodi nad yw'n eglur pam mae hyn yn wir.[598] Roedd NSPCC Cymru yn poeni nad oes unrhyw ymrwymiad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer dysgwyr ôl-16 gan mai dyna'r oedran mwyaf tebygol (rhwng 16 a 19 oed) i bobl ifanc wynebu camdriniaeth yn eu perthynas ag eraill.[599]

**703.** Roedd Cymorth i Fenywod Cymru hefyd yn siomedig iawn, gan dynnu sylw at y ffaith bod y grŵp oedran rhwng 16 a 24 oed yn cyfrif am oddeutu chwarter y rhai sy'n cyrchu gwasanaethau lloches a thrais rhywiol, gan hefyd dynnu sylw at y risg benodol i bobl ifanc 16-19 oed o briodas dan orfod.[600]

**704.** Dywedodd cynrychiolydd Cymorth i Fenywod Cymru wrthym hefyd ei bod yn ymddangos bod peidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y tu hwnt i 16 oed yn mynd yn groes i ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod:

> "The Welsh Government have also campaigned, targeting young people last year with their campaign 'This is not OK', which is around sexual violence, and it seems to not align to not then provide robust education for this age group that would align with that kind of campaign. If you're campaigning for young people to understand what consent it, then it makes sense to also provide them with robust education that backs that up and really embeds it. Similarly, they've also produced guidance under the VAWDASV legislation from the Higher Education Funding Council for Wales which covers further education—again, if we're asking our institutions to act on their duties to prevent violence against women and to protect and support survivors, then this has to align with that quality of RSE for young people up until the point that they leave education. This doesn't stop at

[597] Journal of Public Health, Cyfrol 40, Rhifyn 4, Tudalennau 738–746, Dating and relationship violence among 16–19 year olds in England and Wales: a cross-sectional study of victimization, Rhagfyr 2018.

[598] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 62 - Stonewall Cymru.

[599] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 60 - NSPCC Cymru.

[600] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 51 - Cymorth i Fenywod Cymru.

> 16—they need to learn it all the way through the education system and beyond."[601]

**705.** Ychwanegodd Brook, elusen iechyd a llesiant rhywiol sy'n gweithio gyda phobl ifanc:

> "…we're really disappointed that it won't go beyond the age of 16. We wholeheartedly believe that it needs to. As young people are getting older, their experiences are going to become more varied, the relevance of it is really paramount. Also, we did some research with first-year university students around the issue of consent and sexual harassment and sexual crime and violence. And, honestly, the results … they're stark. It's stark learning. So, it's just showing that, actually, it does need to be taught."[602]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**706.** Canolbwyntiodd adolygiad yr Athro Graham Donaldson o drefniadau cwricwlwm ac asesu ar oedrannau 3-16, o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, fel y'u gelwir ar hyn o bryd. Yn hynny o beth, nid yw'r Bil a'r gwaith ehangach i ddiwygio'r cwricwlwm y mae'n rhoi effaith gyfreithiol iddo yn mynd y tu hwnt i ddiwedd addysg orfodol.

**707.** Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio deddfwriaeth ar wahân ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Daeth ei ymgynghoriad ar y Bil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) i ben ar 4 Rhagfyr 2020.[603]

**708.** Gellir crynhoi rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ddull y Bil mewn perthynas ag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn chweched dosbarth mewn ysgolion fel a ganlyn:

- Yn achos Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae addysg grefyddol yn orfodol ar hyn o bryd mewn chweched dosbarth ond dim ond ar gais y caiff ei darparu mewn colegau, felly mae'r Bil yn cysoni'r naill â'r llall.
- Yn achos Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gellir ymdrin â'r materion hyn a materion iechyd a llesiant eraill o dan ddyletswydd gofal

[601] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 248], 8 Hydref 2020.

[602] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 250], 8 Hydref 2020.

[603] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil drafft, 14 Gorffennaf - 4 Rhagfyr 2020.

ehangach ysgolion a chyfrifoldebau bugeiliol tuag at ddisgyblion chweched dosbarth. Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a fydd yn darparu arweiniad ar ddarpariaeth 3 i 16 oed, i lywio sut maent yn gwneud hyn.

**709.** Dywedodd y Gweinidog wrthym mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

> "…first of all, the proposed changes bring consistency between school sixth forms and further education colleges. (…)
>
> We are aware that some school sixth forms struggle to comply with the obligation that is currently placed upon them.
>
> Of course, there is nothing to prevent a school sixth form from providing RVE to all of its learners if the school elects to do so. Obviously, this Bill is for learners up to the age of 16, as such, and the change also brings RVE in line with the wider curriculum requirements, as with the foundation phase. I believe that that approach is consistent with the principle that learners post-16 are sufficiently mature to be able to make decisions that relate to their own learning."[604]

**710.** Dywedodd y Gweinidog wrthym mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

> "RSE is not compulsory for post-16 learners, and the intention is that post-16 providers will use the RSE guidance to support post-16 learners in RSE and other health and well-being matters as part of their wider duty of care and pastoral issues that they would usually provide."[605]

**711.** Pan gynigiwyd y farn i'r Gweinidog ei bod yn bwysig bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a addysgir yn gynharach yn cael ei chydgrynhoi y tu hwnt i 16 oed (yn enwedig o ystyried tystiolaeth rhanddeiliaid mai 16-19 oed yw'r oedrannau mwyaf cyffredin i bobl ifanc wynebu camdriniaeth mewn perthynas), atebodd y Gweinidog:

> "Hopefully, by the time that young people are 16 and 19, and may be experiencing abuse in their relationships, they will have had access to a

[604] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 130 - 131], 14 Gorffennaf 2020.

[605] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 14 Gorffennaf 2020.

> curriculum that allows them to respond appropriately to that. The intention is that post-16 providers will use the RSE guidance to support post-16 learners in a wider context that they have around a duty of care and pastoral duties. So, we wouldn't expect that that was an end to any RSE education that children received, but they would take that guidance as a basis on how to support learners post 16."[606]

## Ein barn a'n hargymhellion: ôl-16

**712.** Nodwn farn Colegau Cymru, er nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer sefydliadau addysg bellach, y bydd effaith ar y sector yn sgil dull sylweddol wahanol y cwricwlwm 3-16 oed.

**713.** Credwn, ar yr amod bod y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, y dylai'r effaith hon fod yn gadarnhaol—bydd pobl ifanc yn dechrau addysg bellach yn fwy parod, ac wedi eu paratoi'n well, i ymgymryd â'r heriau a gwireddu'r cyfleoedd a ddaw yng nghamau nesaf eu bywydau.

**714.** Fodd bynnag, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol iawn o unrhyw ganlyniad anfwriadol y gallai'r Bil, a'r gweddnewidiad o ran addysg 3-16 yn sgil hynny, ei gael ar y sector ôl-16. Mae angen canolbwyntio'n benodol ar gynorthwyo dysgwyr i wneud y broses o symud rhwng ysgolion ac addysg a hyfforddiant ôl-16 yn un effeithiol a di-dor.

> **Argymhelliad 36.** Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni dull newydd y Cwricwlwm i Gymru, yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod y broses o symud dysgwyr rhwng addysg 3-16 oed ac addysg a hyfforddiant ôl-16 mor effeithiol a di-dor â phosibl. Mae angen ystyried hyn o safbwynt y Bil hwn ac unrhyw ddiwygiad i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn y dyfodol.

**715.** Nid ydym yn deall pam mae'r Bil yn gwneud darpariaeth wahanol o ran darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y chweched dosbarth mewn ysgolion. Os yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael ar gais dysgwr, credwn y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod ar gael yn yr un modd. Rydym yn cydnabod bod y Bil yn sicrhau bod chweched dosbarth ysgolion a cholegau yn gyson o ran y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond credwn fod hyn yn creu anghysondeb rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y chweched dosbarth.

---

[606] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 88], 21 Hydref 2020.

**716.** Roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod 16-19 oed yn gyfnod hanfodol o ran ffurfio perthynas ag eraill. Dywedwyd wrthym mai dyma'r amser yn aml pan fydd pobl ifanc yn y perygl mwyaf o fod mewn perthynas dreisgar. Er ein bod yn cydnabod y dylai darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel yn gynharach ym mywyd plentyn neu unigolyn ifanc eu harfogi'n well i wybod beth yw camdriniaeth, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol bod yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mae disgyblion yn ei derbyn hyd at 16 oed yn cael ei chydgrynhoi yn y chweched dosbarth. Yn ein barn ni, byddai modd cyflawni hyn yn well drwy argaeledd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn hytrach na dibynnu ar gyfrifoldebau bugeiliol chweched dosbarth. O ystyried natur anorfodol addysg ôl-16, nid ydym o reidrwydd o'r farn y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn orfodol, ond dylai myfyrwyr allu ei derbyn pan fyddant yn gwneud cais am y ddarpariaeth honno, fel sy'n wir am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**Argymhelliad 37.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddisgyblion chweched dosbarth sy'n gwneud cais am y ddarpariaeth honno.

# 10. Gofynion ac eithriadau penodol i'r cwricwlwm (gan gynnwys addysg heblaw yn yr ysgol), a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau

Mae'r Bil yn sefydlu gwahanol drefniadau ar gyfer y cwricwlwm mewn lleoliadau Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol (EOTAS) o gymharu ag ysgolion prif ffrwd. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gwneud eithriadau i ofynion y cwricwlwm mewn rhai amgylchiadau ac i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 gael elfen o ddewis dros yr hyn y maent yn ei astudio, fel yw'r achos ar hyn o bryd. Mae'r Bil yn cyfeirio sawl gwaith at addysg disgyblion ag anghenion dysgu chwanegol, sy'n cyfrif am un o bob pump o boblogaeth yr ysgol.

**717.** Fel yr amlinellwyd ym mhennod 4 ynglŷn â'r manylion sydd ar wyneb y Bil, bydd fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- pedwar diben;
- chwe maes dysgu a phrofiad;
- tri sgìl trawsgwricwlaidd; a
- pedair elfen orfodol Saesneg a Chymraeg; Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; a Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (gweler penodau 5, 6 a 7 am drafodaeth bellach ar y rhain).

**718.** Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Cod yr Hyn sy'n Bwysig sy'n nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad, ynghyd â chanllaw statudol ar sut y dylid addysgu'r cwricwlwm. Hefyd, bydd Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Fframwaith Ategol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a Chod Cynnydd sy'n nodi sut y dylai plant a phobl ifanc symud ymlaen ar hyd un continwwm dysgu.

**719.** Mae adrannau 21 i 23 o'r Bil yn gosod gofynion cyffredinol sy'n golygu bod rhaid i gwricwla ysgolion:

- ddarparu ar gyfer cynnydd priodol;
- bod yn addas i ddisgyblion, neu blant, o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol; a
- bod yn eang ac yn gytbwys.

**720.** Mae adran 30 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid hefyd gweithredu cwricwla ysgolion mewn ffordd sy'n ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl (os oes rhai). Mae adran 37 yn gwneud yr un peth mewn perthynas â lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir.

**721.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhai eithriadau i'r darpariaethau hyn yn ogystal â gofynion penodol eraill. Mae'r bennod hon yn trafod y rhain a sut maen nhw'n effeithio ar grwpiau penodol o ddisgyblion.

## Addysg heblaw yn yr ysgol

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**722.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn nodi gofynion y cwricwlwm ar gyfer addysg a ddarperir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rhan honno'n cyfeirio at Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), sydd – mewn bron i hanner yr achosion – yn cael ei darparu mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae lleoliadau EOTAS eraill yn cynnwys sefydliadau addysg bellach, ysbytai, darparwyr annibynnol, ysgolion annibynnol ac addysg yn y cartref.

**723.** Darperir EOTAS i blant o oedran ysgol gorfodol nad yw addysg mewn ysgol brif ffrwd yn briodol iddynt o bosibl, am lawer o wahanol resymau.[607] Yn 2018/19, roedd 2,286 o ddisgyblion yng Nghymru yn cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol. Cafodd 1,784 o'r 2,286 o ddisgyblion eu holl addysg, neu'r mwyafrif o'u haddysg, mewn lleoliad EOTAS. Mae hyn yn cyfateb i 3.8 o bob 1,000 o ddisgyblion, sy'n cymharu â 2.6 fesul 1,000 yn 2013/14.[608]

---

[607] Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin yw lle mae disgyblion wedi'u gwahardd o'r ysgol yn barhaol neu mewn perygl o gael eu gwahardd, ac roedd y rhesymau eraill yn cynnwys salwch a ffactorau meddygol eraill. Nid yw'r term Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn gymwys i ddisgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, sef pan fo rhieni'n penderfynu addysgu eu plentyn gartref yn hytrach nag yn yr ysgol.

[608] Llywodraeth Cymru, Ystadegau ac Ymchwil, Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2018 i Awst 2019, Awst 2019.

**724.** Mae adran 52 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm a ddarperir mewn unedau cyfeirio disgyblion, fel yn achos disgyblion mewn ysgolion yn gyffredinol (adrannau 20-23), wneud y canlynol:

- galluogi disgyblion i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
- darparu ar gyfer cynnydd priodol i ddisgyblion;
- bod yn addas i ddisgyblion o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol; a
- bod yn eang ac yn gytbwys, i'r graddau y maen briodol i ddisgyblion mewn unedau cyfeirio.

**725.** Yn ogystal, fel yn achos ysgolion, mae'n ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion weithredu'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n ystyried unrhyw ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

**726.** Y prif wahaniaeth rhwng gofynion y cwricwlwm mewn unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion a gynhelir yw faint o'r cwricwlwm y mae'n rhaid ei ddarparu:

- Yn hytrach nag addysgu pob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad, mae'r Bil dim ond yn ei gwneud yn ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion gwmpasu un maes dysgu a phrofiad, sef Iechyd a Lles, o fewn eu cwricwlwm.
- Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion ddysgu un o'r pedair elfen orfodol, sef Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Nid oes ond disgwyl i unedau cyfeirio disgyblion addysgu un o'r pum maes dysgu a phrofiad arall, a'r tair elfen orfodol arall "os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny".

**727.** Yn yr un modd ag ysgolion, rhaid i gwricwla unedau cyfeirio disgyblion ddatblygu tri sgìl trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

**728.** Mae'r Bil yn gosod y ddyletswydd i weithredu'r cwricwlwm sy'n ofynnol mewn unedau cyfeirio disgyblion ar yr awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb. Mae'r ddyletswydd i weithredu'r cwricwlwm fel sy'n ofynnol yn cael ei rhoi i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr uned cyfeirio disgyblion.

**729.** Mae trefniadau'r cwricwlwm ar gyfer darpariaethau EOTAS eraill fwy neu lai yr un fath â'r trefniadau ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion. Fodd bynnag, dim ond i'r awdurdod lleol y rhoddir y dyletswyddau i sefydlu'r cwricwlwm gofynnol a'i weithredu yn y ffordd ofynnol.

**730.** Drwy bŵer i wneud rheoliadau o dan adran 58 o'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i drefniadau asesu mewn lleoliadau EOTAS:

- asesu'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a phlant mewn perthynas â'r cwricwlwm a luniwyd ar gyfer y dysgwr hwnnw; ac
- ystyried y camau nesaf yn eu cynnydd a'r addysgu a'r dysgu y mae ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.[609]

**731.** Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, athrawon sydd â chyfrifoldeb am unedau cyfeirio disgyblion a phwyllgorau rheoli unedau o'r fath roi sylw i ganllawiau, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â sut y maent yn arfer eu swyddogaethau o dan y Bil. Bydd y canllawiau hyn yn ychwanegol at ddogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Yn ôl Llywodraeth Cymru, er y gallai'r hyn sydd eisoes wedi'i gyhoeddi gael ei ddefnyddio fel "man cychwyn":

> "…bydd canllaw pellach a manylach yn cael ei gyhoeddi yn 2021 ar gyfer y lleoliadau hyn er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau."[610]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**732.** Teimlai Estyn fod darpariaethau'r Bil ar gyfer lleoliadau EOTAS yn "briodol" ac yn "adlewyrchu'r arferion presennol":

> "Pupil referral units aren't necessarily set up to be able to deliver the whole curriculum; it's not necessarily what's best for the children to enable them to go back into mainstream schooling as quickly as possible. I think the flexibility that this gives PRUs and other EOTAS settings is striking the right balance.(…)
>
> …where it's reasonable and appropriate the other areas of learning and experience should be covered, and it puts a requirement on the teacher in charge to design that broad and balanced curriculum. But

[609] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.95.

[610] Llywodraeth Cymru, Hwb, Cwricwlwm i Gymru 2022, (tudalennau 5 a 7), Ionawr 2019.

> we hope that these expectations are clear that children in EOTAS and PRUs, we expect them to make progress and we expect their aspirations to be raised. So, there is a responsibility on the teachers in charge to take those requirements and to make sure that the curriculum is broad and balanced."[611]

**733.** Roedd Estyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd nodau uchelgeisiol i blant mewn unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau EOTAS eraill:

> "We're very clear in our remit and the way we inspect in these settings that we expect the children to be making progress. They find themselves in these settings because, very often, they've become disengaged with the normal curriculum in other schools. So, often, these schools will start by building the confidence of these children, looking at their well-being and developing resilience, but we still have high aspirations for the learners."[612]

**734.** Fel y dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau wrthym, mae'r Bil yn sicrhau gwarant o lefel benodol o gwricwlwm i'w addysgu i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol  gyda'r posibilrwydd o gynnig agweddau eraill lle bo hynny'n briodol:

> "I think it's emphasising, first of all, the health and well-being as, if you like, the one main entitlement, but it doesn't preclude any EOTAS setting from actually delivering the rest. But, some of the settings would find it very difficult to deliver the full range of experiences that would be offered within a mainstream sector. So, I think it does give flexibility to the PRUs, for example, as one of the settings, but it also allows for others to be covered where appropriate.
>
> You would still expect children, obviously, to make progress within their learning. That continuum is still there and other elements of the framework are still there. You would still expect the skills to be taught in terms of literacy, numeracy and digital competency and so forth. And you would expect, if you like, for many of the children who are

[611] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 100-101], 17 Medi 2020.

[612] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 103], 17 Medi 2020.

> within those settings, for them, the health and well-being element would be the most significant and relevant to their needs."[613]

**735.** Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, gan ychwanegu bod yn rhaid i'r cwricwlwm allu diwallu anghenion ac amgylchiadau ehangach dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:

> "…the requirements that are set out in the Bill specifically around PRUs, for example, must be broad enough to take into account the wide range of abilities of learners, which we think they are—you know, include the need to fulfil the four purposes, but also allow arrangements to be bespoke enough to work in line with any statements or individual developmental plans, for example."[614]

**736.** Yn ei dystiolaeth lafar, pwysleisiodd CLlLC mor bwysig ydyw bod gan bob plentyn mewn lleoliadau EOTAS gwricwlwm wedi'i deilwra'n bersonol, yn ôl anghenion a gallu'r plentyn i ddatblygu:

> "…for these students, mainstream education isn't working for them, so it's about finding out what does work for them and building on that, so that they can access the curriculum, as much of the curriculum as they can, but it will be different to those in mainstream schools."[615]

**737.** Dywedodd y Comisiynydd Plant nad yw'n "gwrthwynebu dull hyblyg o ymdrin â dysgwyr mewn darpariaeth EOTAS, gan y gallai hynny'n aml fod er lles pennaf y plentyn unigol". Fodd bynnag, yn nhyb y Comisiynydd, yn absenoldeb dyletswydd gyffredinol i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, bydd angen "adolygu adrannau 52-57 o'r Bil yn sylweddol", sy'n cynnwys darpariaethau EOTAS.[616] Trafodir p'un a ddylai'r Bil gynnwys dyletswydd ar bersonau perthnasol sy'n arfer swyddogaethau i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhennod 4.

**738.** Yn ôl y Comisiynydd Plant:

---

[613] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 116-117], 24 Medi 2020.

[614] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 24 Medi 2020.

[615] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 117 a 121], 20 Gorffennaf 2020.

[616] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

> "Byddai dyletswydd sylw dyledus yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried pan gynigir hawliau'r cwricwlwm yn rhannol yn unig i blant mewn lleoliadau EOTAS, a byddai'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r penderfyniad yma. (…)
>
> …rwy'n teimlo'n gryf bod angen mwy o fesurau diogelu nag sydd yn y Bil ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod penderfyniad yr awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli, neu'r athro sydd â gofal am UCD yn cael ei lywio gan hawliau'r plentyn a chyfranogiad y plentyn."[617]

**739.** I'r Comisiynydd Plant, mae hon yn "enghraifft glir iawn" o sut mae "honiad" Llywodraeth Cymru ei bod yn ddiangen gosod dyletswydd i roi sylw dyladwy i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn oherwydd y dyletswyddau deddfwriaethol presennol ar Weinidogion Cymru "yn gamgymeriad llwyr". Dywed nad Llywodraeth Cymru sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â phlant unigol, ond yn hytrach ymarferwyr ar lawr gwlad.[618]

**740.** Cafwyd sawl ymateb i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys nifer o sylwadau ar y cwricwlwm sydd i'w ddarparu mewn lleoliadau EOTAS. Dywedodd Parents Voice in Wales:

> "No child should suffer a deficit in their education because they are not suited to a populated environment with peers. We must ensure that legislation supports all learners in every environment."[619]

**741.** Mae'r Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (2) yn datgan mor bwysig yw cysylltiad clir rhwng yr unedau cyfeirio disgyblion ac addysg brif ffrwd:

> "This approach could provide opportunities for pupils to benefit from moving into and out of both provisions on a needs led basis as part of a blended access to learning. This will require joint planning and coordination of resources and could over time support the needs of children young people and their families in a more flexible way and maximise capacity within the system as a whole."[620]

---

[617] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

[618] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 97 – Comisiynydd Plant Cymru.

[619] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 4 - Parents Voice in Wales.

[620] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 88 - Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (2).

**742.** Roedd Cyngor Gwynedd yn cytuno â'r ffocws ar Iechyd a Lles, ond roedd yn dadlau y dylai'r cwricwlwm gael ei deilwra i anghenion unigol pob dysgwr a natur y lleoliad EOTAS y mae'n ei fynychu a'r amcanion sy'n sail i hynny. Roedd y Cyngor yn credu nad yw'r Bil "yn y cyd-destun yma'n ddigon eglur a phenodol ar hyn o bryd".[621]

**743.** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn galw am well dealltwriaeth o'r ffordd anghymesur y gwaherddir rhai grwpiau o ddisgyblion, gan ystyried pam y gwnaethant droi at leoliadau EOTAS yn y lle cyntaf. Yn ôl y Comisiwn, rhaid deall hyn i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cefnogi pob disgybl gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau EOTAS.[622]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**744.** Fel hyn yr esboniodd y Gweinidog agwedd Llywodraeth Cymru tuag at y cwricwlwm mewn lleoliadau EOTAS:

> "What we're trying to do here in the Bill is to state very clearly our expectations around entitlement for children who would find themselves in EOTAS, recognising that those children may have a range of needs, and in crafting a curriculum for them, that should really be at the forefront of a commissioner and of a provider's mind. (…)
>
> Through the Bill, we're also putting in place a clear framework for learners to ensure that that needs to be as broad as possible…"[623]

**745.** Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd bwysigrwydd y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles mewn lleoliadau EOTAS:

> "…given the specific challenges facing learners often in these settings, health and well-being has to be a must. It absolutely has to be a must for them."[624]

**746.** Ychwanegodd swyddog y Gweinidog fod y dull hyblyg yn ymwneud i raddau helaeth â darparu'r hyn sy'n briodol i'r dysgwr:

[621] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 91 - Cyngor Gwynedd.

[622] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[623] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 82 ac 84], 14 Gorffennaf 2020.

[624] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 14 Gorffennaf 2020.

> "…we felt if we were putting a longer list of must-do requirements, that wouldn't necessarily be suitable for some of the learners in those settings. But the emphasis is on, where it's possible, that as much of the curriculum requirements should be provided, but recognising that it won't necessarily be appropriate for all of it to be provided. So, I think we tried to get that balance, I guess, as right as we can… (…)
>
> …it puts quite a different emphasis now on the commissioner in making sure that, when they're commissioning, they're providing a much more rounded education experience for those learners, whatever the nature of the provision they receive."[625]

**747.** Soniodd y Gweinidog hefyd am sut y mae'r Bil yn amcanu i alluogi unedau cyfeirio disgyblion i gefnogi disgyblion sy'n newid rhwng unedau cyfeirio ac ysgolion prif ffrwd, gan ddarparu hefyd ar gyfer plant sydd yno dros y tymor hir:

> "…if we look at some of the pupil referral units that have recently been deemed 'excellent' by Estyn, the ability for children to move seamlessly, maybe, into PRU provision, back out of PRU provision into mainstream, or spending some time in both, is best practice, and we don't want to do anything in those settings that would make it more difficult for children to move into mainstream if that is what's suitable for them, but ensuring, for those children for whom perhaps education in mainstream is never going to be suitable for them, that there is a higher level of expectation around what is delivered for those children."[626]

## Ein barn a'n hargymhellion: EOTAS

**748.** Mae darpariaeth lleoliadau EOTAS yn fater o ddiddordeb sylweddol i ni fel Pwyllgor, ac yn un yr ydym wedi cynnal ymchwiliad llawn a manwl iddo yn ddiweddar.[627] Gohiriwyd ein hadroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw oherwydd pandemig COVID-19, ond ein bwriad yw ei gyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, mae ein hystyriaeth o'r Bil hwn—a'n barn a'n hargymhellion—wedi cael eu llywio gan y gwaith hwnnw.

---

[625] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 85], 14 Gorffennaf 2020.

[626] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 14 Gorffennaf 2020.

[627] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

**749.** Rydym yn croesawu dull y Bil ar gyfer y cwricwlwm mewn lleoliadau EOTAS. Er ei bod yn bwysig bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol yn derbyn addysg mor llawn â phosibl, rydym yn credu bod y gofynion ar unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau EOTAS eraill yn gymesur ac yn realistig.

**750.** Rydym yn cytuno bod Iechyd a Lles yn "hanfodol" i ddysgwyr EOTAS, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr un modd. Fel yr ydym wedi ei egluro yn yr adroddiad hwn ac mewn adroddiadau eraill, rydym yn credu bod iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn gwbl hanfodol i lesiant a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae nifer o ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol yn agored i niwed ac yn byw mewn amgylchiadau difreintiedig, felly mae'r agweddau hyn ar y cwricwlwm yn arbennig o bwysig iddynt. Maent hefyd yn hanfodol i'w rhagolygon o ailintegreiddio'n llwyddiannus i ysgol brif ffrwd, tra bod y tri sgìl trawsgwricwlaidd yn rhan annatod o'u cynnydd yn y dyfodol.

**751.** Fodd bynnag, er ein bod yn cefnogi dull cymesur y Bil, rydym am fod yn gwbl glir bod yn rhaid bod dyheadau a disgwyliadau uchel ar gyfer darpariaeth EOTAS. Ni ddylid byth diystyru plant a phobl ifanc, ac ni ddylid dilyn dull finimalaidd ychwaith o ran yr hyn y gallant ei ddysgu. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau diogelu fel na welir y canlyniad anfwriadol posibl hwn, ac rydym yn croesawu'r gofyniad i'r meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau gorfodol eraill gael eu dysgu os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny. Rydym yn credu y bydd y canllawiau statudol sydd wedi'u hanelu'n benodol at leoliadau EOTAS yn hanfodol yn hyn o beth.

**Argymhelliad 38.** Bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod y cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol o ran addysg a chyfleoedd bywyd dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS.

**752.** Soniodd rhywfaint o'r dystiolaeth a gawsom am y cysylltiad rhwng EOTAS ac anghenion dysgu ychwanegol. Yn seiliedig ar ddata dros y pum mlynedd diwethaf, mae gan rhwng 86 ac 88 y cant o ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol (neu anghenion addysgol arbennig (AAA) fel

y'u gelwir yn ffurfiol o hyd).[628] Mae hyn yn cymharu â thua 21 y cant o'r holl ddisgyblion.[629]

**753.** Rydym yn trafod effaith y Bil ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddiweddarach yn y bennod hon. Fodd bynnag, yng nghyd-destun EOTAS, rydym am bwysleisio pwysigrwydd y cwricwlwm newydd o ran galluogi dull wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr yn y lleoliadau hyn. I lawer o ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, bydd hyn yn gofyn am sylw i'w hanghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth sydd ei hangen yn sgil hyn, ond i eraill bydd angen ystyried anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, neu ffactorau meddygol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth benderfynu pa rai o agweddau gorfodol y Cwricwlwm i Gymru a ddarperir i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, a'r graddau y'u darperir.

**Argymhelliad 39.** Bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod gan y cwricwlwm newydd ddull wedi'i deilwra i unigolion o ran y cwricwlwm a ddarperir i ddysgwyr mewn lleoliadau EOTAS (e.e. darpariaeth sy'n rhoi sylw i'w hanghenion dysgu ychwanegol, sy'n ystyried anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, neu sy'n cydnabod ffactorau meddygol). Dylid cyflawni hyn trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS.

**754.** Un o amcanion lleoliadau EOTAS yw helpu dysgwyr i symud ymlaen i bwynt lle gallant ailintegreiddio'n effeithiol i addysg brif ffrwd. Nid dyma'r unig amcan, oherwydd efallai na fyddai hynny'n realistig i rai dysgwyr, a rhaid i'r cwricwlwm a gynigir fodloni eu hamgylchiadau. Fodd bynnag, mae'n amcan pwysig iawn ac yn un y dylai'r cwricwlwm newydd ei ategu. Rydym yn awyddus i ochel rhag sefyllfa lle bo'r Bil yn arwain at leiafswm gofynion fel lefel gyffredin y ddarpariaeth mewn lleoliadau EOTAS. Mae'n hollbwysig bod y meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau gorfodol eraill yn cael eu cynnig, fel y noda'r Bil, "os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny". Fel arall, mae perygl y bydd y bwlch rhwng dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol a'u cyfoedion mewn ysgolion yn ymestyn, gan waethygu'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth ddychwelyd ac ailintegreiddio i addysg brif ffrwd.

---

628 Llywodraeth Cymru, Ystadegau ac Ymchwil, Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2018 i Awst 2019, Tabl 4, Awst 2019.

629 Wedi'i gyfrifo o Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth a Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a llywodraethiant ysgol.

**Argymhelliad 40.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod y cwricwlwm a ddarperir mewn lleoliadau EOTAS yn galluogi disgyblion i ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd, lle bo'n briodol ac yn bosibl, trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS.

**755.** Rydym yn ymwybodol nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer unrhyw broses ar gyfer herio'r cwricwlwm a ddarperir gan uned cyfeirio disgyblion neu gwricwlwm sydd wedi ei sicrhau gan awdurdod lleol (yn achos lleoliadau EOTAS eraill). Rydym yn nodi bod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn achos ysgolion a gynhelir a meithrinfeydd a gynhelir/nas cynhelir. Fodd bynnag, mae adrannau 52 a 55 o'r Bil yn llawer llai rhagnodol o ran gofynion y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau EOTAS. Fel Pwyllgor, nid yw'n glir inni sut y gallai rhiant neu ddysgwr herio'r cwricwlwm a gynigir yn y lleoliadau hyn os ydynt yn credu nad yw'n bodloni'r gofynion o dan y Bil (er enghraifft, os ydynt yn anghytuno â dehongliad yr awdurdod lleol neu'r uned cyfeirio disgyblion o'r hyn sy'n "rhesymol bosibl a phriodol"). Yn dilyn ein sylwadau uchod, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch pa fecanweithiau sy'n bodoli i rieni a dysgwyr herio'r cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol os ydynt yn credu nad yw'n bodloni'r gofynion o dan y Bil.

**Argymhelliad 41.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa fecanweithiau sy'n bodoli i rieni a dysgwyr herio'r cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol os ydynt yn credu nad yw'n bodloni'r gofynion o dan y Bil.

## Eithriadau penodol

### Gwaith datblygu ac arbrofion

#### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**756.** O dan adran 40, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd nad yw gofynion y cwricwlwm yn berthnasol i rai ysgolion, nac i ysgolion neu leoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir a ddisgrifir yn benodol, i hwyluso gwaith datblygu neu arbrofion.

**757.** Yn ein sesiwn gyntaf ar y Bil, dywedodd y Gweinidog y gallai'r pwerau gael eu defnyddio mewn perthynas ag ysgolion penodol neu garfannau o ysgolion ac fel enghraifft soniodd am ddatblygiad y Cyfnod Sylfaen ddeg i bymtheng mlynedd yn ôl:

> "…I'm not anticipating—. I've got nothing in my mind that says, 'This is what we need to do' in terms of an exception. But it's there to futureproof the legislation to ensure that the legislation wouldn't

> confine or negate innovation, and, I think, the experience that most us here this afternoon could relate to would be the introduction of foundation phase and the move to play-based learning, as opposed to the more traditional way in which we did early-years education previously. So, I think, if there was to be a new version of foundation phase or an approach, that's a good example there where an exception may be used."[630]

**758.** Mae adran 41 yn gosod dau amod ar gyfer gwneud cyfarwyddyd o'r fath o dan adran 40:

- bod gofynion cyffredinol y cwricwlwm - y pedwar diben, cynnydd priodol, addasrwydd, eang a chytbwys, ac ystyried anghenion dysgu ychwanegol disgyblion - yn dal i gael eu bodloni; ac
- y cydymffurfir â gofynion gweithdrefnol amrywiol.[631]

**759.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi mai diben yr amodau hyn yw "sicrhau nad yw disgyblion sy'n cymryd rhan mewn arbrofion neu waith datblygu o dan anfantais" a bod "eu haddysg yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r egwyddorion craidd sy'n llywio fframwaith Cwricwlwm i Gymru".[632]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**760.** Dywedodd CLlLC fod yna ddigon o fesurau diogelwch o ran yr eithriadau y gellir eu gwneud o dan adran 40:

> "There are circumstances where exemptions will be needed, and that's then down to the local authority to work within the schools, then, to find out what these exemptions are, what the discussions are and whether it's appropriate or not at that time. (…)
>
> I can't imagine that it's going to be used too frequently, but it does allow for those needs where it may be needed."[633]

[630] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 88], 14 Gorffennaf 2020.

[631] Fel y nodir yn adrannau 41(3(-41(5) o'r Bil.

[632] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1, paragraff 66.

[633] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 115], 20 Gorffennaf 2020.

### Eithriadau dros dro i ddisgyblion a phlant unigol

## Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**761.** Mae adran 44 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi penaethiaid a lleoliadau meithrin nas cynhelir i ddatgymhwyso gofynion y cwricwlwm mewn perthynas â disgyblion a phlant penodol am gyfnod dros dro.

**762.** Yn yr un modd ag eithriadau i alluogi gwaith datblygu ac arbrofion, mae'n rhaid bodloni gofynion cyffredinol y cwricwlwm—y pedwar diben, cynnydd priodol, addasrwydd, eang a chytbwys, ac ystyried anghenion dysgu ychwanegol disgyblion—lle gwneir eithriadau. At hynny, mae adran 45 yn nodi nad yw anghenion dysgu ychwanegol disgybl yn rheswm dilys dros wneud eithriadau, h.y. ni all ysgolion a lleoliadau ddatgymhwyso eu dyletswyddau i ddarparu'r cwricwlwm dim ond oherwydd bod gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol.

**763.** Rhaid i unrhyw eithriadau beidio â bod yn fwy na chwe mis, er y gallai fod yn bosibl gosod cyfnodau eithriad ychwanegol ar ôl y chwe mis cychwynnol. Gall y cyfnodau ychwanegol hyn fod yn hwy na chwe mis os bodlonir rhai amodau.

**764.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gyntaf ar y Bil, dywedodd y Gweinidog:

> "…let me give an example, maybe, of a pupil who has a significant or long-term illness. So, it might not be appropriate for that pupil or that school, who, of course, are held legally responsible to deliver a whole curriculum to that individual. It may be absolutely the right thing to do that a slimmed-down curriculum is in the best interests of that child. So, that might be an example.
>
> The safeguards are built into section 45, which enables regulations to make provisions to the circumstances and requires provisions for an operative period for temporary exceptions."[634]

**765.** Esboniodd swyddog y Gweinidog y byddai'r darpariaethau yn y Bil yn ategu'n sylweddol y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol ac y byddai'r rheoliadau newydd yn diweddaru rheoliadau presennol, gydag ychydig o feini prawf ychwanegol, y mae'n rhaid i bennaeth eu hystyried.[635]

---

[634] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 90-91], 14 Gorffennaf 2020.

[635] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 93], 14 Gorffennaf 2020.

**766.** Pan ofynnwyd i swyddog Llywodraeth Cymru a ddylai manylion pellach fod ar wyneb y Bil yn hytrach na'u cynnwys mewn rheoliadau, dywedodd y swyddog:

> " …we think that we've got the balance right in terms of the key principles that set out when the regulations can be made. So, for example, in section 44(3) it sets out that if we do make regulations, there are certain things that the regulations must say. So, it's not left entirely to the discretion of Ministers. So, there are criteria there."[636]

**767.** Mae adran 47 yn rhoi hawl i'r disgybl a rhieni'r disgybl apelio i gorff llywodraethu'r ysgol yn erbyn penderfyniad pennaeth i wneud eithriad dros dro o ofynion y cwricwlwm. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol lle mai dim ond y rhiant—nid y disgybl—all apelio. Fodd bynnag, nid yw hawl disgybl i apelio yn gymwys os yw'r corff llywodraethu o'r farn nad oes gan y disgybl y gallu i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl hon.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**768.** Roedd Estyn yn fodlon bod yna ddigon o fesurau diogelwch a bod y ddarpariaeth ar gyfer eithriadau yn adlewyrchu arfer presennol ar y cyfan:

> "It looks as if it's something that has inherent dangers to it, but there are lots of checks and balances, and the current system doesn't give us concern, so I can't see why it should cause concern in future."[637]

**769.** Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn cytuno, gan nodi bod pŵer o'r fath i wneud eithriadau i rai disgyblion yn bodoli eisoes yn y ddeddfwriaeth bresennol ac mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff ei ddefnyddio.[638]

**770.** Holodd Mind Cymru sut y bydd "galluedd" yn yr ystyr y caiff ei ddefnyddio yn adran 47(3) yn cael ei ddiffinio a'i ddehongli. Roeddent yn awgrymu ei fod yn cael ei ddiffinio fel 16 oed mewn deddfwriaeth arall, ac os felly ni fyddai disgyblion yn

[636] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 14 Gorffennaf 2020.

[637] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 107], 17 Medi 2020.

[638] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 121], 24 Medi 2020.

gallu defnyddio'r hawl hon yn awtomatig i apelio yn erbyn penderfyniadau penaethiaid.[639] Gwnaeth ymatebydd unigol bwynt tebyg.[640]

### Disgyblion a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol

**771.** Mae adran 43 o'r Bil yn galluogi datgymhwyso gofynion y cwricwlwm ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, fel rhan o Gynlluniau Datblygu Unigol a roddwyd ar waith o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Trafodir hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon wrth drafod anghenion dysgu ychwanegol yn ehangach.

### Pŵer i wneud eithriadau pellach

**772.** Mae adran 50 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi amgylchiadau ychwanegol pan ellir datgymhwyso neu addasu gofynion cyffredinol y cwricwlwm. Mae hefyd yn galluogi rheoliadau o'r fath i nodi person arall, er enghraifft pennaeth, i arfer ei ddisgresiwn ynghylch datgymhwyso neu addasu gofyniad.

**773.** Mae Datganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau yn nodi:

> "Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ymdrin â sefyllfaoedd lle y comisiynir rhan o gwricwlwm disgybl, ac yr ymgymerir â hi o bosibl, mewn lle arall, er enghraifft mewn sefydliad addysg bellach, oherwydd ei ddiddordebau penodol. Efallai y bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran trefniadau'r cwricwlwm, er mwyn i hyn allu digwydd."[641]

**774.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn penderfynu a oes angen defnyddio'r pŵer hwn ai peidio pan fydd cwricwla ysgolion unigol ar gael.[642]

**775.** Yn wahanol i'r pŵer i eithrio rhai ysgolion (adran 40) a'r rheoliadau i alluogi eithriadau ar gyfer rhai disgyblion (adran 44), nid yw'r pŵer cyffredinol hwn i ddarparu ar gyfer eithriadau pellach trwy reoliadau yn cynnwys amod bod gofynion cyffredinol y cwricwlwm yn dal i gael eu bodloni – sef y pedwar diben,

---

[639] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 187 – Mind Cymru.

[640] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 167 – Unigolyn.

[641] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau, Gorffennaf 2020.

[642] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau, Gorffennaf 2020.

cynnydd priodol, addasrwydd, bod yn eang ac yn gytbwys, ac ystyried ADY disgyblion.

## Ein barn a'n hargymhellion: eithriadau penodol

**776.** Rydym yn fodlon ar y cyfan â darpariaethau'r Bil ar gyfer eithriadau i ofynion y cwricwlwm mewn perthynas â rhai ysgolion a rhai disgyblion. Byddem yn pwysleisio, fodd bynnag, fod rhaid cael mesurau diogelwch digonol ar waith. Ar y cyfan, rydym yn fodlon bod hynny'n wir.

**777.** Mae'n bwysig bod lle a chwmpas ar gyfer arloesedd a gwaith datblygu lle gallai hyn fod yn ddymunol yn y dyfodol. Mae adran 40 yn darparu hyn. Rhoddodd y Gweinidog enghraifft o'r gwaith o ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen ym mlynyddoedd cynnar datganoli fel darn arloesol o waith a oedd yn gofyn i ysgolion a oedd yn rhan o'r gwaith treialu gael eu rhyddhau o gyfyngiadau'r cwricwlwm. Rydym yn fodlon bod yr amodau y mae'n rhaid i ofynion cyffredinol y cwricwlwm eu bodloni yn darparu mesurau diogelwch digonol.

**778.** Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ysgolion allu cael eu rhyddhau dros dro rhag gofynion y cwricwlwm mewn perthynas â rhai disgyblion, lle mae amgylchiadau'n gwarantu hyn. Mae'r darpariaethau yn adran 44 i raddau helaeth yn ailadrodd y ddeddfwriaeth bresennol, er ein bod yn croesawu'r amod clir yn y Bil na all y ffaith bod gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol ynddo'i hun fod yn rheswm iddo beidio â derbyn y cwricwlwm llawn. Lle mae hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i'w Gynllun Datblygu Unigol, mae hynny'n wahanol ac fe ymdrinnir â hynny yn briodol gan ddarpariaeth ar wahân ar gyfer eithriadau a wneir o dan adran 43. Rydym yn fodlon, gan y bydd unrhyw reoliadau i ddarparu ar gyfer eithriadau dros dro mewn perthynas â disgyblion yn cynnwys yr amod bod yn rhaid bodloni'r gofynion cyffredinol o hyd, bod yna fesurau diogelwch digonol.

**779.** Credwn fod angen eglurhad pellach ynghylch yr hyn a olygir wrth gyfeiriadau yn y Bil hwn at "galluedd i ddeall" disgybl. Mae adran 46(5) yn darparu nad oes rhaid i bennaeth ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i ddisgybl am ddatgymhwyso'r cwricwlwm dros dro mewn amgylchiadau lle nad oes gan ddisgybl y "galluedd i ddeall" y wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi, neu beth mae'n ei olygu i arfer yr hawl i apelio. Mae adran 47(3) yn darparu ymhellach nad yw disgybl yn gallu apelio yn erbyn penderfyniad pennaeth i ddatgymhwyso gofynion cwricwlwm dros dro lle mae'r corff llywodraethu o'r farn nad oes gan y disgybl y "galluedd i ddeall" yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl hon. Mae adran 47(5) hefyd yn datgymhwyso'r gofyniad i gorff llywodraethu roi hysbysiad ysgrifenedig

o'i benderfyniad apelio i ddisgybl lle mae'n credu nad oes gan y disgybl y "galluedd i ddeall" y wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi.

**780.** Nid yw "galluedd i ddeall" wedi'i ddiffinio ar wyneb y Bil, ac nid oes cyfeiriad at ystyr yr ymadrodd yn y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd ag ef. Nodwn fod yr ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Credwn, fodd bynnag, fod angen eglurder ynghylch sut y mae cyfeiriadau at y "galluedd i ddeall" a wneir yn y ddeddfwriaeth hon[643] yn cael eu dehongli.

> **Argymhelliad 42.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y dylid dehongli "galluedd i ddeall" at ddibenion y Bil. Gallai hyn gynnwys canllawiau ar y ffactorau y dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu eu hystyried wrth benderfynu a oes gan ddisgybl y galluedd i ddeall.

**781.** Nid yw'r ddarpariaeth o dan adran 50 ar gyfer rheoliadau i nodi eithriadau ychwanegol yn dod gyda'r un mesurau diogelwch ag eithriadau o dan adran 40 a 44, h.y. bod yn rhaid parhau i fodloni gofynion cyffredinol y cwricwlwm, sef y pedwar diben, cynnydd priodol, addasrwydd, bod yn eang ac yn gytbwys, ac ystyried ADY disgyblion. Nid ydym yn gweld y rheswm dros hyn ac rydym yn credu y dylid mynd i'r afael â hyn. Nid yw'r Bil na'r wybodaeth ategol yn nodi beth allai'r eithriadau ychwanegol hyn fod, sy'n golygu y gallent fod yn gymharol eang, sy'n ei gwneud hi'n bwysicach fyth bod mesurau diogelwch digonol ar waith.

> **Argymhelliad 43.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r rhesymau pam na fydd eithriadau ychwanegol i ofynion y cwricwlwm o dan reoliadau a wneir o dan adran 50 o reidrwydd yn amodol ar fodloni'r gofynion cwricwlwm cyffredinol, yn wahanol i eithriadau y darperir ar eu cyfer gan adrannau eraill o'r Bil.

## Pobl ifanc 14 i 16 oed (Blynyddoedd 10 ac 11)

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**782.** Mae adran 24(5) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r cwricwlwm gynnig dewis o addysgu a dysgu i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11 ym mhob maes dysgu a phrofiad. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa bresennol, lle mae disgyblion yn wynebu 'dewisiadau' ar ddiwedd Blwyddyn 9 ac yn gallu 'gollwng' rhai pynciau. Fodd bynnag, o dan y cwricwlwm newydd, ni fyddant yn gallu rhoi'r gorau i

643 "Defnyddir "galluedd i ddeall" hefyd yn adrannau 34 a 35, sy'n ymwneud â dewis disgyblion.

astudio maes dysgu a phrofiad cyfan a rhaid iddynt ddilyn o leiaf peth o'r dysgu ym mhob maes.

**783.** Gall rheoliadau a wneir o dan adran 25 nodi gofynion pellach y cwricwlwm ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Gall hyn gynnwys darparu isafswm o gyrsiau astudio neu ar gyfer cyrsiau astudio penodol. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i ddisgyblion gael dewis o blith 25 cwrs o leiaf yng Nghyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11), y mae'n rhaid i o leiaf dri ohonynt fod yn gyrsiau galwedigaethol.[644]

**784.** Dywed Llywodraeth Cymru nad yw'n bwriadu defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau ar y dechrau gan ei bod yn "disgwyl i'r gofyniad yn y Bil i gwricwlwm fod yn eang ac yn gytbwys fod yn ddigonol", gan ychwanegu:

> "Fodd bynnag, os bydd tystiolaeth bod rhai ysgolion yn cynnig cwricwlwm cyfyngol i'r grŵp oedran hwn, neu nad ydynt yn darparu cyrsiau astudio sy'n arwain at gymwysterau penodol, yna gellir defnyddio'r pŵer hwn i fynd i'r afael â'r sefyllfa."[645]

**785.** Mae adran 33 yn rhoi pŵer i benaethiaid benderfynu peidio â darparu'r addysgu a'r dysgu a ddewisir gan ddisgybl ym Mlwyddyn 10 neu 11. Pan nad yw disgybl wedi dechrau Blwyddyn 10 eto, gall y pennaeth ond wneud hynny ar y "seiliau perthnasol" a ganlyn:

- nad yw'r addysgu a dysgu yn addas i'r disgybl, oherwydd lefel cyrhaeddiad addysgol y disgybl;
- nad yw'n rhesymol ymarferol sicrhau'r addysgu a dysgu i'r disgybl, oherwydd dewisiadau eraill a wneir gan y disgybl;
- y byddai'r amser sy'n debygol o gael ei dreulio yn teithio i'r man lle y mae'r addysgu yn debygol o gael ei ddarparu yn niweidiol i addysg y disgybl;
- yr eid i wariant anghymesur pe bai'r addysgu a dysgu yn cael ei sicrhau i'r disgybl;

[644] Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014.

[645] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddiadau a chanllawiau, Gorffennaf 2020.

- y rhoddid iechyd neu ddiogelwch y disgybl neu berson arall mewn perygl yn annerbyniol pe bai'r addysgu a dysgu yn cael ei sicrhau i'r disgybl.

**786.** Os yw disgybl eisoes wedi dechrau Blwyddyn 10, dim ond ar ddau o'r "seiliau perthnasol" a ganlyn y caiff y pennaeth wrthod bodloni ei ddewisiadau:

- cost anghymesur;
- risg iechyd a diogelwch annerbyniol i'r disgybl neu berson arall.

**787.** Mae adran 35 yn rhoi hawl i ddisgyblion a rhieni ofyn i'r pennaeth adolygu ei benderfyniad i ddatgymhwyso dewisiadau disgyblion ynghylch addysgu a dysgu ym Mlwyddyn 10 ac 11, ac os ydynt yn dal yn anfodlon ar benderfyniad y pennaeth ynghylch yr adolygiad, apelio i gorff llywodraethu'r ysgol. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol lle mai dim ond y rhiant—nid y disgybl—all apelio. Yn yr un modd ag eithriadau dros dro o dan adran 44, nid yw hawl disgybl i adolygu/apelio yn berthnasol os yw'r pennaeth/corff llywodraethu o'r farn nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl hon.

**788.** Maes allweddol amlwg sy'n gysylltiedig â'r Bil sy'n effeithio'n arbennig ar bobl ifanc 14 i 16 oed yw cymwysterau, a drafodir ym mhennod 11.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**789.** Roedd ein harolwg o blant a phobl ifanc yn gofyn p'un a oedd gan ddisgyblion ddigon o ddewis ynghylch yr hyn y maent yn ei astudio ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Dywedodd hanner (49 y cant) yr ymatebwyr yr hoffent gael mwy o ddewis, tra bod tua thraean (36 y cant) yn teimlo bod y dewisiadau presennol sydd ar gael yn ddigonol. Pan ofynnwyd iddynt pa opsiynau ychwanegol yr hoffent ddewis ohonynt, nodwyd ystod eang o natur academaidd yn ogystal â galwedigaethol.[646]

**790.** Trafodwyd yr opsiynau o ran cyrsiau a chymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 14 i 16 oed hefyd yn ein digwyddiad bord gron rhithwir. Dywedodd rhai pobl ifanc a oedd yn cymryd rhan fod y cwricwlwm presennol yn canolbwyntio'n ormodol ar yr ochr academaidd a bod angen mwy o bwyslais ar ddiddordebau a sgiliau galwedigaethol. Dywedwyd hefyd fod angen archwiliadau trylwyr digonol ar y pŵer y bydd gan benaethiaid i ddatgymhwyso dewisiadau disgyblion Blwyddyn

[646] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Dadansoddiad Ymgynghori, Hydref 2020.

10 ac 11 (o dan “seiliau perthnasol” a bennir yn y Bil) fel na chaiff y pŵer hwnnw ei gamddefnyddio na'i ddefnyddio'n ormodol.[647]

**791.** Roedd rhai cynrychiolwyr addysg uwch ac addysg bellach yn teimlo nad oedd hi'n glir ble mae hyfforddiant galwedigaethol yn dod o fewn y cwricwlwm newydd. Awgrymwyd y byddai'n anodd gwireddu “parch cydradd” rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd pan gaiff TGAU a Safon Uwch eu hystyried fel “safon aur”.[648]

**792.** O blith y cynrychiolwyr o'r byd cyflogwyr a chyflogadwyedd y siaradwyd â nhw, tynnodd rhai sylw at bwysigrwydd gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith, ac i ddisgyblion ddod i gyswllt ag ystod eang o gyfleoedd gyrfa a chyflogaeth.[649]

**793.** Gofynnwyd i sawl tyst a oedd ganddynt unrhyw bryderon y gallai'r pwerau i ddatgymhwyso dewisiadau disgyblion gael eu defnyddio'n ormodol neu'n anghymesur.

**794.** Dywedodd ASCL wrthym:

> “I think it is an appropriate provision. I think it will be used very sparingly (…) it will be in exceptional circumstances. Nobody wants to disapply children from the full range and the full provision and would do it only if there was a specific and very particular issue. (…)
>
> If the range of qualifications is broad enough and flexible enough in terms of how they're working, then I think you will see less disapplication within the system as well.”[650]

**795.** Dywedodd Cymwysterau Cymru ei fod am weld yr ystod o gymwysterau mor gynhwysfawr â phosib er mwyn caniatáu cymaint o hyblygrwydd i ysgolion. Ychwanegodd nad yw'n ymwneud â'r hyn y gall ysgol ei gynnig ond yn hytrach yr hyn sy'n iawn i ddysgwyr unigol.[651]

---

[647] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir gyda rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[648] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir gyda rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[649] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaethau bord gron rhithwir gyda rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[650] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 125], 24 Medi 2020.

[651] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 111], 17 Medi 2020.

**796.** Teimlai Estyn fod yna "archwiliadau trylwyr", gan gyfeirio at yr oruchwyliaeth y bydd gan awdurdodau lleol a chonsortia yn ogystal â'i rôl ei hun fel arolygiaeth.[652]

**797.** Yn yr un modd ag eithriadau dros dro i ofynion y cwricwlwm, cwestiynodd Mind Cymru sut y bydd "galluedd" yn cael ei ddiffinio a'i ddehongli ym mhenderfyniadau penaethiaid a chyrff llywodraethu ynghylch a yw disgybl yn deall beth yw ystyr ei hawl i apelio.[653]

**798.** Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) yn pryderu y gallai'r ddarpariaeth i benaethiaid ddatgymhwyso dewisiadau disgyblion effeithio'n andwyol ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig disgyblion byddar. Ysgrifennodd yr NDCS:

> "It would be inappropriate for headteachers to determine whether it was suitable for a deaf child to be disapplied from a part of the curriculum without consultation and discussion with specialists such as Teachers of the Deaf. While in a small number of cases, disapplication may be appropriate, it is often possible to make adaptations to secure accessibility. Disapplication for ALN learners on suitability grounds should not be presumed without consulting with the relevant and appropriate professionals."[654]

**799.** Mae NDCS yn ceisio sicrwydd na fydd adran 33 yn cael ei chamddefnyddio/camddehongli i ddatgymhwyso dewisiadau disgyblion ar sail eu hanghenion dysgu ychwanegol, yn benodol mewn perthynas â byddardod neu golli clyw:

> "We are also concerned that the "disproportionate expense" clause for disapplication should not be interpreted to supersede rights under the Equality Act for reasonable adjustments nor under the Additional Learning Needs and Education Tribunal Wales Act. Learners with ALN, including deafness may indeed require adaptations at a cost to access lessons. It must be clear that discussions and decisions around disapplication or curriculum modification in light of a learner's ALN are

[652] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 109], 17 Medi 2020.

[653] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 187 – Mind Cymru.

[654] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 237 – Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

> attributed to the IDP process as opposed to being permitted at the headteacher's discretion under section 33 of this bill."[655]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**800.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod darpariaeth debyg yn bodoli yn y ddeddfwriaeth bresennol i'r pŵer y mae'r Bil yn ei roi i benaethiaid ddatgymhwyso dewisiadau a wneir gan ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11 ar seiliau perthnasol penodol. Ychwanegodd ei swyddog:

> "… in exercising the function provided by this provision, it's absolutely constrained by the broader framework, so you couldn't use it to unnaturally narrow the options. (…)
>
> …the Bill also specifies the grounds on which it can be used, which then limits again its scope for misuse, and it provides for a review and appeal process, so that if a learner or their parent were dissatisfied with a decision the school has made, they would be able to challenge that decision."[656]

**801.** Pan ofynnwyd am faint o amser y byddai apêl yn erbyn penderfyniad pennaeth yn ei gymryd, gan fod amser yn hollbwysig o ran camau nesaf y disgybl, atebodd swyddog Llywodraeth Cymru:

> "…there is a power to make regulations in relation to this, and that would be exactly the kind of thing we would expect to put in the regulations, and why it would be in regulations would be, for example, a time limit, if it were felt that there was evidence of unreasonable delay occurring."[657]

## Ein barn a'n hargymhellion: Pobl ifanc 14 i 16 oed (Blwyddyn 10 ac 11)

**802.** Credwn ei bod yn hanfodol bod dewisiadau cwricwlwm eang ar gael i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod y profiad ysgol yn berthnasol i bob person ifanc 14 i 16 oed ac yn eu galluogi i

---

[655] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 237 – Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

[656] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 136], 14 Gorffennaf 2020.

[657] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 14 Gorffennaf 2020.

benderfynu pa feysydd i'w hastudio, gan eu helpu i ddatblygu llwybrau gyrfa posibl wrth gadw digon o opsiynau ar agor.

**803.** Felly mae'r dewis a roddir i bobl ifanc 14 i 16 oed am rai agweddau ar bob maes dysgu a phrofiad yn adran 24(5) yn nodwedd bwysig o'r Bil, ac ar yr un pryd yn sicrhau bod disgyblaethau craidd, hanfodol yn cael eu hastudio gan bawb. Mae hyn yn gyffredinol yn adlewyrchu'r sefyllfa nawr, lle mae disgyblion yn dewis o bynciau dewisol ar ddechrau Blwyddyn 10 ond rhaid iddynt barhau i astudio rhai pynciau gorfodol. Rydym yn croesawu'r gofyniad y bydd yn rhaid i bobl ifanc 14 i 16 oed barhau i wneud o leiaf rhywfaint o ddysgu ym mhob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad.

**804.** Ers Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, bu mwy o bwyslais ar ddarparu ystod eang o opsiynau cwrs i bobl ifanc 14 i 16 oed, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol. Cadarnhawyd pwysigrwydd hyn yn ein sgyrsiau gyda phlant a phobl ifanc ac rydym yn annog bod y Bil a'r cwricwlwm newydd yn ysgogi hyn yn llawn. Nodwn fod adran 25 o'r Bil hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi gofynion cwricwlwm pellach ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed a'u bod yn bwriadu defnyddio hyn os yw'r cwricwlwm yn profi i fod yn rhy gul.

**Argymhelliad 44.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn rhoi sicrwydd y bydd fframwaith y cwricwlwm yn sicrhau cynnig digon eang i bobl ifanc 14 i 16 oed, gydag ystod eang o opsiynau cwrs ar gael, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol; ac

- yn monitro'r sefyllfa hon yn agos a pharhau i ystyried yr angen i wneud rheoliadau ar unwaith sy'n nodi gofynion pellach yn ôl yr angen.

**805.** Nodwn fod adran 33 yn galluogi penaethiaid i benderfynu peidio â bodloni'r dewisiadau a wneir gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11 o dan "seiliau perthnasol" penodedig. Rydym yn cydnabod bod darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol. Fodd bynnag, rydym yn rhybuddio na ddylid defnyddio'r pŵer hwn yn ormodol neu'n anghymesur er mwyn gwrthod yn ddiangen y dewisiadau y mae pobl ifanc 14 i 16 oed yn eu gwneud ynghylch eu dysgu. Rydym yn annog yn benodol na ddefnyddir y sail sy'n cyfeirio at addasrwydd dewis y disgybl o ystyried ei gyrhaeddiad addysgol i atal dyheadau'r hyn y gall pob dysgwr ei gyflawni, er enghraifft y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Argymhelliad 45.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos sut mae'r pŵer a roddir i benaethiaid yn adran 33 yn cael ei ddefnyddio ac yn sicrhau, gan gynnwys drwy'r canllawiau statudol sy'n sail i'r cwricwlwm, na chaiff ei

ddefnyddio i wrthod dewisiadau disgyblion yn ddiangen nac i atal dyheadau uchel i bob dysgwr.

**806.** Mae adran 35 yn darparu nad yw hawl disgybl i ofyn am adolygiad o benderfyniad pennaeth i ddatgymhwyso ei ddewisiadau ynghylch addysgu a dysgu ym Mlwyddyn 10 ac 11 neu i apelio yn erbyn y penderfyniad yn gymwys lle mae'r pennaeth/corff llywodraethu o'r farn nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl hon. Fel yn achos apeliadau yn erbyn eithriadau dros dro (paragraffau 779 – 780), credwn fod angen eglurder ynghylch sut y bydd "galluedd i ddeall" yn yr ystyr hwn yn cael ei ddehongli. Rydym wedi gwneud argymhelliad am hyn yn gynharach yn y bennod hon (argymhelliad 42).

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac anableddau

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**807.** Mae adran 43 o'r Bil yn galluogi eithrio gofynion y cwricwlwm ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn ôl eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU), sy'n nodi'r ddarpariaeth y mae'n rhaid ei gwneud ar eu cyfer. Bydd gan bob disgybl ag ADY Gynllun Datblygu Unigol ar waith ar eu cyfer o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**808.** Disgwylir i'r system newydd ar gyfer cefnogi ADY disgyblion o dan Ddeddf 2018 gael ei chyflwyno o fis Medi 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Cod ADY gerbron y Senedd ym mis Chwefror 2021[658], a fydd yn darparu canllawiau statudol ar sut y bydd y system newydd o Gynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer pob dysgwr ag ADY yn gweithio'n ymarferol.

**809.** Mae adran 43 o'r Bil yn golygu y gellir datgymhwyso'r ddyletswydd i ddarparu'r chwe maes dysgu a phrofiad, y tri sgìl trawsgwricwlaidd a'r pedair elfen orfodol mewn perthynas â disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, bydd angen i'r cwricwlwm wneud y canlynol o hyd:

- galluogi'r disgybl neu'r plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
- sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig cynnydd priodol i'r disgybl neu'r plentyn;
- bod yn addas ar gyfer oedran, gallu a doniau'r disgybl neu'r plentyn; a

[658] Gohebiaeth, Y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 3 Medi 2020.

- sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i'r disgybl neu'r plentyn.

**810.** Mae'r Ddeddf ADY yn cynnwys dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD), yn ogystal â dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Ychwanegwyd dyletswydd ar gyrff perthnasol i roi sylw dyladwy i ddau Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig at y ddeddfwriaeth ADY wrth iddo fynd drwy'r Cynulliad (ar y pryd), yn dilyn ein hargymhelliad.[659]

**811.** Nid yw'r Bil yn cyfeirio'n benodol at ddyletswydd i roi sylw dyladwy i'r UNCRC (a drafodir ym mhennod 4) na'r UNCRPD.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**812.** Gwnaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) sylwadau ar ddarpariaeth y Bil i ddatgymhwyso gofynion y cwricwlwm ar gyfer disgyblion ag ADY yng nghyd-destun yr UNCRPD. Ysgrifennodd yr EHRC yn nodi y dylai'r gwaith o weithredu'r Bil adlewyrchu egwyddorion Erthygl 24 o'r UNCRPD, y mae'n dweud yn glir na ddylid eithrio pobl ag anableddau o'r system addysg gyffredinol (ar unrhyw lefel) oherwydd eu hanabledd.[660]

**813.** Galwodd yr EHRC ar i'r Bil osod dyletswyddau ar bobl sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth i roi sylw dyladwy i'r UNCRC (gweler pennod 4) a'r UNCRPD. Roedd yn argymell y term "gweithredu yn unol â" yn hytrach na rhoi "sylw dyladwy".[661]

**814.** Mae'r NDCS yn awyddus i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn hygyrch i blant a phobl ifanc byddar. Mae'n croesawu'r gofyniad i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar ystyried ADY disgyblion wrth weithredu'r cwricwlwm (adrannau 30(d) a 37(d)), er ei fod yn galw am gyfeiriad penodol at ADY o fewn y gofyniad bod y cwricwlwm yn addas ar gyfer gwahanol oedrannau, galluoedd a doniau (adran 22).[662]

---

[659] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), Mai 2017.

[660] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[661] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[662] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW – 237, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

**815.** Gosododd yr EHRC hyn mewn cyd-destun ehangach o gydraddoldeb, yn hytrach na chyfeirio at ADY yn unig, gan argymell bod gofynion cyffredinol y cwricwlwm yn adran 30 yn cynnwys ystyried anghenion dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig.[663]

**816.** Mae gan NDCS sawl amheuaeth ynghylch y Bil a'r goblygiadau i ddisgyblion ag ADY, yn enwedig byddardod a cholli clyw. Mae'r rhain yn cynnwys y pryderon ynghylch pŵer penaethiaid i ddatgymhwyso dewisiadau cwricwlwm disgyblion Blwyddyn 10 ac 11, a drafodir ym mharagraffau 782 i 806. Mae nifer o bryderon NDCS yn cyfeirio at faterion y tu hwnt i'r Bil ei hun megis sut mae'r cwricwlwm yn cael ei weithredu. Er enghraifft, hoffent weld cyfeiriadau mwy penodol at ADY, byddardod a cholli clyw yn y canllawiau statudol.[664]

**817.** Mae sawl rhanddeiliad yn galw ar y Bil a'r cwricwlwm newydd i fod â dyheadau uchel ar gyfer yr hyn y dylai addysg ei ddarparu i ddisgyblion ag ADY. Yn nhyb Deaf Friendly Business Solutions, mae hyn yn golygu newid y status quo mewn perthynas ag addysg plant byddar. Maent yn nodi eu bod yn gobeithio'n daer y bydd y cwricwlwm newydd yn feiddgar ac yn uchelgeisiol i bob plentyn, gan dynnu sylw at y ffaith bod cydymffurfio â hawliau dynol i gael addysg nid yn unig yn golygu gallu mynd i'r ysgol ond ei fod mewn gwirionedd yn golygu derbyn addysg effeithiol hefyd.[665]

**818.** Yn yr un modd, mae'r NDCS yn pryderu, heb fonitro priodol, y gallai'r model camau cynnydd waethygu diwylliant o ddisgwyliadau isel ar gyfer dysgwyr byddar:

> "It is important that learners are truly being supported to reach their full potential and that it is not complacently accepted that they are simply working on a different progression step."[666]

**819.** Gwnaeth sawl rhanddeiliad sylwadau ar bwysigrwydd sicrhau bod y Bil hwn a Deddf ADY, sy'n cynrychioli dau faes diwygio sylweddol a weithredwyd tua'r un

---

[663] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[664] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW – 237, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

[665] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 61 – Deaf Friendly Business Solutions.

[666] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW – 237, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

pryd, yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd.[667] Trafodir hyn yn fanylach ym mhennod 12.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**820.** Pan ofynnwyd iddi pa mor hyderus oedd hi bod y Bil yn amddiffyn buddiannau grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigonol, gan gynnwys y rhai ag ADY, atebodd y Gweinidog:

> "…the guidance provides details on ensuring that schools consider the needs of all of their learners, and learners will have a wide range of needs and backgrounds, and the framework offers schools and practitioners that agency that we were talking about at the beginning, rather than slavishly having to follow a national diktat. So, each school community is different, and, as I said, this balance between a national requirement and the individual ability of a school to develop a curriculum that meets the needs of the cohort of those children gives us a better chance of developing a curriculum that is really relevant to those children. As part of approaching curriculum design, the guidance challenges schools to consider how that is informed by a recognition of learners' identity, language ability, and background, so we're very clear in our expectations around schools and the guidance that we're developing."[668]

**821.** Ers ein gwaith craffu ar y Bil ADY yn 2017, mae'r Gweinidog wedi darparu diweddariadau ysgrifenedig rheolaidd inni ar y cynnydd tuag at weithredu'r system newydd. Ym mis Medi 2020, dywedodd:

> "Fel y gwyddoch, bydd y system ADY yn canolbwyntio ar sicrhau bod cymorth pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddiwallu ei anghenion yn cael cymorth a gynlluniwyd ar eu cyfer a bod hwnnw wedi'i ddiogelu. Mae'r diwygiadau yn rhoi'r lle canolog i'r dysgwr a'i rieni, neu ei ofalwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyrraedd ei lawn botensial."[669]

[667] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 49 – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; a CAW 145 – Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd.

[668] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 23], 21 Hydref 2020.

[669] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 3 Medi 2020.

**822.** O ran anableddau, mae asesiad effaith Llywodraeth Cymru o'r Bil yn nodi:

> "Anabledd: effaith gadarnhaol gan fod fframwaith y cwricwlwm yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ymarferwyr deilwra cwricwlwm sy'n bodloni anghenion y dysgwyr."[670]

## Ein barn a'n hargymhellion: ADY ac anableddau

**823.** Mae tua 100,000 o ddisgyblion yng Nghymru wedi'u nodi fel rhai ag ADY, sef dros 20 y cant o'r holl ddisgyblion.[671] Credwn fod yn rhaid i unrhyw newid i'r cwricwlwm ystyried yn llawn yr effaith ar grŵp mor fawr o ddysgwyr, yn enwedig gyda diwygiad mor bellgyrhaeddol ag ailwampio'r cwricwlwm yn llwyr.

**824.** Trwy gydol y Senedd hon, rydym wedi craffu'n fanwl ar y diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) presennol, gan gyflwyno system newydd yn seiliedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Gwnaethom graffu ar y Bil ADY pan oedd yn mynd drwy'r Senedd yn 2017[672] ac wedi hynny y Cod ADY drafft yn 2019[673].

**825.** O'r herwydd, rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod y Bil yn galluogi dyheadau uchel ar gyfer y cymorth a roddir i ddisgyblion ag ADY a'u deilliannau addysgol, o ran y strategaeth y tu ôl i'r Cwricwlwm i Gymru a'r gwaith o'i weithredu. Mae'r un peth yn berthnasol i ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys anableddau ac rydym yn yr un modd yn annog rhoi ystyriaeth lawn i sut y gall y cwricwlwm newydd gynorthwyo pob disgybl i wireddu ei botensial llawn.

**Argymhelliad 46.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn sicrhau bod yr agwedd strategol tuag at y Cwricwlwm i Gymru a'r gwaith o'i weithredu yn cefnogi buddiannau disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau yn llawn, a'u bod yn gyson â darpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018; ac

---

670 Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.20.

671 Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth a Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a llywodraethiant ysgol.

672 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2017.

673 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft, 2019.

- yn monitro'r sefyllfa hon yn agos ac ystyried cryfhau'r cyfeiriadau at ADY ac anableddau mewn canllawiau ar weithredu'r cwricwlwm.

**826.** Rydym wedi argymell ym mhennod 4 bod y Bil yn cynnwys dyletswydd i roi sylw dyladwy i'r UNCRC. Credwn y dylai fod dyletswydd hefyd i roi sylw dyladwy i'r UNCRPD, o ystyried pwysigrwydd sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi addysg pobl ag anableddau. Byddai hyn yn golygu bod y Mesur Cwricwlwm ac Asesu yn mabwysiadu safbwynt tebyg i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

**Argymhelliad 47.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys, ar ei wyneb, ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). O ystyried eu priod rolau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, dylid gosod y ddyletswydd hon ar bawb a restrir yn adran 66(3) o'r Bil wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Bil.

# 11. Cynnydd, asesu a chymwysterau

Mae cynnydd disgyblion ar hyd un continwwm dysgu yn gysyniad allweddol o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, ac mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Cynnydd. Bydd y ffordd y mae dysgwyr yn cael eu hasesu hefyd yn newid yn sylweddol, er y bydd y rhan fwyaf o'r manylion wedi'u nodi mewn rheoliadau. Un cwestiwn allweddol sy'n codi yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym yw beth mae'r dull gwahanol ar gyfer y cwricwlwm newydd yn ei olygu ar gyfer cymwysterau. Mae proses o ddiwygio cymwysterau ar y gweill, sy'n cael ei gwneud ar wahân i'r Bil.

## Cynnydd

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**827.** Bydd y Bil yn dod â'r dull cyfredol o wahanu addysg i gyfnodau allweddol i ben: y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Yn lle hynny, bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd disgyblion yn symud ymlaen ar un continwwm dysgu, yn unol â disgrifiadau dysgu, camau cynnydd a chyflawniad disgwyliedig yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

**828.** Mae hyn yn debyg i'r hyn a argymhellwyd gan adolygiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Graham Donaldson yn 2015[674], a ganfu fod rhannu'r cwricwlwm yn gyfnodau ar wahân yn rhwystro cynnydd ac yn creu pwyntiau trosglwyddo di-fudd. Roedd 'Dyfodol Llwyddiannus' hefyd o blaid cael un continwwm o ddechrau i ddiwedd taith y cwricwlwm, yn hytrach na'i ystyried yn gyfres o flociau neu gyfnodau.[675]

**829.** Nid yw'r trefniadau ar gyfer cynnydd disgyblion ar hyd y continwwm dysgu wedi'u nodi yn y Bil ei hun a byddant wedi'u nodi mewn Cod Cynnydd, y bydd yn

[674] Yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus: adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, tudalen 52, 2015.

[675] Am drafodaeth bellach ar argymhellion yr Athro Donaldson ar gynnydd, gweler Ymchwil y Senedd, Adolygiad Donaldson: Diwedd Cyfnodau Allweddol a newid i'r ffordd yr ydym yn strwythuro cynnydd disgyblion?, Mawrth 2015.

rhaid i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi o dan adran 7 o'r Bil. Mae adran 72 yn darparu ar gyfer gwneud y Cod Cynnydd o dan uwch-weithdrefn negyddol.[676]

**830.** O dan adran 21, rhaid i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer "cynnydd priodol", a nodir yn adrannau 7(2) a 7(3) nad yw cwricwlwm, ac addysgu a dysgu, yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol "oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd".

**831.** Bydd "camau cynnydd" ar hyd y continwwm hwn ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed lle bydd "disgrifiadau dysgu".

**832.** Mae'r dogfennau Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn nodi'r "disgrifiadau dysgu" ym mhob un o'r pum cam cynnydd ym mhob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad. Mae'r rhain wedi'u geirio ar ffurf "Gallaf i…", "Rydw i…", ac "Mae gen i…" ac ati.

**833.** Mae'r dogfennau hefyd yn disgrifio sut y bydd pum "egwyddor cynnydd" generig yn cael eu cymhwyso i bob maes dysgu a phrofiad:

- ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol;
- dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd dysgu a phrofiad;
- mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso
- nodi cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd; ac
- effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr.[677]

**834.** Disgwylir y bydd yr egwyddorion cynnydd hyn, ynghyd â'r cysyniadau o gamau cynnydd a disgrifiadau dysgu, yn sail i'r Cod Cynnydd.[678]

---

[676] O dan yr uwch-weithdrefn negyddol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a gosod drafft gerbron y Senedd am gyfnod nad yw'n llai na 40 diwrnod. Os bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod, ni chaniateir ei ddyroddi. Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod ar ffurf y drafft.

[677] Llywodraeth Cymru, Hwb, Y Cwricwlwm i Gymru 2022, Ionawr 2020.

[678] Llywodraeth Cymru, Hwb, Y Cwricwlwm i Gymru 2022, tudalennau 13, 18 a 247, Ionawr 2020.

**835.** Mae adran 59 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i bobl berthnasol[679] i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth o gynnydd.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**836.** Roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) yn gefnogol o'r cysyniad o gamau cynnydd:

> "…because that builds into the system an expectation that we are all going to be focused on children continuing to progress and develop over a period of time. I like the idea of acknowledging that for some children, they will reach their steps at a different time to other children, that children aren't all going to reach the same level at the same time, and that we're building into the system, then, opportunity for targeted intervention and support that meets the individual needs of the learners, as opposed to saying, 'At this point in a child's learning career, they're going to have to achieve this level and then they move on.' It's a much more continuous, I believe, improvement journey, hopefully, for the child."[680]

**837.** Mae Consortiwm Canolbarth y De yn credu y bydd un continwwm yn gryfder yn y cwricwlwm newydd:

> "…it supports effective transition between year groups across schools and across settings. It facilitates the movement of learners across the learning continuum and throughout their schooling. It supports continuity and progression, both in learning and well-being for all learners, and it facilitates collaboration and co-construction within and across schools…"[681]

**838.** Dywedodd ERW (Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru) y bydd y continwwm yn golygu ei bod yn llai tebygol y bydd terfyn ar y posibilrwydd o gyflawniad y mae dysgwyr yn ei wneud, ac y bydd dysgwyr yn fwy tebygol o

[679] Rhestrir y rhain yn adran 58(4) ac maent yn cynnwys penaethiaid, cyrff llywodraethu, yr athro sy'n gyfrifol am Uned Cyfeirio Disgyblion a pherson sy'n darparu mathau eraill o addysg heblaw yn yr ysgol.

[680] Tystiolaeth lafar, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 36], 20 Gorffennaf 2020.

[681] Tystiolaeth lafar, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 258], 20 Gorffennaf 2020.

wneud cynnydd priodol a realistig. Dywedodd ei gynrychiolydd hefyd bod y cyfnodau allweddol presennol yn gallu gweithredu fel rhwystrau artiffisial.[682]

**839.** Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym nad oes unrhyw beth yn y Bil na'r fframwaith cwricwlwm ehangach o ran cynnydd ac asesu sy'n creu anawsterau i'r broses o ddiwygio cymwysterau, gan nodi bod y ffordd y mae cynnydd yn cael ei ddisgrifio o fewn y cwricwlwm yn eithaf defnyddiol.[683]

**840.** Roedd rhanddeiliaid eraill a wnaeth sylwadau ar y model ar gyfer cynnydd ar hyd un continwwm yn tueddu i fod o blaid y syniad. Dywedodd awdurdodau lleol yn y gogledd ei fod yn "cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr weld eu dysgu fel continwwm o dair i un ar bymtheg oed"[684], er bod awdurdodau lleol yn y de-ddwyrain yn dweud y bydd yn rhaid i gysyniadau gael eu datblygu a'u cyflwyno mewn modd cydgysylltiedig[685].

**841.** Roedd SACRE Torfaen yn cytuno â'r dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn o hyrwyddo cynnydd dysgwyr,[686] tra bod Cyngor Ceredigion yn croesawu'r "ffocws ar gynnydd disgyblion yn hytrach na chyflawniad yn unig":

> "Mae'r camau cynnydd yn gontinwwm bydd yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu ar raddfa sydd yn bwrpasol i'w gallu yn hytrach na'i hoedran ac mae hyn i'w groesawu gan na fydd terfynau 'cuddiedig' yn cael ei roi ar gynnydd."[687]

**842.** O ran manylion y canllawiau statudol dros dro fel y mae'n ymwneud â chynnydd, croesawodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd y ffaith bod nifer o sgiliau iaith a chyfathrebu allweddol sydd wrth wraidd y disgrifiadau o gamau dysgu a chynnydd wedi'u cynnwys.[688] Anogodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar na ddylai'r model cam cynnydd waethygu diwylliant

---

[682] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 261], 20 Gorffennaf 2020.

[683] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 17 Medi 2020.

[684] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 189 – Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol.

[685] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor CYPE, CAW 118 - SEWC LA Improvement Group.

[686] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor CYPE, CAW 130 – Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Tor-faen ar Addysg Grefyddol.

[687] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 54 – Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion.

[688] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 145 – Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, Cymru.

o ddisgwyliadau isel ar gyfer pobl fyddar.[689] Mae'r angen am ddisgwyliadau uchel, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, yn cael ei drafod ym mhennod 10.

**843.** Galwodd rhai rhanddeiliaid blynyddoedd cynnar am gam cynnydd cyn 5 oed, sy'n cael ei drafod ym mhennod 8.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**844.** Disgrifiodd y Gweinidog sut mae cynnydd yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm, yn yr un modd â disgwyliadau o'r cynnydd y dylai plant eu gwneud yn ystod eu haddysg:

> "…all learning and teaching will contribute to progression and should be at the forefront of the school's thinking when designing and planning a curriculum. So, you don't design the curriculum and then bolt on progression to the side of it; it actually is a single, unified process that the school should be thinking about. (…)
>
> We've thought about content and what matters alongside the principles of how you would assess that a child is making progress. Learners' progress should be then identified through a range of assessment measures. So, it's an integral part of it; you can't have one without the other."[690]

**845.** Esboniodd y Gweinidog fod y camau cynnydd a'r disgrifiadau o ddysgu wedi'u cynllunio gan ystyried cymwysterau:

> "In terms of progression, there is (…) national scaffolding to set a national expectation of how we would expect a child's knowledge, experience and skills to develop during their time in statutory education. (…)
>
> …as children progress through their education, and especially at what we would describe as post-14, as you're working towards specific qualifications, subject disciplines that would enable progression on to traditional A-levels—we do need to ensure that there's nothing that departs from that subject specialism that would prevent people from

---

[689] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW – 237 – Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

[690] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 100], 14 Gorffennaf 2020.

moving on, and we've been very clear around the progression steps, about how that detailed knowledge builds up over a period of time."[691]

### Ein barn a'n hargymhellion: cynnydd

**846.** Rydym yn croesawu'r model a nodir yn y Bil a dogfennau cysylltiedig ar gyfer cynnydd dysgwyr ar hyd un continwwm dysgu.

**847.** Credwn y bydd angen i'r Cod Cynnydd ddarparu ar gyfer dysgwyr â lefelau amrywiol o allu a chydnabod lefelau gwahanol o gyflawniad, gan osod disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr sy'n eu hannog i gyrraedd eu potensial llawn. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a phlant sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS), yr ydym yn trafod yn fanylach ym mhennod 10.

**Argymhelliad 48.** Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu'r Cod Cynnydd gyda'r bwriad o hyrwyddo'r dyheadau uchaf i bob dysgwr, gan eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn.

**848.** Nodwn fod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod Cynnydd gael ei wneud yn ddarostyngedig i uwch-weithdrefn negyddol. Oherwydd y pwysigrwydd a fydd gan y Cod wrth gefnogi cyflawniad dysgwyr o dan y Cwricwlwm i Gymru, credwn y dylai fod yn ddarogystngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol (fel yr ydym hefyd wedi argymell mewn perthynas â'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb).

**Argymhelliad 49.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod Cynnydd yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod Cynnydd (neu'r Cod diwygiedig) aros.

## Asesu

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**849.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi symud tuag at ddefnyddio asesu ar gyfer llywio addysgu a dysgu yn bennaf, yn hytrach nag at ddibenion atebolrwydd ysgolion. Dyma'r dull a argymhellir gan y Sefydliad ar gyfer

[691] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 30 a 35], 14 Gorffennaf 2020.

Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)[692] a'r Athro Donaldson[693]. Mae hyn yn cynnwys gorffen cyhoeddi canlyniadau asesu athrawon disgyblion ar lefel ysgol gynradd, oherwydd pryderon bod eu cynnwys mewn mesurau perfformiad ysgolion yn rhwystro eu defnydd i gefnogi cynnydd dysgwyr unigol.

**850.** Ynghyd â diwygio'r cwricwlwm, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu fframwaith atebolrwydd newydd i ysgolion sydd ar wahân i'r Bil, ac mae wedi cyhoeddi ei threfniadau drafft ar gyfer gwerthuso a gwella ysgolion ym mis Chwefror 2019.[694] Dywedodd y Gweinidog fod y rhain wedi eu cynllunio i "helpu i sicrhau'r newid diwylliannol sydd ei angen yn y pen draw i gefnogi'r gwaith o wireddu ein cwricwlwm newydd".[695]

**851.** Mae adran 58 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch trefniadau asesu fel y maent yn ymwneud â'r canlynol:

- y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a phlant;
- y camau nesaf yn eu cynnydd; ac
- yr addysgu a dysgu y mae ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.

**852.** Gwneir y rheoliadau hyn o dan weithdrefn negyddol y Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth.[696]

**853.** Mae dogfennaeth y cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn cynnig tair prif rôl ar gyfer asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru:

- cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd;
- nodi, dal a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser; a

---

[692] Gweler y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Improving Schools in Wales: An OECD Perspective, 2014; a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment, 2017.

[693] Gweler yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus, 2015; a'r Athro Graham Donaldson, Arolygiaeth Dysgu, 2018. Am drafodaeth bellach ar argymhellion yr Athro Donaldson ar asesu, gweler Ymchwil y Senedd, Adolygiad Donaldson: Asesu beth sy'n bwysig, Mawrth 2015.

[694] Llywodraeth Cymru, Trefniadau gwerthuso a gwella, Chwefror 2019.

[695] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 209], 10 Gorffennaf 2019.

[696] O dan y weithdrefn negyddol, rhaid i Weinidogion Cymru osod yr is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd ar ôl iddi gael ei gwneud. Yna, mae gan y Senedd gyfnod o 40 diwrnod i wrthwynebu'r is-ddeddfwriaeth. Os nad yw'r Senedd yn gwrthwynebu, yna mae'r is-ddeddfwriaeth yn parhau i gael effaith.

- deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arfer.[697]

**854.** Nid yw'r dibenion asesu hyn wedi eu nodi ar wyneb y Bil ond gallant gael eu hadlewyrchu mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 58. Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau asesu ar wahân ar gefnogi cynnydd dysgwyr yn ychwanegol at y canllawiau statudol trosfwaol a'r canllawiau statudol ar bob maes dysgu a phrofiad (cyhoeddwyd fersiynau dros dro ohonynt ym mis Ionawr 2020[698]).

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**855.** Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd asesu i gyflawni'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, a ddywedodd wrthym:

> "…it's really important that we have a clear and consistent and coherent understanding of what the assessment system requires from our pupils…"[699]

**856.** Cyfeiriodd pennaeth a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth ysgrifenedig at bwysigrwydd asesu:

> "Effective assessment practice is crucial to the learning process, enabling every learner to make progress. (…)
>
> The Curriculum for Wales places the focus of assessment in schools on formative assessment, taking place while the learning is happening, and considering the whole child – their knowledge, skills, experiences, attitudes, values and wellbeing."[700]

**857.** Disgrifiodd Cyngor Ceredigion ffocws gwahanol yr asesiad o dan y cwricwlwm newydd o'i gymharu â'r trefniadau presennol:

> "Asesu yn rhan annatod o'r dysgu ac addysgu yn hytrach na digwyddiad ar ddiwedd y broses. Mae'r egwyddorion yn adlewyrchu'r angen i

[697] Llywodraeth Cymru, Hwb, Y Cwricwlwm i Gymru 2022, Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu, Ionawr 2020.

[698] Llywodraeth Cymru, Hwb, Y Cwricwlwm i Gymru 2022, Ionawr 2020.

[699] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 20 Gorffennaf 2020.

[700] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 1 – A Bolt, Pennaeth.

> ystyried asesu law yn llaw a chynnydd. Mae hyn yn newid i'r system gyfredol lle mae asesu yn cael ei ddefnyddio yn fwyaf i fesur cynnydd."[701]

**858.** Awgrymodd eraill hefyd y bydd y dull o asesu o dan y cwricwlwm newydd yn dod â newid a fydd yn cael ei groesawu. Dywedodd Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) wrthym:

> "…the Curriculum for Wales has addressed the bad practice in learning and teaching that has evolved from the current assessment and accountability arrangements, which focus on school performance rather than on the learner…. (…)
>
> …through decoupling assessment and accountability and instead placing assessment into pedagogical practice, where it belongs, it becomes an integral part of the curriculum and will therefore have a greater impact on both the professional understanding of assessment and the impact on outcomes for learners, so driving progress and achievement rather than attainment. (…)
>
> …assessing what matters needs to be our guiding principle, and, whilst that may seem an obvious analysis, it's not always reflective of what we do in schools today, and, now more than ever, a purpose-driven curriculum needs purpose-driven assessment, reflecting and enhancing learning rather than detracting from it."[702]

**859.** Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at lefel y manylder yn narpariaethau'r Bil ar gyfer asesu. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol nad oes llawer o fanylion wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil ynglŷn ag asesu[703], er bod Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru wedi dweud nad oes llawer o fanylion yn y ddeddfwriaeth hyd yn hyn[704]. Awgrymodd Ysgol Uwchradd Hwlffordd nad yw'r gwaith o asesu'r

[701] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 54 – Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion.

[702] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 268-270], 20 Gorffennaf 2020.

[703] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[704] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 241], 24 Medi 2020.

dysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol eto er mwyn i'r Bil gael ei gyflwyno ar hyn o bryd.[705]

**860.** Dywedodd ymatebydd unigol i'n galwad am dystiolaeth:

> "Unfortunately, teachers are still very uncertain about how to assess against the new curriculum, which leaves a lot of uncertainty going forward."[706]

**861.** I'r gwrthwyneb, dywedodd consortiwm GwE (Gogledd Cymru) wrthym mai un o'r pethau mwyaf a ddysgwyd yn y Bil hwn yw peidio â gor-ragnodi asesiad a'r atebolrwydd.[707] Mae Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) yn credu bod gan y Bil ddigon o fanylion mewn perthynas â'r elfennau statudol y bydd ysgolion yn gweithio oddi mewn iddynt, tra'n rhoi ymreolaeth i ysgolion allu lunio'r trefniadau asesu wrth iddynt lunio eu cwricwlwm.[708]

**862.** Cytunodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ei bod yn bwysig nad ydym yn dechrau trwy fod yn rhy ragnodol, er ei bod yn cydnabod bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd ar ddeall sut beth fydd y broses a'r system asesu.[709]

**863.** Soniodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru hefyd am asesu yng nghyd-destun ehangach atebolrwydd ysgolion:

> "…I think it's really important as well that we are not driven by a performance accountability based system, so that there's flexibility in the system for children to develop at a stage that is appropriate to them, with the overall aim of them achieving the best that they possibly can."[710]

**864.** Dywedodd Estyn wrthym:

---

[705] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 11 – Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd.

[706] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 36 – Unigolyn.

[707] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 280], 20 Gorffennaf 2020.

[708] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 268-270], 20 Gorffennaf 2020.

[709] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 20 Gorffennaf 2020.

[710] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 20 Gorffennaf 2020.

> "It has been evident with the current curriculum that accountability arrangements, particularly performance measures, have driven behaviours and, at times, led to unintended consequences. As the evaluation and improvement arrangements are finalised, it will be important that Welsh Government ensures they align with the principles of the new curriculum."[711]

**865.** Ysgrifennodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL) y bydd angen newidiadau i'r hyn sydd ar hyn o bryd yn system atebolrwydd uchel er mwyn sicrhau nad yw'r cwricwlwm newydd yn achos o "ddillad newydd yr Ymerawdwr":

> "There needs to be reference to re-thinking a high stakes accountability system, which if it remains will simply mean that we will not have moved forward one jot. There is plenty of international evidence to show that this has a stifling effect upon relevant and authentic teaching and learning. This needs to be replaced by a fully functioning self-improving school system which while mentioned in the National Mission, has currently little traction."[712]

**866.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru fod angen sicrhau bod system atebolrwydd sy'n gweithio gyda'r ysgol ac nid yn erbyn yr ysgol, gan ychwanegu:

> "Another challenge will be ensuring—and I think this is really important—that the accountability and assessment systems match the adaptive process taken by that school. (…)
>
> …there will need to be the creation of a high-risk, low-blame culture that will allow teachers to think outside the box and try these new things."[713]

**867.** Awgrymodd NASUWT mai'r "system asesu", yn hytrach na'r cwricwlwm ei hun, sydd ddim yn addas at y diben[714], er bod UCAC wedi dadlau y dylai'r trefniadau asesu ac atebolrwydd gyd-fynd â'r newid diwylliant sy'n gysylltiedig â'r

---

[711] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 20 – Estyn.

[712] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW26 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru).

[713] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 24 Medi 2020.

[714] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 156], 24 Medi 2020.

cwricwlwm newydd a'r math o sgiliau bywyd go iawn y mae PISA a'r OECD yn eu mesur.[715].

**868.** Er mwyn ceisio canfod barn plant a phobl ifanc ar y trefniadau asesu cyfredol, gofynnwyd iddynt yn ein harolwg am y Bil beth oedd eu barn ar y ffordd y mae athrawon yn rhoi adborth iddynt ar eu gwaith a sut y gallent wella:

- Dywedodd 26 y cant o'r ymatebwyr fod adborth athrawon yn dda ac yn egluro pethau'n ddigonol;
- Dywedodd 57 y cant fod adborth athrawon yn iawn ond weithiau bod angen ei egluro'n wahanol;
- Dywedodd 16 y cant nad oedd adborth athrawon yn dda ac yn aml mae angen ei egluro'n wahanol.[716]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**869.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gyntaf ar y Bil, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai rheoliadau'n rhagnodi'r manylion gweithredol y byddai'n ofynnol i ysgolion a lleoliadau eu dilyn wrth gynllunio a gweithredu trefniadau asesu. Dywedodd fod hyn yn dyblygu i raddau helaeth y sefyllfa bresennol, lle mae mwyafrif y manylion gweithredol wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth (adran 108 o Ddeddf Addysg 2002).[717]

**870.** Pan ofynnwyd iddi a ddylai'r rheoliadau, a fydd yn cael eu gwneud o dan adran 58 o'r Bil, fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol, dywedodd y Gweinidog fod y Bil fel y'i drafftiwyd yn adlewyrchu'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol.

**871.** Yn ystod ei hail ymddangosiad, awgrymwyd i'r Gweinidog mai ychydig iawn sydd ar wyneb y Bil o ran asesu, gan ystyried y rôl sylfaenol y bydd yn ei chwarae wrth gyflawni'r cwricwlwm newydd. Ymatebodd y Gweinidog:

[715] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 235-236], 24 Medi 2020.

[716] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Arolwg Plant a Phobl Ifanc, Hydref 2020.

[717] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 103], 14 Gorffennaf 2020.

> "Assessment is an intrinsic part of the Curriculum for Wales, and it's certainly not separate from teaching and learning, and schools need to plan for that in their assessment arrangements. (…)
>
> The powers within the Bill do enable regulations to be made that prescribe the operational details that schools and other settings will need to follow in designing and implementing assessment arrangements. They also allow for any national assessment arrangements that we may wish to implement."[718]

**872.** Ychwanegodd un o swyddogion y Gweinidog fod yr heriau ynghylch asesu yn ymwneud â gweithredu a'r newid meddylfryd o ran sut mae ysgolion yn meddwl, yn ogystal â'r ddeddfwriaeth ei hun.[719]

**873.** Wrth sôn am ganfyddiad ein harolwg bod bron i dri chwarter y plant a'r bobl ifanc wedi dweud y gallai'r adborth y mae athrawon yn ei roi iddynt ar eu gwaith fod yn well, dywedodd y Gweinidog:

> "It is telling, isn't it, […]—very telling indeed. What's really important for children is that they want to know how they can improve—they want to do better, and that feedback from teachers is a key way in which they can understand about what their next steps in their learning are. (…)
>
> …draft guidance on assessment, to support learner progression, was published in January of this year, so the guidance is already out there to schools. I guess, if we felt it was necessary, we could use powers within the Act to mandate that."[720]

## Ein barn a'n hargymhellion: asesu

**874.** Nodwn fod consensws cryf ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth y bydd trefniadau asesu effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y cwricwlwm newydd. Serch hynny, ychydig o fanylion sydd wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil, gyda manylion sylweddol yn cael eu gadael i'r rheoliadau. Er bod y Gweinidog yn dweud bod hyn yn adlewyrchu'r status quo, mae diffyg y manylion hyn yn ei gwneud hi'n anodd i ni ystyried yr elfen hon o'r Bil yn llawn.

---

[718] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 21 Hydref 2020.

[719] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 21 Hydref 2020.

[720] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 21 Hydref 2020.

**875.** O ystyried y diffyg manylder ar wyneb y Bil a phwysigrwydd trefniadau asesu wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol, credwn:

- y dylid diwygio adran 58(1) fel bod *rhaid* i reoliadau (yn hytrach na *caiff)* gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau asesu; a
- dylai'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 58 fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na gweithdrefn negyddol y Senedd. Credwn fod hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod cyfle i graffu'n ddigonol ar drefniadau yr ystyrir eu bod yn allweddol i'r gwaith o weithredu'r Bil hwn yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 50.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio adran 58(1) o'r Bil i ddileu "caiff" a rhoi "rhaid" yn ei le.

**Argymhelliad 51.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod rheoliadau a wneir o dan adran 58 ynghylch trefniadau asesu yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**876.** Rydym yn croesawu'r pwyslais mai'r prif bwrpas asesu yw llywio addysgu a dysgu, nodi cryfderau a gwendidau disgyblion unigol, a chanfod beth sydd angen ei wneud i'w helpu i wella. Rhaid i'r gwaith ehangach i ddatblygu trefniadau atebolrwydd ysgolion newydd ystyried hyn fel ei fod yn ategu'r Bil a dull y cwricwlwm.

**877.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi trefniadau gwerthuso a gwella drafft ym mis Chwefror 2019. Credwn y dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran lle mae'r gwaith hwn wedi'i gyrraedd, gan gynnwys cyfeiriad penodol at sut mae'n eistedd ochr yn ochr â'r Bil a diwygio'r cwricwlwm yn ehangach.

**Argymhelliad 52.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad, yn barod ar gyfer gweithredu'r Bil, ar y gwaith parhaus y tu hwnt i'r Bil i ddiwygio trefniadau atebolrwydd ysgolion ac egluro sut y bydd hynny'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.

**878.** Nodwn y ffaith bod bron i dri chwarter y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg ar y Bil yn credu y gellid gwella'r ffordd y mae athrawon yn asesu eu gwaith ac yn rhoi adborth. Cytunodd y Gweinidog fod hyn yn datgelu llawer. Yn sgil hyn, rydym yn annog y Llywodraeth i sicrhau bod y canllawiau asesu a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar asesiad athrawon ac adborth i ddysgwyr.

**Argymhelliad 53.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau asesu a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar asesiad athrawon ac adborth i ddysgwyr.

**879.** Nodwn fod tystiolaeth y Gweinidog yn awgrymu na fydd y canllawiau ar asesu, a gyhoeddir i gefnogi trefniadau gweithredu'r cwricwlwm, yn statudol. Os felly, mae hyn yn wahanol i fwriad Llywodraeth Cymru ynghylch canllawiau eraill i'w cyhoeddi o dan y Bil, ac nid ydym yn glir pam hynny.

**Argymhelliad 54.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd y canllawiau sydd i'w cyhoeddi ar asesu yn statudol, ac os nad yw'n statudol, ystyried a oes angen iddo fod.

## Cymwysterau

### Y drefn a nodir yn y Bil a'r cefndir ehangach

**880.** Ni chyfeirir at gymwysterau yn y Bil, ac nid yw ychwaith yn gwneud unrhyw ddarpariaethau ynghylch y rôl y mae disgwyl iddynt ei chwarae mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Pwrpas hyn yw gwahanu'r gwaith o ddiwygio cymwysterau y bydd y Cwricwlwm i Gymru ei angen a'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm ei hun.

**881.** Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth a'i phartneriaid yn cydnabod yn glir y bydd angen newid cymwysterau er mwyn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Mae'r rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru, wrthi'n cynnal cyfres o ymgynghoriadau ynghylch cynllunio a datblygu cymwysterau newydd. O dan amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru, bydd cyrsiau sy'n arwain at y cymwysterau hyn yn cael eu hastudio o fis Medi 2025 pan fydd garfan gyntaf y Cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 10.

**882.** Mae Cymwysterau Cymru wedi llunio tri cham i'w gwaith o reoli diwygio cymwysterau[721], gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar bob cam, a fydd yn anelu at fynd i'r afael yn raddol â chwestiynau allweddol ynghylch sut y dylai cymwysterau yn y dyfodol edrych.

- Cam 1: Y dull lefel uchel a ddylai siapio'r ystod o gymwysterau yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed (Tachwedd 2019 – Chwefror 2020).

[721] Cymwysterau Cymru, Cymwys ar gyfer y dyfodol.

- Cam 2: Penderfynu pa gymwysterau fydd ar gael (wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2021).
- Cam 3: Cynllunio a datblygu cymwysterau unigol (wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd 2021).

**883.** Penderfynodd Cymwysterau Cymru, yn dilyn ymgynghoriad cam 1, ar gyfres o egwyddorion arweiniol, sef: dylai cymwysterau ymwneud â'r cwricwlwm newydd a'i gefnogi; dylai fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg; a dylai gyfrannu at gynnig cydlynol a chynhwysol. Penderfynodd hefyd y dylid cadw'r brand TGAU gyda chynnwys a threfniadau asesu wedi'u diweddaru, ac y dylid adolygu'r Dystysgrif Her Sgiliau yng nghyd-destun y newidiadau ehangach i gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed.[722]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**884.** Pan lansiodd Cymwysterau Cymru ei gyfres o ymgynghoriadau ynghylch diwygio cymwysterau, disgrifiodd yr Athro Donaldson sut roedd diwygio'r cwricwlwm wedi cyrraedd un o'r "mannau tyngedfennol", gan ddweud:

> "Un o'r ffactorau mwyaf tyngedfennol ar gyfer ysgolion uwchradd yn arbennig fydd sut mae holl waith y cwricwlwm yn berthnasol i'r cymwysterau y bydd pobl ifanc yn eu sefyll pan maen nhw'n 16 oed ac ar ôl hynny. (…)
>
> "Mae gwneud hynny'n iawn, pontio rhwng y cwricwlwm a'r cymwysterau, y mynegiad rhwng natur yr hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud drwy'r cwricwlwm a'r ffordd y caiff hynny ei gydnabod ac y caiff y llwyddiannau eu cydnabod drwy gymwysterau, yn dyngedfennol i lwyddiant yr holl broses."[723]

**885.** Fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil, mae llawer o randdeiliaid wedi pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod y cymwysterau yn cyd-fynd yn effeithiol â'r cwricwlwm newydd. Fe wnaeth yr ASCL grynhoi'r angen i gymwysterau newid, gan ddweud ei bod hi'n amlwg nad yw'r system gymwysterau yn cyd-fynd â

[722] Cymwysterau Cymru, Penderfyniadau ar sut y byddwn yn llunio'r ystod o gymwysterau fydd ar gael yn y dyfodol i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru., 2020.

[723] Cymwysterau Cymru, Cymwys ar gyfer y dyfodol.

dyheadau'r cwricwlwm newydd. Disgrifiodd ei gynrychiolydd yr angen am gymwysterau hyblyg sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm ei hun.[724]

**886.** Mae awdurdodau lleol yn y gogledd yn credu ei bod "yn hanfodol bod natur a diwygiad cymwysterau yn digwydd yn gyflym" ac yn cael eu "cyfleu'n glir".[725] Dywedodd consortiwm GwE wrthym y byddai "cael y briodas yna rhwng y cwricwlwm a ffyrdd addas a phriodol o fesur ar gyfer y dyfodol" yn "gam mawr".[726]

**887.** Trafododd cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogadwyedd a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron p'un a ddylai'r cwricwlwm roi'r pwysau mwyaf ar ddatblygu sgiliau neu ennill cymwysterau. Fodd bynnag, roed nifer ohonynt yn credu bod cymwysterau yn bwysig wrth ddangos cyflawniad, rhoi meincnod defnyddiol o allu a dangos bod unigolyn yn cwrdd â safon ofynnol.

**888.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn awyddus i gael darlun cliriach o sut beth fydd y cymwysterau o dan y cwricwlwm newydd. Dywedodd Colegau Cymru nad yw'n glir sut y bydd y cymwysterau newydd yn gweithio ac a fyddant yn cadw dull tebyg o ymdrin â phynciau neu'n dilyn y meysydd dysgu a phrofiad ehangach.[727] Dywedodd Coleg Cambria bod angen gwneud mwy i ddeall sut mae TGAU a Safon Uwch yn dod o fewn y system.[728] Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hyd yma, nad oes gennym ddigon o wybodaeth ar sut y bydd y cymwysterau'n cefnogi'r cwricwlwm.[729]

**889.** I rai, dylid mynd i'r afael â'r mater o sut y bydd cymwysterau'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd yn y Bil ei hun, neu o leiaf ei ddatrys cyn gynted â phosibl. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau wrthym:

> "The fact that qualifications are separate from this is a real weakness in terms of the new curriculum in Wales. (…)

[724] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 48 a 149], 24 Medi 2020.

[725] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 189 – Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol.

[726] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 284], 20 Gorffennaf 2020.

[727] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 271], 20 Gorffennaf 2020.

[728] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 91 – Colegau Cymru.

[729] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 3 – Coleg Cambria.

> The issue is going to be what are the changes going to be in terms of the qualifications. How are they going to dovetail into the new curriculum? (…)
>
> We've got a problem in Wales of the tail wagging the dog in the situation of bringing in a new curriculum at a time when you haven't touched the qualifications."[730]

**890.** Fodd bynnag, dywedodd Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) wrthym eu bod yn credu y bydd ymgynghoriadau pellach pan fydd mwy o wybodaeth ar gael ond y gellir penderfynu ar lawer o hyn dim ond gyda chwricwlwm y cytunwyd arno ar waith.[731]

**891.** Yn ôl UCAC:

> "…rwy'n credu, mewn ffordd, bod y Llywodraeth wedi bod yn gywir i arwain gyda'r cwricwlwm a newid y cymwysterau wedyn, achos mae perygl, fel arall, bod y cymwysterau'n penderfynu popeth a bod hynny'n bwydo reit nôl lawr drwy'r system—felly, cael y cwricwlwm yn gywir.
>
> Ac wedyn, canlyniad hynny yw dwi'n credu bod angen i ni fod yn ddewr ynglŷn â beth rŷn ni'n gwneud gyda chymwysterau, efallai ddim yn syth bin, ond dros gyfnod, achos mae'n rhaid i'r cymwysterau gydweddu a chyd-fynd gyda'r cwricwlwm. Allwn ni ddim cael rhyw fath o fwlch diwylliannol, addysgol rhwng natur y cwricwlwm a natur y cymwysterau."[732]

**892.** Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf y dylai'r cwricwlwm ddiffinio cymwysterau ac nid y ffordd arall.[733] Wrth roi tystiolaeth lafar ar y Bil, dywedodd ei Brif Weithredwr:

> "…there's become such a focus on qualification for 14 to 16-year-olds and beyond that they become the personification of the curriculum rather

[730] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 181, 230 a 232], 24 Medi 2020.

[731] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 271], 20 Gorffennaf 2020.

[732] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 253], 24 Medi 2020.

[733] Tystiolaeth lafar, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 22 Ionawr 2020; Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 6 Rhagfyr 2018; a Cofnod y Trafodion [paragraffau 37 a 75], 6 Rhagfyr 2017.

> than something that supports the curriculum and demonstrates achievement."[734]

**893.** Mae'r rheoleiddiwr hefyd wedi rhoi hyn mewn cyd-destun ehangach, gan ddangos yr effaith y mae trefniadau ar gyfer cymwysterau yn ei chael ar agwedd ysgolion tuag at y cwricwlwm a'r agenda gwella ysgolion:

> "Under current arrangements, there can be a tendency for school improvement activities to focus on improving qualifications outcomes as an end in itself, rather than improved learner performance being the natural consequence of better teaching and learning. This approach can have several unintended negative impacts, such as a narrowing of the curriculum, prioritising teaching time for qualifications that feature in performance measures, offering qualifications based on their contribution to performance measures rather than value to learners, increasing pressure on assessment integrity, and teaching to the test."[735]

**894.** Felly nododd Cymwysterau Cymru nad oes ganddo unrhyw bryderon nad yw'r Bil yn siarad yn uniongyrchol am gymwysterau:

> "…this is the curriculum Bill, and in this notion of curriculum leading qualifications, the curriculum coming first, we think that's the right way of sequencing these things. The curriculum sets out the body of knowledge, the things that we're expecting education to deliver. Qualifications will relate to that, and we'll look at assessing a sample of knowledge, skills and understanding that are expected within that curriculum."[736]

**895.** Pan ofynnwyd am ei benderfyniad i gadw'r brand TGAU er gwaethaf diwygio'r cwricwlwm yn sylfaenol, dywedodd Cymwysterau Cymru:

> "Fe wnaethom ni edrych arno yn reit fanwl yn yr ymgynghoriad diwethaf. Doedden ni ddim yn gweld bod yna ryw lawer i'w ennill drwy fynd ar ôl ailfrandio cymwysterau lle mae yna dipyn o hygrededd cyhoeddus ac ymddiriedaeth allan yna. Byddai hi'n dipyn o waith i ni orfod ailadeiladu hynny, ac efallai byddai hynny'n tynnu'r sylw i ffwrdd

---

[734] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 17 Medi 2020.

[735] Gohebiaeth, Cymwysterau Cymru i Bwyllgor Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Chwefror 2020.

[736] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 88], 17 Medi 2020.

> o'r penderfyniadau pwysig ynglŷn â sut i fynd ati i asesu ac i ddylunio cymwysterau penodol."[737]

**896.** Mae cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogadwyedd yn cytuno â hyn ac yn annog cadw'r brand TGAU, hyd yn oed os bydd y cynnwys yn newid.[738]

**897.** Wrth ofyn sut y bydd cymwysterau yn y dyfodol yn adlewyrchu natur bwrpasol y cwricwlwm newydd, dywedodd Cymwysterau Cymru eu bod yn annhebygol o asesu'n uniongyrchol yn erbyn y pedwar diben ond y byddant yn dystiolaeth o gyrhaeddiad yn erbyn agweddau arnynt. Eglurodd y Prif Weithredwr:

> "…qualifications are always intended to be able to assess knowledge, skills and understanding. Maybe at the moment qualifications are focused too much on the first of those, on knowledge, so it's about content recall, which is lower order skills rather than skills and understanding, which are higher order skills. It's probably those higher order skills that are the important part of the purposes. So, actually, moving away from content recall into greater levels of evidence in knowledge and understanding will probably help to evidence the purposes."[739]

**898.** O ran symud i ffwrdd o ddisgyblaethau pwnc traddodiadol tuag at feysydd eang a arweinir at bwrpas, dywedodd Cymwysterau Cymru fod ffafriaeth eithaf clir y dylai cymwysterau unigol barhau i gael eu strwythuro'n bennaf o amgylch disgyblaethau pwnc, yn hytrach ceisio rhychwantu'r maes dysgu a phrofiad cyfan, er enghraifft:

> "…we don't think there's a demand there, as we see it, to move wholesale away from subject disciplines and all the way over to broad areas of learning, when it comes to qualification design."[740]

**899.** Ychwanegodd Cymwysterau Cymru y gallai fod cyfleoedd i gydgrynhoi rhai meysydd pwnc, trwy gymwysterau integredig. Felly gallai ysgolion gael dewis rhwng cymwysterau yn seiliedig ar ddisgyblaethau pwnc a'r rhai sy'n mabwysiadu

---

[737] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 17 Medi 2020.

[738] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth o drafodaeth ford gron rithwir gyda rhanddeiliaid, Hydref 2020.

[739] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 64], 17 Medi 2020.

[740] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 68-69], 17 Medi 2020.

dull mwy rhyng-gysylltiedig a chyfannol sy'n adlewyrchu'r meysydd dysgu a phrofiad.[741]

**900.** Wrth ofyn sut y byddai'n cyflawni'r dasg o gynllunio cymwysterau cyffredin ledled Cymru, pan fydd gan ysgolion eu cwricwlwm lleol eu hunain, dywedodd Cymwysterau Cymru y bydd yn defnyddio dull fesul cymhwyster a fesul pwnc. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y cydbwysedd cywir mewn perthynas â lefelau presgripsiwn a hyblygrwydd, ynghyd â ffactorau fel dulliau asesu.[742]

**901.** Rhoddodd Cymwysterau Cymru wybodaeth bellach inni am y dull y bydd yn ei gynnig yn ei ymgynghoriad nesaf yn gynnar yn 2021:

> "Ar y cyfan, byddwn yn cynnig y dylai'r prif gymwysterau TGAU barhau i gynnwys llawer o'r pynciau sydd ar gael ar hyn o bryd, yn hytrach na symud at gymwysterau llawer ehangach sy'n ceisio cwmpasu meysydd dysgu a phrofiad cyfan. Byddwn hefyd yn awgrymu rhai newidiadau posibl i bynciau, cyflwyno rhai newydd a chyfuno rhai sy'n bodoli eisoes. Byddwn hefyd yn nodi cyfleoedd posibl ar gyfer datblygu cymwysterau mwy integredig. (…)
>
> Un ystyriaeth allweddol yw cynnig yr hyblygrwydd mwyaf posibl i ysgolion a dysgwyr ddewis gwahanol gyfuniadau o gymwysterau i gefnogi profiadau cwricwlwm eang a chytbwys".[743]

**902.** Amlygodd y rheoleiddiwr hefyd nad yr ystod o gymwysterau sydd ar gael fydd y newid mwyaf sylweddol ond sut y cânt eu hasesu:

> "Efallai na fydd yr ystod gyffredinol arfaethedig o bynciau yn edrych yn wahanol iawn i'r un presennol, ond gallai hyn barhau i arwain at rai newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff cymwysterau unigol eu cynllunio a'u hasesu."[744]

[741] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 69], 17 Medi 2020.

[742] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 81], 17 Medi 2020.

[743] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Cymwysterau Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Medi, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[744] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Cymwysterau Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Medi, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**903.** Roedd y Gweinidog yn ddigamsyniol ynghylch yr angen i gymwysterau newid yn sgil y cwricwlwm:

> "I've been very clear, and Qualifications Wales, our regulatory body, recognises, that qualifications will need to change to reflect the new curriculum, without a shadow of a doubt. (…)
>
> …the Bill inevitably leads to the need to review the nature of qualifications and it gives us, as I've said, a valuable chance to really think about qualifications for the future."[745]

**904.** Fodd bynnag, nododd fod yn rhaid datblygu'r cwricwlwm yn gyntaf a gynllunio cymwysterau i gyd-fynd â nhw, nid y ffordd arall:

> "The Bill is about a curriculum and designing a curriculum—it's not about qualifications. (…)
>
> …it's a really important point of principle that it's the curriculum that dictates the nature of the qualification and we don't retrofit the curriculum to fit the nature of the qualification. […] there's a culture that has grown up in Welsh education that says, 'Well, you just tell us what's in the qualification spec and the exam and then we will teach that.' If we carry on doing that, this reform will not succeed. The qualifications have to come at the end and be dictated by the curriculum."[746]

## Ein barn a'n hargymhellion: cymwysterau

**905.** Nodwn y farn glir gan Lywodraeth Cymru a'r rheoleiddiwr (Cymwysterau Cymru) bod yn rhaid i'r cwricwlwm ddiffinio cymwysterau, nid y ffordd arall. Roedd cefnogaeth ar y cyfan i'r dull hwn, er bod anghytundeb ymhlith rhai rhanddeiliaid. O ystyried dull pwrpasol y cwricwlwm newydd, a'i nod i wneud mwy na dim ond 'addysgu ar gyfer y prawf', credwn fod penderfynu beth ddylai disgyblion ei ddysgu yn gyntaf, ac yna llunio cymwysterau i asesu a dangos cyflawniad ar ôl hynny, yn hanfodol i'w lwyddiant.

**906.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi awydd y sector cyfan i wybod beth mae'r cwricwlwm newydd yn ei olygu mewn gwirionedd ar gyfer cymwysterau. Er nad

[745] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 150 a 153], 21 Hydref 2020.

[746] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 150 a 153], 21 Hydref 2020.

cymwysterau yw unig bwrpas addysg, rydym yn cydnabod eu bod fel arfer yn cynrychioli penllanw rhaglen ddysgu ac na allant fod yn ôl-ystyriaeth.

**907.** Yn sgil hyn, credwn, er bod angen llunio a chyfleu'r cwricwlwm yn gyntaf, fod yn rhaid i'r gwaith i ystyried pa gymwysterau fydd eu hangen i ddangos cyflawniad ddilyn yn gyflym wedi hynny. Nodwn y gyfres o ymgynghoriadau y mae Cymwysterau Cymru yn eu cynnal ac anogwn y dylai'r rhain geisio sicrhau cymaint o gyfranogiad a mewnbwn â phosibl gan randdeiliaid.

**Argymhelliad 55.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i barhau gyda chyflymder â'r gwaith i ddiwygio cymwysterau, gan sicrhau bod y cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed a'r Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd cymaint â phosibl.

**908.** Mae'r dull a arweinir gan ddibenion a natur fframwaith y cwricwlwm newydd yn gosod heriau wrth lunio cymwysterau. Mae'n debygol y bydd angen newid y gydberthynas uniongyrchol rhwng astudio pynciau unigol a chymwysterau priodol er mwyn symud i ffwrdd o ddisgyblaethau pwnc i feysydd dysgu a phrofiad eang. Fodd bynnag, dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym ei bod yn debygol y bydd cymwysterau o hyd mewn disgyblaethau pwnc, er y gall hyn amrywio yn ôl cymhwyster a phwnc. Yn ein barn ni, ni ellir goramcangyfrif pwysigrwydd llunio cymwysterau yn ôl y cwricwlwm newydd.

**909.** Credwn y dylai'r maes gwaith hwn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid, gan gynnwys Cymwysterau Cymru yn benodol. Er ein bod yn cydnabod nad yw hwn yn fater uniongyrchol i'r Bil ei hun, mae sicrhau bod y cymwysterau a gynigir yn iawn yn gwbl hanfodol i lwyddiant y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 56.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru yn ofalus wrth ddiwygio cymwysterau i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac, wrth gynnal rôl Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol, yn rhoi arweiniad a chyfeiriad clir i sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau ar y trywydd iawn.

# 12. Gweithredu

Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu'n dangos y gefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r gefnogaeth hon yn amodol ar gael rhagor o sicrwydd am y trefniadau i'w weithredu. Tynnwyd sylw at yr angen am addysg broffesiynol fel rhwystr penodol posibl i weithredu'r Bil yn llwyddiannus. Hefyd, pwysleisiodd llawer o randdeiliaid y byddai cyflawni nodau'r Bil yn heriol iawn yn sgil pandemig COVID-19.

**910.** Fel llawer o ddarnau o ddeddfwriaeth, bydd y mwyafrif helaeth o'r darpariaethau yn y Bil hwn yn dod i rym "ar ba ddiwrnod neu ddiwrnodau bynnag y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu neu eu pennu drwy orchymyn".[747] At hynny, caiff Gweinidogion Cymru bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol, felly nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd.[748]

**911.** Er nad yw'r Bil yn pennu ar ba ddyddiad y bydd ei ddarpariaethau yn dod i rym, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, mewn ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 (blwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd fel arfer) i ddechrau, cyn ei ymestyn i grwpiau blwyddyn dilynol wrth i'r disgyblion hyn fynd drwy'r ysgol, nes iddynt gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27. Mae'r Gweinidog Addysg wedi dweud nad yw'r amserlen hon wedi newid er gwaethaf pandemig COVID-19, er y parheir i adolygu'r sefyllfa.[749]

**912.** Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022'. Pwrpas datganedig y ddogfen yw "nodi disgwyliadau cyson ar gyfer ysgolion o ran proses gynllunio eu cwricwlwm a pharatoi i'w weithredu o 2022 ymlaen". Mae'n esbonio bod y disgwyliadau hyn wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac Estyn, i "helpu ysgolion i gynllunio eu dull gweithredu a threfn eu gweithgarwch – yn ogystal â llywio'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol yn ei gynnig". Y bwriad datganedig

[747] Adran 79(2) o'r Bil.

[748] Adran 79(3) o'r Bil.

[749] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 25], 14 Gorffennaf 2020.

yw y bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu yn 2021 "er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau'n parhau'n berthnasol ac yn gyfredol".[750]

**913.** Crynhodd Colegau Cymru farn llawer o randdeiliaid am weithredu'r Bil, a ddywedodd fod hyn yn fwy o her o ran cyflawni na her ddeddfwriaethol[751]. Clywsom gan gyflogwyr yn ein trafodaethau bord gron rhithwir, er ei bod yn bosibl y gall y cyfleoedd yn y Bil fod yn weddnewidiol, mai gweithredu yw'r maen tramgwydd posibl.[752] Mynegodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol farn debyg, gan esbonio fel a ganlyn:

> "…the devil will be in the detail in terms of how this is implemented, because whilst the principles, I think, are sound, we could all write a set of principles that we all agree with on paper, but actually the implementation of that is a much bigger challenge."[753]

**914.** Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi adolygu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu proses ddiwygio'r cwricwlwm ac wedi gwneud argymhellion yn ei chylch. Adroddodd yr OECD y canlynol ym mis Hydref 2020:

> "The challenge for Wales at this stage is to remain true to the vision while shifting the perspective of the strategy from being policy-driven to one focused on schools. To ensure the intentions of the new curriculum translate into practice, it is essential for Wales to address several issues, including a lack of deep understanding of what successful realisation of the curriculum might look like in practice, challenges for schools to design their own curriculum, and implications in terms of developing specific capabilities."[754]

**915.** Yn dilyn adroddiad yr OECD, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gwella, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'[755] a chyhoeddi 'Cwricwlwm

---

[750] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022, Hydref 2020.

[751] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 48 – Colegau Cymru.

[752] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[753] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 8 Hydref 2020.

[754] OECD, Achieving the new Curriculum for Wales, Hydref 2020.

[755] Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad Hydref 2020.

i Gymru: Y daith i 2022',[756] gan nodi disgwyliadau ar ysgolion ynghylch gweithredu'r cwricwlwm newydd.

## Rhwystrau posibl i weithredu'n llwyddiannus

**916.** Yn y dystiolaeth rydym wedi'i chael yn ystod Cyfnod 1, dysgu proffesiynol ac argaeledd adnoddau ariannol yw'r rhwystrau posibl a nodwyd amlaf i weithredu'r Bil yn llwyddiannus.

**917.** Roedd rhwystrau posibl eraill a godwyd gyda ni yn cynnwys:

- ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth;
- graddau ymgysylltu â'r gweithlu, cyd-awduro a chydweithredu;
- yr angen i gyflawni'r newid hwn ochr yn ochr â diwygiadau sylweddol eraill, gan gynnwys y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY);
- argaeledd adnoddau a deunydd dysgu/addysgu a chymorth arbenigol;
- capasiti cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysg (a drafodir yn fanylach ym mhennod 5;
- negeseuon am oblygiadau'r Bil.

**918.** Mewn perthynas â dysgu proffesiynol ac ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

- "…bydd dysgu proffesiynol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn ymwybodol o'r cwricwlwm newydd a'i fod yn ymgysylltu ag ef a bod gan ymarferwyr y sgiliau priodol mewn perthynas â'r cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion";[757]
- mae'r 'Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol' (a lansiwyd yn 2018) yn creu "gweledigaeth sy'n addas ar gyfer y system addysg wrth iddi esblygu yng Nghymru i bob ymarferydd addysg";[758]

[756] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022, Hydref 2020.

[757] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.177.

[758] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.126.

- mae hyn yn cyd-fynd â'r model 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu' (a lansiwyd yn 2019) sy'n "cefnogi'r newid ehangach i greu system addysg sy'n hunanwella";[759]

- Dyrannwyd £24 miliwn dros ddwy flynedd (2018/19 – 2019/20) ar gyfer dysgu proffesiynol i ysgolion baratoi at y cwricwlwm newydd, gyda dyraniad ychwanegol "ar gael yn ystod 20/21 i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm ymhellach";[760]

- "Rhagwelir y bydd cyllid o £15 miliwn y flwyddyn yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol", gan ddod i ben yn 2025-26 "oherwydd bydd y cwricwlwm newydd wedi ei sefydlu erbyn hynny".[761]

**919.** O ran ymgysylltu â'r gweithlu, cyd-awduro, cydweithredu a chyfathrebu, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "Llywodraeth Cymru wedi trafod ac wedi ymgynghori'n eang ar ddiwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol ers 2012, ac wedi gweithio gyda'i phartneriaid drwy gyd-awduro" a bod hyn wedi "llywio" darpariaethau'r Bil. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> "Mae diwygio'r cwricwlwm a'r broses diwygio addysg ehangach wedi'u nodweddu gan ddull cyd-awduro. Bydd hyn yn parhau i fod yn nodwedd hanfodol ar y dull gweithredu wrth fynd ati i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Bydd angen cryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall beth sy'n newid a beth mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn ei olygu iddyn nhw. Disgwylir i'r prif weithgareddau gynnwys ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynghylch y newidiadau sy'n effeithio ar eu haddysg a digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at y gweithlu addysg."[762]

**920.** O ran diwygio addysg yng Nghymru, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn "rhan o raglen ehangach" ac yn "un o'r cyfryngau i ategu rhaglen eang o ddiwygio addysgol".[763] Mae'n cydnabod ymhellach y:

> "…bydd angen cefnogaeth ac adnoddau digonol ar y grwpiau perthnasol o fewn y system addysg yng Nghymru i'w gwneud yn bosibl

[759] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.134.

[760] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.135.

[761] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.179.

[762] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.175.

[763] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1.1 ac 8.2.

gweithredu'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn effeithiol ynghyd â newidiadau eraill yn y system."[764]

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

### Addysg gychwynnol i athrawon (AGA) a dysgu proffesiynol

**921.** Roedd yr angen am hyfforddiant a dysgu proffesiynol digonol i ddarparu'r cwricwlwm newydd yn thema glir drwy gydol y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gawsom, gydag Estyn yn sôn am hyn fel yr ysgogwr allweddol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.[765]

**922.** Cododd llawer o randdeiliaid bryderon ynghylch a yw gwir raddfa'r dysgu proffesiynol sydd ei angen wedi'i ddeall yn llawn, yn enwedig mewn meysydd fel Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (a drafodir yn fanylach ym mhenodau 6 a 7 yn y drefn honno), hawliau dynol (a drafodir yn fanylach ym mhennod 4) ac iechyd meddwl (a drafodir yn fanylach ym mhennod 4). Cododd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig bryderon am ddiffyg ystyriaeth o'r effaith y bydd cynllunio a pharatoi'r cwricwlwm newydd yn ei chael ar y cyfleoedd gofynnol ar gyfer dysgu proffesiynol.[766]

**923.** Soniodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) fod dysgu proffesiynol yn hanfodol i lwyddiant y ddeddfwriaeth, gan esbonio y bydd y dull gweithredu newydd yn golygu cael gweithlu addysgu o ansawdd uchel sydd wedi'i hyfforddi'n llawn wrth ddarparu dysgu dwfn, addysgeg newydd, asesu parhaus, datblygu gwybodaeth a dyfnder pwnc a gwyddor dysgu.[767] Mewn tystiolaeth lafar, cyfeiriodd ei chynrychiolydd at bwysigrwydd amser, arian a dulliau gweithredu ar sail tystiolaeth i ddarparu hyn.[768] Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod hyfforddiant yn allweddol i weithredu'r Bil.[769]

**924.** Soniodd Comisiynydd y Gymraeg hefyd am bwysigrwydd AGA, dysgu a datblygu proffesiynol, a chapasiti'r proffesiwn i ymdrin â maint a graddfa'r

[764] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.3.

[765] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 20 – Estyn.

[766] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 225 – Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

[767] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW26 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru).

[768] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 24 Medi 2020.

[769] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 24 Medi 2020.

newidiadau arfaethedig. Codwyd hyn mewn perthynas â gweithredu agweddau ar y Bil sy'n ymwneud ag iaith, yn ogystal ag agweddau ehangach:

> "Rydw i'n meddwl mai'r cwestiynau mwyaf sydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth yma ydy'r gefnogaeth sydd yn mynd i gael ei rhoi i'r arweinyddiaeth o fewn yr ysgolion a hefyd i'r proffesiwn yn gyffredinol, oherwydd maint y newid."[770]

**925.** Dadleuodd Cyngor y Gweithlu Addysg y byddai digon o amser, cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth, yn y pen draw, yn penderfynu p'un a yw nodau sylfaenol y Bil yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod hyn ar gael i bob rhan o'r gweithlu:

> "Although teachers and learning support staff in schools make up the main part of the EWC's Register, all other registrant groups are supporting learners and will be both directly and indirectly involved in the curriculum journey. It is therefore essential that each of these parts of the workforce (including supply staff) are able to undertake suitable professional learning. It is also essential that the head teachers and other leaders, as well as governing bodies, who will be principally responsible for delivering the new curriculum should continue to have access to a dedicated programme of professional learning and support."[771]

**926.** Argymhellodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) fod athrawon a gweithwyr cymorth dysgu yn cael hyfforddiant sy'n gyson ar lefel genedlaethol, yn hytrach na darpariaeth sy'n amrywio o ran ansawdd gan ddibynnu ar ardal a darparwr. Ychwanegodd ei bod yn hanfodol bod athrawon yn cael digon o amser i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn a datblygu eu harferion mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.[772]

**927.** Tynnodd rhai sylw at y newid mewn diwylliant sy'n angenrheidiol ymhlith y gweithlu i weithredu'r Bil hwn fel rhwystr posibl. Rhybuddiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn erbyn tanbrisio arwyddocâd y newid y cyflwynodd yr

---

[770] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 29], 8 Hydref 2020.

[771] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 111 – Cyngor y Gweithlu Addysg.

[772] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

hyblygrwydd yn y cwricwlwm newydd.[773] Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) fod hwn yn newid sylfaenol:

> "Mae'n ffordd gwbl newydd o addysgu, felly bydd yna dechnegau newydd a phopeth. Mae hi'n mynd i fod yn chwyldro. Felly, bydd hwnna yn cymryd amser athrawon a staff dysgu."[774]

**928.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym y bydd gweledigaeth lefel uchel y cwricwlwm newydd yn newid diwylliannol enfawr i'r proffesiwn,[775] yn enwedig y rhai sydd wedi cael profiad o'r cwricwlwm a gyflwynwyd ym 1988 yn unig:

> "A specific challenge for school leaders will be instilling the brave new working amongst staff (…) it will be a mammoth task for some headteachers to change the mindset of some staff, to tear them away from their familiar systems that they're used to, and to free them up to be creative and to say that it's okay to make errors, because this is the new way of working and encourage them to use their own judgment."[776]

**929.** Pwysleisiodd Cyngor y Gweithlu Addysg bwysigrwydd AGA "wrth baratoi'r genhedlaeth nesaf o athrawon yng Nghymru i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd" a rhybuddiodd am yr angen i barhau i adolygu meini prawf achredu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd.[777] Tynnodd UCAC sylw at yr angen i ystyried trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant digonol am y cwricwlwm newydd i'r rhai sy'n cymhwyso y tu allan i Gymru:

> "…[mae g]wir angen i ni ystyried sut rŷn ni'n eu helpu nhw [carfan yr athrawon newydd sy'n cymhwyso y tu allan i Gymru] i bontio i system sy'n mynd i fod yn gynyddol wahanol yng Nghymru, gyda chwricwlwm hollol wahanol a gofynion asesu gwahanol. dwi ddim yn awgrymu ein bod ni'n codi unrhyw fath o waliau—mae angen athrawon arnom ni

[773] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 8 Hydref 2020.

[774] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 210], 24 Medi 2020.

[775] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 28 – Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (Cymru).

[776] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 24 Medi 2020.

[777] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 111 – Cyngor y Gweithlu Addysg.

> yng Nghymru—ond mae eisiau i ni wneud yn siŵr eu bod nhw'n gymwys ac yn deall y system maen nhw'n dod i mewn iddi."[778]

**930.** Roedd pwysigrwydd dysgu a datblygu proffesiynol yn thema allweddol ar draws ein trafodaethau bord gron rhithwir am y Bil. Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo y byddai angen llawer o hyfforddiant a chymorth ar athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Roedd rhieni a gofalwyr hefyd yn teimlo y gall fod angen datblygiad proffesiynol fel na fydd athrawon yn treulio gormod o'u hamser addysgu ar feysydd sydd fwyaf cyfforddus iddynt. Pwysleisiodd cynrychiolwyr addysg uwch, addysg bellach ac addysg oedolion bwysigrwydd hyfforddiant i athrawon ar ddatblygu'r cwricwlwm, a gofyn am sicrwydd y byddai penaethiaid a llywodraethwyr, wrth greu eu cwricwla ysgol, yn cael hyfforddiant mewn gweithio gyda cholegau addysg bellach a chyflogwyr er mwyn bodloni gofynion yr economi leol.[779]

**Ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth**

**931.** Cododd rhai rhanddeiliaid ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth fel rhwystrau posibl i weithredu'r Bil. Dadleuodd un pennaeth a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth fel a ganlyn:

> "The philosophy of a purpose driven curriculum relies on a high quality professional workforce".[780]

**932.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Estyn y bydd ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn "cynnig y cyfraniad pwysicaf ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus", ond pwysleisiodd ei fod yn "parhau i fod yn rhy amrywiol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd".[781] Pan ofynnwyd iddo ymhelaethu ar hyn mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant nad yw'r cwricwlwm presennol wedi helpu i leihau amrywioldeb, ac awgrymodd fod hynny'n ddadl dros newid. Hefyd, dywedodd wrthym sut y byddai'r dull addysgu'n newid dan y cwricwlwm newydd:

> "The new curriculum is based on the latest research. It allows for more varied teaching and learning approaches and that doesn't mean

[778] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 224], 24 Medi 2020.

[779] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[780] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 1 – Mrs A. Bolt, Pennaeth.

[781] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 20 – Estyn.

> greater variety in quality necessarily. It should lead to improved teaching and learning."[782]

**933.** Soniodd Estyn fod ansawdd yr arweinyddiaeth yn alluogwr pwysig arall ar gyfer rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Estyn yn awgrymu y bydd effeithiolrwydd darpariaeth ysgolion o'r cwricwlwm newydd yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion, a galwodd am ddysgu proffesiynol i uwch arweinwyr ar ddiwygio'r cwricwlwm o ganlyniad i hynny:

> "Where leaders think through and introduce new systems sensitively and in a considered manner, curriculum reform is progressing well (…)
>
> Where leaders do not fully consider the underpinning aims of the new curriculum, they do not plan strategically enough when developing a vision for the curriculum, or for learning and teaching (…)
>
> Thus, effective professional learning for senior leaders on curriculum reform should be a key priority."[783]

**934.** Cydnabu undebau penaethiaid ac arweinwyr ysgolion bwysigrwydd arweinyddiaeth i weithredu'r Bil. Dywedodd yr ASCL fod angen arweinyddiaeth gyfarwyddol i weithredu'r ddeddfwriaeth yn llwyddiannus,[784] a dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym fod gofynion y Bil yn galw am ddull gweithredu gwahanol i'r hyn y mae timau arwain wedi arfer ag ef[785]. Pwysleisiwyd y byddai ar rai arweinwyr ysgol angen cymorth i weithredu a bodloni'r disgwyliadau newydd hyn:

> "…many senior leadership teams have come through a very narrow system up to now, which will require some support from others, depending on the school."[786]

---

[782] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 17 Medi 2020.

[783] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 20 – Estyn.

[784] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 59], 24 Medi 2020.

[785] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 24 Medi 2020.

[786] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 24 Medi 2020.

### Ymgysylltu â'r gweithlu, cyd-awduro a chydweithredu

**935.** Pwysleisiodd undebau athrawon fod ymgysylltu â'r proffesiwn yn bwysig er mwyn gweithredu'r Bil yn llwyddiannus. Teimlai'r Undeb Addysg Cenedlaethol fod lefel yr ymgysylltu wedi bod yn gymharol uchel mewn ysgolion arloesi, ond yn gymysg mewn eraill.[787] Adroddodd NASUWT na fu braidd dim gwaith ymgysylltu â'r proffesiwn[788] a soniodd UCAC fod y gwaith ymgysylltu "yn fylchog (…) ond… wedi gwella dros gyfnod"[789]. Clodd UCAC drwy ddweud y canlynol:

> "Beth fydd yn bwysig nawr, wrth gwrs, yw gwneud yn siŵr bod cyfleoedd ac ymgysylltu trwyadl ar draws y system o nawr tan fis Medi 2022."[790]

**936.** Nodwyd bod cyd-awduro'r Bil yn faes pwysig i'w ddarparu'n llwyddiannus. Pwysleisiodd Cyngor y Gweithlu Addysg y byddai'n darparu adborth pwysig i Lywodraeth Cymru hefyd mewn perthynas â materion neu rwystrau rhag gweithredu'n llwyddiannus ac yn galluogi canfod atebion.[791]

**937.** Pwysleisiodd ymatebwr unigol i'n hymgynghoriad ysgrifenedig bwysigrwydd cyd-awduro ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, ond rhybuddiodd am yr adnodd sydd ei angen ar gyfer hyn:

> "The continuity and progression across the age range of 3-16 requires staff both within and across primary and secondary settings to be co-constructors so that concepts are developed and delivered in a co-ordinated manner. This requires yet more time/input from staff alongside the day job."[792]

**938.** Tynnwyd sylw at gydweithio mewn ysgolion a rhyngddynt, yn ogystal â chydweithio â chyrff perthnasol eraill, fel elfennau pwysig a fydd yn cyfrannu at weithredu'r Bil yn llwyddiannus. Dywedodd cynrychiolwyr Estyn wrthym am

[787] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 24 Medi 2020.

[788] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 167], 24 Medi 2020.

[789] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 169], 24 Medi 2020.

[790] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 169], 24 Medi 2020.

[791] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 111 – Cyngor y Gweithlu Addysg.

[792] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 101 – John Fabes, swyddog arweiniol ôl-16.

bwysigrwydd creu cyfleoedd i staff weithio gyda'i gilydd, gan bwysleisio nad oes rhaid i hyn olygu amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth os mabwysiedir dulliau gweithredu creadigol.[793] Pwysleisiodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon fod cydweithio ar draws y system addysg ehangach, rhwng awdurdodau lleol, consortia ac Estyn, hefyd yn bwysig.[794]

**939.** Rhybuddiodd rhai cynrychiolwyr addysg uwch, addysg bellach ac addysg oedolion a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron rithwir am y Bil, er bod cydweithredu'n digwydd ar lefel leol mewn rhai achosion, fod hyn "yn ôl ewyllys penaethiaid unigol". Er y gall cydweithredu weithio'n dda os bydd ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr addysg bellach yn gweithio gyda'i gilydd, gwnaeth sylw nad oes fframwaith ar waith i ategu'r gwaith hwnnw.[795]

**940.** Rhestrodd yr ASCL y bydd rhannu arferion rhagorol yn ffactor pwysig wrth gyflawni nodau'r Bil.[796]

### Darparu'r cwricwlwm newydd ochr yn ochr â diwygiadau mawr eraill

**941.** Tynnwyd sylw at reoli'r ffordd y cyflwynir y cwricwlwm newydd ochr yn ochr â diwygiadau addysg arwyddocaol eraill, gan gynnwys trawsnewid darpariaeth ADY, diwygio cymwysterau a newid trefniadau arolygu a gwerthuso, fel her i weithredu'r Bil.

**942.** Lleisiodd Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar bryder am y rhwystr posibl a achosir gan yr angen i gyflawni mwy nag un diwygiad sylweddol ar unwaith:

> "… schools have had a great deal of challenges over the past six months and [I] am concerned that implementing the new curriculum could overwhelm schools, particularly with changes to ALN too."[797]

**943.** Soniodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol am bwysigrwydd gweld y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn gweithio law yn llawn â'r Ddeddf ADY. Tynnwyd sylw

---

[793] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 17 Medi 2020.

[794] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 25], 24 Medi 2020.

[795] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[796] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 261], 24 Medi 2020.

[797] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 159 – Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar.

hefyd at y tebygrwydd a wynebir o ran yr heriau i'w gweithredu'n llwyddiannus, gan gynnwys cyllid:

> "… if the ALNET Act doesn't actually provide proper support, then we're passing a lot of responsibility from that Act down to schools, in the same way that this [the Bill] is passing responsibility down to schools, and that inevitably has costs attached to it to ensure that there's support there for every learner to engage in the curriculum and fulfil their potential. Those are great aims, and I think it's right that they're there, but I think there needs to be investment to ensure that there is support there for children so that teachers can provide support for all of them."[798]

**944.** Soniodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd am yr heriau a achosir i ysgolion drwy orfod cyflawni mwy nag un agenda ddiwygio drawsnewidiol ar yr un pryd, yn enwedig yn sgil COVID-19:

> "Members have raised concerns about the timescales for the implementation of the bill given the huge pressures schools and settings are facing as a result of the pandemic and the sea-change represented by the introduction of the Additional Learning Needs legislation in September 2021. Whilst the legislation should fit together to produce more inclusive learning environments, it will nevertheless place significant additional pressures on schools and settings at a time when they are having to focus on logistical challenges caused by the impact of COVID-19."[799]

**945.** Rhybuddiodd nifer o dystion, fodd bynnag, na ddylid—ac na ellir—ystyried gweithredu'r cwricwlwm ac effaith hynny ar wahân. Tynnodd Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant sylw at y canlynol:

> "… [mae'r] cwricwlwm i Gymru yn rhan o system o ddiwygio addysg sy'n fwy eang na jest newid y cwriciwlwm. Mae e'n bwysig, wrth gwrs, bod nid yn unig y cwricwlwm yn newid ond bod gyda ni system o ddiwygio addysg sydd yn cymryd i ystyriaeth addysgu, dysgu, asesu,

[798] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 206], 24 Medi 2020.

[799] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 145 – Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd.

> arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, gwerthuso, gwella ysgolion, ac yn y blaen."[800]

**946.** Pwysleisiodd Cymwysterau Cymru bwysigrwydd peidio ag edrych ar y cwricwlwm fel 'ateb i bopeth' ar gyfer y gwelliant mewn addysg y mae pobl am iddo ddigwydd. Pwysleisiodd ei gynrychiolydd ei fod yn un rhan yn unig o newid ehangach yn y system:

> "… it is a catalyst for this system-wide approach, and it's only if the whole system changes will we get the outcomes that we're really looking for."[801]

**947.** Rhybuddiodd y Comisiynydd Plant hefyd fod y Bil yn rhan o ddiwygiad ehangach ar raddfa fawr i'r system, ac na ddylid disgwyl iddo wneud popeth:

> "… this Bill and this curriculum development is only part of a wider wholescale reform of the system, and this Bill won't be able to do everything. So it's got to be seen in the landscape of additional learning needs reform, reforms of inspection and evaluation arrangements…"[802]

**948.** Roedd yr ASCL yn gytûn:

> "… the curriculum doesn't stand on its own right, it's not a separate event: it's supported by all the other reforms that we have in the system."[803]

### Pryderon ynghylch "bwlch gweithredu" honedig

**949.** Er i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddweud ei bod yn gwbl gefnogol i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran y cwricwlwm newydd, mynegodd bryder am ei weithredu. Cyfeiriodd y Comisiynydd at yr hyn a elwir yn 'fwlch gweithredu', gan nodi'r canlynol amdano:

---

[800] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 17 Medi 2020.

[801] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 60], 17 Medi 2020.

[802] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 42], 8 Hydref 2020.

[803] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 24 Medi 2020.

> "… the frequent gap between the aspiration set out by Welsh Government in policy and legislation and their commitment to delivery on the ground.[804]

**950.** Barn y Comisiynydd oedd, er bod polisïau a deddfwriaeth newydd yn dangos addewid (gan gynnwys y Bil hwn), fod y Llywodraeth yn aml yn rhy obeithiol o ran yr hyn sydd ei angen i weithredu'r rhain.[805] Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y canlynol:

> "… there is quite a pattern here of Government policy and legislation where the resources required and the amount of time required for implementation, culture change and so on, is under-resourced, and I'm not seeing anything in the regulatory impact assessment that gives me much comfort as to whether that's being addressed in this instance."[806]

**951.** Dadleuodd y Comisiynydd fod angen ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid a'r rhai sy'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm nodi sut y maent yn meddwl am yr hyn y maent yn ei wneud yn y tymor hir.[807]

### Adnoddau ariannol

**952.** Yn ogystal â'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithredu'r Bil yn llwyddiannus, tynnodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a'r ASCL sylw at gyllid fel y prif rwystr posibl.[808] Dywedodd yr ASCL wrthym nad yw ysgolion mewn sefyllfa ariannol iach ar hyn o bryd ac awgrymodd y bydd costau sy'n ymwneud â COVID-19 a ffioedd arholiadau uwch i ysgolion yn dwysáu hyn.[809]

**953.** Dadleuodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod angen dybryd am fuddsoddiad dwys i athrawon allu gwireddu'r dyheadau yn y cwricwlwm newydd.

---

[804] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 55 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

[805] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 55 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

[806] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 8 Hydref 2020.

[807] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 8 Hydref 2020.

[808] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 24 Medi 2020.

[809] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW26 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru).

Dadleuodd, heb fuddsoddiad a chymorth ychwanegol sylweddol, y byddai gweithredu'r Bil yn heriol dros ben.[810]

**954.** Fel y nodir ym mhennod 8, nododd y sector blynyddoedd cynnar fod y pwysau ariannol y mae llawer o ddarparwyr yn eu hwynebu'n rhwystr posibl i weithredu.[811]

**955.** Trafodir goblygiadau ariannol y Bil yn fanylach ym mhennod 13.

**Argaeledd adnoddau addysgol a chymorth arbenigol**

**956.** Fel y nodir ym mhennod 6 mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a phennod 7 mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at bwysigrwydd adnoddau a deunydd addysgol o ansawdd uchel, a chymorth a mewnbwn arbenigol, i weithredu'r cwricwlwm newydd.

**957.** Pwysleisiodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru bwysigrwydd cael adnoddau addysgol ar waith cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.[812] Cytunodd UCAC, gan ddweud y canlynol wrthym:

> "Mae adnoddau addysgol i gyd-fynd â'r cwricwlwm yn mynd i fod yn bwysig iawn… i roi ychydig bach o fframwaith a sgaffaldiau, os liciwch chi, i sicrhau bod y mathau o bethau iawn yn cael eu darparu."[813]

**958.** Yn ein trafodaethau bord gron rhithwir â chyflogwyr, pwysleisiwyd pwysigrwydd defnyddio arbenigedd allanol i ategu addysgu'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Dadleuodd fod angen ystyried y Bil "yng nghyd-destun ehangach ysgolion yn agor eu drysau i gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill sydd mewn sefyllfa well i ddarparu rhywfaint o'r addysg gysylltiedig â gwaith i bobl ifanc". Dywedodd

---

[810] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 8 Hydref 2020.

[811] Cyfeiriodd ein hadroddiadau ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (Ionawr 2019) a Cyllido Ysgolion yng Nghymru (Gorffennaf 2019) at yr anghysondeb rhwng cyfraddau cyllido darpariaeth (addysgol) y Cyfnod Sylfaen mewn meithrinfeydd nas cynhelir a'r Cynnig Gofal Plant, ac effaith hyn ar y sector blynyddoedd cynnar.

[812] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 64 – Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

[813] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 184], 24 Medi 2020.

rhai cyflogwyr wrthym, er mai yn yr ysgolion y cyflwynir y cwricwlwm, fod angen iddo gynnwys sefydliadau eraill.[814]

**Cyfathrebu am y cwricwlwm**

**959.** Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cyfleu gwybodaeth am y Bil er mwyn gweithredu'r ddeddfwriaeth yn llwyddiannus.

**960.** Dywedodd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a chonsortiwm GwE y canlynol wrthym:

> "Mae cyfathrebu ar bob lefel a gyda'r holl randdeiliaid yn hanfodol ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r diwygiadau ehangach i sicrhau bod y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau yn glir ac yn cefnogi dealltwriaeth o ganfyddiad ehangach y cyhoedd."[815]

**961.** Cytunodd Cyngor y Gweithlu Addysg, gan sôn bod cyfathrebu â dysgwyr a rhieni yn "hanfodol":

> "Communications with these groups need to be simple, clear and accessible to all, so that the various audiences understand the nature of the changes that are coming and how they can participate fully in the process."[816]

**962.** Cytunodd yr ASCL fod ymgysylltu â rhieni a chymunedau'n bwysig, gan ychwanegu y byddai angen cynnwys cyflogwyr er mwyn gweithredu'r Bil yn llwyddiannus.[817]

**963.** Pwysleisiodd rhai o'r rhieni a gofalwyr a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron rithwir am y Bil yr angen i ystyried sut y maent yn cael eu hysbysu am y newidiadau ac yr ymgynghorir â hwy am gwricwlwm eu hysgol leol. Roeddent yn teimlo y bydd ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn gynnar, a sicrhau eu bod yn

[814] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[815] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 189 – Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol.

[816] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 111 – Cyngor y Gweithlu Addysg.

[817] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 60], 24 Medi 2020.

cymryd rhan yn y broses, yn eu helpu hwy i helpu eu plant i ddysgu. Gwnaethant alw am fframwaith ymgysylltu â rhieni.[818]

**964.** Ystyrir yr angen i gyfathrebu am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn benodol ym mhennod 6 o'r adroddiad hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**965.** Mewn perthynas â gweithredu'r Bil, a'r rhwystrau posibl i hynny, cydnabu'r Gweinidog yr heriau:

> "I think it's important to recognise—and the Government certainly recognises—the challenges in delivering what's in this Bill. I don't think it's the Bill itself, actually, that is the issue; I think it is the mechanism by which you deliver the Bill, and I think changing the Bill and giving greater detail in the Bill is not what's needed. What's needed is Government action, and I would argue we're taking that action in how we can deliver what is in the Bill, and that's around initial teacher education and professional learning and resources. So, I think, to answer your question—I don't want to give the impression that we think everything is fine—I think the challenge is not the Bill; the challenge is making good what is in the Bill, and that requires policy interventions in other areas to operationalise what is in the Bill."[819]

**966.** Rhestrodd y Gweinidog y camau gweithredu a ganlyn a gymerodd Llywodraeth Cymru i geisio lliniaru'r rhwystrau posibl hyn i weithredu'r Bil:

- buddsoddi'r symiau uchaf erioed mewn dysgu proffesiynol;
- sefydlu ac ariannu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol;
- cynnig cyfleoedd i gynyddu diwrnodau hyfforddiant mewn swydd;
- dyrannu cyllid i gonsortia rhanbarthol er mwyn ategu dysgu proffesiynol a gwaith clwstwr ymysg ysgolion;

[818] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Tystiolaeth yn dilyn trafodaethau bord gron rhithwir, Hydref 2020.

[819] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 21 Hydref 2020.

- cyllido modelau ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu i ddatblygu'r capasiti ysgol gyfan.[820]

**967.** Cyfeiriodd y Gweinidog at ddogfen Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022', sy'n amlinellu'r disgwyliadau cyffredin o ran yr hyn y mae gwireddu'r cwricwlwm yn ei olygu i ymarferwyr ac ysgolion. Esboniodd ymhellach mai nod y ddogfen honno yw:

> "… help schools prepare for designing and implementing the new curriculum. Those shared expectations, I think, understand and reflect that schools will be in different places in designing their curriculum and the aim of that document is to support schools wherever they are on that journey."[821]

**968.** Hefyd, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn dysgu o brofiad yr Alban, yn enwedig yr heriau a wynebwyd yno, a dywedodd ei bod yn ymddangos bod yr heriau hynny yn ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm yn hytrach na'r ymagwedd gyffredinol o'i amgylch:

> "[In Scotland] people were concerned about a lack of scaffolding and guidance to individual schools, and, in reaction to that, then schools were overwhelmed and swamped with huge amounts of implementation guidance. So, we've looked at that about ensuring we get the balance right."[822]

**969.** Mewn perthynas â dysgu proffesiynol yn benodol, esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod pwysigrwydd sylfaenol dysgu proffesiynol a bod y rhestr uchod yn dangos yr adnoddau sydd ar gael, yn ariannol ac o ran cymorth, at y diben hwnnw.[823] Hefyd, dywedodd fod cynnwys AGA wedi'i ddiwygio'n sylweddol er mwyn paratoi darpar athrawon i achub ar y cyfleoedd y mae'r cwricwlwm newydd yn eu cynnig.[824]

[820] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 21 Hydref 2020.

[821] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 157], 21 Hydref 2020.

[822] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 14 Gorffennaf 2020.

[823] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 21 Hydref 2020.

[824] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 14 Gorffennaf 2020.

**970.** O ran lle'r cwricwlwm newydd yng nghyd-destun diwygio addysgol ehangach, — yn enwedig addysg gychwynnol athrawon a datblygiadau proffesiynol eraill — dadleuodd y Gweinidog ei fod rhywle yn y canol:

> "… ITE reform, ensuring that our initial teacher education is as good as it needs to be. We're reforming our newly qualified teachers' induction years and mentoring, looking to provide those ongoing professional qualifications right through to Master's level. So, the curriculum is driving reform in other areas, not least in professional learning, from the beginning of a teacher's career right the way through to those that aspire to and lead our schools."[825]

**971.** Fodd bynnag, rhybuddiodd y Gweinidog na ddylid mesur llwyddiant gweithredu'r Bil ar ei ben ei hun, nac mewn perthynas â chodi safonau yn unig:

> "On its own, is it going to by itself raise standards? No, but it's an important part of a wholesale education reform that is outlined in the national mission from the Welsh Government."[826]

## Ein barn a'n hargymhellion: rhwystrau posibl i weithredu

**972.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom y bydd gweithredu darpariaethau'r Bil, a gwireddu nodau ac uchelgeisiau'r ddeddfwriaeth mewn lleoliadau addysgol ledled Cymru, yn dipyn o gamp. Cytunwn â'r cyflogwyr a gymerodd ran yn ein trafodaeth ford gron rithwir y gall y cwricwlwm newydd fod yn drawsnewidiol i addysg ein plant a'n pobl ifanc. Serch hynny, rydym yn ymwybodol iawn bod angen talu sylw at y rhwystrau posibl a amlinellir uchod a chymryd gofal i fynd i'r afael â hwy. Yn ein barn ni, mae peidio â gwneud hyn yn peri risgiau sylweddol i weithredu'r Bil yn llwyddiannus.

**973.** Rydym yn croesawu cyhoeddi dogfen Llywodraeth Cymru, sef 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' sy'n ceisio helpu ysgolion gyda'r gwaith cynllunio a threfnu a'u cefnogi i weithredu'r cwricwlwm newydd. Nodwn fod hyn wedi'i lywio gan adolygiad yr OECD o weithredu proses ddiwygio'r cwricwlwm hyd yn hyn. Rydym yn gryf o blaid bwriad datganedig Llywodraeth Cymru i adolygu'r ddogfen honno yn 2021. Credwn fod hyn yn hanfodol o gofio'r effaith anochel y bydd pandemig

[825] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 21 Hydref 2020.

[826] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 14 Gorffennaf 2020.

COVID-19 (a drafodir yn fanwl yn yr adran nesaf) yn ei chael ar y lleoliadau addysgol sy'n gyfrifol am weithredu'r darpariaethau yn y Bil hwn.

**Argymhelliad 57.** Bod Llywodraeth Cymru, yn sgil ein casgliad bod y rhwystrau posibl a nodwyd fel rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1 yn peri risgiau sylweddol i weithredu'r Bil yn llwyddiannus, yn cymryd y camau isod:

- bwrw ymlaen yn gyflym â'i bwriad i adolygu'r ddogfen 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r ymarfer hwnnw, ac unrhyw gyngor arall gan yr OECD, i lywio proses weithredu'r Bil (gan gynnwys yr amserlenni perthnasol);
- nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i fodloni ei hun a rhanddeiliaid y gall pob lleoliad weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf.

**974.** Fel y nodir ym mhennod 3, credwn y bydd llwyddiant dull gweithredu'r Bil o ran y cwricwlwm newydd yn dibynnu i raddau helaeth ar ddysgu proffesiynol digonol. Yn ein hadroddiad yn 2017 ar addysg a dysgu proffesiynol athrawon, gwnaethom ddadlau ei bod yn hanfodol bod y gweithlu addysgu yn cael yr hyfforddiant a'r datblygiad roedd arno eu hangen i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd.[827] Dair blynedd yn ddiweddarach, rydym yn dal i gytuno â'r datganiadau a wnaed fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw (gan y Gweinidog a Phrif Arolygydd EM yn y drefn honno) "na all ansawdd ein system addysg ragori ar ansawdd ein hathrawon" ac mai'r "ffactor pwysicaf o ran pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a dysgu yw ansawdd yr addysgu".[828]

**975.** Yn sgil y pwysigrwydd a osodwn ar addysgu ac arweinyddiaeth o safon, rydym yn pryderu bod rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at ddysgu proffesiynol athrawon ac arweinwyr fel maes y mae pandemig COVID-19 (a drafodir yn fanwl yn yr adran nesaf) yn effeithio arno, ac y gallai hyn beri risg sylweddol i allu ysgolion i baratoi at y cwricwlwm newydd yn effeithiol a'i gyflwyno.

[827] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad ar yr ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon, Rhagfyr 2017.

[828] Y Cyfarfod Llawn, Datganiad llafar: Arweinyddiaeth Addysgol, 16 Mai 2017, ac Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16.

**Argymhelliad 58.** Bod Llywodraeth Cymru, gan ystyried effaith COVID-19, yn rhoi sicrwydd cyn diwedd hynt y Bil drwy'r Senedd y bydd yn gwneud y canlynol:

- asesu i ba raddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol;
- ymrwymo i ddarparu'r cymorth ychwanegol sylweddol y credwn y bydd ei angen i wneud iawn am effaith y pandemig ar ddysgu a datblygu proffesiynol; a
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae gwaith cymheiriaid a gwaith clwstwr yn cefnogi dysgu a datblygu proffesiynol, ac yn ôl pa amserlenni.

**976.** Nodwn y pwysigrwydd y mae rhanddeiliaid yn ei roi i ymgysylltu, cyd-awduro, cydweithredu a chyfathrebu fel ffactorau sy'n cyfrannu at weithredu'r Bil yn llwyddiannus. O gofio'r ffocws dealladwy ar reoli effaith COVID-19 a sicrhau bod addysg yn parhau i fod ar gael i'n plant a'n pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn, mae risg sylweddol na fydd lle i ganolbwyntio ar baratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn yn peri pryder penodol pan ystyriwn fod y cwricwlwm newydd yn un o nifer o ddiwygiadau sylweddol sydd wrthi'n mynd rhagddynt yn y sector addysg.

**Argymhelliad 59.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd am sut y mae cynlluniau ar gyfer ymgysylltu, cyd-awduro, cydweithredu a chyfathrebu sy'n ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm newydd wedi cael eu haddasu—a sut y byddant yn parhau i gael eu haddasu—i ystyried effaith COVID-19.

**977.** Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch digonolrwydd y cyllid sydd ar gael i ddarparu'r Bil uchelgeisiol hwn. Hefyd, rydym yn sylweddoli bod y rhain yn cael eu chwyddo gan gwestiynau ynghylch pa mor gadarn a chywir yw'r cyfrifiadau yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil (a drafodwn yn fanylach ym mhennod 13). Daeth ein hymchwiliad i gyllido ysgolion yn 2019 i'r casgliad nad oes digon o arian yn mynd i'r system addysg yng Nghymru ac nad oes digon yn cyrraedd ysgolion.[829] Mae hyn, ynghyd ag effaith y Bil hwn a'r rhaglen ddiwygio addysgol ehangach y mae ein hysgolion yn ei hwynebu, yn ein harwain i ddod i'r casgliad y gallai cyllid fod yn rhwystr gwirioneddol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Rydym yn trafod hyn ymhellach ac yn gwneud argymhelliad mewn perthynas ag effaith y Bil hwn ar gyllid ysgolion ym mhennod 13.

[829] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllido Ysgolion yng Nghymru, Gorffennaf 2019.

**978.** Nodwn y sylwadau a wnaed i ni am bwysigrwydd sicrhau bod adnoddau a deunyddiau addysgol digonol, sy'n gyson â nodau'r cwricwlwm newydd, ar gael i helpu ysgolion i weithredu'r Bil, yn enwedig yn ystod dyddiau cynnar ei gyflwyno. Ymhellach, nodwn y galwadau a amlinellir yn y bennod hon, ac mewn penodau eraill, i arbenigedd allanol fod ar gael, a'i defnyddio, i lywio cwricwla ysgolion.

**Argymhelliad 60.** Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i sicrhau, fel rhan o'r gwaith o baratoi at y ddeddfwriaeth hon a'i chyflwyno, y ceisir arbenigedd allanol i lywio cwricwla ac adnoddau addysgol ysgolion. Dylid datblygu'r deunyddiau a'r adnoddau hyn yn genedlaethol yn y ddwy iaith ond dylent fod yn addas i'w haddasu'n lleol, yn unol â'r egwyddor sybsidiaredd sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru.

## Effaith COVID-19 ar amserlen weithredu'r Bil hwn

**979.** Cafodd y mwyafrif helaeth o'r gwaith cynllunio ar gyfer y Bil hwn ei wneud cyn argyfwng COVID-19 yn ystod gwanwyn 2020. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn cydnabod yr "ansicrwydd…sydd wedi'i greu gan bandemig COVID-19",[830] ac yn datgan y canlynol:

> "Ni wyddys hyd yma beth fydd goblygiadau llawn yr argyfwng COVID-19 o ran diwygio'r cwricwlwm (gan gynnwys gweithredu'r Bil). Mae datblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Weinidogion Cymru."[831]

### Tystiolaeth rhanddeiliaid

**980.** Roedd barn gymysg am effaith COVID-19 ar weithredu'r Bil a'i amserlen. Er bod y rhan fwyaf o'r tystion yn cydnabod maint yr aflonyddwch a gafwyd o ganlyniad i'r pandemig, mynegwyd barn amrywiol am yr hyn y dylai hyn ei olygu ar gyfer amserlen weithredu'r Bil. Roedd rhai o'r farn bod cyflawni'r amserlen bresennol ar gyfer ei gyflwyno fesul cam o 2022 yn bwysicach nag erioed, ond roedd eraill yn dweud fod glynu at yr amserlenni a gynlluniwyd yn y cyfnod cyn y pandemig yn gwbl afrealistig[832].

**981.** Dywedodd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wrthym eu bod yn "berffaith hapus" i wneud cynnydd yn unol â'r amserlen

[830] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.8.

[831] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.116.

[832] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 188], 24 Medi 2020.

bresennol a bod y "proffesiwn yn barod i symud erbyn hyn".[833] Ychwanegodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) y canlynol:

> "…the profession has been working to prepare for the implementation of this for a number of months now, and so it is important that we continue to work with urgency and maintain momentum and work in a connected way to address any challenges that might come, because we've been anticipating this change for a long time, and we believe that, actually, the change will benefit our learners."[834]

**982.** Cytunodd cynrychiolwyr y Consortia Rhanbarthol hefyd ei bod yn bosibl cynnal yr amserlenni sydd wedi'u cynllunio. Gwnaethant briodoli hyn i'r ffaith bod y gweithlu eisoes wedi canolbwyntio ar weithredu, bod canllawiau ar gael, a bod cryn dipyn o ddysgu proffesiynol eisoes wedi digwydd yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.[835] Ychwanegodd y bydd rhaglenni dysgu proffesiynol yn cael eu haddasu yn ôl yr amgylchiadau presennol a'u darparu mewn ffordd gymysg, a bod AGA hefyd yn datblygu mewn ymateb i bandemig COVID-19.[836]

**983.** Pwysleisiodd cynrychiolwyr Stonewall bwysigrwydd cadw at yr amserlenni presennol ar gyfer gweithredu'r Bil, gan esbonio eu bod yn arbennig o awyddus i osgoi unrhyw oedi o gofio'r pwysigrwydd roeddent yn ei roi ar wella darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.[837] Pwysleisiodd y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol a Dyneiddwyr y DU hefyd bwysigrwydd cynnal yr amserlen ar y sail eu bod wedi aros yn hir am ddiwygio, ond gwnaethant gydnabod y pwysau a roddir ar athrawon.[838]

**984.** Cydnabu undebau penaethiaid ac athrawon bwysigrwydd gweithredu'r Bil, gan rybuddio bod COVID yn fwy na rhywbeth sy'n tynnu sylw.[839] Nododd

[833] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 33], 20 Gorffennaf 2020.

[834] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 20 Gorffennaf 2020.

[835] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 211], 20 Gorffennaf 2020.

[836] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 212 a 214], 20 Gorffennaf 2020.

[837] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 269], 8 Hydref 2020.

[838] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 309 a 311], 15 Hydref 2020.

[839] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 37], 24 Medi 2020.

tystiolaeth ysgrifenedig yr ASCL fod y pandemig wedi cael effaith ar gyflymder gweithredu, ac y bydd yn parhau i gael effaith, gan ychwanegu ein bod mewn argyfwng.[840] Mewn tystiolaeth lafar, cydnabu cynrychiolydd yr ASCL fod y pandemig wedi dod â rhywfaint o gynnydd o ran darpariaeth ddigidol a ffocws ar iechyd a llesiant, ond galwodd ar Lywodraeth Cymru i barhau i adolygu'r amserlen weithredu:

> "At the moment, headteachers, teachers and leaders are absolutely flat out in crisis management and crisis leadership, and I think if we were to pretend that nothing had happened, it would potentially derail what is an excellent curriculum piece, which we feel could bring the country forward significantly. If it's pushed into a date, basically because the date sits there and isn't kept under review, I really worry that we will lose what is a terrific piece of policy. It has to be kept under review. It is not a small matter."[841]

**985.** Cytunodd cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, er ei bod yn credu bod awydd am y cwricwlwm newydd o hyd, yn enwedig ymhlith arweinwyr ysgol, fod yr amseru o bosibl yn uchelgeisiol o gofio'r pwysau sydd ar ysgolion ar hyn o bryd. Rhybuddiodd fod hoelio ein gobeithion ar ddyddiad, oherwydd bod y dyddiad hwnnw wedi'i bennu, ychydig yn afrealistig yn ôl pob tebyg, yn enwedig gan ei bod yn credu bod dysgu proffesiynol wedi'i ohirio oherwydd COVID-19.[842]

**986.** Dywedodd NASUWT fod yr amserlenni'n gwbl afrealistig a'i fod fel paentio llong yng nghanol corwynt[843], gan ddweud y dylid aros i'r argyfwng ddod i ben cyn pennu amserlen realistig[844]. Mynegodd UCAC farn wahanol, gan ddadlau nad oedd yn "gwbl amhosibl"[845]ac y dylid cadw llygad barcud ar y sefyllfa ond "mewn

[840] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW26 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru).

[841] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 36 a 37], 24 Medi 2020.

[842] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 39 a 43], 24 Medi 2020.

[843] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 188], 24 Medi 2020.

[844] Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan NASUWT yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar 24 Medi 2020, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[845] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 24 Medi 2020.

byd delfrydol y byddem ni yn sticio at yr amserlen, achos mae cymaint o angen y cwricwlwm newydd hwn”.[846]

**987.** Cytunodd UCAC a'r Undeb Addysg Cenedlaethol y dylai'r broses o basio'r Bil fynd rhagddi fel y'i cynlluniwyd, ac y dylid ystyried yr amserlenni gweithredu wedi hynny, os oes angen.[847] Ychwanegodd cynrychiolydd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod angen hyblygrwydd wrth weithredu oherwydd y bydd yn rhaid i lawer o bethau ddigwydd o ran hyfforddiant a buddsoddiad, ac nad yw'n gwbl hyderus bod hynny'n wir.[848]

**988.** Cydnabu Estyn a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr heriau y mae'r sector addysg yn eu hwynebu oherwydd COVID-19, ond cyfeiriodd at rai o'r cyfleoedd sydd hefyd wedi codi yn ystod y pandemig. Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym fod ysgolion wedi gorfod datblygu dulliau gweithredu newydd ac arloesol ar frys dros y chwe mis diwethaf[849] ac esboniodd Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant y canlynol:

> “Mewn ffordd, mae yna ddwy elfen wrthgyferbyniol o ran COVID. Ar y naill law, mae'r argyfwng, wrth gwrs, wedi cymryd amser ac egni ac adnoddau o ddiwygio'r cwricwlwm, ac mae'r amser ar gyfer cynllunio a pharatoi wedi ei golli, does dim os am hynny. Ac wrth gwrs dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Ond mae posib dadlau bod agweddau allweddol sy'n berthnasol i ddiwygio'r cwricwlwm wedi cyflymu oherwydd yr argyfwng. Mae hynny'n amlwg iawn o ran cynhwysedd digidol—o ran staff a dysgwyr. Ond mae'r canolbwyntio sydd ar iechyd a lles dysgwyr, er enghraifft, sy'n elfen allweddol o ddiwygio'r cwricwlwm, wedi ehangu a chyflymu, a'r cyfathrebu gwell gyda theuluoedd (…) Felly, ar y cyfan, dwi'n meddwl bod y ddau beth yma yn cydbwyso, ac mae hi'n ddichonadwy ein bod ni'n gallu cadw at yr amserlen bresennol.”[850]

---

[846] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 24 Medi 2020.

[847] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 312 a 314], 24 Medi 2020.

[848] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 192 a 196], 24 Medi 2020.

[849] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 8 Hydref 2020.

[850] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 30], 17 Medi 2020.

**989.** Pwysleisiodd y Comisiynydd Plant bwysigrwydd gweithio gydag ysgolion, y dywedodd eu bod dan fwy o bwysau nag erioed, ond dadleuodd y dylai'r Bil fynd rhagddo yn ôl yr amserlenni a gynlluniwyd:

> "...children have waited long enough for this reform. Some of them have waited almost their entire primary or secondary school schooling for this. I think we need to move forward, but with understanding that it will take time to embed and that we need to support our teachers as much as possible to do this well."[851]

**990.** Yn ein galwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil, gofynnwyd yn benodol am farn am effaith COVID-19 ar weithredu'r Bil. Soniodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru fod yr amserlenni'n "dynn"[852], a rhybuddiodd Colegau Cymru y gallai fod angen gwaith cynllunio wrth gefn oherwydd effaith y pandemig[853]. Dywedodd pennaeth a ymatebodd i'n hymgynghoriad y canlynol am y pandemig:

> "...[It is] a massive barrier, because schools don't have the capacity to do much at the moment other than try to remain open and provide the best education and catch-up programme that we can for our pupils".[854]

**991.** Roedd gan Gyngor Abertawe safbwyntiau tebyg, ac roedd yn credu y byddai'n synhwyrol adolygu'r amserlen weithredu yn sgil y pwysau a grëwyd gan y pandemig:

> "A significant barrier to the implementation of the bill is the current pandemic. The lockdown has resulted in a massive disruption to pupils' learning and schools' planning. As a result, school leaders have been focussed on reconfiguring as emergency childcare centres, delivering distance and blended learning, and now, the return to school, with all the challenges that is bringing, and, will continue to bring, this year. Therefore, schools are not in the best position to release staff to design, develop and trial new curricula."[855]

---

[851] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 8 Hydref 2020.

[852] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 65 – Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

[853] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 48 – Colegau Cymru.

[854] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 84 – Alan Tootill, Pennaeth.

[855] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 142 – Cyngor Abertawe.

**992.** Dadleuodd ymateb gan Ysgol Uwchradd Hwlffordd nad oes digon o amser i ysgolion baratoi'n ddigonol a dywedodd fod yr amserlen bresennol yn llawer rhy feichus/rhy gyflym.[856]

**993.** Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod yr heriau presennol y mae ymarferwyr, athrawon ac arweinwyr yn eu hwynebu'n rhwystr posibl i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd. O'r safbwyntiau hyn, nid yw'r gofynion presennol a roddir ar athrawon yn gadael llawer o amser ar gyfer gwaith cynllunio a pharatoi, yn ogystal â chymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol. Tynnodd rhai sylw at faterion fel darpariaeth annigonol o staff cyflenwi  i fynd ar hyfforddiant a bod rhywfaint o hyfforddiant wedi'i ganslo oherwydd y cyfyngiadau symud. Yn gyffredinol, teimlai rhai y dylai'r ddeddfwriaeth ailedrych ar yr amserlenni sy'n ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm newydd, neu sicrhau bod digon o gymorth a hyfforddiant ar gael.[857] Crynhowyd y safbwyntiau gan ymateb yr Undeb Addysg Cenedlaethol, a ddywedodd y canlynol:

> "Any workload implications need to be managed to ensure that teachers and support staff have enough time to undertake the extra expectations within the Bill, outside of the classroom. Extra INSET days allocated are welcome – but more time is needed to ensure that training can be undertaken and the work completed, especially in the context of Covid-19 and the additional work that that has meant to keep staff and learners safe and learning."[858]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**994.** Wrth ymateb i'r pryderon a godwyd am y rhwystrau posibl i weithredu a grëwyd gan bandemig COVID-19, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> "Clearly, I cannot ignore the significant disruption caused to the education system by COVID-19."[859]

**995.** Fodd bynnag, o gofio nad yw'r Bil ei hun yn pennu amserlen ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, pwysleisiodd y Gweinidog y gwahaniaeth pwysig

---

[856] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 11 – Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd.

[857] Ymchwil cymdeithasol ac economaidd Wavehill, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Dadansoddiad Ymgynghori, Hydref 2020.

[858] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 49 – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru.

[859] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 14 Gorffennaf 2020.

rhwng hynt y ddeddfwriaeth drwy'r Senedd ar y naill law, a gweithredu ei darpariaethau ar y llall:

> "...whilst I accept that there is a lot of discussion to be had around implementation, this Bill stands alone from that. We can't have any implementation at all unless this legislation is passed."[860]

**996.** Dywedodd y Gweinidog fod dogfen Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022':

> "...allows schools to move at a pace that is appropriate to them, recognising the challenges they're facing at the moment—just keeping the doors open in some cases and dealing with the challenges that COVID brings."[861]

**997.** Er ei bod yn cydnabod yr heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, dywedodd y Gweinidog wrthym fod undebau'r athrawon wedi dweud bod llawer o'u haelodau am fwrw ymlaen hyd yn oed yn yr amgylchiadau tra anodd hyn. Ychwanegodd y canlynol:

> "...in some ways, there's a belief that moving more quickly to some of the principles in the curriculum is even more important than ever, because of COVID-19."[862]

**998.** Hefyd, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru, gan gydnabod effaith COVID-19, wedi llacio gofynion penodol ar ysgolion. Dadleuodd y Gweinidog fod hyn, ar y cyd â chael dim arolygiadau arferol gan Estyn, wedi rhyddhau rhywfaint o amser y gall ysgolion ei ddefnyddio wedyn i baratoi ychydig ar gyfer gweithredu.[863]

**999.** Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth lafar cyntaf ac olaf gyda'r Gweinidog ar y Bil (mis Gorffennaf a mis Hydref 2020 yn y drefn honno) dywedodd y Gweinidog nad

---

[860] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 14 Gorffennaf 2020.

[861] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 157], 21 Hydref 2020.

[862] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 158], 21 Hydref 2020.

[863] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 159], 21 Hydref 2020.

oedd Llywodraeth Cymru wedi gwyro oddi wrth ei dyddiad targed yn 2022, ond y byddai'n parhau i'w adolygu o gofio'r amgylchiadau presennol.[864]

### Ein barn a'n hargymhellion: effaith COVID-19

**1000.** Fel y nodwyd yn ein barn yn yr adran flaenorol o'r bennod hon, rydym yn pryderu'n fawr am effaith pandemig COVID-19 ar weithredu'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, fel y Gweinidog ac eraill, byddem yn pwysleisio bod gweithredu'r cwricwlwm newydd yn fater ar wahân i hynt y Bil hwn, a bod yn rhaid i'r broses o'i gwblhau fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Senedd hon.

**1001.** Er bod COVID-19 wedi creu heriau ar gyfer ein system addysg na allai llawer ohonom fod wedi'u dychmygu, mae hefyd wedi datgelu pam mae cymaint o angen newidiadau i'n cwricwlwm. O gofio faint o amser y mae'r diwygiad hwn wedi bod yn yr arfaeth, byddem yn amharod iawn i amserlenni lithro. Serch hynny, i ni, mae'n amlwg bod y system addysg dan bwysau sylweddol a bod angen asesiad o ddichonoldeb yr amserlenni a gynlluniwyd ar gyfer gweithredu'r Bil. Wrth alw am yr asesiad hwn, rydym yn pwysleisio nad ydym wedi dod i'r casgliad bod angen oedi ond, dan yr amgylchiadau, ei bod yn ddoeth ystyried yr hyn sy'n ymarferol. Ar y sail honno, rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog bod yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r Bil yn parhau i gael eu hadolygu.

> **Argymhelliad 61.** Bod Llywodraeth Cymru, cyn dechrau Cyfnod 3, yn cynnal asesiad o ddichonoldeb yr amserlenni a gynlluniwyd ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, rydym yn pwysleisio nad ydym yn credu y dylai amserlen y Bil newid nac yn dod i'r casgliad bod angen oedi i'r amserlenni gweithredu, ond bod ystyried yr hyn sy'n ymarferol yn ddoeth yn sgil effaith pandemig COVID-19.

## Monitro ac adolygu'r broses o weithredu'r Bil

**1002.** Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag arolygu neu fonitro, na gofynion sy'n ymwneud ag adolygu'r broses o'i weithredu. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y "caiff y fframwaith arolygu ei ddiwygio er mwyn cefnogi fframwaith Gwerthuso a Gwella newydd Llywodraeth Cymru" a bod cynlluniau ar waith i gynnal adolygiad ôl-weithredu.[865]

**1003.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

[864] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 14 Gorffennaf 2020 a Chofnod y Trafodion [paragraff 159], 21 Hydref 2020.

[865] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.189 a phennod 11.

> "Mae trefniadau gwerthuso a gwella newydd yn cael eu llunio drwy gyd-awduro ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys ysgolion, Estyn, llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol, a chan ystyried gwaith ymchwil rhyngwladol. Bydd y trefniadau newydd hyn yn cyd-fynd â fframwaith newydd y cwricwlwm ac yn ei gefnogi".[866]

**1004.** Mae hefyd yn nodi y "bydd y trefniadau gwerthuso a gwella'n cynnwys cyflwyno cysondeb cenedlaethol o ran hunanasesu i gefnogi gwaith o ansawdd uchel i wella ysgolion" ac y "bydd angen i flaenoriaethau gwella ysgolion… adlewyrchu mwy na dim ond cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion, a rhaid iddynt beidio â bod yn gyfyngedig i'r graddau nad ydynt yn cynnwys ffactorau megis lles, boddhad y dysgwyr, cydraddoldeb a chynhwysiant, a darpariaeth y cwricwlwm".[867]

**1005.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio'r canlynol:

> "Bwriedir y bydd y darpariaethau presennol o ran gwerthuso a gwella'n darparu sylfaen gyfreithiol i sicrhau bod y trefniadau'n cefnogi fframwaith newydd y cwricwlwm."[868]

**1006.** Mewn perthynas â'r adolygiad ôl-weithredu, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> "Bydd yr adolygiad ôl-weithredu yn rhan o raglen ehangach i werthuso'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm. Yn hytrach na chynnal un adolygiad o'r effeithiau yn unig, bydd y rhaglen yn broses ddysgu barhaus, a bydd gwerthuso'r effeithiau yn rhan bwysig ohoni."[869]

**1007.** Aeth ymlaen i esbonio'r canlynol:

- "cynhelir gwerthusiad ffurfiannol ym mlynyddoedd cynnar y broses o roi'r cwricwlwm ar waith i ddeall unrhyw lwyddiannau a heriau cynnar, a pha un a yw'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn sicrhau'r canlyniadau a fwriedir", gan alluogi "unrhyw newidiadau angenrheidiol i bolisïau i'w gwneud yn fwy effeithiol"; a

[866] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.122.

[867] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.123-3.124.

[868] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.125.

[869] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.1.

- "bydd asesiad effaith yn edrych ar ganlyniadau y diwygiadau wrth iddynt gael effaith, ac eto ar ôl cyfnod digonol er mwyn caniatáu i ganlyniadau mwy hirdymor ddod i'r amlwg".[870]

**1008.** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i "asesiad gwerthuso" gan ddechrau "yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd" ac mae'n dweud y bydd yn "nodi sut y gellir casglu a chyflwyno tystiolaeth o ansawdd uchel ynghylch gweithredu'r diwygiadau a'u heffeithiau mewn ffordd ddibynadwy".[871]

**1009.** Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn llunio cynllun gwerthuso manwl ar ôl yr "asesiad gwerthuso", ac yn ymrwymo i gynnal gwerthusiad economaidd, gan gynnwys adolygiad o'r costau a'r manteision a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[872]

**1010.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y caiff yr asesiad gwerthuso ei gwblhau erbyn haf 2021, y caiff y cynllun gwerthuso ei gynnal yn 2021/22, ac y bydd adolygiad ôl-weithredu o'r pum mlynedd gyntaf ar ôl y Cydsyniad Brenhinol erbyn haf 2026.[873]

**1011.** Dywed Llywodraeth Cymru y bydd effaith tymor hwy'r ddeddfwriaeth yn cael ei dirnad ar sail canlyniadau plant a phobl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o'u haddysg i arholiadau, addysg bellach ac addysg uwch a hyfforddiant, a bywyd oedolyn yn gyffredinol.[874]

## Tystiolaeth rhanddeiliaid

### Arolygu, monitro, asesu ac atebolrwydd

**1012.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym fod sut y caiff y Bil ei weithredu a'i gyflwyno'n cael ei fonitro, ei asesu a'i archwilio yn allweddol i'w lwyddiant yn y pen draw.[875]

---

[870] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.1.

[871] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.2.

[872] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraffau 11.4-11.5.

[873] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.7.

[874] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.7.

[875] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 8 Hydref 2020.

**1013.** Nododd y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru a chonsortiwm GwE bod datblygu "trefniadau gwerthuso a gwella newydd" yn "hanfodol", er mwyn i'r Bil gael ei weithredu'n llwyddiannus ac i wireddu diwygiad addysg ehangach.[876]

**1014.** Pwysleisiodd cynrychiolwyr consortiwm GwE bwysigrwydd rôl Estyn wrth sicrhau bod lleoliadau addysg yn cwmpasu'r holl elfennau angenrheidiol o'r cwricwlwm.[877] Hefyd, pwysleisiwyd pwysigrwydd y dull arolygu a monitro o ran cyflawni nodau'r Bil yn llwyddiannus yn fwy cyffredinol:

> "They [Estyn] have got a very important role in framing how they will be going around inspecting these particular areas, because these are the kinds of things that drive the behaviours and the principles of the curriculum will have to be embraced by all partners who want to make this work, really, especially on the accountability side."[878]

**1015.** Dadleuodd Comisiynydd y Gymraeg fod angen gwella'r system atebolrwydd ysgolion er mwyn gwireddu'r newid diwylliant sydd ei angen er mwyn i'r Bil gael ei weithredu'n llwyddiannus.[879] Pwysleisiodd UCAC, hefyd, ei bod yn bwysig bod y system ar gyfer asesu, monitro ac atebolrwydd yn "cyd-fynd" â'r "newid diwylliant" a gyflwynir gan y cwricwlwm newydd.[880] Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, gan bwysleisio pwysigrwydd cael systemau atebolrwydd (ac asesu) sy'n cyd-fynd â phroses addasol yr ysgol honno:

> "…there will need to be the creation of a high-risk, low-blame culture that will allow teachers to think outside the box and try these new things.
>
> We must also ensure that accountability processes are responsive enough. Are there skills in the middle tier to support this? Is Estyn going to understand what a school is trying to achieve? (…)

[876] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 189 – Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol.

[877] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 329], 20 Gorffennaf 2020.

[878] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 280], 20 Gorffennaf 2020.

[879] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 29], 8 Hydref 2020.

[880] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 235], 24 Medi 2020.

> …for the new curriculum to thrive, all these strands must operate in harmony."[881]

**1016.** Ymhellach, pwysleisiodd UCAC bwysigrwydd cael system fonitro dda ar waith yn gynnar "i wneud yn siŵr bod yr hyn sy'n cael ei ddarparu i'r dysgwyr yn unol â'r disgwyliadau cyffredinol a bod yna gefnogaeth i ysgolion yn ôl yr angen os nad yw'r disgwyliadau hynny yn cael eu cyrraedd".[882]

**1017.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrthym y gallai'r dull arolygu gael effaith sylweddol ar weithredu. Dywedwyd bod y ffordd y caiff ysgolion eu gwerthuso, drwy arolygiad ffurfiol a dulliau anffurfiol megis cymorth clwstwr gan gymheiriaid yn bwysig. Dadleuodd y dylai'r rhain werthuso ansawdd y ddarpariaeth yn benodol ar draws y cwricwlwm.[883] Soniodd Comisiynydd Plant Cymru hefyd am yr angen i fonitro, gwerthuso a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran yr hyn y mae lleoliadau yn ei addysgu a sut y mae plant yn dysgu drwy'r addysg honno a chanlyniadau'r grwpiau hynny.[884]

**1018.** Mewn perthynas â'r gyfundrefn arolygu a'i pherthynas â'r cwricwlwm newydd, dywedodd Estyn y canlynol wrthym:

> "We're currently preparing for our 2021 inspection framework for schools and there's a far greater focus on curriculum in our framework. But, each year, as we get closer to roll-out and as the curriculum goes through the years of secondary, we'll be reviewing our framework to make sure we raise expectations year on year to support progress with the new curriculum. So, I think we'll be providing as well that objective independent advice to you, as Members, so that you can monitor the progress as well as we implement."[885]

**1019.** Trafodir y dystiolaeth ar asesu a chymwysterau'n fanylach ym mhennod 11.

---

[881] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 56-57], 24 Medi 2020.

[882] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 183], 24 Medi 2020.

[883] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[884] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 42], 8 Hydref 2020.

[885] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 17 Medi 2020.

### Adolygiad ôl-weithredu

**1020.** Ychydig o dystiolaeth a gyflwynwyd i ni mewn perthynas â darpariaeth y Bil ar gyfer adolygiad ôl-weithredu. Fodd bynnag, galwodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ystyriaethau a goblygiadau cydraddoldeb ar draws nodweddion gwarchodedig yn rhan annatod o gynlluniau i gynnal adolygiad ôl-weithredu. Dadleuodd ei dystiolaeth ysgrifenedig fod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru lwyr ddeall ac asesu effaith y Bil ar blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig a bod angen casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb at y diben hwn yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.[886]

**1021.** Aeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hwaliau Dynol ymlaen i ddweud y canlynol:

> "Although an equality impact assessment has been completed on curriculum reform, the Welsh Government must use monitoring, evaluation and review processes to ensure that the actual impact matches the impact that was anticipated, and that relevant actions have been implemented."[887]

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

**1022.** O ran y gyfundrefn arolygu, monitro ac atebolrwydd, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> "…schools will not be operating in an accountability-free zone. So, when you think about the role of the school improvement services and an ongoing accountability regime, our school improvement services and challenge and support advisers will be looking to the school to demonstrate the suitability and the compliance of their local curriculum with the Bill. (…) Estyn will be continuing to carry out its role in ensuring that curricula are suitable. And as we develop our new accountability framework to look at a wider set of performance within our school system, the nature of that curriculum and its suitability is something that we would expect the school to be reporting on and held accountable for. So, there's a variety of levels of accountability to

[886] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

[887] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 184 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

> ensure that the curriculum is suitable and is scrutinised by organisations outside of the individual school itself."[888]

**1023.** Ychwanegodd y Gweinidog ei bod yn cydnabod, o ran gwireddu nodau'r Bil, fod yr her wirioneddol yn dechrau, gobeithio, pan gaiff ddeddfwriaeth ei phasio. Cyfeiriodd at yr her ddiweddar a osodwyd i'r Llywodraeth gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[889] ynglŷn â gweithredu hyn a sut i'w wireddu ar gyfer ysgolion unigol.[890] Aeth ymlaen i esbonio'r canlynol:

> "…using and building on the work of the recommendations from the OECD, it's really important that we understand what success of implementation looks like. So, that's why we are setting up a research and evaluation programme, and that will begin prior to Royal Assent. That's why we've published the journey document, that's why we're publishing our shared expectation document so every part of the system knows what they're expected to do between now and 2022."[891]

## Ein barn a'n hargymhellion: monitro ac adolygu'r broses weithredu

**1024.** Credwn fod trefniadau monitro, atebolrwydd a gwerthuso yn hanfodol, er mwyn gallu asesu i ba raddau y mae'r Bil wedi'i weithredu'n llwyddiannus yn ogystal ag er mwyn gallu gwneud addasiadau i ddulliau gweithredu lleoliadau addysgol yn y dyfodol ac i'r cymorth sydd ar gael ar eu cyfer. Yn sgil hyn, rydym yn croesawu'r addasiadau sy'n cael eu gwneud i fframwaith arolygu Estyn er mwyn ystyried y cwricwlwm newydd.

**1025.** Nodwn y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am yr effaith negyddol (a'r cymhellion gwrthnysig weithiau) a grëwyd gan y trefniadau atebolrwydd ac asesu presennol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd gofalus ond clir rhwng atebolrwydd cadarn a thryloyw (i gynnal a gwella ansawdd yr addysg a gaiff ein plant a'n pobl ifanc), a'r angen i fesur canlyniadau mewn ffyrdd mwy soffistigedig na chanlyniadau arholiadau yn unig (er mwyn diogelu a gwella llesiant a boddhad disgyblion a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd).

---

[888] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 13], 21 Hydref 2020.

[889] OECD Achieving the New Curriculum for Wales, 5 Hydref 2020.

[890] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 161], 21 Hydref 2020.

[891] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 162], 21 Hydref 2020.

**1026.** Rydym yn cydnabod na fydd y cwricwlwm, ar ei ben ei hun, yn mynd i'r afael â'r holl heriau y mae ein system addysg yn eu hwynebu, ac na all wneud hynny. Serch hynny, mae'n rhan hanfodol o'r pos, a bydd y ffordd rydym yn monitro ac yn adolygu'r ffordd y gweithredir y Bil yn allweddol i'w lwyddiant. Ar y sail honno, rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ffordd y mae'r Bil yn cael ei weithredu.

**1027.** Rydym yn cydnabod ac yn deall awydd Llywodraeth Cymru i hyn fod yn rhan o werthusiadau ehangach o ddiwygiadau'r cwricwlwm, a'i bwriad o sicrhau nad yw'n "un adolygiad o'r effeithiau yn unig, bydd y rhaglen yn broses ddysgu barhaus, a bydd gwerthuso'r effeithiau yn rhan bwysig ohoni". Er nad ydym yn amau bwriad Llywodraeth bresennol Cymru i wneud y gwaith pwysig hwn, bydd gweinyddiaethau yn y dyfodol yn etifeddu'r cyfreithiau a basiwn, ac mae'n bosibl na fydd ganddynt yr un lefel o ymrwymiad i'r dulliau sy'n allweddol i'w gweithredu'n effeithiol. Felly, credwn y dylid diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r broses weithredu. Gan gydnabod pryderon posibl ynghylch cadw hyblygrwydd a'r gallu i ystyried hyn ochr yn ochr â gweithredu diwygiadau addysg eraill, ni chredwn fod angen i'r ddyletswydd hon fod yn gymhleth neu'n anhyblyg, ond credwn y dylai'r gofyniad i'w chynnal gael ei ysgrifennu mewn statud.

**Argymhelliad 62.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r ffordd y gweithredir y Bil a'i ddarpariaethau.

# 13. Goblygiadau ariannol

Yn rhan o'n gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ystyriwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n asesu costau a buddion y Bil. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r dystiolaeth a gawsom a'r casgliadau a wnaethom. Dylid darllen y rhan hon ochr yn ochr ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sy'n ystyried goblygiadau ariannol y Bil yn fwy manwl.

**1028.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r opsiynau a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn amcangyfrif costau a buddion y ddeddfwriaeth.

**1029.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Cyllid.[892] O'r herwydd, nid ydym yn ceisio ailadrodd y gwaith craffu manwl hwnnw yma. Yn hytrach, rydym yn amlinellu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni o ran goblygiadau ariannol y Bil ac yn rhoi ein barn a'n hargymhellion yng ngoleuni hynny.

## Yr opsiynau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**1030.** Cyflwynir dau opsiwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- **busnes fel arfer**, sef cadw'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu; a
- **chyflwyno'r ddeddfwriaeth** (yr opsiwn a ffefrir), sef disodli'r darpariaethau presennol gyda'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd a nodir yn adolygiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Graham Donaldson.

**1031.** Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn trafod unrhyw opsiynau eraill.

### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**1032.** Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, ceir consensws eang nad yw'r cwricwlwm presennol yn addas at y diben a chytundeb eang bod angen deddfwriaeth. O'r herwydd, roedd mwyafrif y sylwadau a gawsom am oblygiadau ariannol y Bil yn ymwneud â'r cyfrifiadau ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth (a

[892] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau Ariannol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Rhagfyr 2020.

drafodir yn yr adran nesaf), yn hytrach na'r angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol archwilio opsiynau amgen.

**1033.** Archwilio Cymru oedd yr eithriad, gan dynnu sylw at ei bryderon ynghylch yr hyn yr oedd yn ei deimlo oedd yn ddiffyg archwiliad o opsiynau amgen yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "We consider that it is currently difficult to assess the need for, or the value for money of, the Bill because the Explanatory Memorandum does not consider whether the Government's aims could be met by any other route or reform. (…)
>
> Without consideration of any other option for achieving all or some of the Government's stated aims for education reform, we cannot assess whether the proposals are likely to provide value for money."[893]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**1034.** Pan ofynnodd y Pwyllgor Cyllid i'r Gweinidog Addysg pam nad oedd unrhyw opsiynau ac eithrio busnes fel arfer neu gyflwyno'r ddeddfwriaeth yn cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, esboniodd y Gweinidog nad oedd dull tir canol yn dderbyniol ac y byddai ychwanegu darnau at y cwricwlwm presennol yn gwaethygu'r broblem.[894]

**1035.** Ychwanegodd y Gweinidog yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid fod anghenion cyflogwyr a chymdeithas wedi newid yn sylweddol ers datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol ac mai dim ond dull ar raddfa eang oedd yn briodol.[895]

**1036.** Gofynnwyd hefyd pam y cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr opsiynau a gafwyd fel dewis deuaidd rhwng y sefyllfa bresennol a'r dull gweithredu penodol a nodir gan y Bil. Amlinellodd y Gweinidog ei dadleuon ynghylch pam ei bod yn credu mai'r Bil a'r dull y mae'n ei fabwysiadu o ran y Cwricwlwm i Gymru yw'r mwyaf ffafriol o ran codi safonau addysgol.[896] Fodd bynnag, ni esboniodd sut roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau eraill â'r nod o wella ysgolion a

---

[893] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 205 - Archwilio Cymru.

[894] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 14-15], 21 Medi 2020.

[895] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 21 Medi 2020.

[896] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020 a thystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 3-18], 14 Gorffennaf 2020.

sicrhau safonau uwch, yn hytrach na chwricwlwm newydd sbon a'r math penodol hwn o gwricwlwm.

### Ein barn: yr opsiynau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**1037.** Nodwn bryderon Archwilio Cymru ynghylch i ba raddau y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn galluogi asesiad o ran p'un a yw'r cynigion deddfwriaethol yn debygol o gynnig gwerth am arian ai peidio. Er ein bod wedi ein hargyhoeddi gan y dystiolaeth a gawsom fod angen deddfu fel y cynigir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn cydnabod y gallai opsiynau eraill fod wedi cael eu harchwilio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnig arddangosiad mwy trylwyr o ystyriaethau gwerth am arian. Nodwn fod hon yn swyddogaeth bwysig i Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**1038.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fyfyrio ar farn y Pwyllgor Cyllid bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn offeryn allweddol i asesu'n feirniadol amrywiaeth o ddulliau ac i ddarparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ar bolisi, a bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn aml yn ymddangos fel sgil-gynnyrch y broses benderfynu, yn hytrach na'i hysgogi.[897]

## Goblygiadau ariannol amcangyfrifedig yr opsiwn a ffefrir

**1039.** Amcangyfrifir mai rhwng £327.9 miliwn a £619.9 miliwn fydd **cyfanswm cost** y Bil rhwng 2021-22 a 2030-31.[898]

**1040.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tri chategori o gostau ac yn eu priodoli i dri grŵp:

- **£175.4 miliwn o "gostau gweinyddol" i Lywodraeth Cymru:** Rhestrir bod y costau gweinyddol hyn yn cynnwys cyllid i gynorthwyo dysgu proffesiynol, darparu adnoddau Cymraeg, ariannu rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol, a chostau staff a chyfathrebu uniongyrchol.
- **Rhwng £146.0 a £438.0 miliwn o "gostau cydymffurfio" i ysgolion:** Disgrifir y costau cydymffurfio hyn fel "costau uniongyrchol a chostau cyfle o ran dysgu proffesiynol wrth iddynt [ysgolion] gynllunio a gweithredu eu cwricwlwm newydd". Esbonnir bod y rhain wedi cael eu cyfrifo "drwy arolwg o Ysgolion Braenaru ledled Cymru" a bod disgwyl iddynt gael eu hysgwyddo rhwng 2021-22 a 2025-26.

[897] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau Ariannol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Rhagfyr 2020.
[898] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 59.

- **£6.5 miliwn o "gostau eraill" i Cymwysterau Cymru:** Disgrifir y costau eraill hyn fel y rhai i Cymwysterau Cymru eu hysgwyddo yng ngoleuni ei waith o adolygu a diwygio cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol mewn ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm. Maent yn cynnwys ymgynghori ar feini prawf cymhwyso a'u datblygu, a chymeradwyo a monitro'r cymwysterau newydd, a disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo rhwng 2021-22 a 2027-28.[899]

**1041.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn amcangyfrif bod dros £100 miliwn o **gostau "suddedig"**[900] wedi cael eu hysgwyddo rhwng 2015 a 2021, cyn y cyfnod gweithredu. Mae'n nodi bod y rhan fwyaf o'r costau hyn (£89.1 miliwn) wedi cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, a'r gweddill wedi ei ysgwyddo gan y consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru, a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.[901]

**1042.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud:

> "Bu'n rhaid dod â'r gwaith o ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol fel CLlLC, CCAC ac Estyn i ben am ychydig wrth iddynt flaenoriaethu mewn ymateb i bandemig Covid-19. Ni fu'n bosibl asesu'r effaith ar y sefydliadau hyn felly. Y bwriad yw ailddechrau ymgysylltu â'r cyrff hyn pan fo'n briodol, a chaiff unrhyw wybodaeth ychwanegol ei rhannu â'r Senedd yn ystod proses graffu Cam 1 cyn ei hymgorffori mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cam 2.Nid yw cost yr effeithiau ar y sefydliadau hyn yn hysbys."[902]

**1043.** Mae ystod amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru ar gyfer "**costau cydymffurfio**" ysgolion rhwng £146.0 miliwn a £438.0 miliwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn disgrifio'r rhesymau am yr ystod eang hon fel a ganlyn:

> "Amcangyfrifwyd costau ysgolion gan ddefnyddio ymatebion sampl bach o Ysgolion Braenaru i arolwg. Defnyddiwyd yr ysgolion hyn gan fod eu hymwneud blaenorol â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn golygu eu bod mewn sefyllfa well i amcangyfrif y gofynion tebygol o ran adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r Ysgolion Braenaru yn cynrychioli ein holl ysgolion yn ehangach, a hyd yn oed ymhlith yr

---

899 Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 59.

900 Mae nifer o gostau yn ymwneud a diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu sydd eisoes wedi'u hysgwyddo neu y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo cyn i'r Bil dderbyn Cysyniad Brenhinol. Gelwir y rhain yn "gostau suddedig" yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

901 Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.113-8.137.

902 Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 55.

> ysgolion hyn roedd yr anghenion posibl o ran adnoddau yn amrywio'n fawr. Er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd wrth ddadansoddi costau ysgolion, mae ystod o +/-50% wedi'i ganiatáu o amgylch yr amcangyfrif canolog."[903]

**1044.** Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ysgolion Braenaru[904] amcangyfrif effeithiau posibl y cwricwlwm newydd ar eu hysgol. Y diben oedd defnyddio'r data a ddarparwyd gan yr Ysgolion Braenaru i ddeall yr effaith bosibl ar bob ysgol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod:

> "Mae i'w dealltwriaeth gliriach o'r fframwaith newydd, a oedd wedi galluogi Ysgolion Braenaru i roi barn hyddysg ar gostau, anfantais am nad yw'n cyfrif am y gwaith paratoi y gall fod angen i rai ysgolion ei wneud ac, felly, mae'n bosibl y bydd eu costau gweithredu disgwyliedig yn is o gymharu ag Ysgolion nad ydynt yn Ysgolion Braenaru. Ar hyn o bryd mae continwwm eang o barodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd mewn ysgolion, o'r rhai sy'n dechrau ar y camau cyntaf i feithrin dealltwriaeth o oblygiadau fframwaith y cwricwlwm newydd a'i ddeddfwriaeth ategol i'w hysgolion, i'r rhai sydd eisoes wedi bod yn paratoi'n rhagweithiol neu am eu bod wedi ymwneud yn fwy agos â'r broses o ddatblygu fframwaith y cwricwlwm."[905]

**1045.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at nifer o "**gostau nad ydynt wedi'u cyfrif**", gan gynnwys o ran y:

- "costau ychwanegol disgwyliedig hefyd mewn perthynas â pharatoi staff i gyflwyno elfennau o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), ynghyd ag elfennau cwricwlaidd a thrawsgwricwlaidd gorfodol newydd eraill";[906]
- trefniadau asesu a chymwysterau newydd;
- sector Addysg Heblaw yn yr Ysgol;
- lleoliadau addysg feithrin nas cynhelir; a

[903] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 61.

[904] Ysgolion oedd Ysgolion Braenaru a aeth i'r afael â'r cynigion ar gyfer y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Cawsant gyllid ychwanegol yn gysylltiedig â'r swyddogaeth hon. Hyd at ddiwedd 2019, roedd 16 o ysgolion braenaru (o'r 1,480 o ysgolion y nodwyd gan StatsCymru eu bod yn gweithredu yng Nghymru yn 2019/20). Gadawodd un ysgol y rhaglen ddiwedd 2019, gan adael 15 o Ysgolion Braenaru yn weddill.

[905] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.23.

[906] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 55.

- chostau sy'n wynebu rhanddeiliaid allweddol fel CLILC, CCAC ac Estyn, y bu'n "rhaid dod â'r gwaith o ymgysylltu…[â nhw]…i ben am ychydig wrth iddynt flaenoriaethu mewn ymateb i bandemig Covid-19.[907]

**1046.**Mae'r prif bryderon a godwyd gyda ni o ran goblygiadau ariannol y Bil yn ymwneud â:

- y dull a fabwysiadwyd i amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, a'r hyn y mae hynny yn ei olygu i'w cywirdeb tebygol;
- y costau nad ydynt wedi'u cyfrif ac effaith COVID-19 ar gasglu'r wybodaeth ariannol angenrheidiol; ac
- y cyllid sydd ar gael ar gyfer dysgu proffesiynol yn benodol, o ystyried ei rôl ganolog i weithredu'r Bil yn llwyddiannus.

### Defnyddio data Ysgolion Braenaru i amcangyfrif costau

#### Tystiolaeth gan randdeiliaid

**1047.**Soniodd nifer o'r rhai a wnaeth sylwadau ar oblygiadau ariannol y Bil am eu pryderon ynghylch defnyddio data Ysgolion Braenaru i amcangyfrif costau.

**1048.**Cododd yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig bryderon ynghylch cadernid y dull hwn o gyfrifo costau amcangyfrifedig.[908] Crynhowyd hyn gan dystiolaeth ysgrifenedig yr Eglwys yng Nghymru a ddadleuodd, er ei bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r cyfyngiadau o ddefnyddio data Ysgolion Braenaru:

> "…the use of a very small number of Innovation schools who are already involved in the process to assess these costs (…) cannot possibly form a secure base from which to project system-wide costs. In some instances, responses were received from as few as four schools and even these, show significant variation in proposed costs."[909]

**1049.**Mynegodd pob un o'r undebau y clywsom ganddynt bryderon tebyg. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym nad yw'r amcangyfrifon cost yn gynrychioliadol o'r 1,500 o ysgolion ledled Cymru ac nad

[907] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 60.

[908] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 171 – Yr Eglwys yng Nghymru a CAW 225 - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

[909] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 171 – Yr Eglwys yng Nghymru.

ydynt yn ystyried y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â dyrannu cyllid ysgolion.[910] Roedd yn dadlau, felly, nad oeddent yn fesur priodol ar gyfer costau.[911] Roedd NASUWT yn cytuno, gan nodi bod y costau amcangyfrifedig yn seiliedig ar brofiad cyfyngedig ac anghynrychioliadol iawn a gafwyd o 15 Ysgol Fraenaru a bod y ddealltwriaeth o'r goblygiadau o ran adnoddau yn seiliedig ar sail annerbyniol o ansicr.[912] Disgrifiodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol y dull fel un anffodus[913] er bod UCAC yn credu nad yw'n "gwbl drwyadl ac yn rhoi adlewyrchiad cywir ar gyfer y system gyfan"[914].

**1050.** O ran y data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym:

> "They make reference to the fact that their dialogue with some schools have shown that they are treating it not as an additional burden, but mainstreaming it. Of course, that is the position that we would want to be in, but my experience with the future generations Act is you cannot assume that everyone is in that position, and if you base your resourcing requirements around that, then you're destined to have a whole category of organisations—organisations in my terms, but schools in this regard—who are ill equipped to deliver these new requirements. So, I think there's got to be some fundamental look at that."[915]

**1051.** Pan ofynnwyd i Estyn am y fethodoleg a fabwysiadwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i amcangyfrif costau, cydnabu y byddai'n well edrych ar ystod ehangach o ysgolion na'r Ysgolion Braenaru.[916] Nododd CLlLC hefyd fod angen edrych ar sampl pellach a'i ehangu.[917]

---

[910] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 28 – NAHT.

[911] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 24 Medi 2020.

[912] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 21 - NASUWT.

[913] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 316], 24 Medi 2020.

[914] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 320], 24 Medi 2020.

[915] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 8 Hydref 2020.

[916] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 123], 17 Medi 2020.

[917] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 160], 20 Gorffennaf 2020.

**1052.**Mewn cyferbyniad, dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod defnyddio Ysgolion Braenaru yn cynrychioli “mecanwaith rhesymol” ond amlygodd yr angen i adolygu cyllid.[918]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**1053.**Pan ofynnwyd i’r Gweinidog am y costau amcangyfrifedig sydd wedi’u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, cydnabu fod ystod sylweddol o ffigurau wedi’u cynnwys yn y dogfennau.[919] Esboniodd bod y prif faes o ansicrwydd yn ymwneud â gwerth amser staff, felly nid yw’r ffigurau hynny yn arian go iawn, yn yr ystyr mai dyna’r arian go iawn y mae’n rhaid iddynt ddod o hyd iddo i weithredu’r Bil.[920]

**1054.**O ran defnyddio data Ysgolion Braenaru, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> “…we felt it was appropriate to ask those schools—some of the schools—that had been most deeply involved in the development to date, and therefore had the deepest understanding of what would be required under the curriculum to provide those costs. It would have been very difficult for a school that perhaps hadn’t been so greatly involved to be able to give an estimation. Those schools are ones that had been deeply involved in the development of the curriculum, had been trialling new approaches, had been looking at professional development needs, and therefore we felt that they were best placed, although I acknowledge that there is a limited number.”[921]

**1055.**Esboniodd swyddog y Gweinidog ymhellach:

> “…we based the assessment that’s in the Bill from speaking with schools about what they anticipated their costs are likely to be, and that reflected a really wide range, which I guess is reflective of the curriculum, about schools making choices about (…) their approach to developing the curriculum and the extent to which they feel that

[918] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 111 - Cyngor y Gweithlu Addysg.

[919] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 14 Gorffennaf 2020.

[920] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 14 Gorffennaf 2020.

[921] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 198], 21 Hydref 2020.

> requires significant investment in professional learning and time away from the classroom that might require cover to be provided. (…)
>
> …we worked with innovation schools, because they had been funded last year to look at the curriculum as a whole, so at the point at which we were able to gather information on costs, they had the most, I suppose, rounded overview of what actually [taking] forward the curriculum would mean."[922]

**1056.** Pan ofynnwyd i swyddog y Gweinidog am yr ystod eang yn y costau amcangyfrifedig, esboniodd:

> "I think we've done the best we can by asking schools what they think it would cost, and then presented the fact that that was a broad range that they came back with. And I think us plucking a figure wouldn't be accurate and wouldn't have been particularly helpful."[923]

## Ein barn a'n hargymhellion: y defnydd o ddata Ysgolion Braenaru i amcangyfrif costau

**1057.** Rydym yn cydnabod yr heriau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu o ran dewis dull addas ar gyfer amcangyfrif costau darpariaethau'r Bil hwn i ysgolion. Nodwn y gofynnwyd i Ysgolion Braenaru ddarparu data ar y sail bod eu hymgysylltiad cynnar â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn rhoi gwell gwybodaeth iddynt amcangyfrif y gofynion tebygol o ran adnoddau. Nodwn ymhellach, yng ngoleuni'r ansicrwydd dan sylw, y rhagdybiwyd ystod o +/- 50 y cant o'r amcangyfrif canolog.

**1058.** Serch hynny, o gofio bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw Ysgolion Braenaru yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ysgolion ehangach, mai dim ond sampl fach a ddefnyddiwyd, a bod hyd yn oed yr ysgolion hyn wedi darparu ystod eang ar gyfer yr anghenion adnoddau posibl, rydym yn pryderu bod cadernid y ffigurau a ddarparwyd yn amheus.

**1059.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, er mwyn darparu amcangyfrif mwy cynhwysfawr ac o bosibl mwy cywir o gostau, fod wedi ceisio gwybodaeth gan ysgolion nad ydynt eto wedi ymgysylltu ar yr un lefel ag Ysgolion Braenaru yn natblygiad y cwricwlwm newydd. Credwn y byddai hyn wedi cynnig adlewyrchiad

---

[922] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 115-116], 14 Gorffennaf 2020.

[923] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 14 Gorffennaf 2020.

mwy gwir o gostau tebygol y Bil, yn enwedig yng ngoleuni'r sbectrwm eang o barodrwydd ysgolion (neu fel arall) ar gyfer ei weithrediad.

**Argymhelliad 63.** Y dylai Llywodraeth Cymru, cyn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2, a chyda golwg ar amcangyfrif costau mwy cynrychioliadol a chywir, wneud rhagor o waith ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai hwn fanteisio ar wybodaeth gan ysgolion na chawsant eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd i'r un graddau ag Ysgolion Braenaru.

### Costau heb eu mesur ac effaith COVID-19 ar gasglu gwybodaeth ariannol

**1060.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym fod ganddi rywfaint o bryder ei bod yn ymddangos bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu nad yw nifer o'r costau yn hysbys. Dywedodd wrthym nad oedd yn credu bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ar y cyfan, yn esbonio digon o bell ffordd o ran cost gweithredu hyn, gan ychwanegu ein bod yn ceisio cyflawni'r newidiadau sylfaenol hyn yn erbyn cefndir o lai o gyllid addysg [mewn termau real] o ganlyniad o galedi ariannol.[924]

**1061.** Yn yr un modd, nododd Archwilio Cymru bod angen mwy o wybodaeth i ddeall y costau llawn sy'n gysylltiedig â'r Bil.[925] Ymhelaethodd ei dystiolaeth ysgrifenedig ar y pwynt hwn, gan esbonio:

> "It is right that the Memorandum acknowledges the limitations and uncertainties of estimates, but not including any attempt at an estimate tends to distort the overall picture."[926]

**1062.** Rhestrodd y Comisiynydd Plant gostau yn ymwneud ag arfogi staff i gyflawni'r chwe maes dysgu a phrofiad, ac elfennau cwricwlaidd a thrawsgwricwlaidd gorfodol newydd eraill, yr oedd yn teimlo nad oeddent wedi'u cynnwys yn ddigonol. Roedd y rhain yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant. Dywedodd y byddai o blaid buddsoddiad cryfach mewn addysg i gymryd y costau hynny i ystyriaeth (gan gynnwys diwygiadau ADY) dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.[927]

---

[924] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 111-112], 8 Hydref 2020.

[925] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 205 - Archwilio Cymru.

[926] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 205 - Archwilio Cymru.

[927] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 8 Hydref 2020.

**1063.** Esboniodd Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yr hyn yr oedd ef yn ei ystyried yn anawsterau wrth amcangyfrif costau'r Bil hwn:

> "…these calculations, estimates, are incredibly difficult to undertake. It's partly because it's very difficult to distinguish between an activity that's directly related to the curriculum, or to a particular set of legislation around the curriculum, and more general ones. (…)
>
> It's also difficult to distinguish between what we are doing now, compared to what we would have done anyway, because, clearly, we always have done work on things related to curriculum and subjects and so forth."[928]

**1064.** Roedd cynrychiolydd Cymwysterau Cymru yn cytuno ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng costau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a'r hyn a fyddai wedi cael ei ysgwyddo fel arall fel elfen naturiol o rywfaint o ddiwygio. Tynnodd sylw, fodd bynnag, at y ffaith nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymdrin ag effaith ariannol datblygu cymwysterau newydd i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd ar gyrff dyfarnu.[929]

**1065.** O ran effaith COVID-19 ar amcangyfrifon costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nododd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu gwybodaeth am gostau gan nifer o bartneriaid strategol oherwydd Covid-19. Fe wnaeth hefyd dynnu sylw at bryderon nad yw'r costau y bydd yn mynd iddynt, yn ei farn ef, o ganlyniad i'r Bil yn cael eu cyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan nad oedd yr holl randdeiliaid wedi gweld yr holl ddarpariaethau yn y Bil.[930]

**1066.** Pan wnaethom ofyn i CLlLC ac CCAC ym mis Gorffennaf 2020 am y "saib" yn eu gwaith o amcangyfrif costau'r Bil, o ganlyniad i COVID-19, dywedasant y gofynnwyd iddynt gyflwyno gwybodaeth wedi'i diweddaru i Lywodraeth Cymru erbyn mis Medi 2020.[931] Nododd eu cynrychiolwyr, fodd bynnag, o ystyried yr

[928] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 116-117], 17 Medi 2020.

[929] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 17 Medi 2020.

[930] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 225 - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.

[931] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 158 a 163], 20 Gorffennaf 2020.

elfennau anhysbys o ran costau, ac effaith COVID-19, ei bod yn allweddol monitro costau wrth iddynt fwrw ymlaen.[932]

**1067.** Aeth Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon ymhellach, gan alw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i adolygiad ehangach o sut y byddai'r Bil yn effeithio ar ysgolion o ran cyllid. Dadleuodd cynrychiolydd y Gymdeithas fod angen cysylltu â grŵp llawer ehangach o ysgolion a darganfod yn union beth fydd y cwricwlwm newydd hwn yn ei olygu o ran pennu'r gost.[933]

**1068.** Dadleuodd cynrychiolydd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod angen rhywfaint o sicrwydd ariannol gan nad yw'r cyllid presennol mewn sefyllfa iach ac mae'n debyg mai felly y bydd hi am gryn dipyn o amser, yn enwedig yn sgil COVID-19; dywedodd fod llawer o ysgolion eisoes yn gweithredu cyllideb ddiffyg sy'n eithriadol o anodd ac na ellir cynnig system o'r radd flaenaf gyda chyllideb geiniog a dimai.[934] Esboniodd, fodd bynnag, ei bod yn teimlo bod hyn yn rhywbeth y gellir ei ddatrys ac nid, yn ei barn hi, yn broblem i'w hystyried fel un angheuol.[935]

**1069.** Gwnaed sylwadau hefyd gan y sector addysg bellach am gostau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn ôl Colegau Cymru, er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar gostau'r cwricwlwm 3-16 oed, roedd yn credu:

> "…there are inevitable consequential costs for the post-16 sector (…) These costs will need to be addressed and funding provided if a sharp and unhelpful rupture between pre and post-16 learning, that risks disengaging learners, is to be avoided."[936]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**1070.** O ran effaith COVID-19 ar allu rhanddeiliaid i ddarparu amcangyfrifon yn ymwneud â chostau'r Bil, cadarnhaodd y Gweinidog y gwahoddwyd nifer o randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol i lywio'r costau yn yr

[932] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 156], 20 Gorffennaf 2020.

[933] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 24 Medi 2020.

[934] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 24 Medi 2020.

[935] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 142], 24 Medi 2020.

[936] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 48 - Colegau Cymru.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol[937]. Ym mis Hydref 2020, cadarnhaodd y Gweinidog fod y rhan fwyaf o'r gwaith hwnnw a oedd wedi'i oedi bellach wedi'i gwblhau.[938] Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu atom gyda diweddariad, y gwnaethom ei dderbyn ar 5 Tachwedd. I grynhoi, roedd y diweddariad hwn yn datgan:

- bod Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi sylw i bwyntiau a godwyd ynghylch yr angen i gymryd i ystyriaeth gostau sy'n gysylltiedig â'r sector ôl-16 i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn llwyddo yn ei nodau, er bod y Bil yn ymwneud â'r cwricwlwm gorfodol;
- bod gwaith yn parhau i nodi costau posibl yn deillio o unrhyw newidiadau i gymwysterau, gan gynnwys costau i gyrff dyfarnu, ond y byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gynnal yn dilyn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd; ac
- o ran y costau ychwanegol disgwyliedig yn gysylltiedig ag arfogi staff i ddarparu elfennau o'r chwe maes dysgu a phrofiad, ac elfennau cwricwlaidd a thrawsgwricwlaidd gorfodol newydd eraill, cyfeiriodd y Gweinidog at gymorth ychwanegol sy'n cael ei roi i Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru (trafodir hyn yn yr adran nesaf).[939]

**1071.** O ran y costau nad ydynt wedi'u cyfrif yn ymwneud â'r lleoliadau addysg feithrin nas cynhelir ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> "The principles that underpin the foundation phase are already quite well established, obviously, and they are quite similar to the principles of curriculum reform. So, the approach to this is already something that we're progressing, and is very familiar to people already. The numbers of particularly EOTAS settings—there aren't as many as there are for schools, so we consider that the sorts of numbers and financial implications for innovation schools, which was set out in the RIA, will be sufficient to enable us to work with those settings, and a range of settings, in order to deliver curriculum reform."[940]

---

[937] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.
[938] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 2], 14 Gorffennaf 2020.
[939] Gohebiaeth, y Gweinidog Addysg i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Tachwedd 2020.
[940] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 199], 21 Hydref 2020.

## Ein barn a'n hargymhellion: costau heb eu cyfrifo ac effaith COVID-19 ar gasglu gwybodaeth ariannol

**1072.** Rydym yn cydnabod y tarfu sylweddol a achoswyd gan COVID-19 a'r angen i alluogi rhanddeiliaid perthnasol i oedi eu gwaith ar gostau'r Bil hwn er mwyn blaenoriaethu eu hymatebion i'r pandemig. Fodd bynnag, o ystyried nad yw'r amserlenni ar gyfer gweithredu'r Bil wedi newid ers dechrau'r pandemig, mae angen adlewyrchu'r wybodaeth hon yn y costau amcangyfrifedig ar gyfer y Bil fel mater o flaenoriaeth, i sicrhau bod dealltwriaeth ddigonol o'r costau dan sylw a'r cyllid y mae ei angen.

> **Argymhelliad 64.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddaru â'r wybodaeth ar gostau a ddarperir gan randdeiliaid allweddol a gafodd eu hatal rhag gwneud eu gwaith oherwydd pandemig COVID-19, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y Memorandwm Esboniadol a gaiff ei gyhoeddi ar ôl Cyfnod 2.

**1073.** Mae ein pryderon sylweddol am y sefyllfa o ran ariannu ysgolion yn fater sydd wedi'i gofnodi'n gyhoeddus yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2019[941], ac fe'u hailadroddir mewn rhannau arall o'r adroddiad hwn, yn enwedig pennod 12.

**1074.** Er mwyn i'r Bil gael ei weithredu yn llwyddiannus, mae angen i'r costau amcangyfrifedig fod mor gywir â phosibl, ac i gyllid fod ar gael lle mae ei angen. Mae hyn yn bwysicach fyth o ystyried cyd-destun y diwygiadau ehangach sydd ar y gweill yn y sector addysg ar hyn o bryd (e.e. Trawsnewid ADY), ac effaith COVID-19.

**1075.** Nid yw ein pryderon yn cael eu lleddfu gan lefel yr ansicrwydd ynghylch costau nad ydynt wedi'u cyfrif y Bil hwn. Er ein bod yn cydnabod bod heriau yn gysylltiedig ag amcangyfrif y costau hyn, rydym hefyd yn cydnabod y bydd ysgolion—heb sicrwydd pellach—yn bryderus, a hynny'n ddealladwy, y bydd yn rhaid iddyn nhw ysgwyddo unrhyw faich ariannol sy'n deillio o'r Bil hwn. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad eglur na fydd hyn yn digwydd, ac y bydd cyllid digonol yn cael ei ddyrannu ac ar gael i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol i weithredu'r Bil.

> **Argymhelliad 65.** Y dylai Llywodraeth Cymru nodi yn eglur y bydd yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus yn cael eu darparu, i leddfu'r pryderon y bydd cyfyngiadau presennol ar gyllid

[941] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllido Ysgolion yng Nghymru, Gorffennaf 2019.

ysgolion, newidiadau eraill i'w gweithredu fel trawsnewid ADY, ac effaith COVID-19 yn golygu na fydd ysgolion yn gallu ariannu'r diwygiad uchelgeisiol hwn.

**1076.** Rydym yn rhoi ein barn ar ddarpariaethau'r Bil fel y maent yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar ym mhennod 8 a safbwyntiau rhanddeiliaid sy'n teimlo nad yw costau o'r fath yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae ein hargymhelliad 34 yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud gwaith i amcangyfrif goblygiadau cost y Bil ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir, a'i bod yn ei ddarparu i'r Senedd i'w chynorthwyo wrth ystyried y Bil.

### Cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol

**1077.** Fel y nodwyd ym mhennod 12, roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr o'r farn bod dysgu proffesiynol ymhlith staff perthnasol yn hanfodol i weithredu'r Bil yn llwyddiannus. Ymhlith y rhai a wnaeth sylwadau ar oblygiadau ariannol y Bil, roedd sicrhau cyllid digonol ar gyfer dysgu proffesiynol yn fater allweddol. Crynhowyd hyn gan y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan chwe awdurdod lleol yn y gogledd a chonsortiwm GwE, a nododd:

> "Bydd cyllid priodol yn hanfodol i gefnogi ysgolion i wireddu'r cwricwlwm newydd ac yn arbennig i gefnogi ymrwymiad dysgu proffesiynol yr holl weithlu."[942]

**1078.** Pwysleisiodd Rhieni Dros Addysg Gymraeg bwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau i baratoi'r gweithlu ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd yn cael eu "cyllido'n deg ac yn llawn".[943] Tynnodd Cyngor Abertawe sylw at yr angen i dalu'r costau ariannol i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant angenrheidiol,[944] fel y gwnaeth Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot a ddywedodd:

> "The need to plan for and provide financial support for professional learning is of vital importance."[945]

**1079.** Er bod Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol, i ddarparu cyllid parhaus i gefnogi gweithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod y cyfnod

---

[942] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 189 - Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol.

[943] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 72 - Rhieni Dros Addysg Gymraeg.

[944] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 142 - Cyngor Abertawe.

[945] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 31– Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot.

gweithredu,[946] cododd nifer o randdeiliaid bryderon sylweddol. Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol, yn ôl ei gyfrifiadau, nad yw'r cyllid ar gyfer hyfforddiant sydd wedi ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddigon.[947]

**1080.** Dywedodd y Gymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG) wrthym nad oedd yn hyderus y byddai'r ddarpariaeth o ddiwrnodau HMS yn ddigonol.[948]

**1081.** Fel y nodwyd ym mhennod 6 a phennod 7, roedd pryderon sylweddol hefyd am y costau sy'n gysylltiedig â dysgu proffesiynol, yn enwedig o ran elfennau gorfodol penodol o'r cwricwlwm newydd. Mynegodd cynrychiolwyr Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) y farn nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r angen am ddysgu proffesiynol penodol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.[949] Mynegodd tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru bryder pellach y gellid defnyddio cyllid a neilltuwyd ar gyfer dysgu proffesiynol yn hyblyg ac nad yw wedi'i neilltuo ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd y Gymdeithas a'r Eglwys yng Nghymru yn poeni y gallai hyn effeithio ar raddau'r addysgu arbenigol sydd ar gael yn y maes hwn, ac amlygwyd hyn fel pryder penodol o ystyried nad yw'r Bil yn darparu hawl i dynnu disgyblion yn ôl o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.[950]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**1082.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y costau amcangyfrifedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi digon o sylw i'r dysgu proffesiynol y bydd ei angen i ddarparu'r ddeddfwriaeth hon yn effeithiol. Pwysleisiodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol dysgu proffesiynol ac roedd yn cydnabod:

[946] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 26 - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru.

[947] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 205], 24 Medi 2020.

[948] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 64 – CYDAG.

[949] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 155 a 157], 15 Hydref 2020.

[950] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, CAW 164 - y Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru a CAW 171 – Yr Eglwys yng Nghymru.

> "...no education system can exceed the quality of the people that stand in front of our children day in, day out."[951]

**1083.** Rhestrodd y Gweinidog y meysydd lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'r symiau uchaf erioed o arian mewn dysgu proffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyllid ar gyfer yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol;
- darpariaethau i gynyddu diwrnodau hyfforddiant mewn swydd;
- cyllid i gonsortia rhanbarthol i gefnogi dysgu proffesiynol a gwaith clwstwr ymhlith ysgolion; a
- chyllid i fodelau ysgolion fel sefydliadau dysgu.[952]

**1084.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi, yn ogystal â'r uchod, y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu £15 miliwn y flwyddyn ar gyfer dysgu proffesiynol i helpu i weithredu'r Bil tan 2025-26.[953]

## Ein barn a'n hargymhellion: cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol

**1085.** Rydym wedi amlinellu ein barn a'n hargymhellion mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn fel y maent yn berthnasol i'r dysgu proffesiynol y credwn sydd ei angen i:

- ddarparu elfennau penodol o'r Bil yn effeithiol; a
- gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn llwyddiannus yn ei gyfanrwydd.

**1086.** Ym mhenodau 6 ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a 7 ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:

- llunio fframwaith sy'n amlinellu'r dysgu proffesiynol craidd, yr adnoddau a'r cymorth arbenigol y mae'n debygol y bydd eu hangen i ddarparu

[951] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 21 Hydref 2020.

[952] Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 21 Hydref 2020.

[953] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.179.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg o dan y cwricwlwm newydd;

**1087.** Ym mhennod 12 ar weithredu, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni effaith COVID-19:

- yn darparu diweddariad ar ei asesiad o'r graddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol; ac
- yn ymrwymo i ddarparu cymorth sylweddol ychwanegol y credwn y bydd ei angen i wneud iawn am effaith y pandemig ar ddysgu a datblygu proffesiynol; ac
- yn rhoi diweddariad ar sut y mae gwaith gyda chydweithwyr a gweithio mewn clwstwr yn cefnogi dysgu a datblygu proffesiynol, a beth yw'r amserlen ar gyfer y gwaith hwnnw.

**1088.** Ym mhennod 5 ar y Gymraeg a'r Saesneg, rydym ni wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn:

- sicrhau y darperir y gwaith cynllunio, y cyllid a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi'r broses o gyflwyno'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg yn effeithiol o dan y cwricwlwm newydd.

**1089.** O ystyried y pwysigrwydd sylfaenol a roddir gan randdeiliaid i swyddogaeth dysgu proffesiynol yn narpariaeth y ddeddfwriaeth hon, a'r pryderon nad yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn llawn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, credwn fod angen sicrwydd pellach ynghylch costau amcangyfrifedig dysgu proffesiynol i gefnogi'r Bil hwn, a'r cyllid sydd ar gael ar ei gyfer.

**Argymhelliad 66.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r pryderon a godwyd yn ein gwaith craffu Cyfnod 1 ar raddfa'r dysgu proffesiynol sydd ei angen i weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus;
- darparu costau amcangyfrifedig diwygiedig yng ngoleuni'r diweddariad hwnnw; ac
- ymrwymo i ddarparu'r cyllid sydd ei angen i ddarparu'r lefel hon o ddysgu proffesiynol.

# Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

## Ymgynghoriad cyhoeddus

Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.

O'r 230 o ymatebion dilys a gafwyd i'n hymgynghoriad, cyflwynwyd 120 gan unigolion mewn rhinwedd bersonol, 21 gan unigolion mewn rhinwedd broffesiynol, a 89 gan sefydliadau.

Cafodd yr ymatebion a ganlyn eu cyflwyno naill ai gan sefydliad neu unigolyn mewn rhinwedd broffesiynol. Cafwyd yr holl ymatebion eraill gan unigolion mewn rhinwedd bersonol, felly tynnwyd eu henwau yn unol â'n polisi preifatrwydd.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CAW 1** | A Bolt, Prifathrawes |
| **CAW 2** | Kim Morgan, Athrawes |
| **CAW 3** | Coleg Cambria |
| **CAW 4** | Parents Voices in Wales CIC |
| **CAW 5** | Yr Athro Russell Sandberg, Athro'r Gyfraith, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd |
| **CAW 11** | Jane Harries, Prifathrawes, Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd |
| **CAW 15** | Annilys |
| **CAW 16** | Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru |
| **CAW 17** | Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru) |
| **CAW 19** | Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| **CAW 20** | Estyn |
| **CAW 21** | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau |
| **CAW 22** | Cymwysterau Cymru |
| **CAW 23** | Franksbridge Primary School |
| **CAW 24** | Mudiad Meithrin |
| **CAW 26** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| **CAW 27** | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| **CAW 28** | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon |
| **CAW 30** | Dyfodol i'r Iaith |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CAW 31** | Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot |
| **CAW 32** | Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru |
| **CAW 33** | Tystiolaeth a gyflwynwyd ar ran sawl sefydliad ac unigolyn |
| **CAW 34** | Susan Quirk, Arweinydd Cyfadran Technoleg mewn ysgol uwchradd |
| **CAW 43** | Cymdeithas y Beibl |
| **CAW 48** | ColegauCymru |
| **CAW 49** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **CAW 50** | Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol |
| **CAW 51** | Cymorth i Fenywod Cymru |
| **CAW 53** | Brook Cymru |
| **CAW 54** | Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion |
| **CAW 55** | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **CAW 56** | Endometriosis UK |
| **CAW 57** | Cyflwyno ar ran sawl sefydliad ac unigolyn |
| **CAW 58** | Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Awdurdod Lleol Abertawe |
| **CAW 60** | Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant Cymru |
| **CAW 61** | Deaf Friendly Business Solutions |
| **CAW 62** | Stonewall Cymru |
| **CAW 63** | Yr Athro EJ Renold, Athro Astudiaethau Plentyndod |
| **CAW 64** | Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG) |
| **CAW 65** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **CAW 66** | Annilys |
| **CAW 69** | Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd |
| **CAW 70** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **CAW 71** | Annilys |
| **CAW 72** | Rhieni Dros Addysg Gymraeg |
| **CAW 81** | Cymdeithas yr Iaith, Rhanbarth Caerfyrddin |
| **CAW 84** | Alan Tootill, Pennaeth |
| **CAW 85** | Grŵp Gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
| **CAW 86** | NDNA Cymru (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru) |
| **CAW 87** | Ambiwlans Sant Ioan Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CAW 88** | Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (2) |
| **CAW 90** | Annilys |
| **CAW 91** | Cyngor Gwynedd |
| **CAW 92** | Carmen Beveridge, Pennaeth |
| **CAW 93** | Kate Madden, Pennaeth Cynorthwyol |
| **CAW 97** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **CAW 98** | Chwarae Cymru |
| **CAW 99** | Annilys |
| **CAW 100** | Ysgol Gynradd Sant Joseph |
| **CAW 101** | John Fabes, Swyddog arweiniol Addysg Ôl-16 |
| **CAW 104** | Annilys |
| **CAW 106** | Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| **CAW 111** | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| **CAW 113** | Ysgol Gynradd Gatholig William Davies, Llandudno |
| **CAW 114** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Castell-nedd Port Talbot ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 117** | Plant yng Nghymru |
| **CAW 118** | SEWC LA Improvement group |
| **CAW 120** | Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan |
| **CAW 122** | Yr Athro Alison Mawhinney, Athro Cyfraith Hawliau Dynol, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor |
| **CAW 123** | Triniaeth Deg i Fenywod Cymru |
| **CAW 125** | Laura Taylor, Pennaeth |
| **CAW 130** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Torfaen ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 132** | James Torrance, Pennaeth Cynorthwyol |
| **CAW 133** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Casnewydd ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 136** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Fynwy ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 137** | Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol Cymru |
| **CAW 138** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Wrecsam ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 139** | Cyngor Dadebru'r DU (RCUK) |
| **CAW 142** | Cyngor Abertawe |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CAW 144** | Y Cynghorydd Joanne Collins, Cadeirydd, Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Blaenau Gwent ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 145** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith Cymru |
| **CAW 147** | Mencap Cymru |
| **CAW 151** | Y Samariaid Cymru |
| **CAW 154** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 157** | Max Richard Ashton, Myfyriwr PhD, Prifysgol Caerdydd |
| **CAW 158** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **CAW 159** | Lyndsey Stringer, Athrawes y Byddar a Chadeirydd Cymdeithas Athrawon Pobl Fyddar Prydain - Cymru |
| **CAW 160** | Y Groes Goch Brydeinig |
| **CAW 162** | Dr Louise Brown, Aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol |
| **CAW 163** | Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru |
| **CAW 165** | Dr Caroline Maybury, Llywodraethwr Sefydledig, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padarn |
| **CAW 171** | Yr Eglwys yng Nghymru |
| **CAW 172** | Ysgol Gynradd Gatholig Edward Morgan |
| **CAW 174** | Archesgobaeth Gatholig Caerdydd |
| **CAW 176** | Dyneiddwyr Cymru |
| **CAW 177** | Esgobaeth Menevia |
| **CAW 179** | Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor |
| **CAW 184** | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **CAW 185** | Plismona yng Nghymru |
| **CAW 187** | Mind Cymru |
| **CAW 189** | Ymateb Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys GwE a'r 6 Awdurdod Lleol |
| **CAW 191** | Annilys |
| **CAW 200** | Adele Thomas, Athrawes Astudiaethau Crefyddol |
| **CAW 202** | Robert Jenkins, Pennaeth |
| **CAW 205** | Archwilio Cymru |
| **CAW 207** | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padarn |
| **CAW 210** | Sylfaen Cymru Cyf. |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CAW 211** | Ysgol Gatholig Sant Padarn Esgobaeth Menevia |
| **CAW 214** | Yr Athro Anthony Towey, Cyfarwyddwr, Canolfan Llythrennedd Diwinyddol Aquinas |
| **CAW 215** | Chwaraeon Cymru |
| **CAW 216** | Mudiad Addysg Grefyddol Cymru |
| **CAW 224** | Cymdeithas yr Iaith |
| **CAW 225** | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| **CAW 228** | Mudiad Addysg Grefyddol Cymru |
| **CAW 231** | Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan |
| **CAW 232** | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn |
| **CAW 237** | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar |
| **CAW 238** | Annilys |

## Gwybodaeth ychwanegol

Cyflwynwyd y wybodaeth hon i'r Pwyllgor i ymdrin â materion a gododd yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar. Mae'r wybodaeth ar gael ar dudalen we'r Bil.

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Y Gweinidog Addysg | 12 Awst 2020 |
| Cymwysterau Cymru | 7 Hydref 2020 |
| Estyn | 30 Medi 2020 |
| Mudiad Meithrin | 9 Tachwedd 2020 |
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru | 3 Tachwedd 2020 |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (Cymru) | 4 Tachwedd 2020 |
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau | 2 Tachwedd 2020 |
| Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru | 3 Tachwedd 2020 |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru | 23 Hydref 2020 |
| Comisiynydd Plant Cymru | 28 Hydref 2020 |

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Brook, NSPCC, Yr Athro EJ Renold, Stonewall Cymru a Cymorth i Fenywod Cymru | 23 Hydref 2020 |
| Comisiynydd y Gymraeg | 21 Hydref 2020 |
| Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig | 4 Tachwedd 2020 |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 4 Tachwedd 2020 |
| Y Gweinidog Addysg | 5 Tachwedd 2020 |

## Gohebiaeth arall ynglŷn â'r Bil gan y Gweinidog Addysg atom ni

Anfonwyd y wybodaeth hon at y Pwyllgor gan y Gweinidog. Mae'r wybodaeth ar gael ar dudalen we'r Bil.

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr gan y Gweinidog ynghylch diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol | 1 Medi 2020 |
| Llythyr gan y Gweinidog ynghylch darpariaethau'r Bil fel y maent yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 12 Awst 2020 |
| Llythyr gan y Gweinidog ynghylch goblygiadau ariannol y Bil | 4 Awst 2020 |
| Llythyr gan y Gweinidog at Suzy Davies AS ynghylch rôl y Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 20 Gorffennaf 2020 |

# Atodiad B: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **14 Gorffennaf 2020** | **Kirsty Williams AS**<br>Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru<br>**Claire Bennett**<br>Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru<br>**Ceri Planchant**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |
| **20 Gorffennaf 2020** | **Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn**<br>Dirprwy Lefarydd ar gyfer Addysg a'r Gymraeg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Sharon Davies**<br>Pennaeth Addysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Karen Evans**<br>Cadeirydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>**Debbie Harteveld**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru<br>**Anna Bolt**<br>Pennaeth Diwygio'r Cwricwlwm ac Arloesedd, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)<br>**Clara Seery**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De<br>**Natalie Gould**<br>Uwch arweinydd Diwygio'r Cwricwlwm, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De<br>**Arwyn Thomas**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Effeithiolrwydd (GwE) a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru |
| **17 Medi 2020** | **Philip Blaker**<br>Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru<br>**Emyr George**<br>Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio, Cymwysterau Cymru<br>**Meilyr Rowlands**<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn<br>**Claire Morgan**<br>Cyfarwyddwr Strategol, Estyn<br>**Dave Goodger**<br>Prif Swyddog Gweithredol, Blynyddoedd Cynnar Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Claire Protheroe**<br>Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>**Sarah Coates**<br>Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Strategol (Cymru), y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru<br>**Eleri Griffiths**<br>Rheolwr Polisi, Mudiad Meithrin |
| **24 Medi 2020** | **Eithne Hughes**<br>Cyfarwyddwr, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)<br>**Laura Doel,**<br>Cyfarwyddwr, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (Cymru)<br>**Rebecca Williams**<br>Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Polisi, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)<br>**Neil Butler**<br>Swyddog Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau<br>**Mary van den Heuvel**<br>Uwch Swyddog Polisi Cymru, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **8 Hydref 2020** | **Sally Holland**<br>Comisiynydd Plant Cymru<br>**Jane Houston**<br>Cynghorydd Polisi Addysg, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru<br>**Sophie Howe**<br>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Heledd Morgan**<br>Ysgogwr Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Aled Roberts**<br>Comisiynydd y Gymraeg<br>**Kelly Harris**<br>Arweinydd Datblygu Busnes a Chyfranogiad, Brook<br>**Yr Athro Emma Renold**<br>Athro Astudiaethau Plentyndod, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd<br>**Iestyn Wyn**<br>Rheolwr Ymgyrchoedd, Polisi ac Ymchwil, Stonewall Cymru<br>**Dr Sarah Witcombe-Hayes,**<br>Uwch Ymchwilydd Polisi (Cymru), Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Gwendolyn Sterk,**<br>Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu, Cymorth i Fenywod Cymru |
| **15 Hydref 2020** | **Angela Keller**<br>Cynghorydd Cymru, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig<br>**Elizabeth Thomas**<br>Cyfarwyddwr Addysg y Dalaith, yr Eglwys yng Nghymru<br>**Paula Webber**<br>Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru<br>**Libby Jones**<br>Cadeirydd, y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)<br>**Dr Ruth Wareham**<br>Rheolwr Ymgyrchoedd Addysg, Dyneiddwyr y DU<br>**Kathy Riddick**<br>Cydlynydd Dyneiddwyr Cymru, Dyneiddwyr y DU<br>**Alastair Lichten**<br>Pennaeth Addysg ac Ysgolion, y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol |
| **21 Hydref 2020** | **Kirsty Williams AS**<br>Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru<br>**Georgina Haarhoff**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Cwricwlwm ac Asesu, Llywodraeth Cymru<br>**Kate Johnson**<br>Uwch-gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |

www.senedd.cymru